

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 12 Mehefin 2014

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Fay Buckle

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8041

Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)**
- 2 Papurau i'w nodi (09:00)** (Tudalennau 1 – 4)
- 3 Cyflog Uwch Reolwyr: Sesiwn dystiolaeth 8 (09:00–10:00)** (Tudalennau 5 – 14)
Briff ymchwil

Y Sector Addysg Uwch

Yr Athro Colin Riordan – Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Jayne Dowden – Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro, Prifysgol Caerdydd

- 4 Rheoli Grantiau yng Nghymru (10:00–12:00)** (Tudalennau 15 – 299)

PAC(4)–16–14(papur 1)

PAC(4)–16–14(papur 1A)

PAC(4)–16–14(papur 2)

PAC(4)-16-14(papur 3)

PAC(4)-16-14(papur 4)

PAC(4)-16-14(papur 5)

Briff ymchwil

Syr Derek Jones – Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Damien O'Brien – Prif Weithredwr WEFO

David Richards – Cyfarwyddwr Llywodraethu

Peter Ryland – Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (12:00)

Eitemau 6, 7 & 8

6 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth (12:00–12:20)

7 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod y dystiolaeth ysgrifenedig (12:20–12:40) (Tudalennau 300 – 370)

PAC(4)-16-14(papur 6)

PAC(4)-16-14(papur 7)

PAC(4)-16-14(papur 8)

PAC(4)-16-14(papur 9)

PAC(4)-16-14(papur 10)

PAC(4)-16-14(papur 11)

8 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn (12:40–13:00) (Tudalennau 371 – 375)

PAC(4)-16-14(papur 12)

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 20 Mai 2014**

Amser: **09.03 – 10.52**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_20_05_2014&t=0&l=en

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Darren Millar AC (Cadeirydd)
William Graham AC
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Julie Morgan AC
Jenny Rathbone AC
Aled Roberts AC
Gwyn R Price AC (yn lle Sandy Mewies AC)

Tystion:

Elaine Ballard, Taff Housing Association
Norma Barry, Tai Calon
Nick Bennett, Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru,
Swyddfa Archwilio Cymru

Staff y Pwyllgor:

Meriel Singleton (Ail Clerc)
Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)
Gareth David Thomas (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Gwyn Price yn dirprwyo ar ei rhan.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

3 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd yr Aelodau lythyr gan yr Athro White a nodwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu adolygu'r argymhellion yn ei adroddiad yn 2011 ac yn adroddiad y Pwyllgor yn 2012. Cytunodd y Pwyllgor i ail-ystyried yr eitem hon mewn cyfarfod yn yr hydref.

4 Bodloni'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru

4.1 Trafododd yr Aelodau yr ohebiaeth a chytuno i gynnal ymchwiliad byr i'r mater yn ystod tymor yr haf.

5 Cyflogau Uwch-reolwyr: Sesiwn dystiolaeth 7

5.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am gyflogau uwch-reolwyr gan Nick Bennett - Prif Weithredwr Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru, Elaine Ballard - Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Taf, a Norma Barry - Cadeirydd Tai Calon.

5.2 Cytunodd Nick Bennett i anfon dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng y siarter llywodraethu da presennol a'r cod drafft a fydd yn cymryd lle'r siarter.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2014**

Amser: **09.00 – 10.32**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Preifat

Aelodau'r Cynulliad:

Darren Millar AC (Cadeirydd)
William Graham AC
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Julie Morgan AC
Jenny Rathbone AC
Aled Roberts AC
Sandy Mewies AC

Tystion:

Don Peebles, CIPFA

Staff y Pwyllgor:

Fay Buckle (Clerc)
Meriel Singleton (Ail Clerc)
Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

- 1.2 Croesawodd y Cadeirydd Don Peebles, Pennaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yr Alban, a Martin Jennings, o'r Gwasanaeth Ymchwil, i'r cyfarfod ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno'r hyfforddiant i'r Aelodau.

2 Rhaglen Datblygu Proffesiynol: Craffu ariannol

- 2.1 Cyflwynodd Don Peebles, Pennaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yr Alban, a Martin Jennings o'r Gwasanaeth Ymchwil yr hyfforddiant i'r Aelodau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Sir Derek Jones KCB
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

3rd March 2014

Dear Darren,

2013 Welsh Government Annual Report on Grants Management

Many thanks for your letter of 19th February 2014. I am grateful for the Committee's continued interest in improving grants management across the public sector in Wales. With your help, the Welsh Government has focussed on the detail of our grants improvement programme and been able to further develop our relationship with stakeholders and delivery partners.

The information requested in your letter is given below:

1. Information on the revised Code of Practice for Funding the Third Sector in Wales, how it differs from the previous Code and how compliance with the Code is to be monitored - See Annex A.
2. Details of the performance indicators being used by the Welsh Government to monitor the quality of its grants management processes - See Annex B.
3. Data on the volume and value of the local authority grants which have been qualified and how this compares with previous years - See Annex C.

I look forward to giving evidence to the Committee after Easter.

*Yours,
Derek*



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • Website: www.wales.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Welsh Government
Welsh Language
Welsh Language Unit

Welsh Language
Welsh Language Unit
Welsh Language Unit
Welsh Language Unit
Welsh Language Unit

Welsh Language

[Handwritten signature]

Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit

[Handwritten signature]

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit
Welsh Government Welsh Language Unit

Annex A

Revised Code of Practice for Funding the Third Sector

Legislative framework

Section 74 of the Government of Wales Act 2006 (GOWA) requires Welsh Ministers to make a Scheme (“the voluntary sector scheme”). Sections 4a and 4b require that the Scheme must specify:

“4(a) how the Welsh Ministers propose to provide assistance to relevant voluntary organisations (whether by grants, loans, guarantees or any other means),

4(b) how the Welsh Ministers propose to monitor the use made of any assistance provided by them to relevant voluntary organisations...”

The Code of Practice for Funding the Third Sector (the Code) is the mechanism by which Welsh Ministers enact Section 74, 4(a) and 4(b) of the GOWA as required above.

The Code was previously revised in 2009 and, historically, published as a separate document in its own right. Changes over the last few years meant that the content of the Code had become inaccurate in places or lost relevance so that the document as a whole needed to be updated and improved.

Following consultation and dialogue with the Third Sector which is detailed below, a revised Code was published on 31 January 2014. The Code is now an integral part of the Third Sector Scheme, and formally annexed as such.

Process

The revised Code of Practice for Funding the Third Sector was developed in partnership with the Third Sector through the Third Sector Partnership Council's (TSPC) Funding and Compliance Sub-Committee over a period of six months. The revised document represents a substantial amount of partnership work with the Committee made up of Third Sector representatives and Welsh Government officials, including the Grants Centre of Excellence. It also takes into consideration responses to the Welsh Government's *Continuity and Change* consultation, which asked specific questions on broad proposals for inclusion in the Code.

This detailed work has also been contributed to by a range of Welsh Government departments, including the Grants Centre of Excellence, Value Wales and the Welsh European Funding Office (WEFO), as well as the Wales Audit Office.

Key changes

The Code has been revised and updated, with substantial new material. The principal changes are listed below:

- The new approach to the Code sets out the Welsh Government's intentions as well as expectations of the Third Sector; it is significantly more reciprocal than previously.
- The format of the Code has been overhauled. The previous Q&A format was not particularly useful and offered too much detail in some areas and not enough on more important areas.
- The Code is now written in two parts; part one sets out seventeen detailed principles and part two focuses on Funding and Commissioning in greater detail.
- The 17 principles are set out and explained in substantially greater detail than previously so that this key part of the Code is very largely new, although many of the principles themselves have been retained. They are listed below, with asterisks to denote those that were not included in the old Code at all:
 - I. Delivery of Strategic Policy Objectives
 - II. Respect for the Sector's Independence
 - III. Early and Constructive Dialogue
 - IV. Timely Decisions
 - V. Security of Funding
 - VI. Fair Funding Levels
 - VII. Value for Money*
 - VIII. Full Cost Recovery
 - IX. Commissioning Principles*
 - X. Payments
 - XI. Fair and Reasonable Treatment
 - XII. Joint Approach to Monitoring, Evaluation and Audit
 - XIII. Identifying Expertise and Developing Capability to Deliver*
 - XIV. Diversity*
 - XV. Innovation*
 - XVI. Good governance and due diligence*
 - XVII. Monitoring of the Code*
- Principle IV is of particular importance to the Sector as it relates to the notice period for changes to funding arrangements. The Welsh Government's commitment in this regard has been clarified and strengthened.
- Principle XVII establishes the basis on which compliance with the Code itself will be monitored, with reference to the roles of the Grants Sector of Excellence, the Third Sector Unit, the TSPC and its Funding and Compliance Sub-Committee.
- A new section on the Grants Centre of Excellence and grants management as well as Value Wales and procurement is included.
- There is clearer guidance on grants (definitions of core funding and project funding, hypothecated and un-hypothecated grants) and contracts and

procurement, as well as when these different funding mechanisms might be used.

- A new outcomes-based commissioning model is included to be used when Welsh Government departments are designing and developing services. This will be an enabler for co-design and co-delivery of public services in the future.
- Inclusion of the WEFO is a new addition.
- *Appendix 3: Compliance with the Code of Practice* has been clarified and strengthened. In this section, the Welsh Government advocates that other bodies funding the Third Sector should adopt the principles in the Code as best practice.
- A significant and new addition to this section is that when the Welsh Government provides hypothecated funding (for example to local authorities) or through a framework agreement (WGSBs), then compliance with the Code will be required through Terms and Conditions of funding.
- There is a stronger commitment (set out in Principle XVII) to address non-compliance with the Code and a requirement for explanation of the circumstances if non-compliance occurs. Previously, non compliance with the Code was reported via a designated Sub-Committee who then investigated and took action if appropriate. Anecdotal evidence suggested that this formal route was rarely taken by Third Sector organisations. The new Code enables more proactive monitoring of the Code, especially with regards to *Timely Decisions*, for example through spot checks.
- There are links to other useful documents such as minimum standards for managing grants, detailed guidance on Full Cost Recovery and new guidance on joint bidding.

Monitoring

The TSPC Funding and Compliance Sub-Committee is the key mechanism for monitoring the implementation of the Code.

In practice, the Welsh Government's Third Sector Unit and Grants Centre of Excellence will work closely to raise awareness of and monitor the Code through a number of ways:

- Delivery of joint training for Welsh Government grant managers to embed understanding of the principles of the Code and increase knowledge of the Third Sector more generally;
- Compliance included within minimum standards for grant management;
- Grants Centre of Excellence 'spot checks' to ensure that all funding is provided appropriately and compliantly, (for example monitoring Terms and Conditions);

- Annual exercise to determine whether Third Sector grant recipients have been provided with sufficient notice of funding arrangements;
- Annual Report on the wider Third Sector Scheme laid before the National Assembly for Wales (which from 2014 includes the Code of Practice for Funding the Third Sector);
- Reports of non-compliance to the TSPC Funding and Compliance Sub-Committee.

Annex B

Monitoring Performance and Quality Assurance

Minimum Standards for Grant Funding and Spot Checks

The Minimum Standards for Grant Funding (the Standards) were developed by the Grants Centre of Excellence in early 2011; they were initially used as an assessment tool during the peer review exercise undertaken in 2011-2012. Since then, the Standards have been developed and are now used by Internal Audit to assess grant funding programmes and are an accountability tool available to external stakeholders via the internet which can be viewed at:

<http://wales.gov.uk/funding/grants/contact-us/?lang=en>

They are also used as a performance monitoring tool to check business compliance with the Standards.

A rolling programme of spot check reviews was introduced in December 2012 to assess relevant processes and procedures of 10 grant funding programmes per month. This figure incrementally increased to 20 per month during the period to January 2014. The purpose of the checks is to consider grants processes and procedures and ascertain their compliance with the Standards. Grants Officials are asked to provide evidence of compliance with the Standards for a specific stage in the grant funding cycle and, in appropriate cases, whether they comply with the Third Sector Code of Practice also. Some examples are given below.

Grant Funding Stage	Example of evidence
▪ Intervention rationale	Ministerial submission/approval
▪ Planning Funding	Copy of the application form and supporting guidance
▪ Appraisal	Appraisal criteria and prioritisation method
▪ Approval	Formal recommendation based on the outcome of an appraisal
▪ Legal Documentation	Copy of the latest award letter to ascertain whether it is in the correct form, up to date, correctly drafted and recorded on the payment system Payment in advance template to ascertain whether a need for payment in advance has been demonstrated appropriately Third sector grants; when the organisation was informed of the funding

- **Monitoring and Payment** Evidence of monitoring of funding activities
Sample claim form
- **e-Grants Payment System** Was a new grant funding programme placed on
the system in a timely manner?
- **Third sector grants** Were external bodies notified within the required
time scale of the award of funding, change in
funding level or withdrawal of funding?

Quality Assuring Access to the Grants Payment System

To promote the correct and accurate use of the grants payment system, e-Grants, the Grants Centre of Excellence reviews documentation submitted for new funding programmes and for revisions to existing ones. If the request is for a new programme, or one that the Grants Centre of Excellence is not familiar with, a meeting is held with the relevant Branch and the processes and procedures assessed against the Standards. This process also ensures that officials involved in managing the grant funding programme concerned have completed all requisite training before system access is given.


Annex C

Qualified Local Authority Grants

Whilst the programme to improve Local Authorities' grants management is on-going, the Welsh Government has continued to track the incidence of qualified or adjusted grant claims. The Welsh Government will also aim to satisfied that appropriate corrective action is being taken. This includes consideration of suspension or recovery of grants where the Welsh Government does not consider that the responses of individual Local Authorities are adequate.

The WAO report of November 2011 provided a breakdown of qualification by Authority. The graph of the findings provided in the WAO report is given in Fig 1.


Figure 1. Wales Audit Office Graph of Adjustments and/or Qualifications by percentage of Schemes per Local Authority in Financial Year 2009/10



Source: Wales Audit Office Report - Grants management In Wales November 2011


The WAO analysis of schemes qualified or adjusted by Local Authority for 2011/12 and 2012/13 are provided in Figures 2 and 3, respectively.

Figure 2. Wales Audit Office Graph of Adjustments and/or Qualifications by percentage of Schemes per Local Authority in Financial Year 2011/12



Source – Wales Audit Office

Figure 3. Wales Audit Office Graph of Adjustments and/or Qualifications by percentage of Schemes per Local Authority in Financial Year 2012/13



Source – Wales Audit Office

Figures 1, 2 and 3 are based on the percentage of schemes that have been qualified. A scheme is qualified if there is one or more claims qualified for that Local Authority for that scheme. Since 2009/10 the WAO have reviewed their auditing practices and no longer audit some schemes. In addition the Welsh Government has reduced the number of hypothecated grant schemes provided to Local Authorities. Therefore there has been a reduction in schemes audited by WAO from 35 in 2009/10 to 30 in 2012/13. These changes, and the fact that not all Local Authorities are awarded grant under every Welsh Government scheme, have had an impact on the percentage of qualified schemes reported. This in part accounts for the increase in percentages observed for 2012/13.

Analysis of audit certificates for the two periods 2011/12 and 2012/13 indicates that the percentage of qualifications has increased and the individual Local Authorities' positions varied significantly. For example, whilst in 2009/10, over 45% of the schemes for which funding was claimed by Merthyr Tydfil County Borough Council were subject to qualification or adjustment, by 2011/12 this figure had fallen to approximately 20% but increased to over 50% in 2012/13. However, Ceredigion County Council and Neath Port Talbot County Borough Council, for example, have increased over the two periods although this still means that Ceredigion County Council has a relatively low incidence of qualification. Meanwhile Pembrokeshire County Council has moved from a low level to a high level and fallen again over the same periods.

The rank position of each Local Authority does not remain constant year on year. The Local Authorities with the lowest levels of qualification are inconsistent which means that the lead for any consortium funding cannot be identified with any confidence.

For 2012/13, there were a total of 158 qualification letters issued against audit certificates which identified reductions in claims by some £13.7 million. This represents 1 claim in 4 being qualified in 2012/13 which remains consistent with the figures indicated in 2009/10. Whilst the performance of some Local Authorities has improved, this is not evident in the overall figures because others have worsened.

The training planned by the Welsh Local Government Association in conjunction with the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) during March 2014 is aimed at improving grant management standards in Local Authorities. This training, in conjunction with the training provided within the Welsh Government for grant officials, will have the effect of lowering the rates of qualification observed. However, this will take time to impact on audit certification and, consequently, it is unlikely that the impact of this training will be observed on qualification rates until the 2015/16 financial year.

In the intervening period, the Welsh Government is conducting a review of the audit certification system to ensure that it is effective and efficient and that all parties are achieving the best outcomes from the process.

... were a total of 158 qualifications taken during 2017
... which were not taken during the same period in 2016
... the number of qualifications taken during the same period in 2016
... the number of qualifications taken during the same period in 2016

The training plan for the West Coast Area (WCA) is a
... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:

... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:
... the plan includes the following elements:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 ar Reoli Grantiau

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair gan Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol	ii
Adran 1: Cyflwyniad a Chefndir	1
Adran 2: Ariannu gan Lywodraeth Cymru	3
i. Y Sefyllfa Gyffredinol	3
ii. Y Sector Cyhoeddus	5
iii. Y Sector Preifat	9
iv. Y Trydydd Sector	11
v. Cronfeydd Strwythurol	14
Adran 3: Rheoli Grantiau'n Well	15
i. Cymorth i Swyddogion Grant	15
ii. Cydymffurfiaeth	19
iii. Hyfforddiant	20
iv. Cyfathrebu	21
v. Cydweithio	23
vi. System TG	23
Adran 4: Y Camau Nesaf ar gyfer Rheoli Grantiau	25
Adran 5: Themâu Allweddol yn Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r PCC	26
ATODIAD 1 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Argymhellion a Chynnydd – Tachwedd 2011	29
ATODIAD 2 PCC – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim – Argymhellion a Chynnydd – Awst 2012	32
ATODIAD 3 PCC – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Terfynol – Argymhellion a Chynnydd – Mehefin 2013	38

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio grantiau fel ffordd allweddol o gyflawni ei hamcanion polisi ac mae cyfran sylweddol o gyfanswm ein cyllideb yn cefnogi cyllid grant. Mae cael trefniadau i reoli grantiau'n dda felly'n bwysig iawn i Lywodraeth Cymru.

Yn y gorffennol, bu rhai achosion uchel eu proffil lle na chafodd ein grantiau eu rheoli'n iawn a chraffwyd llawer arnom a oedd yn ddigon teg. Rydym wedi cyflwyno camau i sicrhau na chaiff camgymeriadau'r gorffennol eu hailadrodd ac mae'r adroddiad rheoli grantiau blynyddol cyntaf hwn yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd. Mae'r adroddiad yn ddatganiad cyhoeddus o'n hymrwymiad i fwrw ymlaen i wella trefniadau cyllid grant yng Nghymru.

Mae'r sialensiau sy'n ymwneud â gweinyddu cyllid grant yn sylweddol ac yn gymhleth. Ar hyn o bryd rydym yn gweinyddu tua 435 o raglenni cyllido ar wahân, sy'n amrywio o ychydig gannoedd i filiynau o bunnoedd. Mae rhaglenni ariannu, gweithgareddau a chyrrff sy'n derbyn yn wahanol ac mae pob grant yn unigryw. O ganlyniad, mae angen i ni gael mesurau ar waith sy'n gymesur i'r risgiau dan sylw ar yr un pryd â chadw dull gweithredu cyson.

Er bod atebolrwydd Llywodraeth Cymru dros wario arian cyhoeddus yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, rhaid i ni hefyd ystyried anghenion y rheini sy'n gwneud ceisiadau am gyllid. Rhaid i ymgeiswyr am grantiau gael sicrwydd bod y wybodaeth y bydd gofyn iddynt ei darparu yn berthnasol ac yn angenrheidiol i'r broses benderfynu ac y bydd eu ceisiadau'n cael eu harfarnu mewn ffordd deg a chyson. Credaf y bydd y camau yr ydym wedi'u cymryd yn helpu i roi'r sicrwydd hwnnw.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ei ddiddordeb parhaus mewn gwella'r rheolaeth ar grantiau. Gyda'i gymorth ef rydym wedi gallu canolbwyntio ar fanylion ein rhaglen gwella grantiau a datblygu ein cysylltiadau â rhanddeiliaid a phartneriaid. Rwyf yn fodlon ar y cynnydd a gafwyd at fynd i'r afael â materion a nodwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond yn gwybod bod angen rhagor o waith i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion hyn ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn rhoi manylion y grantiau sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac mae'n nodi'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni dros y 18 mis diwethaf i helpu i wella safonau gweinyddu. Mae'r gwaith gwella sydd wedi cael ei wneud yn rhoi sylfaen gref i ni ar gyfer adeiladu arni ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion y camau rydym yn eu cymryd nesaf. Ein dull gweithredu yw ymateb yn gadarnhaol i anghenion polisi sy'n newid a chefnogi Gweinidogion i gyflawni eu rhaglen Lywodraethu. Wrth edrych ymlaen, bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys ystyried canlyniad gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn yr holl waith hwn, rwyf yn benderfynol y dylai ein mecanweithiau grant fod mor gyson ac mor gadarn â phosibl a'u bod yn cael eu rheoli cystal ag y bo modd.



Syr Derek Jones
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

ADRAN 1: CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Cyflwyniad

1.0 Mae'r Adroddiad Rheoli Grantiau Blynyddol yn rhoi golwg gyffredinol o'r cyllid grant sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni ers cyflwyno rhaglen i wella safonau sut rydym yn rheoli grantiau.

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad uniongyrchol i argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) i lunio adroddiad cynhwysfawr ar weithgareddau grantiau Llywodraeth Cymru¹. Mae Adran 5 yn trafod y themâu allweddol a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn y sesiynau gyda'r PCC, a'r rheini yn ei adroddiadau interim a therfynol ar reoli grantiau. Mae'r atodiadau'n cynnwys y cynnydd yng nghyswllt argymhellion penodol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r PCC.

1.2 Ym Medi 2010, sefydlwyd y Prosiect Rheoli Grantiau i gyflwyno gwelliannau yn y dull o reoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Roedd y penderfyniad i sefydlu'r prosiect yn ganlyniad i'r gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru nad oedd grantiau'n cael eu rheoli mewn ffordd gymesur a chyson ar draws y sefydliad. Cafodd y prosiect ei sefydlu hefyd i adolygu a mynd i'r afael â materion a amlygwyd mewn rhai achosion uchel eu proffil lle'r oedd grantiau wedi cael eu rhoi i sefydliadau lle'r oedd sylw Llywodraeth Cymru wedi cael ei dynnu at gwestiynau am eu rheolaethau neu eu hyfywedd.

1.3 Nod y prosiect oedd darparu system gadarn ar gyfer rheoli a monitro grantiau a oedd yn addas i'r diben, ond hefyd i gefnogi swyddogion a oedd yn ymwneud â darparu grantiau drwy ddarparu canllawiau, hyfforddiant a rhannu'r arferion gorau. Y cam cyntaf oedd creu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, tîm ar gyfer y sefydliad a sefydlwyd i safoni gweithdrefnau a darparu canllawiau, arbenigedd a gwybodaeth i gefnogi'r prosesau grantiau.

1.4 Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio gyda swyddogion o uwch reolwyr i ymarferwyr grantiau drwy ddarparu sesiynau hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar-lein. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac wrth i welliannau gael eu rhoi ar waith, bydd swyddogaeth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn esblygu o law sy'n tywys i un sy'n monitro ac yn sicrhau cydymffurfiaeth.

1.5 Yn ystod y pedair blynedd y mae'r prosiect wedi bod ar waith, cafwyd gwelliannau amlwg yn y systemau a'r prosesau:

- sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau i ddarparu cyngor, cymorth arbenigol a chanllawiau ar gyfer pob math o ariannu nad yw'n digwydd drwy'r broses caffael;
- safonau gofynnol ar gyfer rheoli cyllid grant;
- hyfforddiant gwell i swyddogion grant;

¹ Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim – Awst 2012

Adroddiad Blynyddol 2013 Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau

- hapwiriadau o grantiau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol;
- rhannu gwybodaeth gorfforaethol yn well drwy'r system TG bresennol; a,
- safoni'r Llythyr Dyfarnu.

1.6 Mae asesiad Llywodraeth Cymru o'r risg sy'n gysylltiedig â gweinyddu grantiau wedi'u neilltuo wedi disgyn o 'risg uchel' i 'risg ganolig', ar ôl cyflwyno'r gwelliannau. Er y bydd rhywfaint o risg bob amser yng nghyswllt darparu cyllid grant, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gostwng y risg ymhellach, drwy gyflawni'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Cefndir

1.7 Mae grantiau'n gyfrwng pwysig i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi'u gosod yn y Rhaglen Lywodraethu. Maent yn galluogi'r sefydliadau a ariennir i ddarparu gwasanaethau penodol i bobl Cymru. Bydd grantiau'n ysgogi ac yn cynnal lefelau uchel o weithgarwch economaidd a chymdeithasol. Maent hefyd yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol o arian trethdalwyr, gydag oddeutu £13.2bn yn cael ei fuddsoddi fel hyn bob blwyddyn.

1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad lefel uchel canlynol o 'grant' i ddarparu ar gyfer hyd a lled y gwahanol fathau o daliadau sy'n cael eu gwneud: pob taliad nad yw'n mynd drwy broses gaffael a roddir i sefydliadau neu unigolion allanol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'i rhwymedigaethau statudol.

1.9 Gellir rhannu grantiau'n grantiau wedi'u neilltuo a grantiau heb eu neilltuo. Rhoddir grantiau wedi'u neilltuo at ddiben penodol a chânt eu dyfarnu i sefydliadau er mwyn cyflawni amcanion polisi penodol. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru yn bennaf er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol; i Awdurdodau Lleol ac i'r GIG gan mwyaf. Mae'r sefydliad sy'n derbyn grant sydd heb ei neilltuo yn gallu ei ddefnyddio ym mha ffordd bynnag y mae'n dymuno er mwyn sicrhau amcanion a gwasanaethau lleol, ar yr amod ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

ADRAN 2: ARIANNU GAN LYWODRAETH CYMRU

2.0 Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol o gyllid grantiau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys persbectif cyffredinol ar grantiau, dadansoddiad o'r grantiau i'r sectorau a gwybodaeth am y Cronfeydd Strwythurol a ddarperir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

i. Y Sefyllfa Gyffredinol

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu tua 435 o gynlluniau gwahanol ar hyn o bryd ac mae'r rhain wedi darparu cyllid o tua £39.9bn yn ystod y 3 blynedd hyd Mawrth 2013 (gweler Ffigur 1). Oherwydd natur ddynamig y ddarpariaeth grantiau, mae nifer y cynlluniau sydd ar waith ar adeg benodol yn gallu amrywio'n sylweddol. Mae'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd yn darparu tua 20,000 o gynigion grant unigol bob blwyddyn.

2.2 Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn deillio o gyfuniad o ddata o system e-Grants (y system taliadau grantiau), systemau adrannol a systemau ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau ariannol yn rhoi cyfanswm lefel y cyllid grant sy'n cael ei ddarparu gan adrannau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd. Nid oes gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng gwariant referniw a chyfalaf.

Ffigur 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/11	2011/12	2012/13
Lefel y grant a ddarparwyd (£bn)	13.6	13.1	13.2
Nifer y cynigion grant y flwyddyn	29,774	24,443	20,172
Amcangyfrif o nifer y cynlluniau'r flwyddyn	517	456	435

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol a'r system e-Grants


2.3 Mae Ffigur 1, a'r adroddiad drwyddo draw, yn cynnwys y cyllid a drosglwyddir i drydydd partïon gan Lywodraeth Cymru, sy'n tarddu o gyllid grant gan WEFO. Fodd bynnag, nid yw cyllid uniongyrchol gan WEFO i dderbynwyr grant allanol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r Cronfeydd Strwythurol hyn yn werth dros £1.8bn dros gyfnod ariannu saith mlynedd yr Undeb Ewropeaidd (UE) rhwng 2007 a 2013 ac yn cael eu gweinyddu drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

2.4 Yn yr hinsawdd economaidd anodd a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r duedd a ddangosir yn Ffigur 1 yn dangos bod Gweinidogion wedi ymrwymo o hyd i ddefnyddio grantiau'n gyfrwng pwysig i gyflawni'r blaenoriaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn ei Rhaglen Lywodraethu. Er hynny, mae Ffigur 1 yn dangos bod gostyngiad sylweddol yn nifer y cynlluniau (15.9%) ac yn nifer y

cynigion grant (32.2%) yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn ganlyniad i ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ostwng nifer y grantiau a gynigir. Cafwyd y gostyngiad hwn drwy fwy o gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol fel bod cynlluniau grant yn rhoi 4 neu 5 o lythyrau dyfarnu yn hytrach na 22 a thrwy gynnig cyllid grant am gyfnod o fwy nag un flwyddyn. Mae'r duedd hon yn bwysig yng nghyd-destun amcan Llywodraeth Cymru i leihau costau gweinyddu grantiau.

2.5 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i dri phrif sector, sef cyhoeddus (llywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Adrannau'r Llywodraeth a chyrrff a noddir), preifat a'r Trydydd Sector (mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, mudiadau cymunedol etc.).

Ffigur 2: Cyfanswm Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13 yn ôl Sector



Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol

2.6 Mae'r rhan fwyaf o gyllid grant y sector cyhoeddus yn cael ei darparu drwy grantiau heb eu neilltuo i lywodraeth leol a'r GIG. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn cael eu darparu i'r cyrrff hyn yn ogystal, a hefyd i Adrannau Llywodraeth y DU, er mwyn cyflawni amcanion penodol ar gyfer y DU. Ar ben hynny, mae cyllid yn cael ei ddarparu i gyrff sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sef cyrrff anadrannol yn y sector cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gofynion polisi, gwasanaethau a gofynion statudol.

2.7 Mae'r cyllid ar gyfer y sector preifat yn cynnwys cyllid ar gyfer busnesau ac ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Mae rhagor o gyllid grant ar gyfer addysg wedi cael ei gynnwys yn y categori cyrrff a noddir, sector cyhoeddus, lle mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn darparu cyfran sylweddol o gyllid i sefydliadau addysg uwch. Mae cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei gynnwys o dan Awdurdodau Lleol. Mae rhagor o fanylion am gyllido addysg ar gael ym mharagraffau 2.33 i 2.36.

2.8 Ein diffiniad o'r Trydydd Sector yw cyrff annibynnol, anllywodraethol sydd wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion, sydd wedi'u hysgogi gan yr awydd i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol ac sydd wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gwarged i gyrraedd eu hamcanion. Mae'r sector yn cynnwys sefydliadau dielw, sefydliadau gwirfoddol, elusennau a chymdeithasau tai. Mae cyllid i'r Trydydd Sector fel rheol yn grant wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae rhagor o fanylion ar gael ym mharagraffau 2.37 i 2.51.

ii. Y Sector Cyhoeddus

2.9 Yn gyffredinol, mae cyllid grant y sector cyhoeddus yn cynnwys Awdurdodau Lleol, y GIG, Adrannau Llywodraeth y DU, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Pharciau Cenedlaethol. Roedd grantiau a ddarperir i'r sector hwn tua 90% o gyfanswm gwariant grantiau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf ohono ar ffurf grantiau heb eu neilltuo a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol a'r GIG i ddarparu gwasanaethau; roedd hyn yn cyfrif am £8.4bn yn 2012/13. Roedd gweddill y cyllid o £3.7bn yn 2012/13 wedi'i ddarparu dan gynlluniau grant wedi'u neilltuo i gyflawni prosiectau a gweithgareddau penodol a oedd yn ymwneud â gweithredu polisiau'r Gweinidogion. Roedd cyfran o'r cyllid yn y grantiau wedi'u neilltuo a ddarparwyd i Awdurdodau Lleol a'r GIG wedi'i throsglwyddo i sefydliadau trydydd parti (gan gynnwys y Trydydd Sector).

Ffigur 3: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/2011	2011/2012	2012/2013
Lefel y grant a ddarparwyd (£bn)	12.1	11.7	11.6
Lefel y grant i Awdurdodau Lleol (£bn)	4.9	4.6	4.8
Lefel y grant i'r GIG (£bn)	6.0	5.9	5.9
% o gyfanswm y cyllid grant yng Nghymru	89%	89%	88%

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru

2.10 Er bod lefel y cyllid i'r sector cyhoeddus wedi disgyn ychydig dros y cyfnod o dair blynedd, mae'r ganran o gyfanswm y cyllid grant wedi aros yn weddol gyson.

Awdurdodau Lleol

2.11 Mae cyfran fawr o'r cyllid grant yng Nghymru yn cael ei rhoi i Awdurdodau Lleol ar ffurf grant heb ei neilltuo drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw, grant cyfalaf cyffredinol ac ardrethi annomestig cenedlaethol a ail-ddosbarthwyd. Dosbarthwyd tua £4.8bn fel hyn yn 2012/13.

2.12 Yn 2012/13, roedd gan Awdurdodau Lleol fynediad at dros £735m a ddarparwyd drwy fwy na 50 o grantiau wedi'u neilltuo. Mae enghreifftiau'n cynnwys grant Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, y Gronfa Ysgolion Gwell a'r Strategaeth

Anabledd Dysgu, grantiau i hyrwyddo gweithio ar y cyd mewn ysgolion a rhai i gynorthwyo disgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

2.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau nifer y cynlluniau grant wedi'i neilltuo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Lle bynnag y bo modd, trosglwyddir y cyllid ar gyfer gweithgareddau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw fel y gall Awdurdodau Lleol bennu blaenoriaethau lleol a defnyddio'r cyllid yn briodol. Mae hyn hefyd yn dileu'r costau gweinyddu sydd ar yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt grantiau penodol. Er hynny, bydd angen defnyddio grantiau penodol o hyd er mwyn gweithredu a chyflawni blaenoriaethau Gweinidogol penodol gan Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn rhoi'r gallu i fesur canlyniadau ar sail y polisïau penodol.

Ffigur 4: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol yn ôl y Blynyddoedd Ariannol

	2010/11	2011/12	2012/13
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	4,899	4,627	4,752
Lefel y grant heb ei neilltuo (£m)	4,051	4,008	4,017
Lefel y grant wedi'i neilltuo (£m)	848	619	735
% y grant wedi'i neilltuo	17%	13%	15%

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol ac elfen Awdurdod Unedol y setliad Grant Cynnal Refeniw.

2.14 Roedd canran y grantiau wedi'u neilltuo wedi codi ychydig yn 2012/13 wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd cynnydd mewn prosiectau penodol ar gyfer gweithgareddau addysgol, lle rhoddwyd blaenoriaeth i gyllid i godi safonau addysgol mewn ysgolion. Mae grantiau wedi'u neilltuo'n cynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Dyma brif ffyrdd Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ar gyfer mesurau i gyflawni ei thri pholisi cenedlaethol ar gyfer ysgolion: gwella safonau mewn llythrennedd; gwella safonau mewn rhifedd; a lleihau effaith tlodi ar gyrrhaeddiad addysgol.

2.15 Mynegwyd pryderon gan y PCC yn ei sesiwn dystiolaeth ar 8 Mai 2012 am yr ardystiadau a'r amodau a osodwyd gan archwilwyr yng nghyswllt cynlluniau grant penodol sy'n darparu cyllid i Awdurdodau Lleol. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2011 cafwyd dadansoddiad o'r amodau a osodwyd ar gyfer pob Awdurdod Lleol. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod y gwaith o ardystio archwiliadau gan y swyddfa yn effeithiol. Darperir copïau o dystysgrifau archwilio i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod manylion yr amodau wedi'u hystyried yn briodol a bod camau priodol wedi'u cymryd yn ôl yr angen.

2.16 Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ardystio archwiliadau o fewn Llywodraeth Cymru mewn sesiwn hybu ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym Mawrth 2013. Roedd rheolwyr grantiau sy'n darparu grantiau wedi'u neilltuo i Awdurdodau Lleol a'r GIG wedi cael eu gwahodd i'r sesiwn. Rhoddwyd

sylw yn y sesiwn i bwysigrwydd ardystio archwiliadau, pam y gellir cynnwys amodau ar y dystysgrif a pha gamau y dylid ystyried eu cymryd.

2.17 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydweithio hefyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddarparu cymorth i Awdurdodau Lleol er mwyn rheoli grantiau'n well. Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu CLILC i barhau i hyrwyddo a dosbarthu arferion da ar ei gwefan rheoli grantiau penodol. Ochr yn ochr â hyn, mae CLILC yn cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar ei digwyddiadau arferion da yn ogystal â phartneriaid eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i gymharu dulliau cyllid grant â mathau eraill o ddulliau ariannu er mwyn ystyried eu priodoldeb.

2.18 Tra bydd y rhaglen i wella ffyrdd o reoli grantiau gan Awdurdodau Lleol yn mynd yn ei blaen, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i dracio achosion lle y mae hawliadau grant wedi'u haddasu neu eu hamodi. Gan gydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod camau cywiro priodol yn cael eu cymryd. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth i atal neu adennill grantiau os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r ymateb gan Awdurdodau Lleol penodol yn ddigonol.

Y GIG

2.19 Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer y GIG yng Nghymru, ac am ei reoli, ac mae'n gyfrifol am arfer stiwardiaeth gyffredinol dros gyllid y GIG. Mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol drwy saith Bwrdd Iechyd Lleol a thair Ymddiriedolaeth GIG. Prif gyfrifoldebau'r adran yw hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd a lles pawb yng Nghymru, gan sicrhau safonau uchel o ran diogelwch ac ansawdd, a thalu sylw'n benodol i'r angen i leihau anghydraddoldebau iechyd.

2.20 Mae cyllid i'r GIG yng Nghymru yn talu'r costau rhedeg ar gyfer staff, gwasanaethau ac adeiladau, ynghyd â'r cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau penodol. Mae'r cyllid yn darparu hefyd ar gyfer taliadau i gontractwyr annibynnol fel meddygon, deintyddion, fferyllwyr ac optometryddion.

2.21 Rhoddir cyllid refeniw ar ffurf gwariant heb ei neilltuo gan mwyaf a chytunir arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Caiff ei dynnu i lawr bob mis yn ôl yr angen gan sefydliadau'r GIG. Cytunir ar y rhan fwyaf o'r cyllid cyfalaf o dan y Rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan, sydd heb ei neilltuo, ond rhoddir elfen hefyd ar ffurf cyllid dewisol, cyllid wedi'i neilltuo.

Ffigur 5: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i'r GIG yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/11	2011/12	2012/13
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	5,961	5,914	5,907
Lefel y grant heb ei neilltuo (£m)	5,411	5,535	5,575
Lefel y grant wedi'i neilltuo (£m)	550	379	332
% y grant wedi'i neilltuo	9.2%	6.4%	5.6%

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol a Setliad y GIG.

2.22 Er bod y cyllid grant i'r GIG wedi aros yn lefel dros y cyfnod o dair blynedd, mae nifer y grantiau wedi'u neilltuo i'r GIG wedi gostwng. Cafwyd llai o gostau gweinyddu o ganlyniad i hyn.

Adrannau Llywodraeth y DU

2.23 Mewn achosion lle y mae blaenoriaethau Gweinidogol Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth y DU bydd Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau wedi'u neilltuo i adrannau Llywodraeth y DU. Defnyddir y cyllid hwn wedyn i sicrhau mwy o werth am arian wrth gyflawni polisiau allweddol.

2.24 Er enghraifft, fel rhan o'r Rhaglen Addysg Ryngwladol mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar ddarparu Partneriaethau DU Tsieina mewn Rhaglen Addysg (UKCPIE) ac un arall ar gyfer darparu Menter Ymchwil Addysg DU India (UKIERI). Er bod lefel y grant a ddarperir i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn cael ei thrafod ar gyfer y rhaglen UKCPIE, caiff y rhaglen UKIERI ei thalu ar sail fformiwla Barnett yn uniongyrchol i'r British Council yn India. Mae Ffigur 6 yn dangos bod maint y cyllid a ddarparwyd wedi gostwng dros y cyfnod o dair blynedd oherwydd y pwysau cynyddol ar gyllidebau.

Ffigur 6: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i Adrannau Llywodraeth y DU yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/2011	2011/2012	2012/2013
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	466	452	289

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol

Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

2.25 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gyrff amrywiol gyda'i gilydd o'r enw Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan bob un ei gyfansoddiad a'i strwythur llywodraethu a rheoli ei hun, gan gynnwys Prif Swyddog Cyfrifyddu, ac yn derbyn cyllid i gyflawni'r amcanion ar gyfer blwyddyn benodol a fydd wedi'u nodi yn y

llythyr cylch gwaith blynyddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi iddo. Ymhlith y cyrff hyn y mae Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae Ffigur 7 yn rhoi manylion y cyllid a ddarparwyd fesul blwyddyn. Mae oddeutu £2,076m wedi cael ei roi i'r cyrff hyn dros y cyfnod 2010/11 i 2012/13. Mae'r cynnydd yng ngwerth y grantiau wedi'u neilltuo yn ystod y cyfnod yn un o ganlyniadau ffocws Llywodraeth Cymru ar gyflawniadau penodol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Lywodraethu lle'r oedd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau. Bydd gostyngiad mewn cyllid yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau.

Ffigur 7: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/2011	2011/2012	2012/2013
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	752	675	651
Grant craidd 'cymorth grant' (£m)	656	563	530
Grantiau wedi'u neilltuo (£m)	96	112	121

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail codau enwol

iii. Y Sector Preifat

2.26 Mae'r cyllid i'r sector preifat yn cynnwys cyllid i fusnesau a chyllid sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch.

Cyllid i Fusnesau

2.27 Mae cyllid grant ar gyfer busnesau'n cwmpasu gweithgareddau o bob math gan gynnwys cyllid i fusnesau, hyfforddiant, twristiaeth, cychwyn busnesau ac ymchwil, datblygu ac arloesi. Defnyddir cyllid o'r math hwn i ddatblygu economi Cymru drwy alluogi busnesau i gynnal prosiectau sy'n creu neu'n diogelu swyddi. Gellir defnyddio grantiau hefyd i ddenu busnesau i Gymru. Mae disgrifiad o rai o'r cynlluniau sydd ar gael yn y paragraffau sy'n dilyn.

2.28 Ar hyn o bryd, mae cyllid i fusnesau'n cael ei ddarparu drwy dimau sector Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Cronfa Twf Economaidd Cymru. Mae'r gyfran gyntaf o Gronfa Twf Economaidd, a gyhoeddwyd yn 2012, wedi darparu £31.5m o grantiau. Mae ail gyfran y cynllun hwn ar waith ar hyn o bryd.

2.29 Drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth buddsoddwyd oddeutu £10.4m mewn prosiectau uwchraddio a chapasiti twristiaeth newydd, dros y tair blynedd hyd at 2012/2013.

2.30 Talwyd cyfanswm o fwy na £20m o Grantiau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (wedi'u hariannu'n rhannol gyda chyllid Ewropeaidd, gweler paragraff 2.3) dros y tair

blynedd diwethaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar fusnesau sy'n ystyried arloesi ar lefel ryngwladol.

2.31 Mae'r Cynllun Gweithredu Diswyddiadau (ReAct) (wedi'i ariannu'n rhannol gyda chyllid Ewropeaidd, gweler paragraff 2.3) yn helpu pobl sydd wedi'u diswyddo i ddysgu sgiliau newydd ac yn cymell cyflogwyr sy'n recriwtio i gyflogi gweithwyr a ddiswyddwyd. Darparwyd cyllid o £18.9m i gyflogwyr drwy'r cynllun hwn yn ystod y tair blynedd hyd 2012/2013.

Ffigur 8: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i Fusnesau yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/11	2011/12	2012/13
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	434	431	582

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru a'r system talu e-Grants

2.32 Roedd cynnydd sylweddol yn y cyllid i fusnesau yn 2012/13; y prif reswm am hyn oedd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i hybu datblygu economaidd a swyddi yng Nghymru.

Sefydliadau Addysgol

2.33 Mae cyllid i gynnal y sector addysg yn gymhleth. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid i'r sector addysg, ac i ysgolion yn benodol, yn cael ei dosbarthu drwy'r Grant Cynnal Refeniw sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Mae cyllid wedi'i neilltuo i ysgolion hefyd yn cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol. Yn y cyfamser, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid grant i'r sector addysg uwch yn cael ei dalu i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae'r cyllid a ddarperir i ysgolion a CCAUC wedi'i gynnwys yng nghategori'r sector cyhoeddus sydd wedi'i ddisgrifio eisoes.

2.34 Er bod symiau sylweddol o gyllid grant yn cael eu darparu i addysg drwy'r sector cyhoeddus, fel y manylir uchod, mae'r holl gyllid ychwanegol wedi'i neilltuo i Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach yn cael ei dddosbarthu fel cyllid i'r sector preifat. Mae'r cyllid craidd i Sefydliadau Addysg Bellach wedi'i bennu ar gyfer tair blynedd gan ddefnyddio fformiwla sydd wedi'i seilio ar nifer o newidynnau.

2.35 Mae'r cymorth ariannol statudol sy'n seiliedig ar alw ar gyfer dysgwyr mewn Addysg Bellach ac Uwch yn cael ei ddarparu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (CBF). Caiff y CBF ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy dalu hawliad misol sydd wedi'i seilio'n rhannol ar wariant gwirioneddol ac yn rhannol ar ragolygon, er mwyn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i'r CBF i ddyrannu benthyciadau a grantiau ar sail ffi sydd wedi'u hariannu gan lywodraeth yn uniongyrchol i fyfyrwyr, coleg neu brifysgol ar gyfer myfyrwyr Cymru.

2.36 Darperir grantiau wedi'u neilltuo ychwanegol hefyd i sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i gyflawni prosiectau neu weithgareddau penodol. Un o'r grantiau hyn yw Sêr Cymru, sef cynllun £50m i hyrwyddo a datblygu gallu ymchwil yng

Nghymru, denu gwyddonwyr o'r radd flaenaf a'u timau, a helpu i sefydlu tri Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol.

Ffigur 9: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru a ddarparwyd yn uniongyrchol i Addysg Bellach ac Uwch yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/2011	2011/2012	2012/2013
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	914	865	874

Ffynhonnell: System talu e-Grants Llywodraeth Cymru

iv. Y Trydydd Sector

2.37 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhan bwysig iawn i'w chwarae gan y Trydydd Sector (mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, mudiadau cymunedol etc.) drwy ei helpu i gyflawni'r amcanion yn ei Rhaglen Lywodraethu. Wrth ddyfarnu grantiau i'r sector hwn, rhaid cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (Ionawr 2009). Mae'r ddogfen honno, a'r ffordd caiff y sector ei ariannu, yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r Cod Ymarfer a strategaeth newydd wedi'i chyfeirio at gyfateb prif flaenoriaethau strategol y Llywodraeth yn cael eu rhyddhau ddechrau 2014.

2.38 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pedwar math o gyllid grant i'r Trydydd Sector:

- cyllid craidd strategol i sefydliadau cenedlaethol;
- cyllid rhaglenni penodol ar lefel genedlaethol;
- cymorth i bartneriaethau neu gyrff cyfryngol cenedlaethol (Cymru gyfan) er mwyn iddynt gynnal prosiectau penodol ar lefel leol; a,
- cyllid cychwyn i sefydliadau neu rwydweithiau cenedlaethol neu drwy gyrff cyfryngol ar gyfer sefydliadau lleol.

2.39 Roedd yr asesiad cychwynnol o gyllid grant i'r Trydydd Sector yn dynodi bod £127m wedi cael ei ddarparu yn 2012/13 (Ffigur 2). Roedd y ffigurau hyn yn seiliedig ar y codau cyllid (codau nominal) sy'n gysylltiedig â grantiau a roddir i'r Trydydd Sector drwy'r system talu. Fodd bynnag, yn dilyn dadansoddiad pellach gan Uned y Trydydd Sector a'r tîm cyllid, mae'r ffordd o ddynodi sefydliadau'r Trydydd Sector yn y system gyllid wedi'i hadolygu a'i diwygio. Mae sefydliadau fel ysgolion elusennol a rhai cwmnïau dielw wedi'u symud o gategori'r sector preifat i gategori'r Trydydd Sector. Cafwyd cytundeb gan WCVA ar gategoriâu'r sefydliadau. Gellir olrhain cyllid yn fwy cywir drwy'r system ddiwygiedig hon ac felly cafwyd dadansoddiad manylach o'r cyllid grant i'r Trydydd Sector o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae adroddiadau sydd ar gael yn ddiweddar yn dangos bod lefel gwirioneddol y cyllid grant i'r Trydydd Sector ar ôl newid categorïau ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf fel y mae wedi'i dangos yn Ffigur 10.

Ffigur 10: Cyllid Grant Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector yn ôl Blynyddoedd Ariannol

	2010/11	2011/12	2012/13
Lefel y grant a ddarparwyd (£m)	350	303	265

Ffynhonnell: System Gyllid Llywodraeth Cymru ar sail enw'r sefydliad

2.40 Mae'r gostyngiad a nodwyd mewn cyllid yn adlewyrchu ystod eang o faterion ac amgylchiadau ar draws nifer o adrannau Llywodraeth Cymru oherwydd y sefyllfa economaidd gyffredinol yn hytrach nag unrhyw bolisi neu broses ar y cyd. Yn anochel, mae'r gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y DU i Gymru wedi effeithio ar gyllid Llywodraeth Cymru yn gyffredinol i'r sector cyhoeddus a phreifat a'r Trydydd Sector. Mae newidiadau'n cynnwys cyllid prosiect yn dod i ben yn naturiol; gostyngiadau y cytunwyd arnynt mewn cyllid parhaus (er enghraifft, cafodd cyllid craidd ar gyfer cyrff seilwaith Trydydd Sector ei gwtogi 8%); ac arbedion a gyflawnwyd drwy brosesau caffael. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i fonitro'r sefyllfa hon dros y flwyddyn nesaf ac adrodd ar y cymariaethau cyffredinol yn ein hadroddiad blynyddol nesaf ar reoli grantiau.

2.41 Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru o dan ei Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (2009) i sicrhau bod sefydliadau yn y Trydydd Sector sy'n derbyn grantiau'n cael eu hysbysu am benderfyniadau i ddarparu cyllid grant, neu beidio, erbyn 31 Rhagfyr cyn dechrau pob blwyddyn ariannol oni bai eu bod wedi'u hysbysu eisoes, mewn amgylchiadau eithriadol, am amserlen wahanol.

2.42 Mae'r gallu i adnabod achosion lle'r oedd y Cod wedi'i dorri yn dibynnu ar dderbyn hysbysiadau am fethiant i gydymffurfio â'r Cod drwy Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, neu'n uniongyrchol oddi wrth sefydliadau yn y Trydydd Sector. Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi'i hysbysu am unrhyw achosion lle y nodwyd bod y Cod wedi'i dorri ym mlwyddyn ariannol 2011/2012. Cydnabyddir nad oedd yr arferion gorau a nodwyd yn y Cod yn cael eu dilyn bob amser, a bod felly angen canllawiau cliriach a gwelliannau yn y gweithdrefnau mewn cysylltiad, er enghraifft, â hysbysu am gyllid, ynghyd â dull mwy rhagweithiol o gyrraedd y safonau a'r ymrwymadau sydd yn y Cod.

2.43 Er mai'r Cod Ymarfer presennol sy'n berthnasol i'r blynyddoedd sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, bydd y Cod Ymarfer newydd – sy'n destun ymgynghori pellach â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar hyn o bryd – yn delio'n fwy cadarn â'r mater hwn. Mae'r drafft o'r Cod diwygiedig yn cynnwys ymrwymiad i fod yn fwy clir yn y ffordd o fonitro'r Cod ei hun. Yn unol â'r ymrwymiad arfaethedig hwn, mae gwaith yn mynd ymlaen yn awr i gasglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â'r Cod newydd.

2.44 Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio'n unol â'r safon newydd hon a gaiff ei chynnwys yn y Cod Ymarfer newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o ddulliau monitro i asesu cydymffurfiaeth â'r Cod yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd mwy o welliannau wedi i'r Cod Ymarfer newydd gael ei roi ar waith.

2.45 Drwy drafodaethau ag Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, cytunwyd i wneud monitro rhagweithiol ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn egwyddor sylfaenol ychwanegol yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru. Ceir ymrwymiad i ddelio â diffyg cydymffurfio ac, mewn achosion lle y ceir diffyg cydymffurfio, fe eglurir yr amgylchiadau i'r Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth a chymerir camau os yw'n briodol. Cyflawnir y swyddogaeth hon gan Dîm Trydydd Sector Llywodraeth Cymru ac mae'n golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â'r holl adrannau sy'n darparu cyllid grant i ganfod, drwy astudio gwybodaeth mewn adroddiadau manwl, a yw pob un ohonynt wedi cydymffurfio â'r Cod.

2.46 Bydd y gydymffurfiaeth â'r Cod yn cael ei monitro hefyd drwy hap-samplu nifer o dderbynwyr grant; bydd Tîm y Trydydd Sector yn samplu 10% o'r 900 o sefydliadau, yn fras, sy'n derbyn cyllid bob blwyddyn yn y Trydydd Sector. Gwneir hyn ar wahân i'r hapwiriadau a gynhelir gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei hystyried hefyd wrth lunio adroddiadau blynyddol grantiau yn y dyfodol.

2.47 Drwy ddefnyddio'r dull rhagweithiol hwn, gellir adnabod achosion lle y mae'r Cod wedi'i dorri heb ddibynnu i'r un graddau ar adroddiadau am bryderon neu gwynion ffurfiol gan dderbynwyr grant. Caiff ystyriaeth bellach ei rhoi hefyd i fecanweithiau eraill ar gyfer profi cydymffurfiaeth â'r Cod, megis gwneud darpariaeth i dderbynwyr grant godi pryderon yn ddiennw.

2.48 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i gryfhau compactau lleol rhwng y Trydydd Sector ac Awdurdodau Lleol, ac un agwedd bwysig ar hynny yw darparu gwell canllawiau a ffurflenni monitro. Bydd cyfle yn y canllawiau hynny i dynnu sylw at y ffaith bod y Cod diwygiedig yn enghraifft o arfer da y dylai Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus ystyried ei mabwysiadu at eu dibenion eu hunain.

2.49 Os dangoswyd bod rheswm ariannol clir dros wneud hynny, gellir talu grantiau ymlaen llaw i sefydliadau'r Trydydd Sector. Mae templed talu ymlaen llaw wedi'i ddatblygu gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar y cyd ag Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Pwyllgor Partneriaeth y Trydydd Sector. Caiff y templed ei lenwi gan sefydliadau Trydydd Sector a'i asesu gan reolwyr grantiau gan ddilyn cyngor gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliadau hynny sydd heb gronni arian wrth gefn i gael eu talu ymlaen llaw yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

2.50 Mae'r Templed Talu Ymlaen Llaw wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â nifer o grantiau ac mae'n cael ei ddefnyddio ar draws Llywodraeth Cymru. Ni chafwyd unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio'r templed yng nghyswllt y cymorth refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer cyllid craidd. O ran cymorth cyfalaf, y dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu yw ystyried ceisiadau am daliad ymlaen llaw fesul prosiect a dim ond helpu pan fydd modd profi bod angen go iawn.

2.51 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r templed hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ateb ei ddiben. Rhoddir gwybod am unrhyw broblemau sy'n codi mewn cysylltiad â'r templed mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol a hefyd i Is-

bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Pwyllgor Partneriaeth y Trydydd Sector. Trafodir unrhyw newidiadau yn y templed â'r is-bwyllgor i gael cytundeb arnynt cyn eu cynnwys.

v. Cronfeydd Strwythurol

2.52 Er nad yw rheoli cronfeydd strwythurol yn rhan o gylch gwaith y Prosiect Rheoli Grantiau, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cydweithio'n agos â chymheiriaid yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i sicrhau bod yr arferion da a ddatblygir gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu rhannu. Mae hyn yn sicrhau bod prosesau priodol a chyson yn cael eu cynnwys yng ngweithdrefnau a dulliau rheoli Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

ADRAN 3: RHEOLI GRANTIAU’N WELL

3.0 Mae’r adran hon yn rhoi manylion y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i reoli grantiau yn Llywodraeth Cymru ers cyflwyno’r Prosiect Rheoli Grantiau a sefydlu’r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, fel rhan o’r Prosiect Rheoli Grantiau. Canolbwyntiwyd ar chwe maes allweddol ar gyfer gwella:

- (i) cymorth i Swyddogion Grant;
- (ii) cydymffurfiaeth;
- (iii) hyfforddiant;
- (iv) cyfathrebu;
- (v) cydweithio; a,
- (vi) system TG.


(i) Cymorth i Swyddogion Grant

3.1 Ar hyn o bryd mae’r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau’n cynnwys 10 aelod arbenigol o staff ac mae’r gost flynyddol yn £470k, fodd bynnag, wrth iddi symud i fusnes yn ôl yr arfer, bydd hyn yn gostwng i 5 arbenigwr gyda chost flynyddol o £187k. Mae’r cymorth a sefydlwyd gan y Ganolfan ar gyfer swyddogion grant yn cynnwys datblygu prosesau, canllawiau a help i wreiddio cysondeb mewn rheoli grantiau, ar yr un pryd â sicrhau bod popeth yn gymesur.

Desg gymorth

3.2 Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yw’r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau ynghylch a ddylai gweithgarwch arfaethedig gael ei ariannu drwy grant neu’r broses caffael. Bydd materion sy’n ymwneud â chaffael yn cael eu cyfeirio at Is-adran Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru a’r holl faterion sy’n ymwneud â grantiau’n cael eu trafod gan dîm y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae’r cymorth sydd ar gael gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd, sydd wedi arwain at nifer fawr o geisiadau am gyngor. Mae Ffigur 11 yn dangos y nifer uchel o ymholiadau misol sydd wedi cael eu hateb. Mae’r adborth gan y rheini sy’n defnyddio’r Ddesg Gymorth yn awgrymu bod y cymorth hwn wedi cael ei dderbyn yn dda.

Ffigur 11: Ymholiadau roedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi delio â nhw yn 2012 a 2013



Ffynhonnell: Log Ymholiadau'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

3.3 Yn ddiweddar, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi dod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer sefydliadau allanol sy'n mynegi pryderon ynghylch grantiau. Mae'r Ganolfan yn bwynt cyswllt ar gyfer darparu cyngor a chanllawiau ac i gyfeirio ymholiadau at yr adran briodol. Mae proses ddatrys fewnol wedi'i rhoi ar waith hefyd i sicrhau bod materion a phryderon yn cael eu cyfleu a'u datrys yn briodol.

Safonau Gofynnol

3.4 Wrth sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, penderfynwyd adolygu'r holl grantiau presennol yn Llywodraeth Cymru. Mae mwy o fanylion am yr adolygiad yn yr adroddiad hwn (paragraff 3.14). Er mwyn cynnal yr adolygiad o grantiau mewn ffordd gyson, datblygwyd safonau gofynnol ar gyfer asesu grantiau. Mae'r safonau yn ddull o reoli grantiau y cytunwyd arno sy'n cyd-fynd â chyfraith berthnasol, polisi a'r arferion gorau. Maen nhw'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu, gweithredu a phrosesu unrhyw grant newydd ac maen nhw'n orfodol. Mae'r safonau hyn wedi cael eu cyhoeddi a'u rhannu â CLILC, WCVA a Swyddfa'r Cabinet i'w dosbarthu ymhellach.

Templed y Llythyr Dyfarnu Safonol

3.5 Cafodd templed llythyr dyfarnu safonol ei ddatblygu yn 2012 i roi lefel o gysondeb ar draws cytundebau cyllid grant. Mae hi wedi bod yn orfodol defnyddio'r templed hwn ar gyfer pob grant wedi'i neilltuo er Ebrill 2013. Bellach mae mwy na 95% o lythyrau dyfarnu'n dilyn y templed hwn. Mae'r 5% sydd ar ôl yn ymwneud â grantiau cymhleth a gwerth isel iawn, pan fyddai'n amhriodol defnyddio'r templed.

3.6 Fydd y templed llythyr dyfarnu yn cael ei gyhoeddi dim ond ar ôl trafodaeth rhwng swyddogion grant a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Ar ben hynny, mae'r llythyrau dyfarnu hefyd yn cael eu gwirio ar ôl eu llenwi yn Gymraeg neu Saesneg gan y Ganolfan cyn eu hanfon i sicrhau eu bod yn gywir, eu bod yn unol â'r safonau gofynnol a bod cymesuredd wedi'i ystyried.

3.7 Mae'r templed llythyr dyfarnu yn cael ei adolygu bob blwyddyn gyda chydweithwyr cyfreithiol a bydd swyddogion yn cael gwybod am unrhyw ddiwygiadau drwy fewnwyd Llywodraeth Cymru. Mae'r templed hefyd wedi cael ei rannu â Swyddfa'r Cabinet fel enghraifft o'r arfer gorau y mae modd ei addasu i ddiwallu gofynion grant Llywodraeth y DU.

Canllawiau

3.8 Datblygwyd canllawiau cyffredinol sy'n cynnig cyngor cynhwysfawr ar wahanol gamau yng nghylch bywyd y grant. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys templedi a rhestrau gwirio y gellir eu haddasu yn ôl yr angen ar gyfer grantiau penodol. Cawsant eu hadolygu a'u diweddarau'n ddiweddar ac maen nhw ar gael i swyddogion ar y tudalennau mewnwyd grantiau.

3.9 Mae'r safonau a'r canllawiau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad risg cymesur gael ei gynnal ar gyfer pob corff allanol sy'n cael arian cyhoeddus. Rhaid i gymesuredd a materoldeb gael eu hystyried bob amser wrth asesu risg. Lluniwyd fersiwn terfynol y canllawiau a bydd hyfforddiant risg yn cael ei ddarparu i swyddogion er mwyn sicrhau bod prosesau priodol yn cael eu defnyddio'n gyson.

Costau Gweinyddu

3.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mewn ymateb i'r PCC i leihau'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â chyllid grant, ar gyfer Llywodraeth Cymru a derbynwyr grant. Ers sesiynau'r PCC ym Mai 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Loteri Fawr, Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddfa'r Cabinet ynghylch y ffordd fwyaf priodol o fesur costau gweinyddu a'u lleihau.

3.11 Nid yw adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu grantiau; mae'r gwaith hwn yn rhan o swyddogaeth ehangach o lawer sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu polisi. Yn yr amgylchiadau mae'n anodd gwahanu'r gost o ddatblygu polisi, prosesau rheoli grantiau a'r costau gweinyddu cysylltiedig sy'n ymwneud â grantiau. O ganlyniad i hynny, nid yw Swyddfa'r Cabinet wedi gallu pennu llinell sylfaen ar gyfer y costau o weinyddu grantiau ar draws adrannau Llywodraeth y DU mewn ffordd gyson, ac yn yr un modd nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu pennu llinell sylfaen am y rhesymau a nodir uchod. Wrth ystyried y pwyntiau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull canlynol i leihau costau gweinyddol:

- cynyddu hyd y grant. Mae derbynwyr grantiau sy'n cael eu hariannu'n rheolaidd (pan fydd cyllidebau'n caniatáu hynny) nawr yn gwneud cais am gyllid am nifer o flynyddoedd, pan roeddent yn arfer gwneud cais am gyllid bob blwyddyn. Mae hyn yn lleihau'r costau gweinyddu ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r derbynnydd, gan roi mwy o sicrwydd ynghylch cyllid i'r derbynnydd;

- hybu gwaith consortiwm. Mae Llywodraeth Cymru yn hybu ystyried cydweithio gan gynnwys a oes modd i gonsortiwm ddarparu gweithgarwch yn hytrach nag un sefydliad. Pan fydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu, mae'n lleihau costau gweinyddol gyda llythyrau dyfarnu'n cael eu cyhoeddi i arweinwyr consortia yn hytrach nag i sefydliadau unigol;
- cyfuno dyfarniadau cynlluniau grant i un llythyr. Mae isadrannau polisi'n cael eu hannog i gyhoeddi un llythyr fesul sefydliad ar gyfer nifer o gynlluniau grant yn hytrach na chyhoeddi llythyrau dyfarnu ar wahân.
- ymrwymiad i symud o grantiau wedi'u neilltuo i grantiau heb eu neilltuo ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried symud grantiau wedi'u neilltuo i'r prif Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo pan fo hynny'n briodol. Bydd y dull hwn yn lleihau costau gweinyddu mewnol ac allanol yn y pen draw.

3.12 Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi gweithio gyda nifer o reolwyr grantiau i roi'r egwyddorion hyn ar waith a bydd eu dilyn yn cael eu cofnodi a'u heffaith yn cael ei fesur er mwyn dangos gostyngiad mewn costau gweinyddol.

Astudiaeth Achos – Canllawiau i Swyddogion Grant

Rhaglen grantiau Cronfa Gydweithredu Ewropeaidd Cymru (WECF)

Mae WECF yn dyfarnu grantiau bach rhwng £1,000 a £10,000. Cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen, y prosesau a'r dogfennau gweinyddu.

Yn dilyn cyngor a chanllawiau gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau gan gynnwys ystyried bod yn gymesur, mae gwahanu dyletswyddau a defnyddio canllawiau/templodi ysgrifenedig, mae'r rhaglen wedi cael ei newid a'i symleiddio mewn nifer o ffyrdd:

- Mae natur y dyfarniadau wedi newid o fod yn rhai ad-daladwy i rai nad ydynt yn ad-daladwy. Roedd y symiau cymharol fach dan sylw a chost y gwaith prosesu/gweinydd yn debyg o fod yn fwy na'r symiau a fyddai'n cael eu hadennill;
- cyflwynwyd templed asesu safonol. Roedd archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn cymryd lle gwerthusiad ariannol manwl llawn; a,
- cyflwynwyd proses taliad/monitro cysylltiedig.

Roedd y canllawiau a roddwyd a'r sicrwydd ar ystyriaethau o ran bod yn gymesur, yn galluogi'r tîm gweinyddu newydd i symleiddio'r rhaglen a'r prosesau, a arweiniodd at raglen fwy effeithlon ac arbedion costau gweinyddu ar gyfer yr ymgeiswyr a Llywodraeth Cymru.

(ii) Cydymffurfiaeth

3.13 Mae safonau gofynnol wedi cael eu datblygu ac maen nhw'n orfodol. Cafodd cydymffurfiaeth â'r rhain ei phrofi yn ystod adolygiad 2011/12 o grantiau ac wedyn drwy hapwiriadau gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

Adolygiad o Grantiau 2011/12

3.14 Cynhaliwyd adolygiad o'r holl gynlluniau grant yn ystod 2011/12. Roedd y broses adolygu yn cynnwys swyddogion o bob cynllun grant yn llenwi holiadur, a oedd wedyn yn cael ei asesu gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn ôl y safonau gofynnol.

3.15 Roedd yr adolygiad yn ystyried ai cyllid grant oedd y mecanwaith gorau ar gyfer pob un o'r cynlluniau hyn a rhoddwyd cyngor os oedd llwybr cyllid arall mwy priodol ar gael, er enghraifft caffael neu fenthyciad. Os nodwyd y dylai'r cyllid fod wedi'i ddarparu drwy fecanwaith arall, rhoddwyd argymhelliad dros ddefnyddio'r mecanwaith arall ar ddiwedd cyfnod y dyfarniad grant cyfredol. Dywedwyd wrth bron i ddeg y cant o'r grantiau a adolygwyd ystyried caffael fel mecanwaith cyllido mwy priodol.

3.16 Roedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi asesu pob rhaglen cyllido i benderfynu a oedd yn cydymffurfio ac yn cyrraedd y safonau gofynnol. Nodwyd meysydd i'w gwella pan nad oedd y rhaglen cyllido yn cydymffurfio neu'n cyrraedd y safonau angenrheidiol. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r swyddog perthnasol i gywiro unrhyw wendidau o fewn amserlen briodol. Cafodd adroddiadau adrannol eu cynhyrchu wedyn, i ddechrau yn darparu manylion am y grantiau a adolygwyd a'r gwendidau a ganfuwyd, ac wedyn yn rhoi manylion y cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu. Mae pob un o'r cynlluniau gweithredu wedi'i gwblhau a'r holl wendidau a nodwyd wedi'u cywiro. Mae cynlluniau grant newydd yn cael eu hasesu i'r un graddau â'r rhai a aseswyd yn ystod yr adolygiad.

Hapwiriadau

3.17 Mae hapwiriadau wedi cael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r safonau gofynnol. Mae'r rhain yn golygu gwirio dogfennau cynllun grant ar hap (er enghraifft, llythyr dyfarnu neu'r mecanwaith ymgeisio a ddefnyddiwyd) o gynlluniau Llywodraeth Cymru a ddewisir. Ar hyn o bryd mae 15 grant yn cael eu gwirio bob mis a bydd hyn yn codi i 20 y mis erbyn diwedd 2013/14.

3.18 Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn adolygu dogfennau sy'n cael eu dewis yn erbyn y safonau gofynnol ar gyfer grantiau. Bydd adborth yn cael ei roi cyn pen pum niwrnod gwaith; bydd y rheini nad ydynt yn cyrraedd y safonau gofynnol yn cael cymorth i wella eu prosesau. Os mynegwyd pryderon mawr, cynhelir adolygiad manwl o'r gweithgareddau; mae pryderon a nodir yn cael eu datrys trwy'r broses ddatrys fewnol.

(iii) Hyfforddiant

3.19 Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddi ym Mehefin 2012 er mwyn cyfrannu at ofynion hyfforddiant yn y dyfodol swyddogion a fydd yn gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd holiadur i asesu'r angen a'r galw am hyfforddiant grantiau. Yn gyffredinol, roedd 47% o ymatebwyr wedi cael hyfforddiant ar y system e-Grants (system talu grantiau Llywodraeth Cymru) ac roedd ychydig mwy na 70% o ymatebwyr heb gael unrhyw hyfforddiant ffurfiol arall ar grantiau. Y prif ddull dysgu a nodwyd oedd hyfforddiant yn y gwaith wedi'i ddarparu gan reolwyr llinell/cydweithwyr ac roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi awgrymu bod angen hyfforddiant ychwanegol, mwy ffurfiol ar grantiau.

3.20 Roedd hyfforddiant cychwynnol ar brif swyddogaethau grant yn cael ei ddarparu'n electronig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd dysgu. Roedd hyn yn sicrhau bod swyddogion perthnasol yn cael gwybod yn gyflym am weithgareddau rheoli grantiau allweddol. Profion ar ddiwedd y modiwl oedd yn cael eu defnyddio i sefydlu dealltwriaeth defnyddwyr o'r wybodaeth a oedd yn cael ei chyfleu. Bydd yr hyfforddiant cychwynnol hwn ar gyfrifiadur yn cael ei ymestyn a'r dysgu yn cael ei gyfnerthu drwy hyfforddiant wyneb yn wyneb lle bydd swyddogaethau grant penodol yn cael eu hystyried yn fanylach.

3.21 Mae'r hyfforddiant cyfrifiadurol e-Grants wedi cael ei wneud yn orfodol ar gyfer unrhyw swyddog sydd eisiau mynediad i'r system e-Grants, ac mae'n rhaid cwblhau'r hyfforddiant cyn cael defnyddio'r system.

3.22 Mae tri o fodiwlau hyfforddiant cyfrifiadurol wedi cael eu datblygu a'u gweithredu:

- **Grantiau ar gyfer Uwch-swyddogion Perthnasol:** wedi'i anelu at swyddogion sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni cyllid grant. Mae'n cynnwys trosolwg lefel uchel o'r prosesau rheoli grant, gan ddangos meysydd allweddol sy'n berthnasol i uwch reolwyr. Mae'r modiwl hwn yn orfodol ar gyfer yr holl swyddogion sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am raglenni grant penodol (Uwch-swyddogion Perthnasol). Cafodd yr hyfforddiant ei lansio ar y fewnrwyd yn Rhagfyr 2012 ac ers hynny mae dros 280 o swyddogion wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Cafwyd canmoliaeth fawr iawn i'r hyfforddiant yn gyffredinol ac adborth rhagorol. Mae wedi codi llawer iawn ar broffil grantiau a'r prosesau mae'n rhaid i uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu.
- **e-Grants ar gyfer Ardystwyr ac Awdurdodwyr:** wedi'i anelu at swyddogion sy'n defnyddio'r system taliadau e-Grants. Y system e-Grants a ddefnyddir i dalu'r rhan fwyaf o grantiau. Cyn hyn, roedd yr holl swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn cael defnyddio'r system e-Grants fel ardystwyr ac roedd hyn yn eu galluogi i gofnodi hawliadau am daliadau grant. Fodd bynnag, dim ond y swyddogion hynny a oedd ag awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo taliadau grant a oedd yn cael defnyddio'r system fel awdurdodwr.

Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r system e-Grants i wella ei gallu i adrodd. Cafodd hyfforddiant ei ddatblygu felly i leihau'r anghysondeb wrth ddefnyddio'r system e-Grants a allai yn y pen draw effeithio ar gywirdeb adroddiadau. Cafodd yr hyfforddiant ei ryddhau ar y fewnwyd i'r holl swyddogion ym Mawrth 2013. Hyd yn hyn mae dros 1,100 o swyddogion wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus. Rhaid i unrhyw swyddog sy'n dymuno cael mynediad awdurdodwr neu ardystiwr ar e-Grants basio'r hyfforddiant hwn yn gyntaf.

- **Grantiau ar gyfer Rheolwyr Grantiau:** mae wedi'i anelu at swyddogion sy'n gyfrifol am reoli grantiau o ddydd i ddydd (Rheolwyr Grantiau). Mae'r hyfforddiant yn cynnwys tri modiwl ac mae'n orfodol ar gyfer yr holl Reolwyr Grantiau ac yn ddewisol ar gyfer yr holl swyddogion eraill. Mae lefel y wybodaeth yn yr hyfforddiant hwn yn llawer mwy manwl na hynny yn y trosolwg yn yr hyfforddiant ar gyfer Uwch-swyddogion Perthnasol. Rhaid ennill sgôr o 80% neu fwy i lwyddo ym mhob modiwl a bydd swyddogion sy'n cwblhau pob un o'r 3 modiwl yn llwyddiannus yn cael statws ardystiedig.

Cafodd yr hyfforddiant ei ryddhau ym mis Mehefin 2013. Mae dros 480 o reolwyr grantiau wedi ymgymryd â'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Mae hyn wedi rhoi'r hyder i gyfran o reolwyr grantiau eu bod yn dilyn y prosesau cywir, ac mae eraill wedi gofyn i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau am gefnogaeth bellach i wella eu prosesau.

Hyfforddiant Arall

3.23 Mae WEFO yn cynnal rhaglen hyfforddiant ar Gronfeydd Strwythurol ar gyfer noddwyr prosiectau ar gyfer staff mewnol yn barod ar gyfer y cylch nesaf o raglenni cyllido. Mae hyn yn edrych ar gynnwys y rhaglenni newydd, newidiadau i'r ffordd mae prosiectau'n cael eu dewis a newidiadau i sut caiff prosiectau eu rheoli o dan y rheoliadau ar gyfer y cylch nesaf o gyllid.

3.24 Mae CLILC yn datblygu nifer o raglenni hyfforddi ar gyfer Awdurdodau Lleol drwy'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu i Awdurdodau Lleol drwy nifer o ddulliau gan gynnwys digwyddiadau rhanbarthol a sesiynau thematig ar ddechrau 2014. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i ddatblygu'r hyfforddiant er mwyn sicrhau bod prosesau, gweithdrefnau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn cael sylw dyladwy.

(iv) Cyfathrebu

Cyfathrebu Mewnol

3.25 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod diffyg cydgysylltu wrth gyfathrebu'n fewnol weithiau rhwng ei hadrannau i rannu gwybodaeth gorfforaethol ac arferion da. Mae sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi arwain at iddi ddod yn arfer safonol i'r Ganolfan ymgysylltu â swyddogion i rannu cymaint o wybodaeth â phosibl

o fewn ac ar draws adrannau. Mewn llythyr diweddar i reolwyr grant ledled Llywodraeth Cymru, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr angen i grantiau gael eu rheoli mewn ffordd gydymffurfiol a chyson, gyda swyddogion yn cymryd cyfrifoldeb am gyllid grantiau.

Sesiynau Hybu Ymwybyddiaeth o Grantiau

3.26 Roedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi trefnu a chynnal rhaglen o sesiynau hybu ymwybyddiaeth am reoli grantiau ledled Cymru ym Mawrth 2013. Nod y sesiynau oedd tynnu sylw swyddogion sy'n delio â grantiau at y newidiadau mewn rheoli grantiau sy'n cael eu rhoi ar waith, egluro'r rhesymau dros eu cyflwyno, yr hyn y mae disgwyl i swyddogion ei wneud i sicrhau'r gwelliannau, yn ogystal â chynnig cyfle i rannu'r arferion gorau ac unrhyw bryderon. Cafodd yr holl sesiynau eu cyflwyno gan uwch reolwyr ac roeddent yn cynnwys neges fideo gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch pwysigrwydd rheoli grantiau a chydymffurfiaeth.

3.27 Roedd saith sesiwn wedi'u trefnu'n wreiddiol ond, oherwydd y galw uchel am leoedd; trefnwyd tair sesiwn ychwanegol. Cawsant eu cynnal mewn saith lleoliad gwahanol yng Nghymru, ac roedd cyfanswm o 245 yn bresennol ynddynt. Roedd mwy na 93% o'r rheini a oedd yn bresennol wedi dweud bod y sesiynau'n rhagorol neu'n dda.

3.28 Cynhaliwyd ail gyfres o sesiynau ledled Cymru yn Nhachwedd 2013. Roedd y sesiynau wedi'u hanelu at yr holl swyddogion sy'n gweithio ar grantiau ac roeddent yn dilyn y sesiynau ymwybyddiaeth a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Eu nod oedd tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli grantiau'n dda a'r effaith bosibl pe na fyddai hyn yn cael ei wneud.

3.29 Roedd y sesiynau, unwaith eto, yn cael eu cynnal gan Bennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'u cyflwyno gan uwch-reolwr. Ffocws pob sesiwn oedd ymarfer astudiaeth achos lle'r oedd gofyn i'r mynychwyr drafod a nodi gwallau mewn prosesau grant, a dweud beth y dylid bod wedi'i wneud yn wahanol a beth fyddai'r goblygiadau posibl i Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw eto at y pwysigrwydd o gwblhau prosesau grant yn briodol drwy roi gwybod i fynychwyr am achosion gwirioneddol lle'r oedd gwallau wedi'u gwneud a oedd yn debyg i'r rheini yn yr astudiaethau achos ac a oedd wedi arwain at golled ariannol a niwed i enw da Llywodraeth Cymru.

3.30 Roedd pob sesiwn yn cynnwys y wybodaeth sy'n allweddol i reolwyr grantiau yn ogystal ag adran ar y tudalennau ar ddiwydrwydd dyladwy i ddangos pwysigrwydd rhannu gwybodaeth ar draws Llywodraeth Cymru, a chyfle i'r mynychwyr ofyn cwestiynau. Cynhaliwyd deuddeg o sesiynau mewn naw lleoliad gwahanol yng Nghymru, ac roedd cyfanswm o 368 o staff yn bresennol yn y sesiynau.

3.31 Roedd yr adborth yn gadarnhaol ac yn dangos bod y sesiynau'n fuddiol ym marn y mynychwyr. Cafwyd canmoliaeth fawr i'r ymarfer astudiaethau achos mewn grwpiau gan fod mynychwyr yn teimlo ei fod yn ffordd effeithiol o ddangos pwysigrwydd cwblhau prosesau grant yn gywir a difrifoldeb y canlyniadau o beidio â dilyn prosesau.

Cyfathrebu Allanol

3.32 Mae rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi datblygu o fod yn un fewnol ar gyfer y sefydliad yn unig i fod yn un fewnol ac allanol. Wrth i'r pwyslais newid, mae'r Ganolfan yn cael ei hysbysebu bellach yn brif bwynt cyswllt ar wefan Cymru.gov.uk ar gyfer unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch gweinyddu grant neu gynllun grant.

3.33 Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi ymgysylltu â derbynwyr cyllid i dynnu sylw at ei rôl yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer cyngor ar geisiadau am gyllid. Mae'r ymgysylltu ychwanegol hwn wedi cynnwys diwygio a gwella tudalennau gwe cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyllid grant.

(v) Cydweithio

3.34 Llywodraeth Cymru yw'r prif ddarparwr cyllid grant yng Nghymru. O'r herwydd mae mewn lle da i rannu gwybodaeth â darparwyr cyllid eraill am unrhyw sefydliad sydd wedi cael arian grant ganddi. Os bydd pryderon penodol neu amhenodol yn codi ynghylch sefydliad neu unigolyn a allai effeithio ar sefydliadau allanol sydd hefyd yn darparu cyllid grant, yna bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Er enghraifft, gyda chyrrff partner perthnasol fel WCVA, CLILC i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch y risgiau sydd ynghlwm wrth y cyllid maent yn ei roi i sefydliadau.

3.35 Bydd y broses anffurfiol hon yn sylfaen ar gyfer datblygu a chytuno ar y telerau ymgysylltu ffurfiol sy'n cael eu trafod mewn Grŵp Llywodraethu Da ar hyn o bryd ac y mae disgwyl y cytunir arnynt erbyn diwedd 2013/14.

3.36 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn ffordd gydweithredol i weithredu argymhellion y PCC a gwella arferion grant yn ehangach. Mae wedi ymwneud â Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA a CLILC ar amrywiaeth o faterion polisi ac ymarfer gan gynnwys y gwaith o ddatblygu canllawiau cynhwysfawr ar gyfer Awdurdodau Lleol ar y gwahanol ddulliau o ddyrannu cyllid sydd ar gael. Bydd ymwneud â'r sefydliadau hyn yn parhau i'w cefnogi gyda'u gweithgareddau rheoli grantiau'n well.

(vi) System TG

3.37 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod cyfyngiadau ei gwybodaeth rheolaeth gyffredinol, gyfredol a'r data corfforaethol sydd ar gael i gefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch grantiau. Mae'r systemau a ddefnyddir i brosesu taliadau grant eisoes yn rhyng-gysylltu â system cyllid Llywodraeth Cymru, ond ychydig o'r data sy'n weladwy rhwng systemau ac ar draws Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu systemau lleol i gael sicrwydd ychwanegol ac at ddibenion adrodd.

3.38 Nodwyd y materion hyn yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Rheoli Grantiau yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011. Argymhellwyd bod cyrff ariannu'n datblygu systemau sy'n sicrhau dull gweithredu sydd mor gyson â phosibl rhwng adrannau mewnol wrth ddarparu cyllid grant a gweithredu cynlluniau grant. Ategwyd y pwyslais hwn yn ymchwiliad y PCC i Reoli Grantiau yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 yn argymhell bod “Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau”.

3.39 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai cyflwyno system TG gynhwysfawr a chanolog i reoli grantiau yn helpu i ddarparu data rheolaeth er mwyn cyfrannu at benderfyniadau ar gyllid grant. Mae gwaith yn mynd rhagddo felly i roi ystyriaeth ddyledus i adnabod yr ateb gorau a sut dylid ei weithredu. Mae achos busnes yn cael ei baratoi a disgwylir penderfyniad cyn bo hir.

3.40 Wrth ddisgwyl am benderfyniad ynghylch y datrysiad TG grantiau canolog, cyflwynwyd rhai gwelliannau tactegol yn y system e-Grants bresennol er mwyn rhoi gwybodaeth reoli well ar draws Llywodraeth Cymru. Y rhain yw:

- **Adroddiadau Cryno Newydd:** darparu golwg eang o'r holl gynlluniau grant gweithredol. Maent yn rhoi gwell dealltwriaeth o werth a nifer y cynigion a thaliadau grant a wneir ar draws Llywodraeth Cymru, gan gymharu hanes diweddar â gweithgarwch y flwyddyn gyfredol.
- **Diwydrwydd Dyladwy:** mae cyfleuster corfforaethol newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu ar gyfer rhannu gwybodaeth ar borthol cyllid Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn hwyluso rhannu gwybodaeth am sefydliad ac mae'n rhoi pwynt cyswllt i swyddogion sy'n chwilio am ragor o fanylion. Caiff cysylltiadau hefyd eu gwneud â system gyllid Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at unrhyw sefydliadau/unigolion sydd wedi cael eu rhwystro ar gyfer taliadau. Mae'r cyfleuster yn atgoffa swyddogion i gael rhagor o wybodaeth cyn dyfarnu grant neu brosesu hawliad.

ADRAN 4 - Y CAMAU NESAF AR GYFER RHEOLI GRANTIAU

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phrosesau rheoli grantiau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Er bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud, mae gwaith yn dal i wreiddio'r rhain yn llawn ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth y gwaith hwn yn cael eu rheoli i fod cyn ised â phosibl.

4.2 Mae'r gweithgareddau canlynol ar y gweill i ddatblygu trefniadau rheoli grantiau dros y 12 mis nesaf:

- **gwybodaeth well am Bersonél Grantiau yn eGrants** - bydd swyddogion allweddol sy'n gyfrifol am bob cynllun grant yn cael eu nodi a bydd proses sefydlu'r cynllun grant yn cael ei diwygio i gadw'r wybodaeth hon.
- **gwybodaeth ariannol well o e-Grants** - mae dull newydd o symleiddio dewis y cod cyllid priodol wrthi'n cael ei ddatblygu, a fydd yn lleihau'r risg o roi codau anghywir;
- **hyfforddiant grantiau** - bydd hyfforddiant cynhwysfawr ar agweddau allweddol o weinyddu grantiau yn cael ei ddarparu ledled Cymru;
- **cydymffurfiaeth â safonau gofynnol** - bydd hyn yn cael ei hybu ymhellach a'i fesur drwy ymateb i ymholiadau a hapwiriadau;
- **ymarferion cyfathrebu** - sesiynau ymwybyddiaeth newydd ac erthyglau ar y fewnrwyd i gyfleu newidiadau a'r arfer gorau;
- **mesur gostyngiadau mewn costau gweinyddu** - bydd newidiadau i raglenni grant sy'n arwain at ostyngiad mewn costau gweinyddu yn cael eu cofnodi a bydd eu heffaith yn cael ei mesur;
- **penderfynu ar sefydlu system TG ganolog i reoli grantiau**

4.3 Bydd y newidiadau i'r system e-Grants a'r gweithgareddau hyfforddi a chyfathrebu yn sicrhau bod mwy o wybodaeth gan swyddogion am y prosesau mae angen eu dilyn i reoli grantiau'n well. Bydd hyn, ynghyd â'r gweithgareddau gorfodi a gyflawnir yn ôl yr angen gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, yn helpu i wreiddio gwelliannau pellach mewn rheoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnydd yn erbyn y gweithgareddau hyn yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol Nesaf ar Reoli Grantiau.

ADRAN 5 – THEMÂU ALLWEDDOL YN ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'R PCC

5.0 Mae'r tri adroddiad am reoli grantiau yng Nghymru² yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer gwella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli grantiau yng Nghymru. Bydd yr adran hon o'r adroddiad blynyddol yn rhoi crynodeb byr o'r camau sydd wedi cael eu cymryd mewn ymateb i'r themâu allweddol o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r PCC. Mae'r argymhellion penodol, yr ymatebion a'r cynnydd wedi'u cynnwys yn Atodiadau'r adroddiad hwn. Gyda'i gilydd, cafodd 41 o argymhellion eu gwneud. Y sefyllfa ddiweddaraf yw bod camau nawr wedi cael eu cwblhau ar gyfer 37 o'r rhain ac mae gwaith ar yr argymhellion eraill yn parhau.

Adolygiad o'r Holl Gynlluniau Grant a Weinyddir gan Lywodraeth Cymru

5.1 Adolygwyd yr holl grantiau a oedd ar gael yn y flwyddyn 2011/2012 gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar sail y safonau gofynnol. Cwblhawyd yr adolygiadau o fewn blwyddyn fwy neu lai ac, o ganlyniad, nodwyd yr arferion gorau a pharatowyd cynlluniau gweithredu i ddelio â'r gwendidau a nodwyd. Mae'r canllawiau i reolwyr grantiau a'r safonau gofynnol wedi'u diwygio i gynnwys yr arferion gorau a ganfuwyd yn yr adolygiad hwn. Lle'r oedd gwendidau wedi'u nodi, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi monitro ac adolygu'r cynlluniau gweithredu perthnasol a sicrhau bod y gwendidau wedi'u cywiro.

5.2 Mae pob cynllun grant newydd sydd wedi cael ei gyflwyno ers yr adolygiad wedi bod yn destun proses fetio gadarn, sy'n cynnwys ystyried a oes eisiau ymyriad cyllido ac, os oes, ai cyllid grant yw'r cyfrwng mwyaf priodol i'r diben hwnnw.

Awdurdodau Lleol

5.3 Roedd yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011 yn trafod rheoli grantiau ar draws y sector cyhoeddus ac nid rheoli grantiau gan Lywodraeth Cymru yn unig. Beirniadwyd Awdurdodau Lleol am eu ffordd o reoli grantiau a nifer yr amodau archwilio a oedd wedi'u gosod ar hawliadau i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â CLILC i ddatrys y problemau a nodwyd yn yr adroddiadau.

5.4 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru a CLILC ar hyfforddiant a rhannu arbenigedd ynghylch mecanweithiau ariannu a safonau gofynnol ac mae'n cynnal trafodaethau â'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ynghylch darparu hyfforddiant ar reoli grantiau i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Bydd yr ail o'r camau uchod yn helpu i leihau nifer yr amodau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gosod wrth archwilio hawliadau grant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu CLILC i sicrhau na fydd amodau o'r fath yn cael eu gosod mor aml.

² Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Rheoli Grantiau yng Nghymru - Tachwedd 2011, Adroddiad Interim y PCC - Rheoli Grantiau yng Nghymru - Awst 2012, Adroddiad Terfynol y PCC - Rheoli Grantiau yng Nghymru - Mehefin 2013

Rheoli Grantiau'n Well

5.5 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried yr arferion gorau o bob rhan o'r DU a thrwy ei Phrosiect Rheoli Grantiau mae'n ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian Cymru. Un o'r materion sy'n gysylltiedig â hyn yw gostwng costau gweinyddu. Er y bu'n amhosibl sefydlu llinell sylfaen o'r costau a gafwyd am amrywiaeth o resymau, disgwylir y bydd cost gyffredinol grantiau yn disgyn oherwydd cynlluniau sydd wedi'u hanelu at gyfuno cynlluniau a throsglwyddo cynlluniau wedi'u neilltuo Awdurdodau Lleol i'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo.

5.6 Drwy gyflwyno templed y Llythyr Dyfarnu safonol sicrhawyd dull cyson o weithredu ar draws Llywodraeth Cymru. Mae defnyddio'r templed hwn wedi hyrwyddo newid mewn diwylliant gan roi pwyslais ar gyflawni amcanion polisi drwy'r grantiau, mae'r templed yn datgan yn benodol beth a gaiff ei gyflawni.

5.7 Ar ôl sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, mae Llywodraeth Cymru wedi creu pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor ar geisiadau am gyllid. Os mai ariannu drwy grant yw'r llwybr y dylid ei ddilyn, yna rhoddir cyngor priodol gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Fodd bynnag, os gwelir mai'r broses caffael sy'n fwyaf addas ar gyfer ariannu, trosglwyddir y mater i Gwerth Cymru.

5.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â'r prosiect grantiau yn Swyddfa'r Cabinet a bydd yn parhau i ymgysylltu ag ef. Un agwedd ar y gwaith hwn oedd rhannu'r arferion gorau a'r modiwlau hyfforddi a ddatblygwyd gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

Y Trydydd Sector

5.9 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi bod y Trydydd Sector yn cyfrannu'n helaeth at ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Gan fod cyllid i'r Trydydd Sector yn hanfodol i gyflawni polisiâu allweddol, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod rhaid ystyried materion penodol oherwydd natur y sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar y Cod Ymarfer ar gyfer y Trydydd Sector a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â'r sector. Er bod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gwblhau, ni fydd y Cynllun a'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer y Trydydd Sector yn cael eu cyhoeddi tan ddechrau 2014. Bydd y Cod Ymarfer diwygiedig yn galw am fwy o gamau rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod.

5.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac mae wedi datblygu templed Talu Ymlaen Llaw ar y cyd â'r Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth. Mae'r templed Talu Ymlaen Llaw yn caniatáu i sefydliadau'r Trydydd Sector ddangos yr angen am daliadau ymlaen llaw mewn ffordd gyson. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw bryderon ynghylch y templed Talu Ymlaen Llaw ac unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Hyfforddiant a Chydymffurfiaeth

5.11 Roedd y Prosiect Rheoli Grantiau wedi cael ei gyflwyno i wella safon rheoli grantiau. O ganlyniad i hyn, mae'r prosiect wedi datblygu a gweithredu prosesau a gweithdrefnau manwl ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u hategu drwy gynnal nifer mawr o weithgareddau cyfathrebu, datblygu safonau gofynnol, hyfforddiant i swyddogion grant a hapwiriadau i sicrhau cydymffurfiaeth.

5.12 O hyn ymlaen, bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar faterion penodol ac ar waith penodol gyda rheolwyr grantiau i sicrhau'r newid mewn diwylliant sydd ei angen. Yn y pen draw, bydd hyn yn sicrhau rheoli grantiau'n well drwy sefydlu a gweithredu safonau gofynnol mewn ffordd gyson a chydymffurfiol.

Gweithio'n Gydweithredol

5.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad hi yw'r unig ddarparwr grantiau yng Nghymru. Drwy gydweithio â chyrff ariannu a sefydliadau eraill, gellir sicrhau manteision sylweddol i Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau sy'n cael eu hariannu. Ers cyhoeddi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r PCC, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â nifer o sefydliadau ariannu gan gynnwys WCVA, CLILC, Cyngor y Celfyddydau a'r Loteri Fawr. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at gytundeb i baratoi cylch gorchwyl ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Gwybodaeth ac Adrodd

5.14 Mae'r Prosiect Rheoli Grantiau wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r system taliadau e-Grants, sydd wedi galluogi mwy o gofnodi a mwy o gysondeb ar draws Llywodraeth Cymru. Cyflwynir gwelliannau ychwanegol yn y system ar gyfer cynhyrchu adroddiadau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2013/14. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y camau nesaf posibl i sefydlu ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth ar reoli grantiau.

ATODIAD 1

Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Argymhellion a Chynnydd – Tachwedd 2011

Argymhelliad 1

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau ystyried symleiddio eu portffolio o grantiau yn gyflymach drwy gyfuno cynlluniau lle bo hynny'n briodol, er mwyn gwireddu effeithlonrwydd mewn costau gweinyddu ac yn y costau cudd i bwrs y wlad a ysgwyddir gan ymgeiswyr aflwyddiannus.

Cynnydd

Mae hon yn broses barhaus. Mae Llywodraeth Cymru wedi symleiddio ei phortffolio grantiau drwy leihau nifer y cynlluniau grant a chynigion grant yn sylweddol. Dros y tair blynedd ariannol diwethaf, mae cynlluniau wedi cael eu cwtogi 16% ac mae cynigion wedi cael eu cwtogi 14%.

Statws

Yn parhau

Argymhelliad 2

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau ddatblygu systemau i sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir ag arian grant ac y gweithredir cynlluniau grant mor gyson â phosibl drwy'r holl adrannau mewnol a, lle y bo modd, â chyllidwyr eraill.

Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau mwy o gysondeb ar draws adrannau drwy gyflwyno safonau gofynnol ar gyfer yr holl brosesau grant. Mae'r dull wedi cael ei rannu â chyrrff ariannu allweddol eraill gan gynnwys WCVA, CLILC er mwyn rheoli grantiau'n fwy cyson ledled Cymru. Mae hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu grantiau wedi cael ei gyflwyno a chafodd ei roi ar waith yn llawn ym Mehefin 2013. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ragor o hyfforddiant manwl, a fydd yn cael ei gyflwyno o Ionawr 2014 ymlaen. Bydd y modiwlau hyfforddi hefyd yn cael eu rhannu fel sy'n briodol â sefydliadau allweddol eraill sy'n cynnig cyllid wrth iddo gael ei ddatblygu yn ystod 2014.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 3

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau weithio gyda chyllidwyr eraill i ddysgu o brofiad, datblygu cynlluniau sy'n ategu ei gilydd a chydgysylltu amserlenni ymgeisio.

Cynnydd

Sefydlwyd Grŵp Llywodraethu Da gyda Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA, CLILC, y Loteri Fawr a'r Comisiwn Elusennau, i helpu i hwyluso dysgu a darparu ffocws ar gyfer arferion da.

Statws

Wedi'i gwblhau

Argymhelliad 4

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau weithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am grantiau yn fwy eglur a hygyrch i ymgeiswyr ac annog cymunedau i ymwneud â hwy mewn ffordd briodol.

Cynnydd

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen weithredol o waith i helpu i wella eglurder a hygyrchedd gwybodaeth am grantiau i'r rheini sy'n ymgeisio. Mae wedi ail-ddylunio ei thudalennau gwe ar grantiau er mwyn rhoi gwybodaeth fwy eglur. Drwy'r Cynllun a Chod Ymarfer diwygiedig ar gyfer y Trydydd Sector, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnwys cymunedau i fwy o raddau. Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar berthynas Llywodraeth Cymru gyda'r Trydydd Sector, mae gwaith yn dal i adfywio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chynyddu ymwybyddiaeth o'i weithgareddau. Mae'r Gweinidog Cyllid hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr y Trydydd Sector, a rhoddir sylw helaeth i faterion sy'n ymwneud â chynnwys cymunedau a manteision cymunedol mewn trafodaethau.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 5

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â hyfywedd, adnoddau a gallu ymgeiswyr eu hystyried ar y cam ymgeisio, wedi'u lliniaru gan gymorth ychwanegol lle y byddai hyn yn gost-effeithiol ac wedi'u monitro'n ofalus wrth i'r prosiect gael ei gyflawni.

Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod safonau gofynnol i sicrhau diwydrwydd dyladwy ar gyfer pob grant o'r camau cyntaf ymlaen. Mae hefyd wedi datblygu system TG ar gyfer diwydrwydd dyladwy sy'n rhoi'r gallu i rannu gwybodaeth gorfforaethol rhwng yr holl adrannau. Sefydlwyd gofyniad i fonitro prosiectau'n rheolaidd a bydd hyn yn dilyn yr amodau a fanylir mewn llythyr dyfarnu safonol newydd.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 6

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau sicrhau bod canlyniadau prosiectau a safonau rheoli prosiect a rheoli ariannol wedi'u diffinio'n glir a bod cytundeb ysgrifenedig yn eu cylch cyn i arian gael ei ryddhau.

Cynnydd

Mae templed newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y llythyr dyfarnu safonol ar gyfer grantiau yn sicrhau fod canlyniadau, targedau a gofynion penodol wedi'u cynnwys ym mhob llythyr dyfarnu. Rhaid i'r derbynnydd grant dderbyn y telerau ac amodau cyn gwneud unrhyw daliad, felly bydd telerau'r grant yn glir i bob parti.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 7

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau ystyried rhinweddau cymharol dulliau gweithredu eraill heblaw am arian grant, megis caffael, benthyciadau a buddsoddiadau, cyn ymrwymo i gynllun grant newydd neu i barhau â chynllun grant fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcanion a nodwyd.

Cynnydd

Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru yn adolygu pob cynnig cynllun grant newydd. Fel rhan o'r adolygiad, ystyrir y math o gyllid sy'n cael ei gynnig a bydd dewisiadau ar wahân i grant yn cael eu hargymell os ystyrir bod y rhain yn fwy priodol.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 8

Argymhellwn y dylai cyllidwyr grantiau gymryd camau cadarn pan fydd gordaliadau neu pan fydd grantiau wedi eu camddefnyddio drwy atal arian lle y bo angen, drwy adennill symiau priodol ac, os parheir i roi arian, drwy atgyfnerthu'r gofynion ar y rhai sy'n ei dderbyn a'u trefniadau monitro eu hunain cyn i arian ychwanegol gael ei ryddhau.

Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o'r sefyllfa yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) a sefyllfaoedd eraill ac mae trefniadau newydd a mwy cadarn o lawer wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli grantiau. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd camau priodol fel atal taliadau, os canfyddir bod amodau grant wedi cael eu torri.

Statws

Wedi'i gwblhau

ATODIAD 2

PCC – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Interim – Argymhellion a Chynnydd – Awst 2012

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob grant wedi'i adolygu fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Grantiau, i sicrhau mai dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni amcanion y Gweinidogion erbyn 31 Rhagfyr 2013.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae'r holl grantiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/2012 wedi'u hadolygu a chyflwynwyd adroddiad terfynol ar gydymffurfiaeth a chanfyddiadau i uwch-reolwyr. Bellach mae pob grant newydd yn cael ei gymeradwyo gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau cyn ei gynnwys yn y system talu grantiau.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 2

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhychwant eang o opsiynau cyllido sydd ar gael wrth iddi adolygu effeithiolrwydd y grantiau presennol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Un rhan o broses yr adolygiad o grantiau ar gyfer 2011/2012 oedd asesu a oedd dulliau ariannu eraill yn addas. Roedd camau priodol yn cael eu hargymhell a'u cymryd yn ôl yr angen. Mae pob cynnig cynllun grant newydd yn cael ei adolygu gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ac, os credir y dylid defnyddio dull ariannu arall, cymerir camau priodol. Ymhlith y dulliau ariannu eraill y mae benthyciadau, caffael a chyllid grant ad-daladwy.

Statws

Wedi'i gwblhau

Argymhelliad 3

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i'r Awdurdodau Lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried y rhychwant eang hwn o ddulliau cyllido (gan gynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er mwyn sicrhau bod amcanion dymunol yn cael eu cyflawni.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu ei chanllawiau ar grantiau â CLILC sy'n hybu eu mabwysiadu'n ehangach gan lywodraeth leol yng Nghymru.

Mae CLILC yn cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar ei digwyddiadau ymarfer da a chyda phartneriaid eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus fel WCVA ar y priodolrwydd o ddefnyddio cyllid grant o'i gymharu â dulliau eraill. Mae CLILC wedi comisiynu'r

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i ddarparu rhaglen hyfforddi ar weinyddu a rheoli grantiau. Bydd y rhaglen yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o fodiwlau sy'n cyd-fynd â'r rolau a'r swyddogaethau sy'n ymwneud â gweithredu proses grantiau lawn mewn awdurdod lleol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu drwy gyfres o weithdai rhanbarthol ar draws Cymru gyda hyfforddiant penodol 1:1 i sefydliadau pan fo'n briodol. Bydd yr hyfforddiant yn agored i gynnwys sefydliadau y tu allan i'r awdurdod lleol sy'n cael grantiau, gan helpu i feithrin dealltwriaeth a gwelliannau yn y broses i gyd. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu ym mis Mawrth 2014.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 4

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr arferion da mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig wrth fynd i'r afael â heriau ymarferol trosglwyddo grantiau penodol i'r setliad cymorth refeniw cyffredinol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae ymholiadau penodol gyda Llywodraeth yr Alban wedi dod i'r casgliad bod dull presennol Llywodraeth Cymru o ddelio â materion trosglwyddo drwy'r trefniadau partneriaeth yn gyson â'r dull o weithredu yn yr Alban.

Comisiynwyd gwaith gan Grŵp Llywio Polisi Diwygio Llywodraeth Cymru yn hydref 2012 i adolygu'r strategaethau ymadael ar gyfer yr holl grantiau wedi'u neilltuo. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymarfer a gomisiynwyd gan Grŵp Llywio Polisi Diwygio Llywodraeth Cymru wedi cael ei defnyddio i friffio'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ynghylch sefyllfa grantiau penodol ac i gyfrannu at drafodaeth Gweinidogion ynghylch Cyllideb a Setliad Llywodraeth Leol 2014-15. Roedd Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15 yn adlewyrchu trosglwyddo £40 miliwn o gyllid i'r setliad a oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol fel grantiau penodol. Cyhoeddwyd adolygiad arall o hyblygrwydd cyllid mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol hefyd.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 5

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu targed o beidio â gwario mwy na 5% o gyfanswm ei chyllid grant ar weinyddu grantiau.

Y Cynnydd Diweddaraf

Bydd Llywodraeth Cymru yn lleihau costau gweinyddu drwy nifer o weithgareddau gan gynnwys gweithio mewn ffordd gydweithredol (yn fewnol ac yn allanol), ymestyn cyfnod grantiau a throsglwyddo grantiau wedi'u neilltuo ar gyfer Awdurdodau Lleol i'r Grant Cynnal Refeniw sydd heb ei neilltuo (gweler paragraffau 3.10 i 3.12).

Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn mesur effaith y gweithgareddau hyn a'r gostyngiad mewn costau gweinyddu sy'n gysylltiedig a bydd yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar reoli grantiau.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 6

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheolwyr yn gwneud penderfyniadau amserol ynghylch parhau neu orffen cyllid grant, a'u bod yn gorfod cadw at ei Chod Ymarfer ar gyllid i'r Trydydd Sector.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei adolygu ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid. Mae'r broses hon wedi cael ei goruchwyllo gan Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae'r Cod diwygiedig, a fydd nawr yn cael ei roi fel atodiad ffurfiol i Gynllun Diwygiedig y Trydydd Sector, yn pwysleisio'r angen am wneud penderfyniadau amserol ac yn datgan yn glir y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod Rheolwyr Grant yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i wirio a monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer. Adroddir ar unrhyw ddiffyg cydymffurfio i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Pwyllgor Partneriaeth y Trydydd Sector a hefyd yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau.

Bydd pwyslais ar yr angen i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn yr hyfforddiant wyneb yn wyneb ar ariannu'r Trydydd Sector sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 7

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Dylai hwnnw gynnwys y cynnydd tuag at ei tharged ar gyfer costau gweinyddu a manylion unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyllid i'r trydydd sector.

Y Cynnydd Diweddaraf

Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf.

Statws

Wedi'i gwblhau

Argymhelliad 8

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu prawf busnes tryloyw, cymesur a chyson i benderfynu a ddylai taliadau grant gael eu gwneud ymlaen llaw i sefydliadau.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae templed ar gyfer pennu'r angen am dalu ymlaen llaw wedi'i ddatblygu ar y cyd ag Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Defnyddir y templed hwn yn yr holl gynlluniau grant yn Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid i'r Trydydd Sector. Dim ond ar ôl dangos a dilysu'r angen y gwneir taliadau ymlaen llaw.

Statws

Wedi'i gwblhau

Argymhelliad 9

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i ddatblygu amrediad o delerau ac amodau safonedig ar gyfer mathau penodol o brosesau caffael.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a gweithredu telerau ac amodau safonol ar gyfer cyllid grant a chaffael.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 10

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un pwynt cysylltu i roi cyngor ar geisiadau am gyllid (gan gynnwys grantiau, ymhlith pethau eraill).

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi'i sefydlu'n bwynt cyswllt unigol ar gyfer cyngor ar geisiadau am gyllid (gan gynnwys grantiau) yn fewnol ac yn allanol. Mae modd i'r cyhoedd gael mynediad uniongyrchol i'r Ganolfan drwy dudalennau Llywodraeth Cymru ar grantiau ar y rhynggrwyd sydd wedi cael eu hail ddylunio.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 11

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddwyn i gyfrif yr Awdurdodau Lleol sydd â chyfradd uchel o hawliadau grant yn cael eu hamodi neu eu haddasu. Fel rhan o hyn, fe allai Llywodraeth Cymru ystyried dal cyllid yn ôl oddi wrth Awdurdodau Lleol os na fydd amllder yr amodau ar hawliadau grant yn gwella.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi tracio'r achosion o amodi neu addasu hawliadau grant o fewn awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ei gofynion a'i chyfarwyddiadau ar gyfer ardystio grantiau i sicrhau eu bod yn parhau'n addas. Mae fformat diwygiedig ar gyfer ardystio archwiliadau wedi'i ddatblygu ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n dangos diffyg cydymffurfio'n fwy eglur.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi sesiynau hyfforddi i swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd ardystio archwiliadau a'r prosesau sy'n gysylltiedig. Daeth dros 30 o swyddogion i'r sesiwn. Roedd yr hyfforddiant yn trafod

perthnasedd amodau a'r camau y mae Llywodraeth Cymru i'w cymryd pan roddir amodau ar dystysgrifau archwilio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â CLILC i sicrhau bod achosion lle y mae amodau'n cael eu gosod ar hawliadau grant yn digwydd yn llai aml. Yn ogystal â hyn, mae CLILC wedi nodi arferion da ac wedi datblygu tudalen we ar grantiau fel dull ychwanegol o hyrwyddo'r arferion gorau a chyfeirio at y gefnogaeth a'r help sydd ar gael i ymarferwyr.

Mae CLILC yn cydweithio â CIPFA hefyd i ddatblygu a darparu hyfforddiant addas ar reoli grantiau i swyddogion llywodraeth leol.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 12

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn deialog gyda CLILC tuag at ostyngiad yn amlder yr hawliadau grant gan yr Awdurdodau Lleol sy'n cael eu hamodi. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod CLILC:

– yn mynd ati i rannu'r arferion gorau;

– yn helpu'r awdurdodau gwael eu perfformiad; ac

– yn sicrhau nad yw'r awdurdodau hynny (yn arbennig yn y chwarter o'r awdurdodau sydd â'r gyfradd uchaf o amodau ar eu hawliadau grant a'u ffurflenni) yn arwain ar hawliadau grant rhanbarthol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Ymateb yn cyfuno ag Argymhelliad 11. Gweler y cynnydd a nodir uchod.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 13

O gofio'r angen am gymesuredd a phrosesau caffael priodol, rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei thelerau a'i hamodau ynglŷn â grantiau a mathau eraill o gyllid, ofyniad bod rhaid i'r sefydliad sy'n derbyn y cyllid gymryd rhan yn y Fenter Dwyll Genedlaethol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae templed llythyr dyfarnu safonol Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddiwygio i gynnwys y gofyniad i dderbynwyr grant gymryd rhan yn y Fenter Dwyll Genedlaethol neu weithgareddau gwrth-dwyll eraill pan fydd gwahoddiad iddynt wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru i gynnwys rhagor o fathau o gyrff a ariennir gan y cyhoedd yn y Fenter Dwyll Genedlaethol. Mae trafodaethau diweddar wedi ystyried hyd a lled cynnwys cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 14

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru alluogi hyfforddiant achrededig parhaus i reolwyr grantiau. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro pa mor effeithiol yw'r rheolwyr grantiau wrth roi'r hyfforddiant ar waith.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu a darparu ystod eang o fodiwlau hyfforddi i Reolwyr Grantiau, gan gynnwys hyfforddiant cyfrifiadurol a gweithgareddau hyfforddi wyneb yn wyneb. Mae modiwlau e-ddysgu wedi cael eu datblygu i uwch staff a rheolwyr grantiau ar brosesau a gweithdrefnau grantiau, ac i ddefnyddwyr y system TG grantiau ynghylch pwysigrwydd defnydd sy'n gywir ac yn cydymffurfio. O ganlyniad cafodd dros 2000 o staff hyfforddiant grantiau. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau nawr wedi dechrau darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar draws chwe swyddfa yng Nghymru i ehangu ac i ddatblygu ar y wybodaeth yn y modiwlau e-ddysgu. Roedd hyfforddiant ar Ffurflenni Cais, Monitro a Gwerthuso wedi dechrau yn Ionawr 2014. Mae'r galw am yr hyfforddiant wedi bod yn dda iawn; ar gyfer y gyfran gyntaf o hyfforddiant, roedd mwy na'r nifer roedd modd eu derbyn wedi gofyn am gael dod i 18 o'r 25 o ddigwyddiadau a drefnwyd, a oedd yn golygu bod angen trefnu modiwlau ychwanegol. Mae datblygu modiwlau wyneb yn wyneb ar Weithio gyda'r Trydydd Sector, Safonau Gofynnol, Aseidiadau Risg a Threfniadau Cyllido yn cael eu datblygu a byddant yn dechrau cael eu cyflwyno ym Mawrth 2014.

Mae effeithiolrwydd a chyfradd cwblhau pob modiwl yn cael eu monitro'n ofalus i helpu i asesu unrhyw ofyniad ar gyfer gwella'r hyfforddiant yn y dyfodol.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 15

Rydyn ni'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid a roddir ar ffurf grantiau Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ategu deilliannau sy'n gyson â'i hamcanion polisi strategol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae templed llythyr dyfarnu safonol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gofyniad am ddiffinio allbynnau a chanlyniadau'n glir yn y cam cymeradwyo ac am eu cynnwys yn atodlenni'r llythyr. Bydd angen monitro'r allbynnau a chanlyniadau hyn drwy gydol cyfnod y grant ac mae'n ofynnol bod rheolwyr grant yn gwerthuso effeithiolrwydd y cyllid ar sail amcanion polisi ar lefel y grant unigol a lefel y rhaglen grant.

Statws

Wedi'i gwblhau.

ATODIAD 3

PCC – Rheoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Terfynol – Argymhellion a Chynnydd – Mehefin 2013

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr holl argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mewn adroddiad grantiau blynyddol:

- sut y cafodd grantiau unigol eu hadolygu yn ei Hadolygiad Rheoli Grantiau;
- pa opsiynau ariannu eraill a gafodd eu hystyried;
- pa sail resymegol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr opsiynau ariannu mwyaf effeithiol ym mhob achos;
- sut y bydd yn parhau i fonitro cynnydd pob Adran o ran gweithredu argymhellion ei hadolygiad; a
- sut y mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae cyrff allanol (pa un a ydynt yn gorff ymbarél sy'n cynrychioli sector, neu'n dosbarthu arian fel noddwr arweiniol ar brosiect) yn rheoli'r ffordd y caiff arian ei ddsbarthu i gyrff eraill.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth allweddol a argymhellwyd gan y PCC.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog gyda Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA a CLILC wrth ddatblygu canllawiau clir i Awdurdodau Lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried rhychwant eang o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â CLILC gyda golwg ar hyfforddiant a rhannu profiad sy'n ymwneud â mecanweithiau ariannu a safonau gofynnol. Mae wedi darparu safonau gofynnol a chanllawiau i CLILC i fynd â'r argymhelliad hwn rhagddo a'i galluogi i ddsbarthu arfer da. Mae gwefan CLILC yn darparu canllawiau ar ddulliau dyrannu cyllid gwahanol ac mae'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer

Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru yn cynnwys adran newydd ar gomisiynu a modelau cyllido yn ogystal â chyngor i swyddogion a darpar ymgeiswyr am gyllid.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw'r Cod Ymarfer ar ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei dorri, a'i bod yn nodi achosion o'r fath yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Rydym yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf o'r fath erbyn mis Rhagfyr 2013 fan hwyraf.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau prosesau a gweithdrefnau i gael mynediad a monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer sy'n cynnwys hapwiriadau prosesau grant ac ymwneud rhagweithiol gyda datblygu grantiau i'r Trydydd Sector. Bydd cynnydd gyda'r gweithgarwch hwn yn y dyfodol yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cynnwys unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'i thempled talu ymlaen llaw yn ei hadroddiad blynyddol ar grantiau a'i bod hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth amdanynt.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae diweddariad am ddefnyddio'r templed Talu Ymlaen Llaw yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn, fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n aros fel y cofnodwyd o'r blaen ac ni roddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw faterion ynghylch ei ddefnyddio.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gynyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel un pwynt cyswllt lle ceir cyngor ar geisiadau am arian. Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys datblygu'i gwefan gyhoeddus.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hybu a hysbysebu rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn fewnol ac yn allanol. Mae wedi ymgysylltu'n weithredol â derbynwyr cyllid i dynnu sylw at ei rôl yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer cyngor ar geisiadau am gyllid. Mae'r ymgysylltu ychwanegol hwn wedi cynnwys diwygio a gwella tudalennau

gwe cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyllid grant. Cafodd y tudalennau diwygiedig eu lansio ddiwedd 2013 ac maent ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/funding/grants/?skip=1&lang=cy>

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau, ac ar gyfer rhoi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith.

Y Cynnydd Diweddaraf

Cwblhawyd gwerthusiad o'r dewisiadau a oedd yn argymell mai SAP Grantor oedd y dewis a oedd yn cael ei ffafrio. Er mwyn cwrdd â'r holl anghenion, bydd angen defnyddio'r feddalwedd hon o fewn system SAP cyllid a chaffael ehangach Llywodraeth Cymru. Mae achos busnes ar gyfer y datblygiad ar waith a bydd penderfyniad ynghylch y buddsoddiad, gan gynnwys yr amserlen yn cael ei wneud yn ystod chwarter cyntaf 2014. Yn y cyfamser, caiff gwelliannau tymor byr eu gwneud i'r system talu e-Grants bresennol.

Yn ogystal â hyn, mae cyfleuster i rannu gwybodaeth ar gyfer diwydrwydd dyladwy wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith gan ddefnyddio'r systemau presennol ac mae'r ddarpariaeth o wybodaeth reoli ar gyfer grantiau'n cael ei gwella drwy drosglwyddo rhagor o gynlluniau grant Llywodraeth Cymru i'r system e-Grants cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Statws

Camau wedi'u cychwyn ac yn parhau.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd o ran:

- rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ein hadroddiad interim ac adroddiad Rheoli Grantiau 2011 Swyddfa Archwilio Cymru ar waith.
- newid ei ffordd strategol o ymdrin â rheoli grantiau, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel un corff yn ei pherthynas â chyrrff allanol sy'n cael arian cyhoeddus.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru ar ymateb i'r argymhellion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gwblhau ei deialog â'r Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, WCVA a chyrrff priodol eraill i ddatblygu, cynhyrchu a gweithredu telerau cydweithio ar gyfer cyswllt rhwng gwahanol gyrff sy'n darparu grantiau sy'n arian cyhoeddus.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae telerau ymgysylltu drafft wedi cael eu datblygu, eu trafod gan y Grŵp Llywodraethu Da a llunnir fersiwn terfynol ddechrau 2014. Mae'r gwaith hwn ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2014.

Statws

Yn parhau

Argymhelliad 9

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, law yn llaw â datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, yn datblygu fframwaith clir a chymesur i benderfynu ar y risg sydd ymhlyg mewn darparu arian cyhoeddus i gyrff allanol unigol.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae safonau gofynnol ar gyfer rheoli grantiau wedi'u rhoi ar waith sy'n pwysleisio'r angen am gymesuredd. Mae'r safonau gofynnol hyn yn cynnwys yr angen i asesu risg. Mae canllawiau ar risg wedi'u datblygu a'u dosbarthu i swyddogion ac mae hyfforddiant ar risg yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyflwyno ddechrau 2014.

Statws

Yn parhau

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull o ddwysáu ei threfniadau monitro, mewn ymateb i bryderon penodol yn ymwneud ag afreoleidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu, a hynny'n cynnwys pan roddir 'mantais yr amheuaeth' i sefydliad.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gadw cofnodion mewn ffordd gywir a phriodol ar y cyd â phrosesau monitro sy'n gweddu i'r sefyllfa sydd wedi peri pryder. Yn ogystal â hyn, bydd y broses newydd ar gyfer diwydrwydd dyladwy, a gyflwynwyd yn Hydref 2013, hefyd yn hwyluso dulliau effeithlon o rannu gwybodaeth am gyrff allanol.

Weithiau bydd Llywodraeth Cymru yn nodi neu'n cael ei hysbysu am bryderon penodol ynghylch sefydliad neu unigolyn. Os gallai hyn effeithio ar sefydliadau allanol eraill sy'n darparu cyllid grant, yna bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â chyrrff perthnasol sy'n bartneriaid i ni, ee WCVA, CLILC.

Bydd hapwiriadau cyson yn sicrhau bod adrannau'n cydymffurfio â chanllawiau a gweithdrefnau. Bydd unrhyw bryderon a nodir drwy'r broses hon yn cael eu datrys drwy'r broses ddatrys fewnol sy'n cael ei rheoli gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymhell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sy'n cael grant roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau o bwys ymysg ei ymddiriedolwyr (er enghraifft, fod Cadeirydd neu draean neu fwy o'r ymddiriedolwyr wedi ymddiswyddo), am fethiant arwyddocaol i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo, gan roi eglurhad digonol i egluro'r cyfryw newidiadau.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau i helpu swyddogion i ddeall pa gamau i'w cymryd pan fyddant yn cael gwybod am newidiadau o ran ymddiriedolwyr cyrff a gyllidir.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 12

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth gymesur i oblygiadau arwyddion rhybuddio posibl yng nghyswllt rheoli grantiau - megis newidiadau o bwys ymysg ymddiriedolwyr sefydliad, methiant i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo - gan gasglu gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn (er enghraifft, defnyddio cyfweliadau ymadael).

Y Cynnydd Diweddaraf

Yn yr un modd ag Argymhelliad 11 uchod, mae'r newidiadau yn y Rhestr o Ddigwyddiadau Hysbysu yn nhemped y llythyr dyfarnu safonol yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymchwilio i faterion sy'n dod i'w sylw ac, os yw'n briodol, terfynu'r arian grant. Yn yr un modd, mae'r canllawiau a nodwyd uchod yn delio â'r digwyddiadau posibl hyn.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi gofyniad ar bob corff sy'n cael grant i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw achosion pan gaiff y gofynion yn nogfen lywodraethu'r sefydliad ynglŷn â chyfarfodydd ymddiriedolwyr eu torri, gan roi esboniad digonol o hynny.

Cynnydd

Wedi'i drafod yn yr ymateb i Argymhelliad 11.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 14

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chyfrifoldeb cymesur ymddiriedolwyr yn y gofynion ynghlwm wrth gyllid allanol (yn cynnwys arian grant). Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys manylion ynghlwm â:

- yr amgylchiadau penodol pryd y dylai pryder am lywodraethiant sefydliad gael ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru;
- y dull priodol er mwyn mynegi pryder am lywodraethiant sefydliad wrth Lywodraeth Cymru.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu gwybodaeth am dempled y llythyr dyfarnu safonol sydd wedi'i chynnwys ar y tudalennau am gyllid grant ar ei gwefan gyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon yn egluro cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ac yn cyfeirio at yr amgylchiadau a'r mecanweithiau ar gyfer mynegi pryderon ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus gan sefydliad a'i drefniadau llywodraethu.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru nawr yn disgrifio'r sefyllfaoedd a fyddai'n arwain fel arfer at roi hysbysiad ffurfiol fel yr eglurir yn yr ymateb blaenorol.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 15

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod - er bod manteision yn gallu deillio o ddefnyddio cyrff ymbarél - y bydd unrhyw agwedd o reolaeth wael yn unrhyw un ohonynt yn arwain at fwy o risg ac ôl-ffeithiau difrifol posibl i gyrff eraill sy'n dibynnu ar gefnogaeth (ariannol neu fel arall) gan y cyrff hyn. Pan fydd yn defnyddio corff ymbarél, dylai Llywodraeth Cymru ddatgan y rhesymau am ei ddefnyddio yn glir ac yn gyhoeddus.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mewn datganiad llafar ar 12 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gynigion a oedd yn deillio o'r ymgynghoriad diweddar. Ailddatganodd gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith Trydydd Sector integredig yng Nghymru, gan gynnwys WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol ond cynigodd y dylid cyflwyno dimensiwn rhanbarthol i'w gwaith yn ystod 2014. Mae'r cynigion hyn nawr yn mynd rhagddynt drwy drafodaeth gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'r cyrff seilwaith eu hunain. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried drachefn y berthynas rhwng y cyrff seilwaith a chyrrff ymbarél sy'n fwy arbenigol. Mae grŵp mewnol, trawsadrannol hefyd wedi cael ei greu yn Llywodraeth Cymru i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector a sicrhau bod y berthynas rhwng cyrff seilwaith ac ymbarél yn cael ei deall yn ehangach.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 16

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae wedi'i gyflwyno ar gyfer Rheolwyr Grantiau.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir i reolwyr grant drwy fodiwlau hyfforddi'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cael ei werthuso, a pharheir i wneud hynny. Mae mwy o fanylion am y cynnydd yn yr adroddiad hwn (paragraffau 3.19 i 3.24).

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 17

Rydym yn argymhell, fel system arfer da, y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i ddatgelu naratif adroddiad i bartïon allanol, fel bod modd ei wirio o ran cywirdeb ffeithiol, pe bai gofyn iddi ymgymryd ag adolygiad tebyg.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae prosesau priodol wedi cael eu gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r argymhelliad hwn gyda naratif adroddiadau drafft nawr yn cael ei rannu.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 18

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi'n glir ac yn benodol ei rhesymeg am roi terfyn - neu gwtogi'n sylweddol - ar yr arian y mae'n ei roi i unrhyw sefydliad sy'n cael grant, cyn i arian y sefydliad hwnnw gael ei derfynu (neu ei gwtogi'n sylweddol). Dim ond i'r sefydliad dan sylw y byddem yn disgwyl i'r rhesymeg hon gael ei darparu fel arfer.

Y Cynnydd Diweddaraf

Mae prosesau priodol wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r argymhelliad hwn.

Statws

Wedi'i gwblhau.

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Director General, Finance and Corporate Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar, AM
Chair – Public Accounts Committee

2 June 2014

Dear Mr Millar

Report of the Auditor General for Wales – European Union Structural Funds 2007-2013

I am writing in response to your letter of 7 May about the Public Accounts Committee consideration of the Auditor General for Wales' report on the European Union Structural Funds 2007-2013 (published 24 April 2014). The Committee requested a response from the Welsh Government to the Wales Audit Office (WAO) recommendations. In addition, the Committee also requested responses to the Auditor General's recent reports on public funding for Penmon Fish Farm and the Cywain Centre. I am pleased to confirm that all of the recommendations contained within these three reports have been accepted. The progress of the Welsh European Funding Office (WEFO) in implementing the recommendations of each report is summarised below.

European Union Structural Funds 2007-2013

This was a generally positive report and it picked up on a number of points that have been raised previously. Four recommendations (R3[a], R6[a], R7[c] & R12[a]) have already been implemented in full. A further three have been partially implemented (R1, R4[b] & R7[b] and work on these is continuing. The remaining recommendations will either be fully implemented by the end of 2014 (subject to the approval by the European Commission of the UK Partnership Agreement for the 2014 – 2020 funding period and the individual Operational Programmes for Wales) or, for those relating to the monitoring of operations, will be progressed as the implementation of the new Programmes gets under way.

Public Funding of Penmon Fish Farm

We accept all the recommendations from the report. The events are some time in the past and the control environment has been strengthened significantly over the intervening period. The issues raised have now been addressed.

Recommendation 1 is that grant recipients be required to comply with UK law. The Welsh Government highlights key statutory requirements and obligations in its funding agreements but notes that the scale of this requirement is such that it will not be possible for the Welsh Government to monitor compliance across all areas as a matter of routine.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
Cyfaalen y pecyn 74
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823494
michael.heartly@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Recommendation 2 is accepted and WEFO's management verifications have been extended to cover transactions between a grant recipient and a supplier that is a related company. For example, testing transactions between the related companies for reasonableness or treating the related companies as a single entity when testing supplier expenditure.

Recommendation 3 is accepted. WEFO has put in place arrangements to coordinate the provision of expert advice from internal and external sources (e.g. technical and specialist advice on bio-sciences, marine sciences etc) to ensure that project proposals are set up effectively, represent added value and are technically feasible.

Recommendation 4 is accepted. The Grants Centre of Excellence project has already strengthened processes across the Welsh Government for communications on grants management.

Public Funding of Cywain Centre

Recommendation 1 reflects Recommendation 4 from the Penmon Fish Farm report and is accepted. Action is being taken to strengthen processes in line with the Grant Centre of Excellence project.

Recommendation 2 is also accepted, whilst recognising that a clear legal basis will be required for taking the kind of steps proposed. The current Structural Fund regulations (Article 57 of EC Regulation 1083/2006) requires investments in infrastructure and productive investment to be safeguarded for 5 years from the date of completion. Further work is being undertaken to identify the most appropriate and practical approach to extending this protection. This could mean, for example, requiring a legal charge on grant funded assets in the grant offer letter to ensure that the assets continue to be used for the purpose for which they were funded. On balance, we agree that the need to protect public investments means that this should be done, but we acknowledge that some beneficiaries would make a counter argument, saying that this would restrict their use of that asset to secure additional funds and make further investments. The exact nature of the controls that might be appropriate will vary depending on the nature of the project.

Additional Issues

To help in the Committee's consideration of the report before its meeting on 12 June, it has also requested that the Welsh Government address the following issues. Each issue is therefore accompanied by a Welsh Government response.

- **An update on the Welsh Government's approach to setting ESF targets for the new programming round including details of work being undertaken to ensure that targets are appropriately challenging.**

Response:

All targets are set and agreed with the Commission either as part of the negotiation of the Programmes at the outset or during subsequent programme modifications. Our proposals for the 2014-2020 ESF Programmes will see an even greater emphasis on individuals who are at most at risk of poverty, exclusion and disadvantage. The challenge of helping those at greatest disadvantage in the labour market will of course need to be reflected in setting targets for the next round of Programmes. Targets will be negotiated on the basis of historical performance data for Structural Fund and other public investment programmes, drawing on National Statistics ~~and the Welsh Government and the~~

European Commission share an interest in agreeing stretching but realistic targets which will demonstrate good value for money in the use of ESI Funds. It should also be noted that the new programmes will have a stronger emphasis on results, including the use of a Performance Reserve mechanism to reward or penalise programmes for over or under performance respectively.

- **Action that the Welsh Government is taking to improve performance on these cross-cutting themes, both for the final period of the 2007-2013 programmes and for the 2014-2020 programmes.**

Response:

WEFO is taking a number of specific actions to address the issues identified:

- Completion of intervention logic tables by applicants, demonstrating precisely how the operation (project) outputs and outcomes and activities will align with stated and specific programme objectives and achieve on all identified Cross Cutting Theme (CCT) indicators.
 - The CCT indicators for the 2014-2020 programmes will be more closely aligned with mainstream priority level activity, reducing the requirement on beneficiaries (sponsors) to deliver separate activity to delivery CCT objectives.
 - Training workshops on the integration of the CCT's in the 2014- 2020 programmes are being delivered for WEFO staff and those delivering operations. Training needs in this area will be regularly reviewed throughout the life of the programmes.
 - In developing the new programmes, emphasis has been on the need for beneficiaries to give more detailed plans on how their activity will contribute to the CCTs.
 - The CCT Team has been expanded and will have a broader remit across all European Structural & Investment (ESI) funds, including rural and maritime programmes, and will be better able to identify needs and opportunities.
 - WEFO will continue to share good practice examples on CCT integration and encourage operations struggling with their CCT commitments to learn from others.
-
- **What monitoring arrangements the Welsh Government has in place to determine the extent of larger companies setting up small scale bases in Wales and how procurement processes define a Welsh-based company.**

Response:

Procurement legislation prohibits discrimination on the basis of supplier location. Therefore, the procurement process would not necessarily favour any business setting up a small-scale operation in Wales. For the purposes of monitoring, indigenous Welsh businesses are identified on the basis of Companies House records. In the context of Community Benefits measurement, Wales based businesses are defined as those who perform a significant part of the project in question from an office based in Wales, therefore having a greater prospect of employing and paying people who reside in Wales.

In respect to the Structural Funds, the Welsh Government collects details on those organisations which obtain procurement contracts. Using current data from the 2007-2013 programmes, the private sector has been awarded 60% of all procured contracts. In 2011, WEFO undertook an exercise to establish whether companies benefiting from the procurement of EU projects were a Welsh-based company (wholly based within Wales); a

company with a Welsh Presence (for example a national company that has a presence in Wales); or a company that is based outside Wales (typically national or international companies). This research found that there were a total of 1431 contracts worth £700k, with 69% of these going to Welsh Companies and 13% to companies with a Welsh Presence. WEFO plans to repeat this research exercise later in 2014.

- **A) The Committee is interested in any other measures of prosperity that the Welsh Government may be able to provide or point to that compares the impact of Convergence Programme funding in Wales with the impact of the equivalent funding in other EU regions.**
- **B) Any evidence that the Welsh Government may have to quantify the possible impact of out commuting.**

Response:

Gross Domestic Product (GDP) or Gross Value Added (GVA) is used by the European Commission to determine Structural Funds allocations (which have already been set for the 2014–2020 period) and is a measure of the economic activity taking place within an area. The measure can be particularly misleading in the West Wales & the Valleys (WW&V) region which experiences large out-commuting flows and can depress the GVA estimates, as recognised by Eurostat.

To measure the success of economies it is important to look at a basket of indicators – for example, employment rates and income levels, which particularly matter in people’s well being. Here, our performance is better and since the late 1990s there has been a marked and sustained closing of historical gaps between Wales and the UK. Before devolution, the employment rate in Wales was typically 5-6 percentage points below that for the UK. Over the last few years the gap has generally been less than 3 percentage points, and even less than this over the more recent past. Since 1999, employment in Wales has increased by 157,000 or 13 per cent compared to a 12.2 per cent increase for the UK as a whole.

With disposable income a better indicator of living standards than GDP, Wales compares well or performs better than it does on GDP relative to the EU (based on Eurostat figures for disposable income per capita at purchasing power standard based on final consumption per inhabitant for 2010).

In terms of measuring the potential impact of out commuting across West Wales and the Valleys, the socio-economic analysis undertaken in preparation for the 2014-2020 programming round found that overall GVA per head between 2009 and 2011 was approximately £2,100 less than the average for Wales as a whole. Analysis of this gap in more detail revealed that 25% - 30% of the overall gap is explained by residents of West Wales and the Valleys commuting outside the area for work - GVA created by net out commuters is not attributed to the Programme area.

Yours sincerely



Michael Hearty
Director General, Finance & Corporate Services



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

18 Rhagfyr 2013
www.wao.gov.uk

Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon



Tudalen y pecyn 78

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alastair McQuaid gyda chymorth gan Ian Hughes, Ben Robertson, Nick Davies a Chris Pugh, o dan gyfarwyddyd Paul Dimblebee.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilyddwr i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfi aeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Rhagfyr 2013



Llun drwy garedigrwydd Anglesey Aquaculture Ltd

	Crynodeb	6
	Argymhellion	7
1	Roedd Prosiect Fferm Bysgod Penmon yn cynnig manteision economaidd ac amgylcheddol posibl yn gyfnewid am fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol, ond cafwyd problemau a arweiniodd at oedi a chynnydd yn y costau	9
	Nod Fferm Bysgod Penmon oedd sefydlu cyfleuster dyframaethu amgylcheddol sensitif yng Ngogledd Cymru, yn seiliedig ar dechnoleg arloesol	9
	Llithrodd amserlen y Prosiect, cynyddodd y costau a'r galw am arian cyhoeddus, ac arweiniodd y problemau at fethiant ariannol y cwmni a gafodd y grant dair blynedd ar ôl i'r Prosiect gael ei gwblhau	10
2	Arweiniodd y Prosiect at greu fferm bysgod sydd wedi arwain at rywfaint o fanteision, ac mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â sŵn a llygredd	13
	Arweiniodd y Prosiect at greu fferm bysgod weithredol, creodd swyddi uniongyrchol gan annog adleoli arbenigedd technegol i Gymru, ond nid yw rhai o'r manteision ehangach eraill a ragwelwyd wedi'u gwireddu eto	13
	Ni chafodd rhai elfennau o'r fferm bysgod eu cwblhau yn unol â'r bwriad gwreiddiol, a thanseiliodd niwsans a llygredd honiadau'r Prosiect ei fod yn amgylcheddol sensitif ac yn gynaliadwy	14
3	Nododd Llywodraeth Cymru risgiau posibl pan gymeradwyodd arian grant ar gyfer y Prosiect, ond ni roddodd amodau grant ar waith a fyddai wedi helpu i liniaru'r risgiau	20
	Bodlonodd cais y Prosiect a'r dogfennau ategol feini prawf y cynllun arian grant	20
	Nododd arfarniad Llywodraeth Cymru o'r cais fod y Prosiect yn uchelgeisiol, yn gostus a bod risg yn gysylltiedig ag ef, ond y gallai sefydlu canolfan arbenigedd yng Nghymru pe bai'n llwyddiannus	20

	Gan mai dyma'r prosiect mwyaf yn y cynllun grant, roedd y penderfyniad i roi arian grant i Fferm Bysgod Penmon yn lleihau'r risg na fyddai arian yr UE yn cael ei wario	23
	Roedd cymeradwyo'r grant yn amodol ar amodau cyffredinol y cynllun ariannu, nad oeddent yn ddigon penodol i adlewyrchu risgiau penodol y Prosiect a'r cymhlethdod technegol	24
4	Nid oedd gwaith monitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n ddigonol ar y risgiau a nodwyd yn ystod arfarniad o'r prosiect	26
	Nid oedd strwythurau a phrosiectau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau sy'n cael arian grant yn cefnogi rheoli prosiectau cymhleth yn effeithiol	26
	Dyfarnwyd contract y prif gyflenwr i gwmni cysylltiedig heb broses dendro gystadleuol, ac ni roddwyd rheolaethau ar waith i liniaru'r risgiau cysylltiedig	27
	Roedd proses cadarnhau ceisiadau am grant WEFO yn canolbwyntio'n bennaf ar wirio bod ffigurau gwariant y Prosiect yn gywir ac fel y cytunwyd, yn hytrach nag ar reoli risg neu werth am arian	28
	Cytunodd WEFO i amrywiadau i ffynonellau ariannu'r Prosiect a'r terfynau amser ar gyfer cwblhau ac roedd yn gyfrifol am fonitro cynnydd, ond nid oedd gwirio cydymffurfiaeth o fewn gofynion rheoleiddio penodol cylch gwaith WEFO	30
5	Mae'r system ariannu ar gyfer grantiau Ewropeaidd wedi cael ei chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cymhleth wedi gwella	32
	Mae rhai o'r gwendidau rydym wedi'u nodi yn y ffordd y rheolwyd y buddsoddiad cyhoeddus yn Fferm Bysgod Penmon gan Lywodraeth Cymru yn dangos rhai o'r diffygion ehangach yn y system rheoli grantiau a oedd yn bodoli ar y pryd	32
	Mae'r system ariannu ar gyfer grantiau Ewropeaidd wedi'i chryfhau	34
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Ffynonellau arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon	36
	Atodiad 2 – Fferm Bysgod Penmon – Amserlen y Prosiect	37

Crynodeb

- 1 Ym mis Gorffennaf 2001 agorodd Bluewater Flatfish Farms Ltd fferm bysgod ar y tir mewn chwarel arfordirol segur ger Penmon ar Ynys Môn. Roedd y fferm yn cynhyrchu torbytiaid a chreodd wyth swydd. Sefydlodd rhiant gwmni Groegaidd Bluewater Flatfish Farms, sef Selonda SA, is-gwmni o'r enw Selonda UK, i ddatblygu fferm bysgod arall, fwy (Fferm Bysgod Penmon) i gynhyrchu lledod Ffrengig yn y chwarel. Costiodd prosiect Fferm Bysgod Penmon (y Prosiect) £11.9 miliwn a chafodd fwy na £5.2 miliwn o arian cyhoeddus.
- 2 Yn wreiddiol bwriadwyd cwblhau'r Prosiect yn 2003, ond cafwyd oedi ac anawsterau, yn rhannol oherwydd problemau gyda'r dechnoleg, ac ni ddaeth yn weithredol tan 2009, gan gynhyrchu draenogiaid y môr. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y Prosiect fel prosiect wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2008 oherwydd bod y cynllun grant Ewropeaidd a ddefnyddiwyd i ddarparu'r arian, yn dod i ben bryd hynny, ac aseswyd bod y Prosiect yn cyflawni ei amcanion, sef gwaith gweithredol a 30 o swyddi. Erbyn diwedd 2009, roedd hawliadau am yr holl wariant cymwys wedi'u cyflwyno a chafodd swm llawn y grant a'r arian cyfatebol a gymeradwywyd eu talu gan Lywodraeth Cymru.
- 3 Fodd bynnag, nid oedd agweddau allweddol ar Fferm Bysgod Penmon yn gweithredu yn unol â'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol, gan gynnwys prif gyflenwad trydan, system hidlo gwlyptir a phibell gollwng elifiant. Ym mis Ebrill 2010, cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn hysbysiad lleihau sŵn i weithredwyr y fferm am y sŵn a oedd yn deillio o eneraduron diesel. Ym mis Hydref 2011 plediodd Selonda UK yn euog i ganiatáu i elifiant a gwastraff cemegol lygru'r amgylchedd naturiol; ac ym mis Chwefror 2012, cafwyd y cyn reolwr-gyfarwyddwr yn euog o fod wedi caniatáu i'r llygredd ddigwydd.
- 4 Ar ddiwedd 2011 cafodd Selonda UK anawsterau gyda'i lif arian ac ym mis Ionawr 2012 gwerthwyd asedau'r cwmni gan y gweinyddwyr am £1.2 miliwn i Anglesey Aquaculture Ltd. Parhaodd perchnogion newydd y gwaith i ffermio draenogiaid y môr ac maent yn buddsoddi i fynd i'r afael â'r problemau technegol ac i sicrhau bod y gwaith yn parhau o fewn rheoliadau amgylcheddol.
- 5 Yn 2012 derbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Aelod arall o'r Cynulliad yn mynegi pryder ynghylch y gwerth am arian yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau yn sgil buddsoddi arian cyhoeddus yn Fferm Bysgod Penmon. Yn dilyn adolygiad cychwynnol, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ymestyn cwmpas yr adolygiad i gwmpasu rôl Llywodraeth Cymru o ran rheoli a monitro'r grantiau i Fferm Bysgod Penmon, a chyhoeddi adroddiad a fyddai'n anelu at ateb y cwestiwn:

A wnaeth Llywodraeth Cymru reoli buddsoddiad cyhoeddus yn Fferm Bysgod Penmon mewn ffordd a sicraodd fanteision y buddsoddiad?



6 At ei gilydd, daethom i'r casgliadau canlynol:

Dilynodd Llywodraeth Cymru ei gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo a monitro arian grant y Prosiect. Fodd bynnag, roedd y gweithdrefnau ar y pryd yn llai trylwyr na'r rhai sydd ar waith yn awr ac nid oeddent yn addas i brosiect mor fawr ac mor gymhleth â hwn ac a oedd â chymaint o risg yn gysylltiedig ag ef. Er bod y prosiect wedi cyflawni ei brif amcanion, cododd problemau pan ddechreuodd y fferm bysgod weithredu a achosodd lygredd a niwsans.

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- a** fod y Prosiect yn cynnig manteision economaidd ac amgylcheddol posibl yn gyfnewid am fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol, ond cafwyd problemau a arweiniodd at oedi a chynnydd yn y costau;
- b** arweiniodd y Prosiect at greu fferm bysgod sydd wedi arwain at rywffaint o fanteision, ac mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â swm a llygredd;
- c** nododd Llywodraeth Cymru risgiau posibl pan gymeradwyodd arian grant ar gyfer y Prosiect, ond ni roddodd amodau grant ar waith a fyddai wedi helpu i liniaru'r risgiau;
- ch** nid oedd gwaith monitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n ddigonol ar y risgiau a nodwyd yn ystod arfarniad o'r prosiect;
- d** mae'r system ariannu ar gyfer grantiau Ewropeaidd wedi cael ei chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cymhleth wedi gwella.

Argymhellion

Gan adeiladu ar welliannau yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau arian grant yn dilyn adroddiadau blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym wedi nodi rhai meysydd i wella arnynt ac rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- A1** Er mwyn mynd i'r afael â'r risg y gallai prosiect sy'n cael arian grant fodloni amodau'r grant ond methu â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ariannol a rheoleiddio neu safonau moesegol busnes, dylai Llywodraeth Cymru:
 - Ymchwilio i ymarferoldeb cynnwys amod cyffredinol mewn llythyrau grant sy'n gwneud cydymffurfio â chyfraith, rheoliadau, trethiant a safonau cynnal busnes y DU, yn un o amodau safonol y grant.
- A2** Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau gwerth am arian a thwyll sy'n gysylltiedig â thrafodion caffael rhwng derbynnydd grant a chyflenwr sy'n gwmni cysylltiedig, wrth ddilysu hawliadau am grant dylai Llywodraeth Cymru:
 - Brofi trafodion rhwng y cwmnïau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn rhesymol, neu drin y cwmnïau cysylltiedig fel endid unigol a phrofi gwariant y chyflenwr.
- A3** Er mwyn lleihau'r risg na fydd prosiectau cymhleth sy'n cynnwys gofynion technegol arbenigol yn cael eu cwblhau yn unol â'r gofynion neu y byddant yn arwain at werth gwael am arian, yn ogystal â defnyddio arbenigedd o fewn Llywodraeth Cymru i gynorthwyo timau monitro prosiectau, dylai Llywodraeth Cymru:
 - Gomisiynu unigolion gydag arbenigedd priodol mewn diwydiant neu arbenigedd technegol priodol i gefnogi timau monitro prosiectau.

A4 Er mwyn gwella'r ffordd y caiff risgiau prosiectau eu rheoli ac effeithiolrwydd camau gorfodi, lle y bo'n briodol, dylai Llywodraeth Cymru:

- Gryfhau cyfathrebu a chydgysylltu rhwng y gwahanol dimau rheoli grantiau yn Llywodraeth Cymru a chyda chyrrff rheoleiddio allanol.

Mae Fferm Bysgod Penmon yn gyfleuster ffermio pysgod môr ar dir sych



Lun drwy garedigrwydd Anglesey Aquaculture Ltd



Rhan 1 – Roedd Prosiect Fferm Bysgod Penmon yn cynnig manteision economaidd ac amgylcheddol posibl yn gyfnewid am fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol, ond cafwyd problemau a arweiniodd at oedi a chynnydd yn y costau

Nod Fferm Bysgod Penmon oedd sefydlu cyfleuster dyframaethu amgylcheddol sensitif yng Ngogledd Cymru, yn seiliedig ar dechnoleg arloesol

- 1.1** Sefydlwyd Fferm Bysgod Bluewater yn 2001 yn Chwarel Dinmoor, ger Penmon ar Ynys Môn i gynhyrchu torbytiaid. Yn seiliedig ar lwyddiant disgwylidig Fferm Bysgod Bluewater, ceisiodd ei rhiant gwmni Groegaidd, Selonda SA, ehangu'r fferm ymhellach yn y chwarel drwy sefydlu fferm lledod Ffregeng fawr (Fferm Bysgod Penmon).
- 1.2** Sefydlodd Selonda SA is-gwmni, sef Selonda UK (y Cwmni), at ddibenion prosiect Fferm Bysgod Penmon (y Prosiect). Ym mis Mehefin 2001, gwnaeth Selonda UK gais i Lywodraeth Cymru¹ am arian cyhoeddus i gefnogi buddsoddiad preifat sylweddol yn y cyfleuster newydd. Rhagamcanwyd y byddai'r Prosiect yn costio cyfanswm o £10.3 miliwn, a byddai £6.2 miliwn o hynny'n cael ei fuddsoddi gan y sector preifat gan ragweld y byddai 30 o swyddi'n cael eu creu.
- 1.3** Disgwylwyd mai'r cyfleuster hwn fyddai'r fferm bysgod ailgylchredeg gaeedig fwyaf yn y byd. Roedd maint a chymhlethdod y gweithgaredd arfaethedig yn cynnig heriau sylweddol a oedd yn gofyn am atebion technolegol dyfeisgar. Roedd y Prosiect yn golygu deori silod mân

a'u tyfu i aeddfedrwydd ar y tir, mewn tanciau mawr dan do yn cynnwys dŵr môr wedi'i drin a oedd yn cael ei dynnu o'r môr drwy bibell mewnfa gan bwmpio dŵr o amgylch y tanciau. Roedd angen monitro lefelau'r ocsigen, y bwyd, yr asidedd, y tymheredd a'r halen yn gyson a'u rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau'r amodau tyfu gorau. Bwriadwyd hidlo dŵr gwastraff ac elifiant, a'u gollwng yn ôl i'r môr ar ôl eu pasio drwy welyau cyrs gwlyptir artiffisial.

- 1.4** Bwriadwyd lleoli'r gwaith arfaethedig mewn ardal a ddynodwyd yn ardal o harddwch naturiol eithriadol mewn rhanbarth lle yr oedd pysgota traddodiadol wedi dirywio a lle roedd diweithdra'n gymharol uchel, sef Gogledd Cymru. Felly, yn ei ddogfennau cais am arian pwysleisiodd y Cwmni pa mor gyfeillgar i'r amgylchedd oedd y Prosiect, o ran effeithlonrwydd ynni, effaith weledol ac allyriadau isel, yn ogystal â'i fanteision economaidd posibl.
- 1.5** Cafodd y prosiect gefnogaeth wleidyddol eang yn lleol ac yn genedlaethol oherwydd y manteision honedig. Nod datganedig y Prosiect oedd datblygu'r gwaith prosesu pysgod cwbl gynaliadwy cyntaf yng Nghymru. Dywedwyd y byddai'r Prosiect yn lleihau'r deunydd organig a gâi ei ryddhau i'r amgylchedd drwy ddefnydd cyfun o dechnoleg ailgylchredeg ac ailgylchu gwastraff maethol drwy greu gwlyptir a reolir.²

¹ At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y term cyffredinol 'Llywodraeth Cymru' oni bai bod ei bod yn briodol nodi adran neu dîm unigol er eglurder.

² Ffurflen gais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd Selonda UK, Mehefin 2001

1.6 Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian grant yr Offeryn Ariannol ar Gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) i'r Prosiect, ynghyd ag arian cyfatebol. Roedd derbynwyr y grant a Llywodraeth Cymru yn gweld y Prosiect fel y cam cyntaf tuag at sefydlu diwydiant newydd yng Nghymru. Gwaith prosesu pysgod, y gwneid cais am arian ychwanegol ar ei gyfer yn ddiweddarach, fyddai'r ail gam. Nododd y llythyr cynnig grant mai'r allbynnau meintiol o'r cam cyntaf, sef y fferm bysgod, fyddai: cefnogi un datblygiad dyfrol a chreu 30 o swyddi. Pwysleisiodd y ffurflen gais am grant, a gyflwynwyd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)³ ym mis Mehefin 2001, ynghyd â dogfennaeth ategol, y byddai'r Prosiect yn:

- a** darparu cyfleuster dyframaethu gan ddefnyddio technoleg ailgylchredeg sy'n arwain y byd a chreu 30 o swyddi;
- b** sefydlu diwydiant pysgota newydd, cynaliadwy ar y tir ar Ynys Môn, mewn cytgordd â'r amgylchedd;
- c** cynhyrchu o leiaf 1,000 o dunelli o ledod Ffrengig bob blwyddyn y rhagwelwyd y byddent, ochr yn ochr â 600 tunnell o dorbytiaid y flwyddyn o Fferm Bysgod Bluewater, yn darparu digon o gynnyrch i ysgogi cyfleuster prosesu pysgod a allai greu 25 o swyddi eraill ynghyd â manteision economaidd;
- ch** creu gwlyptir halwynog 2.5 hectar a fyddai'n darparu cynefin i fywyd gwylt, yn arbennig adar hirgoes, a lleihau'r elifiant a ryddheid i ddyfroedd arfordirol mewn ffordd amgylcheddol sensitif;
- d** cyfrannu at gyflawni datblygiad cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac amcanion adfywio.

Llithrodd amserlen y Prosiect, cynyddodd y costau a'r galw am arian cyhoeddus, ac arweiniodd y problemau at fethiant ariannol y cwmni a gafodd y grant dair blynedd ar ôl i'r Prosiect gael ei gwblhau

1.7 Cafwyd problemau ac oedi gyda'r Prosiect i adeiladu'r fferm bysgod o'r cychwyn. Cerrig milltir arfaethedig y Project, fel y'u nodwyd yng nghais gwreiddiol Selonda UK am grant ym mis Mehefin 2001, oedd:

- a** gwaith paratoi'r safle i ddechrau ym mis Tachwedd 2001 a'r gwaith adeiladu i ddechrau ym mis Rhagfyr 2001;
- b** gwaith cynhyrchu a deorfa i'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2003;
- c** y gwaith cynhyrchu llawn i ddechrau ym mis Ionawr 2006.

1.8 Ni chafodd yr arian grant gwerth £3.6 miliwn ar gyfer y Prosiect ei gymeradwyo tan fis Gorffennaf 2002. Roedd arian y Prosiect o ffynonellau preifat yn cynnwys £3 miliwn gan bartneriaeth cwmnïau pysgota o Wlad yr Iâ, ond ym mis Awst 2002, tynnodd y bartneriaeth o Wlad yr Iâ ei chymorth yn ôl. Ym mis Chwefror 2003, gwrthododd Cyngor Sir Ynys Môn gais am gymorth grant o £50,000 oherwydd bod yr arian ar gyfer hyn wedi deillio o Amcan 1 yr UE, a oedd yn golygu y byddai'r Prosiect wedi mynd y tu hwnt i'r terfynau o ran arian yr UE. Noda llythyr cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd na fyddai arian grant yr UE yn cynyddu pe bai gostyngiad yn yr arian preifat. Er mwyn gwneud iawn am y diffyg, ym mis

³ Mae WEFO yn gyfrifol am reoli amrywiol gynlluniau grant Ewropeaidd yng Nghymru.



Ionawr 2003 cytunodd Llywodraeth Cymru i gynyddu ei arian cyfatebol o £464,494 i £1.5 miliwn⁴, ac ym mis Mawrth cynyddodd Selonda SA ei gyfran o arian preifat.

- 1.9** Ym mis Ebrill 2003 nododd ymweliad â'r safle gan WEFO nad oedd dim gwaith wedi dechrau ar y safle. Gwnaethpwyd rhywfaint o gynydd wedi hynny, ond ym mis Mehefin 2004 cododd WEFO bryderon ynghylch arafwch y cynnydd. Ym mis Mai 2005 ysgrifennodd WEFO at Selonda UK, yn bygwth canslo ac adfachu grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a roddwyd i'r Prosiect os na fyddai'n cael ei gwblhau'n gyflym, er mwyn iddo allu ymrwymo'r arian i brosiect arall i atal arian y cynllun Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd rhag gorfod cael ei ddychwelyd i'r UE. Gwnaeth y Prosiect ragor o gynydd ond roedd yn parhau i fod yn ysbeidiol.
- 1.10** Arweiniodd yr amrywiol broblemau adeiladu a phroblemau technegol eraill a wynebodd y Prosiect hefyd at gynydd yng nghyfanswm y costau a amcangyfrifwyd o £10.3 miliwn i £12.0 miliwn. Cynyddodd yr elfen arian preifat o £6.2 miliwn i £6.9 miliwn yn 2007. Ym mis Mawrth 2006 gofynnodd Selonda UK am daliad eithriadol o £622,500 o arian cyfatebol presennol Llywodraeth Cymru er mwyn talu'r blaendaliadau yr oedd eu hangen ar y contractwyr adeiladu a chafodd yr arian hwnnw.
- 1.11** Roedd WEFO yn ystyried bod cwblhau'r Prosiect yn gyfystyr â hawlio'r swm llawn o wariant cymwys; diwedd y cynllun ariannu; a/ neu gyflawni dangosyddion targed y Prosiect o ran allbynnau yn llawn. Gellid cadw pump y cant o'r grant yn ôl nes i'r dangosyddion targed gael eu cyflawni. Barnwyd bod y Prosiect wedi'i gwblhau'n ariannol ar ddiwedd

mis Rhagfyr 2008, pan ddaeth cynllun ariannu'r Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd i ben. Cyflwynodd Selonda UK yr hawliad terfynol am grant i WEFO ar ddiwedd mis Chwefror 2009 a phan dalodd WEFO y taliad terfynol i Selonda UK ym mis Mawrth 2008 roedd grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd wedi'i dalu'n llawn i'r Prosiect. Dechreuodd y gwaith weithredu ar ddechrau 2009.

- 1.12** Yn dilyn hynny, gofynnodd Selonda UK am ragor o arian grant, yn ogystal â grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ac arian cyfatebol Llywodraeth Cymru yr oedd eisoes wedi'u derbyn. Y grantiau ychwanegol hyn oedd £2,920 o grant y Cynllun Datblygu Bwyd-Amaeth ym mis Mawrth 2009 ar gyfer marchnata a brandio'r Prosiect; £43,432 o grant o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop⁵ ym mis Awst 2009 ar gyfer gwaith llonyddu a didoli pysgod, gyda £31,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru; a £27,000 o grant ychwanegol ym mis Awst 2011 ar gyfer cyflenwad trydan.
- 1.13** Yn ystod 11 mis cyntaf 2011, roedd Fferm Bysgod Penmon wedi gwneud colled net o £1.9 miliwn,⁶ ac roedd Selonda UK Ltd wedi cael anawsterau gyda llif arian ac nid oedd ganddo ddigon o gyfalaf gweithio i dalu am fwyd pysgod ac ocsigen. Heb y nwyddau hanfodol hyn, roedd miloedd o bysgod mewn perygl o farw. Rhoddodd Uned Polisi Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru £40,000 i gyflenwyr ar gyfer cyflenwadau er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau hyn yn ddi-oed. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r Cwmni gael gafael ar ragor o arian preifat ac ym mis Ionawr 2012 cafodd ei ddiddymu a gwerthwyd ei asedau am £1.2 miliwn i gwmni o'r Iseldiroedd, sydd wedi bod yn gweithredu'r fferm bysgod ers hynny, drwy

⁴ Cafodd proses cymeradwyo a thalu arian cyfatebol Llywodraeth Cymru ei rheoli ar wahân i grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, gan yr Uned Polisi Pysgodfeydd.

⁵ Rhoddwyd grantiau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop o dan gynllun yr UE a ddilynodd yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd

⁶ Datganiad Ansoffedd y Diddymwr, Ionawr 2012

is-gwmni, sef Anglesey Aquaculture Ltd.
Yn ogystal, talodd y perchnogion newydd
£0.6 miliwn yn ychwanegol i dalu dyledion a
sicrhau cyflenwadau o fwyd pysgod. Roedd
Fferm Bysgod Bluewater wedi rhoi'r gorau i
weithredu yn 2009. Fe'i diddymwyd ym mis
Tachwedd 2012 a gwerthwyd ei hasedau i un
o is-gwmnïau eraill yr un cwmni o'r Iseldiroedd
ag Anglesey Aquaculture Ltd, am £165,000.

Mae pysgod yn tyfu'n llawn mewn tanciau dŵr môr dan do



Llun drwy garedigrwydd Anglesey Aquaculture Ltd



Rhan 2 – Arweiniodd y Prosiect at greu fferm bysgod sydd wedi arwain at rywfaint o fanteision, ac mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â sŵn a llygredd

Arweiniodd y Prosiect at greu fferm bysgod weithredol, creodd swyddi uniongyrchol gan annog adleoli arbenigedd technegol i Gymru, ond nid yw rhai o'r manteision ehangach eraill a ragwelwyd wedi'u gwireddu eto

- 2.1** Er bod y prosiect wedi cael ei gwblhau'n llawer hwyrach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod i'r Prosiect fod yn llwyddiant. 'In this instance WEFO and European Commission (EC) officials are satisfied that the Project, in line with EC regulations, fulfilled the terms and conditions of grant and the respective outputs which were essentially to create 1 aquaculture farm and 30 gross jobs'.⁷
- 2.2** Cyflawnwyd y targed cyntaf o blith dau darged allbwn y Prosiect yn gynnar yn 2009 pan ddechreuodd y gwaith weithredu. Ail darged allbwn y Prosiect oedd creu 30 o swyddi. Barnodd Llywodraeth Cymru fod y Prosiect wedi cyflawni hyn. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, pan ddaeth y cynllun Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd i ben, nodwyd 17 o swyddi; yn ystod gwaith monitro ym mis Gorffennaf 2009 nodwyd 28 o swyddi; ac erbyn i'r Prosiect ddod i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2009 roedd 33 o swyddi wedi'u creu. Ni wnaeth rhaglen yr Offeryn

Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a'r cynnig grant nodi a ddylai'r rhain fod yn swyddi newydd ac nid yw cyfraith y DU yn caniatáu iddynt gael eu pennu'n swyddi ar gyfer pobl leol yn unig. Mae'n debygol bod nifer fach o swyddi rheoli wedi cael eu rhoi i staff presennol Selonda y tu allan i Gymru, ac mai dim ond rhai o'r swyddi a oedd yn weddill, sef yn swyddi ar gyflogau isel yn bennaf, a roddwyd i bobl leol. Nid yw'n glir faint o'r swyddi yn Fferm Bysgod Penmon a roddwyd i gyn staff y fferm dorbytiaid gyfagos, a oedd wedi creu wyth o swyddi ond a ddaeth i ben yn 2009 ac sydd wedi cael ei defnyddio fel gwaith pacio ers hynny.

- 2.3** Yn ôl gwerthusiad economaidd o'r Prosiect, a gynhaliwyd ar ran WEFO ym mis Gorffennaf 2001, cyfrifwyd mai'r gost fesul swydd i'r pwrw cyhoeddus oedd £137,000 ar sail 30 o swyddi a'r arian cyhoeddus disgwylidig ar y pryd sef £4.1 miliwn. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad fod hyn yn eithriadol o uchel, o gymharu â'r gost gyfartalog fesul swydd o £17,500 a gynhyrchwyd gan y Rhaglen Cymorth Rhanbarthol Dewisol 1991-1995. Casgliad yr arfarniad economaidd oedd bod hyn yn werth gwael am arian. Gan gymryd grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a'r arian cyfatebol gyda'i gilydd, roedd y gost wirioneddol fesul swydd yn fwy na £170,000. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y taliadau grant llai a wnaethpwyd i Selonda UK, a fyddai'n gwneud y gost fesul swydd yn uwch byth.

⁷ Gohebiaeth gan Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cymru mewn ymateb i gwestiwn gan un o Aelodau'r Cynulliad, 5 Hydref 2010.

2.4 Dywedodd Anglesey Aquaculture Ltd wrthym fod y fferm bysgod o dan y perchnogion newydd yn cyflogi 26 aelod o staff ar hyn o bryd, sy'n gweithio sifftiau. Awgryma hyn fod y Prosiect wedi bod yn llwyddiannus o ran creu swyddi cynaliadwy, er bod hynny ar gost uchel. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Prosiect, gyda'i berchnogion newydd, wedi arwain at fusnes hyfyw a chynaliadwy. Dywedodd Anglesey Aquaculture Ltd wrthym ei fod eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith i ymdrin â phroblemau technegol a bod y perchnogion newydd yn credu y bydd hyn yn ei alluogi i weithredu'n foddhaol ac i wneud elw yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Hyd yma, cyfanswm y buddsoddiad fu oddeutu £5.2 miliwn.

2.5 Er bod y gost fesul swydd a grëwyd yn uchel, dylai asesiad o werth am arian ystyried y manteision ehangach eraill a gyflawnwyd hefyd. Un o'r prif resymau dros gymeradwyo'r Prosiect oedd y ffaith ei fod ar flaen y gad yng Nghymru o ran diwydiant dyframaethu newydd yn seiliedig ar dechnoleg. Dengys gwybodaeth o ffeiliau Prosiect Llywodraeth Cymru fod prif gyflenwr y Prosiect, IAT,⁸ wedi sefydlu swyddfa yn y Gaerwen, ger Llangefni ar Ynys Môn i wasanaethu'r contract gyda Selonda i adeiladu'r gwaith, ac yn 2002 hysbysebodd ddwy swydd i reoli'r gwaith adeiladu. Adleolodd IAT ei holl weithrediadau i Langefni yn 2003, gan greu 20 o swyddi, ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi 28 aelod o staff yno. Mae IAT yn parhau i ddarparu gwasanaethau i berchnogion newydd y fferm bysgod. Dengys gwefan IAT brosiectau dyframaethu y mae'n ymwneud â hwy ledled y byd, ac rydym wedi cael ar ddeall gan swyddogion Llywodraeth Cymru bod IAT bellach yn arweinydd diwydiant yng Nghymru o ran arbenigedd ar dechnoleg ailgylchredeg.

2.6 Rhoddodd Selonda UK y gorau i'w gynlluniau ar gyfer cam arall o'r Prosiect, sef gwaith prosesu pysgod, a hyd yma nid oes unrhyw waith dyframaethu arall sy'n defnyddio technoleg ailgylchredeg wedi'i ddatblygu yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod wedi cael nifer o ymholiadau gan ddarpar fuddsoddwyr a allai fod â diddordeb mewn lleoli prosiectau dyframaethu yng Nghymru, gan ddefnyddio technoleg ailgylchredeg, yn arbennig os bydd y fferm bysgod ym Mhenmon yn llwyddo.

Ni chafodd rhai elfennau o'r fferm bysgod eu cwblhau yn unol â'r bwriad gwreiddiol, a thanseiliodd niwsans a llygredd honiadau'r Prosiect ei fod yn amgylcheddol sensitif ac yn gynaliadwy

Arweiniodd problemau'n ymwneud â chael prif gyflenwad trydan digonol ar gyfer anghenion y fferm bysgod at ddefnyddio generaduron diesel swnllyd, gan greu niwsans

2.7 Yn 2001, nododd cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd Selonda UK wariant o £487,000 yr oedd angen cymorth grant ar ei gyfer i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwad pŵer. Roedd angen hyn oherwydd y byddai'r cyswllt presennol â'r prif gyflenwad trydan i'r chwarel, a ddefnyddiwyd i gyflenwi Fferm Ledod Bluewater, yn annigonol i ddiwallu anghenion parhaus y fferm, gofynion y Prosiect ac o ran posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol. Nododd y datganiad amgylcheddol, a baratowyd i gefnogi'r cais am grant a'r cais am ganiatâd cynllunio, y byddai prif gyflenwad trydan yn cael ei gyflenwi drwy

⁸ Defnyddir amryw o enwau wrth gyfeirio at IAT: International Aqua Tech (IAT) Ltd. [Cynllun Busnes 2001 Selonda UK; Adroddiad Blynyddol 2004 Selonda SA]; International Aquaculture Technologies (IAT) Ltd. [dogfennau WEFO]; Intensive Aquaculture Technology (IAT) Ltd [nodiadau caffael WEFO]; Integrated Aquaculture Technology (IAT) Ltd [Datganiad Amgylcheddol 2001 Selonda UK].



linell bŵer newydd a gâi ei hadeiladu fel rhan o'r Prosiect. Byddai hyn yn gofyn am gyswllt wedi'i uwchraddio o 33,000 folt i'r fferm bysgod o is-orsaf Biwmares.

- 2.8** Roedd proses gymeradwyo grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob caniatâd perthnasol fod ar waith cyn cyflwyno'r cais, ond yn yr achos hwn derbyniwyd y cais cyn cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ynys Môn neu drwydded i echdynnu dŵr a gollwng gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd⁹. Caniatodd WEFO yr eithriad hwn er mwyn i broses arfarnu'r prosiect ddechrau gan fod disgwyl i'r broses arfarnu fod yn faith oherwydd natur gymhleth a thechnegol y Prosiect.
- 2.9** Rhoddodd Cyngor Sir Ynys Môn ganiatâd cynllunio ar gyfer y fferm bysgod ym mis Chwefror 2002. Nododd y caniatâd y byddai angen cais ar wahân ar gyfer prif gyflenwad trydan, ond nid oedd cael y caniatâd ychwanegol hwn am gyflenwad trydan yn un o amodau'r caniatâd cynllunio ar gyfer y fferm bysgod. Roedd y caniatâd cynllunio a'r drwydded gollwng gwastraff yn eu lle cyn i'r grant gael ei gymeradwyo.
- 2.10** Cymeradwywyd y cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ym mis Gorffennaf 2002. Nid oedd y llythyr cynnig grant yn nodi y dylai'r pŵer gael ei gyflenwi gan y Grid Cenedlaethol, ond mae'n amlwg mai at y dibenion a nodwyd yn nogfennau'r cais am grant yr oedd y £487,000 o wariant cymwys y Prosiect. Roedd y dogfennau hynny'n nodi cyswllt newydd â'r prif gyflenwad ac yn rhoi amcangyfrif o'r gost o'i sefydlu.

- 2.11** Ym mis Mehefin 2007, nododd Selonda UK fod costau sefydlu'r cyflenwad trydan o'r Grid Cenedlaethol wedi cynyddu i fwy na £1 miliwn. Roedd Selonda UK wedi cael anawsterau o ran cwblhau cytundebau gyda 23 o dirfeddianwyr y byddai llwybr y cyflenwad yn mynd drwy eu tir. Ym mis Hydref 2007 roedd Selonda UK wedi nodi bod y gwaith o gwblhau'r cyflenwad trydan yn debygol o fynd y tu hwnt i ddyddiad cwblhau'r Prosiect sef 31 Awst 2008 a gofynnodd am estyniad i ddyddiad cwblhau'r Prosiect hyd 31 Rhagfyr 2008. Daeth y trafodaethau gyda'r trefeddiannwyr i ben erbyn mis Awst 2008 ac, mewn gohebiaeth gyda WEFO, nododd Selonda UK y byddai'n mynd ati i gynllunio'r gwaith o osod y cyflenwad trydan ond na fyddai'n gallu dechrau adeiladu'r llinellau pŵer tan wanwyn 2009, gan ddisgwyl cwblhau'r gwaith yr haf hwnnw. Yn y cyfamser, gosodwyd y pŵer trydan i bympiau a thanciau'r gwaith, ynghyd ag is-orsaf drydan y bwriadwyd iddi gysylltu â'r prif gyflenwad newydd, a chyflwynodd Selonda UK hawliadau am grant i WEFO am y gwariant cymwys dan sylw.
- 2.12** Roedd y prosiect wedi'i gwblhau'n ariannol ar ddiwedd Rhagfyr 2008 a thalwyd y taliad grant olaf i Selonda UK ym mis Mawrth 2009. Erbyn hynny roedd yr holl wariant cymwys mewn perthynas â'r cyflenwad trydan wedi'i wario a'r grant llawn wedi'i hawlio ac wedi'i dalu. Roedd y taliadau'n seiliedig ar hawliadau a gyflwynwyd gan Selonda UK, wedi'u cefnogi gan ardystiad archwilio. Ar ddiwedd y Prosiect roedd y costau o ran y cyflenwad pŵer wedi mynd uwchlaw'r £487,000 a gymeradwywyd o fewn y Prosiect i fwy na £1 miliwn. Roedd yn ofynnol i Selonda dalu costau ychwanegol cwblhau'r cyflenwad trydan. Fel arfer, petai costau anghymwys yn gysylltiedig â chwblhau prosiect, byddai WEFO yn disgwyl i'r rhain godi yn ystod cyfnod y prosiect ynghyd â

⁹ Erbyn hyn, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am weithrediadau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. At ddbenion yr adroddiad hwn, defnyddir enw'r corff ar pryd.

phob gwariant cymwys. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2008, derbyniodd WEFO na fyddai'r holl wariant anghymwys mewn perthynas â'r cyflenwad pŵer yn cael ei wario cyn diwedd y cynllun Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd. Effaith y gymeradwyaeth hon oedd dileu'r gwaith o gwblhau gosod y llinell bŵer o'r Prosiect.

2.13 Ym mis Mawrth 2009 (ar ôl diwedd y Prosiect ac ar ôl derbyn y taliad grant terfynol) gwnaeth Selonda UK gais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn am y prif gyflenwad trydan, ond tynnodd y cais yn ôl yn ddiweddarach. Roedd amcangyfrifon gan y cwmni ynni o gost creu'r cyswllt a chyflenwi pŵer wedi cynyddu'n sylweddol ac roedd y trafodaethau rhwng y cwmni ynni a Selonda UK wedi methu. Ers hynny, ni chyflwynwyd unrhyw gais cynllunio arall am gyswllt prif gyflenwad trydan newydd.

2.14 Dechreuodd y fferm bysgod weithredu yn gynnar yn 2009 gan ddefnyddio rhywfaint o'r prif gyflenwad pŵer o'r cyflenwad a oedd eisoes yn bodoli. Cafodd hyn ei ategu gan drydan a gynhyrchwyd ar y safle gan eneraduron diesel oherwydd nad oedd y cyflenwad presennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwaith. Rhoddodd Selonda UK wybod i Lywodraeth Cymru am yr anawsterau, yr oedi a'r cynnydd yn y costau'n gysylltiedig â'r prif gyflenwad pŵer a chytunodd WEFO i'r cwmni ddefnyddio generaduron. Hebdynt, ni fyddai'r fferm bysgod wedi gallu dechrau gweithredu. Ym mis Ebrill 2010, yn dilyn cwynion gan drigolion lleol, cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn hysbysiad lleihau sŵn i Selonda UK oherwydd bod sŵn amledd isel o'i generaduron diesel yn achosi niwsans. Mewn ymateb i hynny, cyflwynodd Selonda UK generaduron diesel tawelach a oedd yn cael eu defnyddio'n barhaus i ddiwallu anghenion y gwaith.

2.15 Ym mis Awst 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru £27,000 arall i Selonda UK yn benodol ar gyfer cyflenwad pŵer¹⁰. Gwnaethpwyd y taliad fel taliad rhannol ar gyfer prosiect gwerth £85,000 i ddarparu cyflenwad pŵer cynaliadwy i'r fferm bysgod, i'w gwblhau ym mis Mawrth 2012. Selonda UK fyddai'n darparu'r £58,000 a oedd yn weddill.

2.16 Cymerodd perchnogion newydd y fferm bysgod, Anglesey Aquaculture Ltd, yr awenau ym mis Ionawr 2012 ac, ym mis Mai 2012, cwblhawyd y prosiect i uwchraddio'r prif gyflenwad pŵer presennol i'r chwarel a arferai wasanaethau Fferm Ledod Bluewater. Oherwydd bod Fferm Ledod Bluewater wedi rhoi'r gorau i weithredu ar ddiwedd 2009, mae'r cyflenwad wedi'i uwchraddio'n gallu diwallu anghenion presennol y gwaith, heb y cyswllt 33,000 folt i Fiwmares a heb orfod gweithredu generaduron diesel yn barhaus, ac mae'r rhain wedi cael eu symud oddi ar y safle'n ddiweddar. Mae un generadur diesel yn parhau ar y safle i fod wrth gefn rhag ofn i'r prif gyflenwad pŵer fethu.

Ni chafodd agweddau technolegol a chyfeillgar i'r amgylchedd ar y Prosiect eu cyflawni yn unol â honiadau'r Prosiect, a thorodd y gwaith reoliadau amgylcheddol

2.17 Pwysleisiodd ffurflen gais grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a'r dogfennau ategol mai bach iawn fyddai effaith negyddol y Prosiect ar yr amgylchedd, a nododd y byddai allyriadau elifiant yn cael eu rheoli drwy ddefnyddio technoleg ailgylchreded a thrwy sefydlu system hidlo gwlyptir artiffisial. Byddai'r gwlyptir artiffisial yn cynnwys 2.5 hectar o welyau cyrs halwynog i hidlo all-lif o'r gwaith, a fyddai wedyn yn draenio i'r môr. Yn ôl y cais am grant a'r dogfennau ategol, byddai'r gwlyptir a'r gwelyau cyrs yn cynyddu bioamrywiaeth

¹⁰ Mae'r dogfennau yr ydym wedi'u gweld yn nodi bod y cyllid ychwanegol hwn am gyflenwad pŵer wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog Busnes a'r Dirprwy Weiniog Bwyd a Physgodfeydd, ac wedi'i dalu i'r cwmni pŵer ym mis Awst 2011.



ac yn darparu cynefin i adar hirgoes ac infertebratau. Nodwyd y gwlyptiroedd yn llythyr cynnig grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd fel cost gymwys o £513,000, y gellid hawlio grant ar ei gyfer.

- 2.18** Ym mis Mawrth 2002, dechreuodd Selonda UK ar y broses o gael trwyddedau gan Asiantaeth yr Amgylchedd i echdynnu dŵr o'r môr a gollwng elifiant wedi'i hidlo yn ôl i'r môr. Cyhoeddwyd trwyddedau ym mis Gorffennaf 2002 gan nodi'r pibellwaith ar gyfer derbyn a rhyddhau dŵr, a oedd i ymestyn islaw'r marc dŵr isel. Roedd y drwydded gollyngiadau hon yn pennu gofynion mesur a monitro i sicrhau bod y Cwmni wedi cydymffurfio â'i drwydded mewn perthynas ag agweddau ar elifiant, gan gynnwys cyflwr y llanw, y swm, y cyfansoddiad cemegol a solidau crog. Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd y gofynion o ran dwyster plannu er mwyn i'r gwelyau cyrs weithredu'n effeithiol. Roedd gofynion y trwyddedau'n fwy helaeth a manwl na'r disgrifiadau yn y cais am grant a'r dogfennau ategol.
- 2.19** Nododd adroddiad yn dilyn ymweliad monitro gan WEFO ym mis Mehefin 2006 fod y gwlyptir yn gweithredu'n foddhaol gyda gwastraff o'r Fferm Ledod Bluewater gyfagos. Fodd bynnag, daeth problemau i'r amlwg ar ôl i Fferm Bysgod Penmon ddechrau gweithredu a chynhyrchu symiau a chrynnodiadau mwy o elifiant. Nid oedd system hidlo'r gwaith yn gallu dileu'r gronynnau bach o wastraff pysgod cyn i elifiant gael ei fwydo i welyau cyrs y gwlyptir. Bwriadwyd i'r gwelyau cyrs ddileu gwastraff organig tawdd yn naturiol, nid hidlo solidau. O ganlyniad, cafodd y gwlyptir artiffisial ei dagu gan garthion pysgod, bu farw'r cyrs a throdd y gwelyau cyrs yn ferddwr gan ddechrau drewi. Wedi hynny, roedd system hidlo'r gwlyptir artiffisial yn cynnwys defnyddio sachau hidlo. Nid oedd costau ychwanegol y sachau hidlo yn gymwys o fewn y Prosiect a Selonda UK a dalodd y costau hyn.
- 2.20** Ym mis Awst 2010, ar ôl i'r Prosiect gael ei gwblhau a 15 mis ar ôl i Fferm Bysgod Penmon ddechrau gweithredu, cafodd Asiantaeth yr Amgylchedd gwynion gan y cyhoedd am lygredd o'r gwaith. Ymchwiliodd Asiantaeth yr Amgylchedd i'r cwynion gan erlyn Selonda UK am dorri rheoliadau amgylcheddol, a oedd yn cynnwys gollwng elifiant masnach a chemegau i'r môr yn anghyfreithlon. Yn y dystiolaeth a roddwyd yn ystod yr erlyniad nodwyd nad oedd system hidlo'r gwlyptir yn gweithio'n effeithiol, ac nad oedd systemau ar gyfer mesur a monitro'r gollyngiadau o'r fferm ar waith. Nid oedd y bibell ollwng wedi cael ei hadeiladu yn unol â thrwydded Asiantaeth yr Amgylchedd; yn hytrach na phibell ollwng o dan y dŵr yn ymestyn o'r gwlyptir i'r môr islaw'r marc dŵr isel, roedd pibell fer yn rhyddhau elifiant dros y creigiau. Plediodd Selonda UK yn euog ym mis Hydref 2010 a chafodd ei ddirwyo £50,000. Ym mis Chwefror 2012. Cafwyd cyn reolwr-gyfarwyddwr Selonda UK yn euog o fod wedi caniatáu i lygredd ddigwydd.
- 2.21** Nododd y cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd y byddai effaith weledol y fferm o du'r môr yn cael ei lliniaru drwy adeiladu arglawdd, a fyddai hefyd yn rhwystro unrhyw ollyngiadau o'r cyfleuster rhag cyrraedd y môr. Byddai'r arglawdd yn cael ei wella drwy ei dirlunio a phlannu planhigion, a fyddai'n cynnwys bwnd pridd wedi'i hau â rhywogaethau o blanhigion arfordirol gyda'r nod o wella cynefinoedd porthiant a magu i rywogaethau adar. Fodd bynnag, ni chafodd y gwaith tirlunio a phlannu ei gynnwys yn y cais fel gwariant a fyddai'n gymwys i gael cymorth grant, ac ni ddarparwyd arian grant ar ei gyfer. O ganlyniad, ni chafodd y gwaith ei gwblhau yn unol â'r hyn a ddisgrifiwyd.

2.22 Ym mis Mawrth 2009, gafodd Selonda UK grant o £2,920 gan Lywodraeth Cymru tuag at gost cynhyrchu deunyddiau marchnata. Roedd deunyddiau hyrwyddo Selonda yn cynnwys llyfrynnau'n pwysleisio nodweddion gwyrdd y Prosiect ac yn cyfeirio at system hidlo'r gwlyptir. Cynhyrchwyd y deunyddiau yn fuan ar ôl i'r fferm bysgod ddechrau gweithredu a chyn i Selonda UK gael ei erlyn am dorri rheoliadau amgylcheddol. Fodd bynnag, tanseiliwyd nodweddion gwyrdd y Prosiect wedyn yn sgil defnyddio generaduron diesel ar y safle, methiant systemau hidlo'r gwlyptir i brosesu elifiant yn effeithiol, a rhyddhau cemegau i'r môr.

2.23 Ym mis Medi 2012, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd drwydded gollyngiadau newydd i berchnogion newydd Fferm Bysgod Penmon, sef Anglesey Aquaculture Ltd. Roedd telerau'r drwydded newydd yn cynyddu'r elifiant y gellid ei ollwng bob dydd ond yn lleihau'r llygryddion a ganiateid yn yr elifiant o gymharu â'r drwydded wreiddiol. Mae'r drwydded newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr y gwaith wneud gwaith gwella a fydd yn cynnwys adeiladu pibell ollwng. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym bod Anglesey Aquaculture Ltd yn gweithio'n agos â hwy i fynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at y llygru, gan gynnwys gwella'r prosesau hidlo yn y gwaith, uwchraddio'r gwlyptiroedd a gosod y bibell ollwng. Fodd bynnag, dywed Asiantaeth yr Amgylchedd wrthym fod materion daearegol yn achosi problemau gydag adeiladu'r bibell ollwng o dan y dŵr ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae elifiant yn parhau i gael ei ollwng dros y creigiau o bibell uwchlaw llinell y llanw ond caiff ei chynnwys ei reoli a'i fonitro gan y gweithredwyr a'i wirio'n gyson gan Asiantaeth yr Amgylchedd.



Mae'r fferm bysgod yn defnyddio technoleg ailgylchredeg datblygedig er mwyn cynnal amodau tyfu perffaith



Llun drwy garedigrwydd Anglesey Aquaculture Ltd

Rhan 3 – Nododd Llywodraeth Cymru risgiau posibl pan gymeradwyodd arian grant ar gyfer y Prosiect, ond ni roddodd amodau grant ar waith a fyddai wedi helpu i liniaru'r risgiau

Bodlonodd cais y Prosiect a'r dogfennau ategol feini prawf y cynllun arian grant

3.1 Roedd proses gwneud cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd y CE yn cynnwys gwiriadau gan WEFO bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u cwblhau'n gywir, a bod y Prosiect yn bodloni meini prawf y cynllun arian grant Ewropeaidd¹¹, sy'n gysylltiedig ag amcanion polisi'r UE. Rhoddodd WEFO gyngor cyn gwneud cais i ddarpar ymgeiswyr am arian Ewropeaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y ffynonellau arian mwyaf perthnasol ar gyfer eu prosiect ac yn deall gofynion y cynllun. Roedd cymorth hefyd ar gael gan WEFO i helpu ymgeiswyr i gwblhau dogfennau cais yn briodol. Gwnaethpwyd cais am grant Selonda UK o dan raglen Amcan 1 yr UE, a oedd yn anelu at gynyddu allbwn economaidd. Yn benodol, gofynnodd Selonda UK am gymorth gan yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd o dan Flaenoriaeth 5 (datblygu gwledig a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol), Mesur 9 (cymorth ar gyfer pysgodfeydd a dyframaethu).

3.2 Roedd dogfennau atodol a gyflwynwyd gyda'r ffurflen gais, sy'n rhan o'r cais, yn cynnwys cynllun busnes gyda rhagamcanion ariannol a datganiad amgylcheddol. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys disgrifiadau cyffredinol o'r gwaith a sut y byddai'n gweithredu, yn pwysleisio nodweddion ecolegol ac amgylcheddol y Prosiect, ac yn cynnwys

dyfyniadau o ystod o bolisiau a chyfeiriadau atynt i ddangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth mewn meysydd fel cydraddoldeb, fel sy'n ofynnol gan gynllun grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd. Nid oedd y ffurflen gais am grant na'r dogfennau ategol yn cynnwys manylebau technegol y gwaith na chynlluniau adeiladu ar gyfer y fferm bysgod i ategu honiadau Selonda UK am effaith amgylcheddol y fferm bysgod, gan nad oedd y rhain yn ofynion y cynllun grant. Fodd bynnag, roedd y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod lleol a thrwyddedau gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a oedd yn rhoi mwy o ofynion manwl ar waith adeiladu a gweithredu'r fferm bysgod nag amodau grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd.

Nododd arfarniad Llywodraeth Cymru o'r cais fod y Prosiect yn uchelgeisiol, yn gostus a bod risg yn gysylltiedig ag ef, ond y gallai sefydlu canolfan arbenigedd yng Nghymru pe bai'n llwyddiannus

3.3 Asesodd Llywodraeth Cymru y Prosiect ym mis Gorffennaf 2001. Arweiniodd WEFO yr asesiad a gofynnodd am gyngor gan isadrannau ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adrannau Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, a chafwyd cyngor cyfreithiol allanol i benderfynu a oedd y Cwmni'n gymwys i gael

¹¹ Nod grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, fel y nodir mewn atodiadau i'r llythyr cynnig grant oedd: 'helping achieve a sustainable balance between marine resources and their exploitation; modernising fishing structures to ensure the future of the industry; helping maintain a dynamic and competitive fishing industry and revitalise areas dependent on fishing; improving the supply and exploitation of fishery products'.



arian o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Arweiniodd asesiad technegol y Prosiect at y sgôr uchaf posibl o un (ar raddfa o un i bump) ar addasrwydd i anghenion y rhanbarth. Cafodd agweddau eraill ar y Prosiect hefyd eu sgorio ar raddfa o un i bump a defnyddiwyd cyfanswm y sgoriau hyn i gynhyrchu sgôr asesiad technegol. Roedd ar agweddau hyn yn cynnwys:

- a** yr angen am y Prosiect, gan gynnwys y sail resymegol, y cyfiawnhad, y problemau y mae'n ceisio'u datrys, ei effaith, a chydymffurfiaeth â gofynion statudol a deddfwriaeth cymorth gwladwriaethol;
- b** rheoli a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys y tebygolrwydd y bydd y Prosiect yn cael ei reoli'n dda a'r effeithiau disgwylidig, enw da o ran cyflawni Prosiectau a/neu lwyddiant busnes, y sgiliau a'r profiad priodol, amserlen realistig ac ymarferol ar gyfer cyflawni a chwblhau'r prosiect, strategaeth ymadael glir ac ymarferol, a chynlluniau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiant a'i hyrwyddo;
- c** ychwanegedd, disodli a chyfnwid - darparu gweithgaredd ychwanegol a'r angen am arian cyhoeddus, peidio â disodli busnesau neu weithgareddau eraill sy'n bodoli eisoes, ac integreiddio gyda phrosiectau sefydledig eraill;
- ch** darparu manteision i'r economi wledig ehangach;
- d** mynd i'r afael ag amcanion trosfwaol sy'n ymwneud ag ystyriaethau amgylcheddol, TG a chyfle cyfartal;
- dd** effaith amgylcheddol a chymdeithasol a chynaliadwyedd - cyfraniad cadarnhaol at ansawdd yr amgylchedd, cryfder economaidd a thegwch cymdeithasol.

3.4 Sgoriodd y Prosiect naw ar draws yr agweddau eraill hyn, gan ei roi yn y categori blaenoriaeth uchaf, sef H.¹² Wedi'i gyfuno â'r sgôr anghenion rhanbarthol o un, rhoddodd hyn asesiad technegol cyffredinol o H1 iddo, sef y flaenoriaeth uchaf ar gyfer gymorth grant. Argymhellodd Llywodraeth Cymru yn gryf gymeradwyo'r Prosiect oherwydd, yn ogystal â'r sgôr asesiad uchel, roedd yn adeiladu ar y buddsoddiad blaenorol yn Fferm Bysgod Bluewater ar yr un safle. Roedd yn fuddsoddiad mawr mewn technoleg ailgylchredeg fel rhan o fwriad strategol ehangach i sefydlu Cymru fel arweinydd yn y maes, gyda'r disgwyliad y byddai technoleg o'r fath yn chwarae rhan bwysig yn nyfodol cynhyrchu bwyd.

3.5 Roedd potensial dyframaethu o'r math a ragwelwyd gan y Prosiect wedi cael ei gydnabod yn y diwydiant pysgodfeydd ers peth amser, ond roedd ei ddatblygiad wedi'i lesteirio herwydd y risgiau dan sylw. Roedd Llywodraeth Cymru yn gobeithio y byddai menter lwyddiannus yn annog rhagor o fuddsoddi. Roedd yr arfarniad technegol yn cynnwys sylw i'r perwyl ei bod yn anodd gweld prosiect arall sy'n debygol o gael effaith mor gadarnhaol ar y sector pysgodfeydd yng Nghymru, ar yr amod y caiff ei gwblhau.

3.6 Mae systemau arian grant cyhoeddus yn derbyn lefel uwch o risg gynhenid sy'n gysylltiedig â phrosiectau nag y byddai llifau arian masnachol yn ei goddef, er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach. Un o feini prawf yr arian grant yw na fyddai prosiectau'n mynd yn eu blaenau heb arian grant i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen arnynt. Yn ogystal, yn aml nid yw prosiectau sy'n cael arian grant yn gwneud elw yn y byr dymor. I sicrhau na chaiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio i gynhyrchu elw mawr i'r sector preifat, gall amodau'r grant ei gwneud yn

¹² Y sgôr gyfunol orau yw chwech; y sgôr waethaf yw 30. Defnyddir y cyfanswm i gynhyrchu sgôr ar gyfer addasrwydd ac ansawdd y prosiect wedi fynegi fel uchel, canolog neu isel. Cafodd y Prosiect sgôr o un am yr agweddau ar ddiwallu anghenion, rheoli a chyflawni, a chynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol. Cafodd y Prosiect sgôr o ddaau am yr agweddau eraill.

ofynnol na fydd prosiectau'n gwneud elw am gyfnod penodol yn dilyn taliad olaf y grant.

3.7 Yn ogystal â'r risgiau cynhenid hyn, nododd yr arfarniad a arweiniwyd gan WEFO nifer o risgiau penodol i'r Prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a** Risgiau technegol yn gysylltiedig â dyluniad ac adeilad arfaethedig y cyfleuster - gan gynnwys defnyddio technoleg ailgylchredeg ar y tir nad oedd wedi'i brofi ar y raddfa hon; hidlo drwy wlyptir halwynog, sef system a ddefnyddir ar gyfer dŵr croyw ond nid ar gyfer dŵr y môr; anawsterau posibl gydag iechyd y pysgod a chlefydau'n deillio o ffermio dwys; yr angen am drydan i gynnal gweithrediad parhaus y gwaith.
- b** Risgiau ariannol - gan gynnwys swm sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf, yn arbennig yn ystod dwy flynedd gyntaf y Prosiect, a'r cyfnod ad-dalu maith; costau uchel cynhyrchu; a chynhyrchu ar raddfa fawr sy'n ofynnol i gefnogi'r lefelau refeniw a amlinellir yn y cynllun busnes.
- c** Risgiau'r farchnad - lefelau ansicr o alw am bysgod wedi'u ffermio'n ddwys; cywirdeb y rhagamcanion o'r galw; a chystadleurwydd prisiau.
- ch** Risgiau'n gysylltiedig ag allbwn - y byddai unrhyw swyddi a gâi eu creu naill ai'n swyddi technegol, yn debygol o gael eu llenwi gan bobl o'r tu allan i Gymru, neu'n swyddi heb lawer o sgiliau, ac y byddai'r gost gyffredinol fesul swydd yn uchel iawn.
- d** Risgiau o ran canlyniadau - na fyddai'r elw a'r arbenigedd yn aros yng Nghymru, ac na fyddai gwaith prosesu yn y dyfodol wedi'i leoli'n lleol o bosibl.
- dd** Risg caffael - yn deillio o ymarfer caffael tendr unigol gan y prif gyflenwr.

3.8 Roedd y llythyr cynnig grant yn cynnwys darpariaethau i gwmpasu diffygion mewn arian preifat a chynnydd yn y gost, sy'n helpu i liniaru rhai o'r risgiau hyn. Fodd bynnag, ni nodwyd y risgiau'n deillio o'r ffaith bod cysylltiad agos rhwng y cyflenwr (IAT) a Selonda UK. Hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y swm mawr o arian grant a oedd yn cael ei fuddsoddi mewn un prosiect yn wendid sylweddol arall, ni chafodd y risg hon ei chynnwys yn yr arfarniad. Yn ogystal, ni chafodd yr holl risgiau a nodwyd eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y meini prawf sgorio. Er enghraifft, mae cost allbwn y prosiect fesul uned, megis y gost fesul swydd, yn elfen allweddol wrth asesu gwerth am arian. Er bod hyn yn cael ei gydnabod yn un o risgiau'r prosiect, nid oedd costau allbwn fesul uned yn rhan o'r meini prawf sgorio a ddefnyddiwyd i arfarnu'r Prosiect.

3.9 Ym mis Medi 2003, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, cynhaliodd WEFO adolygiad mewnol rheolaidd o'r Prosiect. Crynhodd adroddiad yr adolygiad sefyllfa'r Project ar y pryd, gan gynnwys y broses gwneud cais, newidiadau i gyllid, arfarniadau economaidd a thechnegol, a hefyd ystyriaethau gwerth am arian. Roedd yr adran ar werth am arian yn cynnwys y canlynol: 'This Project could be viewed as a straightforward grant support to a commercial enterprise... On those kinds of grounds this Project would represent a very low value for money score... The aim here is to support the development of a new high technology industry that could attract further inward investment... With that aim in mind the conventional measures for value for money no longer apply... a comprehensive measure of the risk has been made and the conclusion reached that the Project did represent value for money - at the time of the decision to give full approval.'



Gan mai dyma'r prosiect mwyaf yn y cynllun grant, roedd y penderfyniad i roi arian grant i Fferm Bysgod Penmon yn lleihau'r risg na fyddai arian yr UE yn cael ei wario

3.10 Roedd y risg na fyddai digon yn tanysgrifio i'r rhaglen grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn 2000-2006, a'r posibilrwydd o golli arian yr UE, yn ystyriaeth yn y penderfyniad i gymeradwyo arian grant ar gyfer y Prosiect. Roedd y dyraniad arian grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd cychwynnol i Gymru yn £9 miliwn. Yn ystod rhaglen yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, rhyddhawyd £7 miliwn o arian Ewropeaidd ychwanegol. Pan oedd WEFO yn ystyried cais Selonda UK mewn perthynas â Fferm Bysgod Penmon, roedd pryderon na fyddai digon yn gwneud cais i'r rhaglen Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd oherwydd y nifer fach o geisiadau grant a oedd yn dod i law a'u gwerth isel. Byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw arian nas defnyddiwyd i'r UE ar ddiwedd y rhaglen. Mewn papur i gyfarfod Partneriaeth Bwyd-Amaeth Llywodraeth Cymru¹³ dyddiedig 10 Gorffennaf 2001, fis ar ôl i Selonda UK wneud ei gais, roedd datganiad i'r perwyl bod risg wirioneddol na fyddai digon yn tanysgrifio i'r rhaglen Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd. Dywedwyd y dylid osgoi tanwariant o'r Gronfa ar ddiwedd y rhaglen ar bob cyfrif.

3.11 Nododd adroddiad monitro'r rhaglen ar gyfer mis Rhagfyr 2001 fod y gyllideb gyfan bron heb ei dyrannu oherwydd dechrau araf gyda'r rhaglen Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd. Dywedwyd fod WEFO yn bwriadu unioni hyn yn 2002 ac roedd ceisiadau am brosiectau ar y gweill a oedd yn gwneud cais am gyfanswm o £6.8 miliwn mewn grantiau.¹⁴ Yn y 12 mis ar ôl i'r grant ar gyfer Fferm Bysgod Penmon gael ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2002, dyfarnwyd wyth grant arall, gan wneud cyfanswm o £1.74 miliwn. Yn y pen draw, dyrannwyd £16.3 miliwn mewn grantiau ar draws 46 o brosiectau a gymeradwywyd, ac o blith y rhain y grant o £3.6 miliwn ar gyfer Fferm Bysgod Penmon oedd y mwyaf.

3.12 O fewn rhaglen gyffredinol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2000-2006, yr oedd Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn rhan ohono, rhoddodd WEFO sylw penodol i fonitro perfformiad yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd oherwydd roedd yn cydnabod y byddai unrhyw lithriad mewn perthynas ag un neu ddau o'r prosiectau mawr a oedd yn cael yr arian hwnnw yn cael effaith anghymesur.¹⁵ Dywedodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn adroddiad ar Gronfeydd Strwythurol yn 2002 fod WEFO yn dibynnu ar lond llaw o brosiectau dyframaethu i fwrw ati'n gyflym er mwyn osgoi gorfod dadymrwymo £1.4 miliwn o grant ar 31 Rhagfyr 2002.¹⁶

¹³ Papur gan Is-grŵp Pysgodfeydd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth, a baratowyd ar gyfer cyfarfod y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth ar 10 Gorffennaf 2001. Roedd y bartneriaeth yn goruchwyllo'r rhaglen Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ond nid oedd yn ymwneud â chymeradwyo grantiau ar gyfer prosiectau unigol.

¹⁴ Adroddiad cynnydd chwarterol y Cynulliad Cenedlaethol ar raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, Rhagfyr 2001. Roedd y prosiectau 'ar y gweill' yn cynnwys y £3.6 miliwn o grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a ddyfarnwyd wedyn i brosiect Fferm Bysgod Penmon, ym mis Gorffennaf 2002.

¹⁵ Adroddiad cynnydd chwarterol y Cynulliad Cenedlaethol ar raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, Mawrth 2002.

¹⁶ Adroddiad cenedlaethol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *European Union Structural Funds - Maximising the Benefits for Wales*, 2002

Roedd cymeradwyo'r grant yn amodol ar amodau cyffredinol y cynllun ariannu, nad oeddent yn ddigon penodol i adlewyrchu risgiau penodol y Prosiect a'r chymhlethdod technegol

3.13 O dan gynllun grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, roedd yn ofynnol i'r sector preifat gyfrannu isafswm o 40 y cant o wariant cymwys o leiaf, gallai'r Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd gyfrannu uchafswm o 35 y cant, ac roedd yn rhaid darparu isafswm o bump y cant gan arian cyfatebol arall o'r sector cyhoeddus. Gwerthusodd y Bartneriaeth Strategaeth Asedau Gwledig y cais am grant ym mis Chwefror 2002¹⁷ a chymeradwywyd grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd o £3.6 miliwn gan WEFO ym mis Gorffennaf 2002. Roedd y grant yn cynrychioli 35 y cant o'r £10.3 miliwn o wariant y prosiect sy'n gymwys o dan y cynllun. Nododd y llythyr cynnig grant bod y grant a ddyrannwyd wedi'i gyfrifo fel yr isafswm yr oedd ei angen ar y Prosiect i lwyddo. Yn wreiddiol, byddai'r arian cyhoeddus ychwanegol yn cynnwys grant o £50,000 gan Gyngor Sir Ynys Môn a £464,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, a oedd wedi'i gymeradwyo gan yr Uned Polisi Pysgodfeydd. Byddai'n ofynnol cael £6.2 miliwn o gyllid preifat i gwmpasu'r gweddill.

3.14 Roedd y llythyr cynnig grant yn amlinellu swm y grant a'r amodau a oedd yn gysylltiedig ag ef, ac roedd yr amodau i gyd fwy neu lai'n amodau generig i grantiau a ddyfernir o dan y cynllun Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd. Cynhwyswyd un amod arbennig yn ymwneud â therfynau elw. Nid oedd yr amod arbennig hwn yn cael ei gymhwyso i brosiectau'r Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd bob tro, yn arbennig

prosiectau bach. Ac eithrio'r amod arbennig hwn, ni chafodd amodau grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ar gyfer Fferm Bysgod Penmon eu teilwra i fynd i'r afael â maint na chymhlethdod technegol y Prosiect na'r risg benodol a nodwyd yn ystod y broses arfarnu. Roedd prif amodau'r grant fel a ganlyn:

- a** rhaid defnyddio'r grant at ddibenion y Prosiect y mae wedi'i gymeradwyo ar ei gyfer;
- b** ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf, dylai'r buddsoddiad arfaethedig mewn adeiladu a chyfarpar fod yn unol â'r rhestr gwariant yn y llythyr cynnig grant, a rhaid eu cwblhau'n llawn;
- c** am gyfnod cadw asedau o bum mlynedd, rhaid i asedau gael eu cadw mewn cyflwr da a'u defnyddio at y dibenion y rhoddwyd y grant ar eu cyfer (ar gyfer Fferm Bysgod Penmon roedd y cyfnod hwn yn parhau hyd 31 Rhagfyr 2013);
- ch** rhaid cadw cofnodion ar gyfer pob gwariant cymwys am dair blynedd ar ôl y taliad terfynol;
- d** rhaid i'r cynllun gydymffurfio â gofynion cyhoeddusrwydd y CE, a chydabod cymorth y CE a Llywodraeth Cymru, er enghraifft ar blaciau a byrddau hysbysebu, mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth, ac mewn datganiadau i'r wasg;
- dd** yr amod arbennig na ddylai derbynnydd y grant wneud elw nes bod y gwaith yn ei bedwaredd flwyddyn, ac wedi hynny rhaid cyfyngu'r elw i ganran benodol o'r trosiant, a byddai unrhyw elw'n fwy na hynny yn galluogi Llywodraeth Cymru i adfachu grant sy'n cyfateb i 35 y cant o'r elw gormodol.

¹⁷ Rhoddodd y Bartneriaeth Strategaeth Asedau Gwledig gyngor i WEFO ar sut yr oedd y prosiect arfaethedig yn cydweddu'n strategol ag amcanion y cynllun ariannu, fel rhan o broses werthuso'r cais am grant. WEFO wnaeth y penderfyniad terfynol ar arian grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd.



3.15 Mynegwyd yr ‘allbynnau targed’ ar gyfer y Prosiect yn y llythyr cynnig grant fel datblygiad dyfrol a chreu 30 o swyddi. Noda fersiwn terfynol y llythyr cynnig grant, dyddiedig 30 Awst 2007¹⁸: ‘Specifically, grant is offered on condition that the Project delivers its aims and produces the agreed quantified targets and pattern of expenditure...’ and that ‘WEFO is under no obligation to pay more than 95% of the FIG grant specified until the project has been completed to its satisfaction...’¹⁹ Roedd Atodiad B i'r llythyr yn cynnwys amodau cyffredinol ac amod arbennig (yn ymwneud ag elw) y grant, gan nodi y gellid cadw'r grant yn ôl neu ei adfachu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol:

- a** os nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y Prosiect;
- b** os yw WEFO yn ystyried bod dyfodol y Prosiect mewn perygl;
- c** os canfyddir yn ddiweddarach bod unrhyw wybodaeth yn y cais neu mewn gohebiaeth ategol yn sylweddol anghywir neu'n anghyflawn;
- ch** os gwneir cynnydd anfoddhaol tuag at gwblhau'r Prosiect neu fodloni'r allbynnau targed.

3.16 Nododd y llythyr cynnig grant y dylai'r Prosiect gael ei gwblhau ar sail y manylion a amlinellwyd yn y cais. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd disgrifiadau cyffredinol o'r gwaith, y gwlyptir a'r tirlunio yn y cais am grant a'r dogfennau ategol yn y manylebau technegol, ac nid oedd amodau'r grant yn rhwymo'r ymgeisydd i gyflawni'r Prosiect yn unol â'i honiadau a'i haeriadau. Yn ogystal, roedd dogfennau'r cais yn cynnwys datganiadau am agweddau ar y fferm bysgod

nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gwariant a gymeradwywyd ar gyfer y Prosiect, fel tirlunio a phlannu. Felly, nid oedd cwblhau'r gwaith hwn yn un o amodau grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd

3.17 Roedd honiadau ecolegol ac amgylcheddol Selonda UK mewn perthynas â'r fferm bysgod yn ddylanwadol o ran sicrhau arian grant ar gyfer y Prosiect oherwydd iddynt gyfrannu at y sgôr uchel a gafodd yr agweddau amgylcheddol yn yr arfarniad technegol o'r cais am grant. Byddai cynnwys holl agweddau arwyddocaol ac amgylcheddol sensitif y fferm bysgod o fewn y Prosiect, eu nodi yn yr amodau grant a'u monitro wedi lleihau'r tebygolrwydd y byddai problemau fel y rhai a welwyd wedi codi.

3.18 Roedd yr amodau grant yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl drwyddedau a chaniatadau fod ar waith ond nid oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prosiect gael ei gwblhau yn unol â gofynion rheoleiddio manwl. Roedd cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn cynnwys adrannau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddangos sut y byddent yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol mewn meysydd fel cydraddoldeb. Fodd bynnag, yn debyg i gynlluniau ariannu eraill, nid oedd y llythyr cynnig grant yn cynnwys unrhyw ofyniad cyffredinol i dderbynydd y grant gydymffurfio â chyfraith y DU, rheoliadau, trethiant nac ag unrhyw safonau cynnal busnes. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu datblygu amod y gellid ei orfodi i gwmpasu gofynion o'r fath, byddai ei gynnwys yn helpu i ddiogelu arian cyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer prosiectau sy'n cael arian grant. Byddai hefyd yn lliniaru'r risgiau posibl i enw da Llywodraeth Cymru, drwy gysylltiad â chwmnïau nad oeddent yn bodloni amod o'r fath.

¹⁸ Yn ystod y prosiect, roedd angen fersiynau newydd o'r ffurflen gais am grant a'r llythyr cynnig grant oherwydd newidiadau yn y trefniadau ariannu, y proffil gwariant, yr amserlen ar gyfer ei gwblhau, y cynllun busnes a chostau'r prosiect. Nid oedd newid yn y prif allbynnau a'r fanyleb dechnegol.

¹⁹ Llythyr cynnig grant gan WEFO i Selonda UK, 30 Awst 2007, paragraffau 2 a 7

Rhan 4 – Nid oedd gwaith monitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n ddigonol ar y risgiau a nodwyd yn ystod arfarniad o'r prosiect

Nid oedd strwythurau a phrosiectau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau sy'n cael arian grant yn cefnogi rheoli prosiectau cymhleth yn effeithiol

- 4.1** Sefydlwyd WEFO yn 2000 fel un o asiantaethau gweithredol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn 2003 cafodd ei had-drefnu'n is-adran Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Yn 2013, symudwyd WEFO i fod yn rhan o'r Adran Gyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Roedd WEFO yn gyfrifol am reoli amrywiol gynlluniau grant Ewropeaidd yng Nghymru (ac mae'n parhau i fod yn gyfrifol am hynny). Yn WEFO, roedd gwahanol dimau'n gyfrifol am reoli agweddau ar grantiau'r Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ac roedd gwahaniad amlwg rhwng eu dyletswyddau. Roedd y Tîm Rheoli Rhaglenni yn rheoli ceisiadau ac arfarnu; roedd y Tîm Rheoli Hawliadau yn ymdrin â hawliadau a thaliadau; ac roedd y Tîm Monitro a Gwerthuso yn rheoli ymweliadau â safleoedd, arolygiadau a monitro allbynnau.
- 4.2** Roedd cymeradwyo arian cyfatebol Llywodraeth Cymru a thaliadau'n cael eu rheoli ar wahân gan yr Uned Polisi Pysgodfeydd, a oedd yn rhan o Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Llywodraeth Cymru ar y pryd. I gefnogi'r broses o reoli arian cyfatebol, roedd yr Uned Polisi Pysgodfeydd yn dibynnu ar arfarniad o'r prosiect a'r gwaith monitro ariannol a wnaethpwyd gan WEFO.
- 4.3** Nid oedd gan Lywodraeth Cymru system rheoli prosiectau integredig gyda chymorth TG ar waith ac roedd yr amrywiol dimau, nad oeddent o dan yr un to, yn cadw eu ffeiliau papur eu hunain. O ganlyniad, roedd y timau'n cyflawni eu swyddogaethau heb unrhyw gysylltiad â'i gilydd i raddau helaeth. Yn achos Fferm Bysgod Penmon, dywedodd Tîm Monitro a Gwerthuso WEFO wrthym nad oedd yn ymwybodol o'r risgiau a nodwyd gan Dîm Rheoli Rhaglenni WEFO yn ystod yr arfarniad o'r Prosiect.
- 4.4** Yn ogystal, mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym nad oedd trefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu a chydgyssylltu rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff rheoleiddio allanol, fel awdurdodau cynllunio ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ar waith, a allai fod wedi cryfhau'r camau rheoli risg a gorfodi pe bai gwaith monitro prosiect wedi nodi problemau gyda phrosiect. Lle mae angen trwyddedau a chaniatadau, mae WEFO yn gwirio bod y rhain yn eu lle cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r grantiau'n amodol ar gydymffurfio gyda gofynion penodol cyrrff rheoleiddio eraill. Cyfrifoldeb y cyrrff perthnasol yw monitro a gorfodi gofynion o'r fath ac nid yw WEFO yn derbyn y wybodaeth berthnasol yn rheolaidd ganddynt.



Dyfarnwyd contract y prif gyflenwr i gwmni cysylltiedig heb broses dendro gystadleuol, ac ni roddwyd rheolaethau ar waith i liniaru'r risgiau cysylltiedig

4.5 Er mwyn dangos bod gwerth da am arian yn deillio o'r arian grant, nododd gofynion y CE ar gyfer cynllun grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd y dylai rheolau'r CE fod yn berthnasol i gaffael mewn perthynas â phrosiectau sy'n cael arian grant. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gcontractau uwchlaw terfyn penodol gael eu hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Er nad yw cyrff masnachol y sector preifat yn cael eu cwmpasu gan reolau caffael y CE, disgwylir iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth roi contractau a gefnogir gan grantiau'r Cronfeydd Strwythurol.

4.6 Roedd prif gyflenwr y Prosiect, IAT, yn rhan o'r un grŵp o gwmnïau (Selonda SA) â derbynnydd y grant, sef Selonda UK; a oedd hefyd yn berchen ar gyfranddaliad bach o IAT²⁰. Gwerth y contract gydag IAT oedd £10.3 miliwn, a oedd yn cynrychioli cost gymwys gyfan y Prosiect gan gynnwys gwaith rheoli, dylunio, gweithgynhyrchu a gosod y prosiect. Dyfarnodd Selonda UK y contract i IAT heb gynnal ymarfer tendro cystadleuol.

4.7 IAT hefyd oedd prif gyflenwr prosiect Fferm Bysgod Bluewater, lle roedd yn berchen ar gyfranddaliad o 12.5 y cant. Roedd profiad IAT o ddatblygu systemau ailgylchredeg ar gyfer prosiect Fferm Bysgod Bluewater yn ffactor cadarnhaol yn arfarniad WEFO o risg cyflawni'r Prosiect mewn perthynas â phrosiect Fferm Bysgod Penmon, a oedd yn defnyddio'r un dechnoleg ond ar raddfa lawer mwy.

4.8 Nododd Selonda UK yn ei gais am grant mai IAT fyddai'r unig gyflenwr. Yn dilyn gwiriadau o reolaethau ariannol ym mis Ebrill 2003, cododd WEFO bryder mewn perthynas â chydymffurfiaeth â rheoliadau caffael y CE. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath, ym mis Gorffennaf 2002 roedd Selonda UK wedi comisiynu adroddiad gan ymgynghorydd annibynnol i gadarnhau ei honiad bod tendr unigol yn briodol oherwydd natur dechnoleg gymhleth y Prosiect. Derbyniodd WEFO gasgliad yr adroddiad mai dim ond IAT a allai ddarparu'r arbenigedd technoleg yr oedd ei angen, gan olygu nad oedd angen proses dendro gystadleuol. Nid oedd proses dendro gystadleuol wedi'i dilyn ar gyfer dyfarnu contract Fferm Bysgod Bluewater i IAT am yr un rheswm. Mae absenoldeb tendro cystadleuol yn arwain at risgiau o ddiffyg tryloywder a gwerth gwael am arian, hyd yn oed os nad oes cysylltiad rhwng y cyflenwr a chwmni'r prosiect. Mae tebygolrwydd y risgiau hyn yn cynyddu pan fydd y cyflenwr yn gwmni cysylltiedig.

4.9 Roedd y rheolaethau a roddwyd ar waith gan WEFO yn adlewyrchu gofynion y cynllun a oedd ar waith ar y pryd, ond nid oeddent yn rhoi llawer o sicrwydd mewn perthynas â chydymffurfio â'r fanyleb, gwerth am arian, addasu prisiau, elw gormodol a risgiau'n ymwneud â rheoleidd-dra ariannol neu dwyll. Mae'r risgiau hyn yn cynyddu pan fydd dim ond un contract yn cwmpasu'r holl wariant cymwys, a phan fydd y contractwr yn gwmni cysylltiedig. Cafodd y berthynas rhwng Selonda UK, fel derbynnydd y grant, ac IAT, fel y contractwr, ei chydabod yn ystod yr arfarniad o'r Prosiect. Fodd bynnag, ni phennwyd unrhyw amodau na rheolaethau penodol ar gyfer y grant i leihau'r risgiau sy'n codi yn sgil caffael drwy dendr unigol gan gwmni cysylltiedig. Nid aeth y gwiriadau gan WEFO na chan archwilwyr allanol derbynnydd y grant ar daliadau y tu hwnt i'r anfonebau a

²⁰ Noda Adroddiad Blynyddol 2004 Selonda SA y berthynas rhwng ei is-gwmnïau, gan gynnwys perchynogaeth Selonda UK o 25 y cant o IAT Ltd.

anfonwyd gan IAT at Selonda UK. Ni chafodd y trafodion rhwng IAT a'i gyflenwyr eu gwirio, ac nid oedd anfonebau IAT i Selonda UK yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r hyn yr oedd yr anfonebau'n ei gwmpasu.

Roedd proses gadarnhau ceisiadau am grant WEFO yn canolbwyntio'n bennaf ar wirio bod ffigurau gwariant y Prosiect yn gywir ac fel y cytunwyd, yn hytrach nag ar reoli risg neu werth am arian

4.10 Mae gan WEFO gyfrifoldeb, ar ran Llywodraeth Cymru, i reoli taliadau grant i'r dderbynnydd a chadarnhau bod gwariant y prosiect yn unol â'r proffil y cytunwyd arno a'r dibenion y cafodd y grant ei wneud ar eu cyfer. Cafodd y Prosiect ei ariannu o dan gynllun Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd 2000-2006, a ddaeth i ben yn 2009. Roedd y prosiect yn destun system arolygu a oedd yn berthnasol i raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2000-2006, lle roedd pob cais am grant yn cael ei wirio gan staff WEFO i sicrhau ei fod yn gyflawn a heb ei gam-ddatgan. Roedd gwiriadau WEFO mewn perthynas â thalu rhandaliadau grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn canolbwyntio ar gymhwysedd y gwariant a ariennir gan y grant, darparu arian cyfatebol preifat, cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael yr UE, a chyflawnder ariannol (hynny yw bod swm llawn y grant wedi'i gytuno a'i hawlio yn ystod y prosiect).

4.11 Roedd gan WEFO dri dull o gadarnhau fod prosiectau'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a bod swm cywir y grant yn cael ei hawlio:

- a** archwiliad blynyddol o bob prosiect gan gyfrifydd annibynnol, a gyflogwyd gan dderbynnydd y grant, i gadarnhau fod y gwariant a hawliwyd yn ystod y cyfnod yn gymwys, yn ddilys ac wedi'i ddatgan yn gywir;
- b** ymweliadau monitro â sampl o brosiectau i gadarnhau bod gan dderbynnydd y grant reolaethau ariannol a rheoli ar waith (yn unol â rheoliadau'r UE) i gadarnhau fod y gwariant a hawliwyd yn gysylltiedig â'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd;²¹
- c** archwiliadau o sampl o brosiectau, gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar ran y CE, i wirio bod y prosiectau'n cydymffurfio â rheoliadau'r UE ar gymhwysedd gweithgareddau, arian cyfatebol, gwariant, cyhoeddusurwydd a chaffael.

4.12 Roedd y rheolaethau hyn yn canolbwyntio ar y risg y byddai hawliadau'n cynnwys gwall ariannol neu ar nodi diffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau'r UE. Byddai gwallau'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth wedi arwain at adfachu'r grant pe bai archwilwyr y CE yn canfod gwallau o'r fath. Roedd cyfarwyddiadau WEFO ar gyfer adrodd i gyfrifwyr (sy'n gyfrifol am ddarparu tystysgrifau archwilio i gefnogi hawliadau am grant) yn cynnwys prawf i gadarnhau bod y prosiect a gwblhawyd yr un fath â'r prosiect a gymeradwywyd yn wreiddiol, ond nid oedd rhagor o ganllawiau ar i ba raddau yr oedd angen i'r gwaith gadarnhau a oedd yr amod hwn yn cael ei fodloni.

4.13 Roedd disgwyl i dderbynwyr grant gyflwyno hawliadau chwarterol am grant yn erbyn gwariant cymwys y prosiect, yn unol â phroffil a gytunwyd ac a nodwyd yn y cynnig grant. Roedd proses gadarnhau hawliadau am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd WEFO yn seiliedig ar ardstyad,

²¹ Ar hyn o bryd, yn WEFO, mae ffocws ariannol i'r gwiriadau hyn ond er mwyn cryfhau proses gwerthuso prosiectau a monitro'i hagweddau technegol, mae wrthi'n cyflwyno gwell trefniadau ar gyfer manteisio ar arbenigedd technegol.



fel rheol gan archwilwyr allanol derbynnydd y grant, bod y gwariant cymwys wedi cael ei wario. Byddai derbynnydd grant yn cyflwyno ffurflen hawlio i WEFO yn nodi faint o wariant gymwys a wariwyd. Byddai WEFO yn gwirio bod yr hawliadau o dan y penawdau gwariant cymwys, o fewn y symiau y cytunwyd arnynt ac yn cyd-fynd â'r proffil gwariant disgwylidig. Yna, byddai archwilwyr penodedig derbynnydd y grant yn cyfateb anfonebau gan contractwyr a chyflenwyr gyda thaliadau mewn cyfriflenni banc, ac yn cyhoeddi tystysgrif archwilio flynyddol. Bwriad y dystysgrif archwilio oedd rhoi sicrwydd bod yr hawliadau'n adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol, o fewn symiau a chategoriâu a nodwyd yn y cynnig grant. Nid oedd y broses i gadarnhau hawliadau am grant ac ardystiad drwy archwiliad yn cynnwys gwiriadau penodol bod nwyddau a gwasanaethau wedi'u darparu neu bod asesiadau ffisegol wedi cael eu hadeiladu, na bod prosiectau wedi'u cwblhau yn unol â disgrifiadau y cytunwyd arnynt yn y cais a'r dogfennau ategol.

4.14 Ymwelodd swyddogion WEFO â'r safle bob chwarter i fonitro cynnydd gyda'r prosiect fferm bysgod. Diben yr ymweliadau â'r safle oedd:

- a** gwirio bod y prosiect wedi'i gwblhau yn unol â'r llythyr cymeradwyo;
- b** gwirio bod y systemau rheoli ac ariannol yn gadarn;
- c** cadarnhau cymhwysedd y gwariant a'r allbynnau a gyflawnwyd;
- ch** gwirio cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli contractau;
- d** gwirio bod cyhoeddusrwydd wedi'i roi 'r prosiect yn unol â chanllawiau'r CE;

dd gwirio bod unrhyw amrywiadau i'r Prosiect yn angenrheidiol a'u bod o fewn gofynion y cynllun grant.²²

4.15 Nododd yr ymweliadau hyn rai problemau gyda chadw cofnodion ariannol; diffyg polisi cydraddoldeb; ac nad oes mynediad i'r anabl i'r cyfleuster wedi'i adeiladu. Nododd yr ymweliadau hefyd fod y Prosiect ar ei hôl hi o ran ei gynnydd a dechreuodd WEFO bryderu na fyddai swm llawn y grant yn cael ei hawlio o fewn cyfnod y cynllun ariannu. Mewn ymateb i'r cynnydd araf yn erbyn y gwariant y cytunwyd arno a'r proffil hawliadau, cynyddodd amllder yr ymweliadau monitro o ymweliadau chwarterol i ymweliadau misol.

4.16 Mae ffeiliau prosiect WEFO yn cynnwys dogfennau sy'n cofnodi trafodaethau rhwng Selonda UK a swyddogion WEFO yn ystod yr ymweliadau â'r safle ynghylch treialon hidlo a phroblemau gyda'r cyflenwad trydan. Hefyd roedd gohebiaeth gyson rhwng Selonda UK a WEFO mewn perthynas â chynnydd y prosiect, trefniadau ariannu, anawsterau yn ystod y gwaith adeiladu a phrofi'r gwaith a'r gwlyptir artiffisial, a phroblemau gyda'r cyflenwad pŵer. Yn ystod gwerthusiad technegol o'r cais am grant, nodwyd risgiau mewn perthynas â thechnoleg ailgylchredeg, y gwlyptir halwynog a'r galw am gyflenwad trydan yn y gwaith. Fodd bynnag, ni chafodd y risgiau hyn eu hadlewyrchu'n benodol yn amodau'r grant. Nid oedd swyddogion WEFO a oedd yn ymweld â'r safle yn ymwybodol o'r risgiau a nodwyd yn ystod gwerthusiad technegol o'r cais; ac roeddent yn canolbwyntio ar y gwiriadau ariannol sydd eu hangen gan y cynllun grant, yn hytrach na rheoli risg neu werth am arian.

²² Roedd y swyddogaethau hyn wedi'u rhannu ymysg gwahanol dimau WEFO.

Cytunodd WEFO i amrywiadau i ffynonellau ariannu'r Prosiect a'r terfynau amser ar gyfer cwblhau ac roedd yn gyfrifol am fonitro cynnydd, ond nid oedd gwirio cydymffurfiaeth o fewn gofynion rheoleiddio penodol cylch gwaith WEFO

- 4.17** Mae hysbysu WEFO am newidiadau sylweddol i'r Prosiect yn un o ofynion y llythyr cynnig grant. Lle y bwriadwyd amrywio'r Prosiect yn sylweddol, mewn perthynas ag ariannu, y dyddiad cwblhau, costau a hawliadau a gymeradwywyd, gofynnwyd am gais diwygiedig am grant i'w gymeradwyo.
- 4.18** Rhwng mis Mehefin 2001 a mis Awst 2007, cyflwynodd Selonda saith fersiwn o'r ffurflen gais am grant. Ym mis Medi 2002, roedd y Cwmni wedi hysbysu WEFO y byddai cynlluniau gwreiddiol y Prosiect i gynhyrchu lledod Ffrengig yn cael eu newid ac y byddai'n cynhyrchu draenogiaid y môr. Ym mis Chwefror 2005 cyflwynodd Selonda UK gynllun busnes diwygiedig i WEFO, yn adlewyrchu'r newid o ffermio lledod Ffrengig i ffermio draenogiaid y môr gan ddarparu rhagamcanion ariannol wedi'u diweddarau a oedd yn dangos y cynnydd yng nghostau'r Prosiect, y newidiadau mewn trefniadau ariannu a gwell llif arian yn deillio o gylch tyfu byrrach draenogiaid y môr o gymharu â lledod Ffrengig (12 mis yn hytrach na 36 mis).
- 4.19** Dull WEFO yw gweithio gyda derbynwyr grant lle bynnag y bo'n bosibl i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi wrth gyflawni'r prosiect. Yn achos Fferm Bysgod Penmon, er mwyn osgoi peri i'r Prosiect fethu a'r posibilrwydd o golli buddsoddiad cyhoeddus

a phreifat yn y gwaith, cymeradwyodd WEFO newidiadau i ddyddiad cau'r Prosiect, yr amserlen hawliadau, y ffynonellau ariannu a'r costau, a oedd wedi'u hadlewyrchu mewn newidiadau i'r ffurflen gais am grant a'r llythyr cymeradwyo. Cytunodd WEFO hefyd i'r newid o gynhyrchu lledod Ffrengig i gynhyrchu draenogiaid y môr. Fodd bynnag, arhosodd y prif destun ar y ffurflen gais a'r dogfennau ategol yn ddigyfnewid; gan gynnwys disgrifiadau o'r gwaith, y gwlyptir a'r tirlunio yn ogystal â chyfeiriadau at gynhyrchu lledod Ffrengig. Nid oedd amcan y Prosiect wedi newid ychwaith.

- 4.20** Disgrifiwyd amcanion y Prosiect fel 'allbynnau targed' yn y llythyr cynnig grant. Cyflawni datblygiad dyframaethu (fferm bysgod) a chreu 30 o swyddi oedd yr allbynnau hyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd WEFO fel arfer yn ystyried cyrraedd allbynnau targed yn un o 'amodau' arian grant ac felly ni fyddai fel rheol yn adennill grant pe na bai nifer y swyddi a bennwyd yn darged yn cael eu creu, er enghraifft. Os bydd problemau'n dod i'r amlwg gyda phrosiectau yn hwyr yn y dydd, prin yw opsiynau gorfodi WEFO. Gall ddal taliad o hawliadau presennol yn ôl, gall atal rhagor o daliadau neu, mewn achosion difrifol lle nad yw'r derbynnydd wedi gweithredu'n ddidwyll neu lle mae wedi bod yn dwyllodrus, gallant ganslo'r prosiect cyfan a gofyn am ad-daliad o'r grant. Mae WEFO yn fodlon bod y fferm bysgod wedi cyflawni ei hallbynnau a bod elfennau hanfodol y Prosiect wedi'u cyflawni.
- 4.21** Cafodd y rhan fwyaf o brosiectau a ariannwyd o dan raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2000-2006 lai na £1 miliwn. Mae'r symiau cymharol fach o arian grant yn golygu nad oedd prosiectau fel rheol yn cael eu profi'n fanwl yn erbyn eu manylebau. Roedd WEFO yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith rheoleiddio yr UE, sy'n mynnu bod



targedau gwariant yr UE yn cael eu cyrraedd a bod allbynnau'n cael eu cofnodi'n llawn ac yn unol â'r targed. Yn y llythyr cynnig grant nodwyd categorïau gwariant sy'n gymwys i'w hariannu, fel 'cyflenwad pŵer' a 'gwlyptiroedd', ond ar eu pen eu hunain roedd y categorïau'n rhy gyffredinol i fod yn sail ar gyfer monitro cwblhau'r prosiect yn ôl y disgrifiadau a gynhwyswyd yn y cais a'r dogfennau ategol.

- 4.22** Lle roedd amrywiadau'n codi o fewn categorïau gwariant a gymeradwywyd, nid oedd WEFO yn credu bod y rhain yn ddigon sylweddol i ofyn am gais a chymeradwyaeth diwygiedig a mabwysiadwyd dull mwy anffurfiol. Dengys llythyrau, negeseuon e-bost a nodiadau o ymweliadau â'r safle fod WEFO wedi cael ei hysbysu pan ddatgelwyd problemau yn sgil profion a'r defnydd gweithredol o'r systemau ailgylchredeg a hidlo. Llwyddodd Selonda UK i addasu'r systemau hyn i ategu'r gwelyau cyrs gyda sachau hidlon ond ni chofnododd WEFO yn ffurfiol ei fod wedi cymeradwyo'r newidiadau hyn.
- 4.23** Cyfrifoldeb y cyrff perthnasol yw monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio yr awdurdod cynllunio ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac nid yw'n rhan o'r broses monitro grant. Oherwydd lleoliad y fferm bysgod mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, codwyd amrywiol bryderon yn ystod cam ymgynghori'r broses cael caniatâd cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch y cyflenwad trydan, yr effaith weledol, y sŵn, yr arogleuon a'r llygredd. Roedd y caniatâd cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Selonda UK ddarparu cynlluniau manwl ar gyfer tirlunio a chreu'r arglawdd arfordirol, ac y dylid cwblhau'r gwaith unol â'r cynlluniau. Hyd yma, nid yw'r gwaith hwn, nad oedd yn rhan o'r Prosiect a gafodd arian grant, wedi'i gwblhau. Yn y caniatâd cynllunio ar gyfer y fferm bysgod, nodwyd y byddai angen

caniatâd ar wahân ar gyfer y cyflenwad trydan ond ni wnaethpwyd hyn yn un o amodau'r caniatâd. Nid oedd unrhyw amodau penodol yn gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio i fynd i'r afael â phroblemau posibl yn ymwneud â sŵn neu niwsans, er gwaetha'r ffaith bod y fferm bysgod ar raddfa ddiwydiannol a'i bod wedi'i lleoli mewn ardal gadwraeth.

- 4.24** Roedd trwyddedau Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y fferm bysgod yn cynnwys gofynion clir i fynd i'r afael â risgiau lygredd. Roedd y rhain yn cynnwys agweddau ar adeiladu'r bibell mewnlif ac all-lif, gofynion monitro o ran y gollyngiadau a lefelau'r llygryddion a ganiateir. Yn y dystiolaeth a roddwyd yn y llys yn ystod erlyniad llwyddiannus Asiantaeth yr Amgylchedd yn erbyn Selonda UK, dywedwyd nad oedd elfennau allweddol y fferm bysgod, gan gynnwys y bibell all-lif, gwelyau cyrs y gwlyptir a'r system ddraenio, yn gweithredu'n effeithiol a bod y ffactorau hyn, ynghyd â methiannau i fodloni gofynion penodol y drwydded gollyngiadau, wedi cyfrannu at y llygredd.

Rhan 5 – Mae'r system ariannu ar gyfer grantiau Ewropeaidd wedi cael ei chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cymhleth wedi gwella

Mae rhai o'r gwendidau rydym wedi'u nodi yn y ffordd y rheolwyd y buddsoddiad cyhoeddus yn Fferm Bysgod Penmon gan Lywodraeth Cymru yn dangos rhai o'r diffygion ehangach yn y system rheoli grantiau a oedd yn bodoli ar y pryd

- 5.1** Mae'r grantiau a roddir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cwmpasu gan gyfraith weinyddol, sy'n llywodraethu camau cyrff cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae grant yn cynrychioli anrheg neu rodd, ac mae'n llai gorfodadwy na contract. Nid oes gan gyllidwr hawl i gael unrhyw beth yn gyfnewid am grant, ond gall y cytundeb grant gynnwys termau ac amodau sy'n pennu sut y dylid gwario'r grant.
- 5.2** Yn 2002, edrychodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y ffordd yr oedd grantiau a ariannwyd gan yr UE yn cael eu rheoli yng Nghymru.²³ Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gweithdrefnau arfarnu prosiectau WEFO yn gadarn ar y cyfan, ond y gallent fod yn fwy soffistigedig o ran asesu'r angen am y prosiect, gwerth ychwanegol, risg a gwerth am arian. Argymhellodd yr adroddiad y dylai WEFO wneud mwy i :
- a** asesu gwerth ychwanegol (y manteision ychwanegol a gynnigir gan y prosiectau) drwy ganolbwyntio ar feysydd risg a sicrhau bod pob ochr yn ymwybodol o'r gofynion;
 - b** ailedrych ar ei threfniadau ar gyfer bodloni ei hun ynghylch gwerth am arian prosiectau, gan gynnwys gofyn am welliannau yn nigonolrwydd y wybodaeth mewn ceisiadau y mae penderfyniadau'n seiliedig arnynt;
 - c** sicrhau bod ymgeiswyr yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau a sut y cânt eu rheoli;
 - ch** cynnwys asesiadau manylach o'r angen am y prosiect a'i ansawdd yn y meini prawf ar gyfer dethol prosiectau.
- 5.3** Gellir gweld llawer o'r diffygion a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y Prosiect. Yn ogystal, nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wendidau yn asesiadau WEFO o allbynnau'r prosiect, gan gynnwys cost fesul swydd. Nododd yr adroddiad fod Cymru yn cymharu'n anffafriol â rhannau eraill o'r DU sy'n elwa ar Gronfeydd Strwythurol yr UE, fel Cernyw, lle y defnyddiwyd dangosyddion fel costau uned a nifer y swyddi a grëwyd yn ehangach wrth asesu prosiectau.

²³ Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *European Union Structural Funds – Maximising the Benefits for Wales*, 2002



5.4 Mewn adroddiad dilynol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2004 nodwyd rhai gwelliannau ym mhroses rheoli grantiau WEFO. Fodd bynnag, awgryma gwendidau a nodwyd mewn adroddiadau wedyn gan Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd y gwelliannau'n ddigonol i ddatrys yr holl broblemau a gododd yn sgil rhoi arian cyhoeddus i Fferm Bysgod Penmon.

5.5 Yn 2011 edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar y ffordd yr oedd grantiau'n cael eu rheoli yng Nghymru.²⁴ Tynnodd yr adroddiad ar ganfyddiadau o 18 o adroddiadau ar faterion yn ymwneud â grantiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2005 a 2011. Canfu'r adroddiad fod gweinyddu'r grantiau yng Nghymru yn ddrud a nododd wendidau cyffredin o ran y ffordd y rheolwyd grantiau, o ran dysgu o brofiad, ac o ran mynd i'r afael â pherfformiad gwael derbynyddion grant o ran cyflawni prosiectau sy'n cael arian grant. Yn benodol, canfu'r adroddiad:

- a** wendidau o ran y ffordd y mae cyllidwyr grant yn diffinio amcanion eu cymorth i brosiectau;
- b** methiannau i bennu safonau ansawdd clir, fel rhan o amodau'r grant, mewn perthynas â sut y dylid cyflawni prosiectau;
- c** methiannau i gysylltu amcanion clir o ran canlyniadau gyda dealltwriaeth glir o sut y bydd y rhaglen neu'r Prosiect yn cyflawni'r amcanion hynny a dadansoddiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen.

5.6 Yn 2012, amlygodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar berthynas Llywodraeth Cymru gyda Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)²⁵ wendidau parhaus o ran rheoli grantiau, gan gynnwys mewn perthynas â WEFO. I fynd i'r afael â'r rhain, argymhellodd yr adroddiad:

- a** y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu protocolau diwydrwydd dyledus i'w cynnwys mewn prosesau ar gyfer dyfarnu a monitro arian grant, sy'n gymesur â maint yr arian a'r math o gorff sy'n ei gael;
- b** dylai WEFO sicrhau bod pob swyddog prosiect yn ymwybodol o ddiben a phwysigrwydd monitro a chadarnhau bod prosiectau'n mynd rhagddynt yn foddhaol ac yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig;
- c** dylai WEFO adolygu'r holl amodau arbennig a chymryd unrhyw gamau dilynol yn brydlon.

5.7 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r materion hyn, yn arbennig mewn perthynas â rhoi arian grant i sefydliadau cyhoeddus a chyrrff y trydydd sector. Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad interim ei hun ar reoli grantiau ym mis Awst 2012.

²⁴ Rheoli Grantiau yng Nghymru, Tachwedd 2011

²⁵ Cyberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2012

Mae'r system ariannu ar gyfer grantiau Ewropeaidd wedi'i chryfhau

- 5.8** Mae newidiadau sylweddol wedi bod yng ngweithdrefnau'r cyfnod rhaglenni cyfredol (2007-2013), er nad yw pwrpas sylfaenol na strwythur y trefniadau rheoli wedi newid. Yn lle'r Offeryn Ariannol ar Gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, sefydlwyd Cronfa Pysgodfeydd Ewrop ac fe'i gweinyddir gan un uned (a elwir ar hyn o bryd yn Uned Rheoli'r Cynllun). Mae'r uned hon o fewn Llywodraeth Cymru ond y tu allan i WEFO. WEFO sy'n gyfrifol o hyd am Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n gronfa fwy, a hefyd am Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- 5.9** Archwiliwyd gweithdrefnau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop sydd wedi cael eu tynhau mewn sawl ffordd:
- a** Gyda phob hawliad am daliad grant, rhaid cynnwys atodlen fanwl sy'n dangos sut y gwariwyd yr arian a chopiau o holl anfonebau'r cyflenwyr perthnasol. Nid oedd angen i'r rhai a hawliodd grantiau o dan raglenni 2000-2006 ddarparu dim atodlenni nac anfonebau yn gefn i'w hawliadau a byddai WEFO yn dibynnu ar archwilwyr ardystio i ddilysu'r hawliadau hynny.
 - b** Bydd pob hawliad am grant yn cael ei archwilio cyn talu'r arian. Mae'r archwiliad yn cynnwys agweddau ariannol yr hawliad a hefyd archwiliad ffisegol i sicrhau bod y nwyddau a/neu'r gwasanaethau wedi'u darparu'n unol â'r hawliad. Swyddogion gorfodi pysgodfeydd sy'n cynnal yr archwiliadau ac mae'r rhain yn rhan o Is-adran y Môr a Physgodfeydd sydd wedi'i chreu'n ddiweddar. Ar y llaw arall, ar gyfer rhaglenni 2000-2006, bu WEFO yn ymweld â sampl o brosiectau i'w monitro ond nid oedd hyn o reidrwydd yn cynnwys archwilio'r gwaith a wnaethpwyd mewn gwirionedd. Roedd swyddogion monitro'n ymwneud ag ystod eang o weithgareddau'r Cronfeydd Strwythurol ac nid oedd ganddynt o reidrwydd na phrofiad nac arbenigedd ym maes gwaith pysgodfeydd.
 - c** Cynhelir archwiliad technegol llawn ar bob prosiect cyn talu taliad terfynol y grant. Nod hyn yw cadarnhau bod y prosiect wedi'i gwblhau yn unol â chais y prosiect ac y bydd yn cyflawni nodau ac amcanion gwreiddiol y prosiect. Bydd cynnwys yr archwiliad yn dibynnu ar natur y prosiect ac mae Uned Rheoli'r Cynllun yn gallu manteisio ar wasanaeth arbenigwyr technegol yn Llywodraeth Cymru, megis syrfewyr neu beirianwyr, os bydd gofyn. Nid oedd gofyn cynnal archwiliad technegol fel hyn yn rhaglenni 2000-2006. Roedd gofyn i archwilydd allanol pob prosiect sicrhau bod y prosiect yn cael ei wireddu fel y'i cymeradwywyd, ond mae'n annhebygol iawn y byddai hyn wedi cynnwys asesiad manwl ar sail y cais gwreiddiol neu unrhyw newidiadau a gymeradwywyd.
 - ch** Mae gweithdrefnau Uned Rheoli'r Cynllun ar gyfer gwneud cais am amrywiadau i brosiectau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop sydd ar y gweill, cytuno iddynt a'u cofnodi wedi cael eu cryfhau o'u cymharu â'r gweithdrefnau a ddefnyddiwyd ar gyfer rhaglen yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd 2000-2006. Mae gofyn i'r sawl sy'n derbyn grant gyflwyno Ffurflen Amrywio Prosiect ffurfiol sy'n rhoi manylion clir am y costau diweddaraf a gymeradwywyd, y newidiadau arfaethedig a'r rhesymwaith drostynt. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei harfarnu mewn ffordd briodol.



Gallai hyn gynnwys diweddarau'r asesiadau ariannol a thechnegol, cyn bwrw ymlaen â'r prosesau cymeradwyo. Os cymeradwyir y newidiadau, anfonir llythyr cynnig grant diwygiedig. Dilynir y gweithdrefnau amrywio hyn os bydd y costau'n fwy neu'n llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, neu os bydd elfennau o'r prosiect fel y'u cymeradwywyd yn wreiddiol wedi newid.

- 5.10** Bydd y newidiadau hyn, os rhoddir hwy ar waith yn llawn, yn cryfhau'r trefniadau rheoli'n sylweddol o'u cymharu â'r rheini a oedd ar waith yn rownd rhaglenni 2000-2006. Mae'r gwaith monitro gryn dipyn yn ehangach ac yn ddyfnach, ac mae'r archwiliadau ffisegol a thechnegol yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y sylwir yn fuan ar unrhyw wyro sylweddol oddi wrth gynllun y prosiect y cytunwyd arno, er mai barn yr arolygwr mewn unrhyw achos penodol fydd yn penderfynu beth fydd hyd a lled y profion technegol.
- 5.11** Mae Llywodraeth Cymru yn meddwl bod y trefniadau gweinyddol diwygiedig lle bydd rhaglen Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yng Nghymru yn cael ei rheoli gan un uned, yn cynnig nifer o fanteision a fyddai'n lleihau'r risg o fethu â gweld materion pwysig a gweithredu arnynt yn ddi-oed. Bydd staff monitro a thaliadau'n gweithio ar brosiectau pysgodfeydd yn unig ac felly, maent yn meithrin cryn brofiad ac arbenigedd. Oherwydd bod yr uned yn gymharol fach o'i chymharu â WEFO, mae'r cysylltiadau rhwng y staff hyn yn fwy clos nag yr oeddent.
- 5.12** Ni fyddai'r risgiau a godai oherwydd bod Selonda UK yn contractio gyda chwmni cysylltiedig i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwaith cyfalaf yn cael sylw yng nghwestiynau safonol y rhestrau arolygu a ddefnyddir ar gyfer y rhaglen pysgodfeydd bresennol. Dylai risgiau fel hyn, sy'n berthnasol i amgylchiadau penodol prosiect, gael eu dynodi a'u lliniaru

drwy gynnwys amodau arbennig yn y llythyr cynnig ac yn y gwaith monitro cysylltiedig. Mae amod arbennig yn tynnu sylw at bwysigrwydd mater arbennig i'r sawl sy'n cael y grant ac i staff monitro Llywodraeth Cymru, ac mae'n helpu i sicrhau bod y mater yn cael ei reoli'n drwyadl. Bydd WEFO bellach yn defnyddio amodau arbennig yn aml i sicrhau bod risgiau sy'n benodol i brosiectau arbennig yn cael eu nodi a'u monitro drwy adolygu prosiectau'n rheolaidd. Bydd Uned Rheoli'r Cynllun yn defnyddio llai ar amodau arbennig nag y bydd WEFO, ond bydd yn mynnu bod y rheini sy'n cael eu gosod yn cael eu monitro fel rhan o'r broses arolygu.

- 5.13** Er mwyn hwyluso monitro gwariant prosiect yn fwy trwyadl gyda golwg ar ofynion eglurach a mwy penodol, mae categorïau'r costau cymeradwy'n cael eu diffinio'n fwy manwl mewn llythyrau cynnig grant yn rhaglen bresennol Cronfa Pysgodfeydd Ewrop nag yr oeddent yn rhaglen yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, a oedd yn cynnwys y grant i'r fferm bysgod. Erbyn hyn, mae mwy o gategorïau o wariant cymeradwy'n debygol o gael eu pennu ac fe ddosberthir manylion y costau unigol i gategorïau hefyd.
- 5.14** Drwyddi draw, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei threfniadau fesul dipyn ar gyfer rheoli arian grant. Mae'r gwelliannau sydd wedi bod ers y Prosiect yn golygu ei bod yn fwy tebygol erbyn hyn y byddai risgiau sylweddol yn cael eu gweld yn ystod camau arfarnu a gwerthuso'r prosiect, y byddai amodau arbennig yn cael eu defnyddio a'u monitro er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a welid, ac y byddai trefniadau rheoli mwy trwyadl yn gweld problemau wrth iddynt godi. Byddai hynny'n arwain at gamau gorfodi mwy prydlon, petai hynny'n briodol.

Atodiad 1 – Ffynonellau arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon

Dyma'r ffrydiau arian cyhoeddus a nodwyd:

Ffynhonnell arian cyhoeddus	£
Grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd	£3,601,454
Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru ar gyfer grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd	£1,514,494
Cynllun Datblygu Bwyd-Amaeth: Marchnata a Brandio Prosiectau – 2009	£2,920
Grant Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (offer didoli a llonyddu pysgod) – 2009	£43,431
Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru ar gyfer grant Cronfa Pysgodfeydd Ewrop – 2009	£31,000
Cymorth refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd ac ocsigen i bysgod – 2011	£40,000
Arian Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwad pŵer – 2011	£27,000
Cyfanswm	£5,260,299



Atodiad 2 – Fferm Bysgod Penmon – Amserlen y Prosiect

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2001			
Mehefin	Cyflwyno'r cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd i WEFO, gyda chynllun busnes a datganiad amgylcheddol yn gefn iddo.	Costau cymwys y prosiect £10,300,755. Preifat £6,180,453. Cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd gwerth £4,120,302.	Rhagwelwyd y byddai'n cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2003.
Gorffennaf	Ennill y sgôr uchaf yn asesiad technegol WEFO. Diwygio ffurflen gais yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn adlewyrchu newidiadau i'r costau a'r ariannu.	Costau cymwys y prosiect £10,289,870. Preifat £6,172,922. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £514,493. Cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd gwerth £3,601,454.	
2002			
Chwefror	Partneriaeth Strategaeth Asedau Gwledig yn gwerthuso'r cais.	Costau cymwys y prosiect £10,289,870. Preifat £6,173,922. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £514,494. Grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd £3,601,454.	Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi caniatâd cynllunio.
Mawrth	Diwygio ffurflen gais yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn adlewyrchu newidiadau i'r costau, yr ariannu a'r dyddiad cwblhau.	Costau cymwys y prosiect £10,289,870. Preifat £6,173,922. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £464,496. Cais am grant i Gyngor Sir Ynys Môn gwerth £50,000. Cais am grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd gwerth £3,601,456.	Rhagwelwyd y byddai'n cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2004.

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2002			
Mehefin			Asiantaeth yr Amgylchedd yn cymeradwyo trwydded i ryddhau gwastraff wedi'i drin i'r môr.
Gorffennaf	WEFO yn cymeradwyo grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd ac yn anfon llythyr cynnig grant (dyddiedig 25 Mehefin) at Selonda UK.	Costau cymwys y prosiect £10,289,870. Preifat £6,173,922. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £464,494. Cais am grant i Gyngor Sir Ynys Môn gwerth £50,000. Cymeradwyo grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd gwerth £3,601,454.	Rhagwelwyd y byddai'n cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2004.
Awst		Partneriaid yng Ngwlad yr Iâ (FISKEY) yn tynnu yn ôl gwerth £3 miliwn o arian preifat	
Medi			Selonda UK yn hysbysu WEFO ynglŷn â newid o ledod Ffrengig i ddraenogiaid y môr.
2003			
Ionawr		Gweinidog Llywodraeth Cymru yn penderfynu cynyddu'r arian cyfatebol i £1.51 miliwn.	
Chwefror		Cyngor Sir Ynys Môn yn gwrthod cais am arian cyfatebol gwerth £50,000 oherwydd bod yr arian ar gyfer hyn yn tarddu o'r Undeb Ewropeaidd.	



Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2003			
Mawrth	Ffurflen gais ddiwygiedig yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn adlewyrchu newidiadau i ariannu'r prosiect.	Ariannu preifat wedi gostwng o £4,973,922 i £3,944,936. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu o £464,494 i £1,543,481.	
Ebrill			Ymweliad â'r safle'n dangos nad oes dim gwaith ffisegol wedi'i wneud yno.
Mai	WEFO yn gweld bod y trefniadau caffael yn peri risg oherwydd mai trefniant un tendr ydoedd a bod y prif contractwr yn gwmni cysylltiedig		
Mehefin	Ffurflen gais ddiwygiedig yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd yn adlewyrchu newidiadau i ariannu'r prosiect.	Costau cymwys y prosiect £10,289,870. Cynyddu'r ariannu preifat i £5,144,935 . Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £1,543,481. Grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd £3,601,454.	Rhagwelwyd y byddai'n cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2004.
Medi	Adolygiad o'r prosiect gan WEFO yn dangos peryglon, dadleuon yn cyfiawnhau bwrw ymlaen â'r prosiect, pryderon ynghylch gwerth am arian a'r costau uchel fesul swydd. Crynhowyd yr arfarniadau a'r pryderon technegol	Adolygiad o'r prosiect yn cydnabod bod angen cyflenwad pŵer mawr newydd yn costio £1,316,000 i adeiladu'r Fferm ym Mhenmon a gadael capasiti ar gyfer ehangu yn y dyfodol.	Adolygiad WEFO yn nodi bod IAT wedi symud i Gymru gan ddod ag 20 o swyddi.

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2004			
Mehefin			Selonda UK heb hawlio taliad grant gan WEFO oherwydd bod y prosiect ar ei hôl hi.
Rhagfyr			Selonda SA yn ysgrifennu at WEFO yn esbonio bod yr oedi gyda'r prosiect oherwydd bod problemau'n codi gyda'r dechnoleg ailgylchredeg a ddefnyddid yn Bluewater Farm a oedd yn golygu bod gofyn ailddylunio systemau ailgylchredeg Safle Penmon.
2005			
Chwefror	Selonda UK yn ysgrifennu at WEFO yn amgáu cynllun busnes diwygiedig yn dangos newid o ledod Ffrengig i ddraenogiad y môr yn y rhagamcanion ariannol er bod y testun drwy'r ffurflen gais yn dal i gyfeirio at ledod Ffrengig.	Dim newid i'r arian grant.	
Mai			WEFO yn ysgrifennu at Selonda UK yn dweud ei fod yn poeni am y cynnydd gyda'r prosiect, yn bygwth canslo'r prosiect ac adfachu'r grant.
Medi			Selonda UK yn ysgrifennu at WEFO yn dweud y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2006, sy'n golygu bod angen ailgymeradwyo'r cais.



Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2006			
Mawrth		<p>Selonda UK yn ysgrifennu at Uned Polisi Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am daliad eithriadol, sef, £622,500 ar ffurf arian cyfatebol Llywodraeth Cymru i dalu blaendaliadau ychwanegol yr oedd contractwyr yn gofyn amdanynt ar gyfer gwaith adeiladu. Cymeradwyir y cais a thalu'r arian.</p>	
Mehefin			<p>Yn ystod ymweliad â'r safle, mae Selonda'n dweud wrth WEFO ei fod yn disgwyl cwblhau erbyn mis Mawrth 2007. Y rheswm dros yr oedi yw bod angen gwella manyleb y system ailgylchredeg. Mae anawsterau hefyd wedi codi wrth geisio cytuno â pherchnogion tir wrth ymyl ynghylch y cyflenwad trydan. Wrth ymweld â'r safle, sylwir bod y gwlyptir yn prosesu gwastraff o Fferm Lledod Bluewater.</p>
Rhagfyr			<p>Wrth ymweld â'r safle, gwelir bod gwaith adeiladu'r tanciau ac adeiladau'n mynd rhagddo. Mae'r costau'n cynyddu oherwydd y cynnydd mewn costau adeiladu, yn y gofynion technegol ac oherwydd anawsterau gyda'r cyflenwad trydan.</p>

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2007			
Mehefin	Mae Selonda UK yn ysgrifennu at WEFO yn dweud ei fod yn bwriadu lleoli safle prosesu pysgod ar Ynys Môn pan fydd y fferm bysgod yn cynhyrchu digon.	Mae Selonda yn hysbysu bod costau sefydlu'r cyflenwad pŵer wedi cynyddu i £1,035,000.	Wrth ymweld â'r safle, mae WEFO yn gweld bod yr adeiladau bron wedi'u cwblhau. Disgwylir profi system y tanciau a osodwyd ym mis Awst 2007.
Gorffennaf			Mae'r ffurflen hawlio grant yn dweud bod wyth o swyddi wedi'u creu.
Awst	Diwygio ffurflen gais yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a'r llythyr cynnig oherwydd bod y gwariant ar y prosiect wedi cynyddu i £11,978,803. Arian preifat wedi'i gynyddu i dalu am wariant nad yw'n gymwys. Dim newid i arian grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd nac i arian cyfatebol Llywodraeth Cymru.	Cost gymwys y prosiect £10,289,870. Preifat £6,862,855. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £1,514,494. Grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd wedi'i gymeradwyo, gwerth £3,601,454.	95 y cant o gyfanswm grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd wedi'i dalu hyd yn hyn. Bwriedir cwblhau ym mis Mai 2008. Rhagwelir mai cyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys gwariant nad yw'n gymwys yw £11,978,803.
Hydref			Selonda UK yn dweud wrth WEFO bod problemau gyda'r cyflenwad pŵer, sy'n cynnwys cytuno a pherchnogion tir a chostau adeiladu yn debygol o ymestyn y tu hwnt i ddyddiad cwblhau'r Prosiect, sef mis Awst 2008.



Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2008			
Awst	Cyflwyno ffurflen gais ddiwygiedig yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd a chytuno arni. Nid yw testun y ffurflen wedi newid. Mae'n dal i gyfeirio at ledod Ffrengig.	Dim newid i'r costau ers Awst 2007.	
Hydref		Ar 20 Hydref, mae WEFO yn cytuno na fydd yr holl wariant anghymwys sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn cael ei wario erbyn y dyddiad gorffen, sef 31 Rhagfyr 2008. Roedd y gymeradwyaeth hon yn dileu o'r Prosiect y costau anghymwys a oedd yn gysylltiedig â chwblhau'r llinell bŵer.	Cytundeb ffurfiol drwy lythyr gan WEFO at Selonda UK ynghylch dyddiad cwblhau diwygiedig Prosiect yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd, sef erbyn 31 Rhagfyr 2008. Roedd yr hawliad terfynol i gyrraedd erbyn diwedd Chwefror 2009.
Rhagfyr			Dyddiad cwblhau'r prosiect Ffurflen hawlio grant yn dweud bod 17 o swyddi wedi'u creu

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2009			
Ionawr			Fferm Bysgod Penmon yn dechrau gweithredu. Stocio'r tanciau â silod mân.
Chwefror	Ffurflen gais derfynol yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd wedi'i chyflwyno. Hawlio'r holl wariant cymwys.	Ebost gan Selonda UK at WEFO yn dangos bod cost y gwlyptir wedi codi'n uwch na'r gost a ragwelwyd sef £513,000, cymeradwyo hyn yn wariant cymwys, sef £600,046. Mae'r costau ychwanegol anghymwys i'w talu gan Selonda UK o ffynonellau eraill.	
Mawrth	Mae Selonda UK yn gwneud cais am grant o dan gynllun Datblygu Bwyd-Amaeth Llywodraeth Cymru: Marchnata a Brandio Prosiect. Cymeradwyir grant Bwyd-Amaeth	Cost y prosiect £5,840. Grant £2,920. Telir taliad olaf Grant yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (£180,073) hyd at gyfanswm o £3,601,454.	Mae Selonda UK yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y prif gyflenwad pŵer, ond tynnir y cais yn ôl cyn iddo gael ei ystyried gan y cyngor.
Gorffennaf			Monitro WEFO yn nodi 28 o swyddi.
Awst	Mae Selonda UK yn gwneud cais am grant Cronfa Pysgodfeydd Ewrop ar gyfer safle didoli a lladd pysgod.	Cost y prosiect £124,088. Grant £43,431.	Bwriedir cwblhau prosiect Cronfa Pysgodfeydd Ewrop ym mis Gorffennaf 2010. Monitro WEFO yn nodi 33 o swyddi
Tachwedd	Uned Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo grant Cronfa Pysgodfeydd Ewrop ac arian cyfatebol.	Cost y prosiect £124,088. Grant £43,431. Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru £32,022.	



Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2009			
Rhagfyr			Rhodddwyd y gorau i'r gwaith ar Fferm Lledod Bluewater a oedd wedi bod yn gweithredu ar lefel is na'r bwriad oherwydd problemau technegol gyda'r systemau ailgylchredeg a hidlo. Yna, defnyddiwyd y cyfleuster i bacio pysgod o Fferm Bysgod Penmon.
2010			
Ebrill			Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflwyno Rhybudd Lleihau Sŵn i Selonda UK am y sŵn amledd-isel sy'n deillio o'r generaduron diesel. Trefnir i ddod â generaduron tawelwch i'r safle i leihau'r sŵn.
Awst			Asiantaeth yr Amgylchedd yn archwilio gollyngiad cemegol ac elifiant i'r môr.
2011			
Awst	Arian Llywodraeth Cymru i Selonda UK i ddatblygu cyflenwad pŵer cynaliadwy'n cael ei gymeradwyo.	Telir grant £27,000 Selonda UK am gyflenwad pŵer yn uniongyrchol i'r cwmni pŵer. Cyfanswm cost y prosiect yw £85,000 ac mae Selonda UK yn darparu £58,000.	Disgwylir gorffen prosiect y cyflenwad pŵer ym mis Mawrth 2012.

Dyddiadau pwysig	Cais am grant a'i gymeradwyo	Cyllid	Cynnydd y prosiect
2011			
Hydref			Selonda UK yn pledio'n euog i adael i elifiant a gwastraff cemegol lygru'r amgylchedd naturiol.
Tachwedd		Selonda UK yn cael problemau llif arian. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth dros dro gwerth £40,000 drwy brynu cyflenwadau o fwyd ac ocsigen i'r pysgod.	
2012			
Ionawr		Selonda UK yn cael ei ddiddymu a'r asedau'n cael eu gwerthu am £1.2 miliwn. Y gweithredwr newydd yw Anglesey Aquaculture Ltd (AAL).	
Mai			Gweithredwr newydd, Anglesey Aquaculture Ltd, yn cwblhau'r prosiect ychwanegol i wella'r cyflenwad pŵer presennol i'r chwarel.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Mae wedi ei baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan dîm o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Steve Ashcroft, Emma Giles ac Ian Hughes o dan arweiniad Paul Dimblebee.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilydd penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Cynnwys

	Crynodeb	7
	Argymhellion	9
1	Roedd y prosiect yn debygol o fethu o'r cychwyn oherwydd rhagdybiaethau incwm diffygiol a diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y Ganolfan i fod i'w gynnig, ac ni wnaeth y cyllidwyr herio'r naill na'r llall yn ddigonol	10
	Roedd y penderfyniadau i ddarparu arian grant yn seiliedig ar ragdybiaethau hynod ddiffygiol, yn enwedig o safbwynt lefelau incwm rhagamcanol	11
	Roedd y penderfyniadau i ddarparu arian grant yn seiliedig ar set o amcanion aneglur ar gyfer y Ganolfan	13
	Ni wnaeth y cyllidwr unigol mwyaf, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), herio'n ddigonol y rhagdybiaethau incwm neu'r diffyg cynllun clir ynglŷn â'r hyn y byddai'r Ganolfan yn ei chynnig, er i rai o'r cyllidwyr eraill nodi a rhannu rhai pryderon	14
2	Ni wnaeth y cyllidwyr nodi neu fynd i'r afael â'r holl risgiau allweddol, ac roedd gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect. Roedd cydweithio rhwng cyllidwyr yn annigonol i gefnogi proses effeithiol o wneud penderfyniadau	16
	Llwyddodd y rhan fwyaf o'r cyllidwyr i nodi'n ddigonol bod gallu Antur Penllyn i gyflenwi'r prosiect yn risg, ond ni wnaeth pob un ohonynt nodi bod diffyg cynllun busnes cadarn a diffyg cynllun marchnata addas i'r diben yn risgiau allweddol	17
	Ni wnaeth rhai o'r cyllidwyr nodi'n ddigonol y risg i'r ased pe bai'r Ganolfan yn methu	17
	Nid oedd amodau grant, sef y prif ddull o reoli'r risgiau a nodwyd, yn gynhwysfawr neu'n realistig bob amser	18
	Roedd rhai cyllidwyr wedi dibynnu gormod ar drefniadau craffu WEFO, a oedd yn cefnogi'r prosiect yn frwd	19
	Wrth wneud ei phenderfyniad ariannu, roedd WEFO wedi rhoi gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect, ac mae tystiolaeth bod pwysau eraill wedi llywio penderfyniadau i gymeradwyo ariannu'r Ganolfan	20
	Byddai cydweithredu gwell rhwng cyllidwyr wedi gwella'r broses o wneud penderfyniadau	21

3	Er y cydymffurfiwyd â'r rhan fwyaf o amodau'r grantiau a bennwyd, roedd y broses o fonitro gwaith y Ganolfan yn annigonol, a buddsoddodd WEFO ragor o arian cyhoeddus heb gael unrhyw sicrwydd o hyfywedd ariannol y Ganolfan	22
	Cydymffurfiwyd â'r rhan fwyaf o amodau'r grantiau, ond roedd y broses o fonitro gwaith y Ganolfan yn annigonol	23
	Penderfynodd WEFO roi arian ychwanegol sylweddol i'r prosiect, heb ofyn am unrhyw sicrwydd ychwanegol o'i hyfywedd a heb fanteisio ar y cyfle i roi camau mwy effeithiol ar waith i liniaru risgiau'r prosiect	24
4	Roedd y cyllidwyr yn araf yn ymateb i'r broses o gau'r Ganolfan, a'r bygythiad i'w chau cyn hynny, ac yn araf yn diogelu budd y cyhoedd yn yr asedau	27
	Cafodd y Ganolfan ei chadw ar agor am lai o oriau gan staff gwirfoddol nes i'r cyfnod cadw asedau ddod i ben	28
	Ni weithredodd y cyllidwyr mewn ffordd amserol neu gydgysylltiedig i ddiogelu budd y cyhoedd yn yr ased	29
	Atodiadau	
	Atodiad 1 - Ffrydiau ariannu ar gyfer y Ganolfan	34
	Atodiad 2 - Dulliau ymchwilio	37
	Atodiad 3 - Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol	38

Lleoliad y Ganolfan Cywain, Y Bala



Crynodeb

- 1 Agorodd Canolfan Cywain (y Ganolfan) fel canolfan dreftadaeth, bywyd gwledig a cherfluniaeth yn 2008. Datblygwyd y prosiect gan Antur Penllyn, cwmni adfywio cymunedol a sefydlwyd ym 1989 i adfywio ardal y Bala a Phenllyn. Sefydlwyd y Ganolfan y tu allan i dre'r Bala i gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd yn ymwneud â dulliau amaethyddol, darparu addysg a hyfforddiant mewn sgiliau gwledig, ac arddangos gweithiau celf fodern. Roedd hefyd i gynnwys caffi ac ardal fanwerthu fechan, a chynnig gwasanaeth llogi'r lleoliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.
- 2 Lleolir y Ganolfan ar dir sy'n eiddo i Ystâd Rhiwlas, ac mae Antur Penllyn wedi diogelu'r tir o dan gytundeb lesdaliad. Datblygwyd y prosiect mewn dau gam; y cam cyntaf oedd creu'r prif adeilad a'r caffi, a'r ail oedd datblygu swyddfa, ardal arddangos ac amffitheatr, a darparu cerfluniau a gwaith celf. Roedd Antur Penllyn yn rhagweld y byddai'r prosiect yn arwain at saith swydd lawn-amser a phedair swydd dymhorol, gan amcangyfrif y byddai'r cyfleusterau yn denu 25,000 o ymwelwyr yn y flwyddyn gyntaf, ac yn codi i 40,000 erbyn y pumed flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, pennwyd pris mynediad o £5 ar gyfer oedolion a £2.50 ar gyfer plant.
- 3 Amcangyfrifwyd yn wreiddiol y byddai cyfanswm y costau i'r sector cyhoeddus yn £2.2 miliwn. Erbyn diwedd y prosiect, roedd y costau gwirioneddol i'r sector cyhoeddus wedi codi i dros £3.4 miliwn. Prif ffynhonnell yr arian oedd rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-2006 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Roedd grant WEFO yn gyfrifol am 60 y cant o holl arian cyhoeddus y Ganolfan. Ymysg y ffynonellau ariannu pwysig eraill oedd cynllun grant Ffordd i Ffyniant Llywodraeth Cymru a'i rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol; Awdurdod Datblygu Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; a Bwrdd Croeso Cymru (Croeso Cymru erbyn hyn). Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhagor o fanylion am arian y Ganolfan.
- 4 Agorodd y Ganolfan ei drysau i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2008, ar ôl i'r cam cyntaf gael ei gwblhau. Un mis ar hugain yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 2010, hysbysodd Antur Penllyn WEFO fod y Ganolfan ar fin cau. Er i'r Ganolfan aros ar agor wedyn, diolch i gefnogaeth gwirfoddolwyr, caeodd ym mis Medi 2011. Mae cyfrifon Antur Penllyn yn dangos iddi wneud colled yn ystod dwy o'r tair blynedd weithredol olaf, gan gynnwys colled weithredol o £12,182 yn ei blwyddyn olaf. Fodd bynnag, roedd y cyfrifon ar gyfer y tair blynedd hyn yn cynnwys incwm grant i dalu'r costau refeniw, ac wrth hepgor y rhain i ddangos proffidoldeb y prosiect, gwelir bod cyfanswm o £83,214 wedi'i golli dros y tair blynedd.

- 5 Ym mis Ionawr 2013, rhyddhaodd Antur Penllyn ddatganiad i'r wasg yn nodi bod yr adeilad wedi'i ddychwelyd i'r landlord ar 1 Hydref 2012 yn unol ag amodau'r les. Nododd y datganiad i'r wasg fod tymor Antur Penllyn wedi dod i ben, ac y byddai ei hasedau'n cael eu trosglwyddo i sefydliad yn ardal y Bala a Phenllyn a oedd yn rhannu'r un amcanion.
- 6 Derbyniodd yr Archwilydd Cyffredinol ohebiaeth gan gadeirydd y Pwyllgor Cyrifon Cyhoeddus ym mis Ionawr 2013 yn mynegi pryderon ynglŷn â'r gwerth am arian roedd Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau o ganlyniad i'w buddsoddiad cyhoeddus yn y Ganolfan. Yn dilyn adolygiad cychwynnol, ym mis Mai 2013 penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliad llawn i arian cyhoeddus ar gyfer y Ganolfan.
- 7 Aeth yr ymchwiliad ati i ateb y cwestiwn: **'A wnaeth penderfyniadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ynglŷn ag ariannu a chau Canolfan Cywain arwain at werth da am arian?'** Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Disgrifir y fethodoleg a ddefnyddwyd yn yr ymchwiliad yn [Atodiad 2](#), ac mae llinell amser o'r digwyddiadau allweddol yn [Atodiad 3](#).
- 8 **Ein casgliad cyffredinol oedd nad oedd yr arian cyhoeddus a wariwyd ar y Ganolfan wedi rhoi gwerth am arian. Roedd pob un o'r cyllidwyr wedi cydnabod, i raddau gwahanol, y rhagdybiaethau digefnogaeth ac afrealistig a oedd yn sylfaen i achos busnes y Ganolfan. Fodd bynnag, aethant ati i gymeradwyo arian grant heb roi mesurau effeithiol ar waith yn llawn i liniaru a rheoli'r risgiau i'r prosiect a nodwyd ganddynt.** Yn enwedig:
- a roedd y prosiect yn debygol o fethu o'r cychwyn oherwydd rhagdybiaethau incwm diffygiol a diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y Ganolfan i fod i'w gynnig, ac ni wnaeth y cyllidwyr herio'r naill na'r llall yn ddigonol;
 - b ni wnaeth y cyllidwyr nodi neu fynd i'r afael â'r holl risgiau allweddol, ac roedd gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect. Roedd cydweithio rhwng cyllidwyr yn annigonol i gefnogi proses effeithiol o wneud penderfyniadau;
 - c er y cydymffurfiwyd â'r rhan fwyaf o amodau'r grantiau a bennwyd, roedd y broses o fonitro gwaith y Ganolfan yn annigonol, a buddsoddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ragor o arian cyhoeddus heb gael unrhyw sicrwydd o hyfywedd ariannol y Ganolfan; ac
 - ch roedd pob un o'r cyllidwyr yn araf yn ymateb i'r broses o gau'r Ganolfan, a'r bygythiad i'w chau cyn hynny, ac yn araf yn diogelu budd y cyhoedd yn yr asedau.

Argymhellion

- 9 Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymchwiliadau diweddar eraill gan yr Archwilydd Cyffredinol i reoli cynlluniau a ariannwyd â grant.¹ Mae'r adroddiadau hyn wedi nodi newidiadau sylweddol mewn gweithdrefnau dros y blynyddoedd diwethaf, a ddylai ei gwneud yn llai tebygol y bydd y camgymeriadau o safbwynt ariannu'r Ganolfan yn cael eu haildrodd. Er enghraifft, mae WEFO wedi cryfhau ei rheolaeth dros raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 drwy:
- a ddatblygu llawer llai o brosiectau a chanolbwyntio ar brosiectau mawr, sef tua 280 prosiect o gymharu â mwy na 3,000 yn y cylch rhaglennu blaenorol, gan alluogi WEFO i ddefnyddio dull mwy rhagweithiol o fonitro prosiectau; a
 - b phenodi Swyddog Datblygu Prosiect WEFO ar gyfer pob prosiect, sy'n arfarnu'r prosiect ac yn gyfrifol am fonitro'r prosiect wedyn. Dylai'r broses fonitro gynnwys cyfarfodydd cynnydd rheolaidd ac ymweliadau achlysurol â'r safle.
- 10 Mae'r argymhellion yn adroddiadau diweddar yr Archwilydd Cyffredinol a rhai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyfeirio at nifer o wendidau o safbwynt defnyddio arian cyhoeddus ar gyfer y Ganolfan. Yn ogystal ag atgyfnerthu argymhellion yr adroddiadau blaenorol, rydym yn gwneud y ddau argymhelliad canlynol:
- A1 Roedd y graddau y llwyddodd y cyllidwyr gwahanol i nodi risgiau'r prosiect arfaethedig yn amrywio, ac er eu bod wedi cyfathrebu â'i gilydd i ryw raddau, nid oedd hynny mor gynhwysfawr ag y gallasai fod. **Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithredu i sicrhau bod pob cyllidwr yn gwbl ymwybodol o'r risgiau wrth asesu prosiectau unigol, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i rannu asesiadau o bob prosiect â'r cyllidwyr neu drwy gwblhau un arfarniad ariannol ar ran pob cyllidwr.**
 - A2 Ymatebodd y cyllidwyr i'r broses o gau'r Ganolfan, a'r bygythiad i'w chau cyn hynny, mewn ffordd araf ac anghydlynol. Yn rhannol, roedd hyn yn adlewyrchu'r gred nad oedd angen i gyllidwyr roi unrhyw gamau eraill ar waith ar ôl i'r cyfnod cadw asedau ddod i ben. Fodd bynnag, mae gan gyllidwyr gyfrifoldeb parhaus y tu hwnt i'r cyfnod cadw asedau i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfle i sicrhau bod arian cyhoeddus yn arwain at ryw fath o fudd cyhoeddus parhaus. **Pan ei bod yn hysbys bod prosiect yn wynebu anawsterau difrifol a bod y cyfnod cadw asedau yn agosáu neu wedi dod i ben, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi camau brys ar waith i ddiogelu budd y cyhoedd yn yr asedau.**

¹ Rheoli Grantiau yng Nghymru (2011); Cydberthynas Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (2012); ac Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon (2013). Yn ddiweddarach yn 2014, bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cyhoeddi adroddiad ar Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013.

Rhan 1

Roedd y prosiect yn debygol o fethu o'r cychwyn oherwydd rhagdybiaethau incwm diffygiol a diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y Ganolfan i fod i'w gynnig, ac ni wnaeth y cyllidwyr herio'r naill na'r llall yn ddigonol

**DISCLAIMER
NOTICE**

**THIS
ESTABLISHMENT IS
NOW CLOSED.
THE MANAGEMENT
CANNOT ACCEPT
LIABILITY FOR
INJURY OR DAMAGE
CAUSED BY
ILLEGAL ENTRY**

RHYBYDD

**MAE'R SEFYDLIAD YMA
WEDI CAU.**

**NI ALL Y CYFARWYDDWYR
DDERBYN UNRHYW
GYFRIFOLDEB AM NIWED
NEU DDIFROD A ALLAI
DIGWYDD DRWY FYNEDIAD
ANGHYFREITHIOL.**



Roedd y penderfyniadau i ddarparu arian grant yn seiliedig ar ragdybiaethau hynod ddiffygiol, yn enwedig o safbwynt lefelau incwm rhagamcanol

1.1 Roedd yr achos busnes ar gyfer prosiect Canolfan Cywain, a ddatblygwyd yn 2003, yn amcangyfrif y byddai'r prosiect yn denu 25,000 o ymwelwyr yn ei flwyddyn gyntaf ac y byddai hyn yn codi i 40,000 yn y pumed flwyddyn, sef cynnydd o 60% yn nifer yr ymwelwyr dros y cyfnod pedair blynedd. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifon hyn yn hynod annibynadwy am nifer o resymau, yn enwedig y rhesymau canlynol:

- a roedd Antur Penllyn wedi seilio ei hamcangyfrifon ar nifer yr ymwelwyr a oedd yn defnyddio Rheilffordd Llyn Tegid, atyniad llwyddiannus gerllaw, er bod ystadegau² Croeso Cymru yn dangos bod y rheilffordd wedi denu tua 20,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ers 2003;
- b roedd yr amcangyfrifon hefyd yn ystyried nifer rhagamcanol yr ymwelwyr yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd yn 2000 a oedd yn archwilio dichonolrwydd sefydlu canolfan treialon cŵn defaid ar y safle, a byddai'r atyniad hwn wedi bod yn wahanol iawn i'r ganolfan dreftadaeth, bywyd gwledig a cherfluniaeth a sefydlwyd yn 2008.

1.2 Roedd nifer yr ymwelwyr rhagamcanol yn uchelgeisiol iawn, ac mae ffigurau Croeso Cymru yn dangos ei bod yn anarferol iawn i niferoedd ymwelwyr gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn i'r graddau a ragwelodd Antur Penllyn. Mae Croeso Cymru yn rhestru 64 o atyniadau i dwristiaid yn y Gogledd yn 2003. Er mwyn gwireddu ei hamcangyfrif o safbwynt niferoedd ymwelwyr, byddai angen i'r Ganolfan fod yn rhif 30 yn y rhestr o atyniadau mwyaf poblogaidd yn y flwyddyn gyntaf a rhif 24 yn y rhestr erbyn blwyddyn 5.

1.3 Roedd y prisiau mynediad arfaethedig hefyd yn gymharol uchel. Roedd achos busnes y Ganolfan yn seiliedig ar bris mynediad o £5 ar gyfer oedolion a £2.50 ar gyfer plant. Yn ôl ffigurau Croeso Cymru ar gyfer 2003, roedd hyn yn cymharu â phris mynediad cyfartalog o £3.70 i oedolion a £2.21 i blant³ ar gyfer holl atyniadau i dwristiaid ledled Cymru. Yn 2003, dim ond un o bob pum atyniad a oedd yn codi tâl o £5 neu fwy ar oedolion. Roedd achos busnes y Ganolfan hefyd yn rhagdybio y byddai'r prisiau mynediad yn codi i £6 i oedolion a £3 i blant o'r bedwaredd flwyddyn ymlaen, sy'n gynnydd o 20 y cant. Yn ôl Croeso Cymru, cynyddodd prisiau mynediad ledled Cymru tua 14 y cant ar gyfartaledd rhwng 2000 a 2003.

² Bu Croeso Cymru yn cyhoeddi nifer yr ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid ers 2003.

³ Ers 2001, mae mynediad i saith amgueddfa Amgueddfa Cymru wedi bod yn rhad ac am ddim.

- 1.4 Roedd yr achos busnes wedi rhagamcanu y byddai lefel gymharol uchel o incwm arlwyo yn dod o gaffi'r Ganolfan. Roedd yn rhagdybio y byddai 25 y cant o'r 25,000 o ymwelwyr yn gwario £3 yr un yn ystod blwyddyn gyntaf y Ganolfan, sy'n cyfateb i refeniw cyfartalog o £0.75 fesul ymwelydd. Yn ôl data Croeso Cymru ar gyfer 2003, roedd yr incwm cyfartalog yn sgil gwariant ymwelwyr ar arlwyo ym mhob atyniad yn £0.53 fesul ymwelydd. Rhagamcanwyd y byddai'r incwm o gaffi'r Ganolfan yn cynyddu o £18,750 yn y flwyddyn gyntaf i £72,000 erbyn blwyddyn pump, o ganlyniad i'r cynnydd rhagamcanol yn nifer yr ymwelwyr a rhagdybiaeth y byddai cyfran fwy o ymwelwyr yn defnyddio'r caffi ac y byddai pob cwsmer yn gwario mwy fesul ymweliad.⁴
- 1.5 Roedd incwm rhagamcanol y Ganolfan hefyd yn dibynnu ar logi ystafell ar gyfer cynadleddau neu ddigwyddiadau hyfforddi. Roedd yr achos busnes yn rhagweld y byddai'r ystafell yn cael ei llogi 100 o weithiau yn y flwyddyn gyntaf, gan godi i 140 sesiwn ym mlwyddyn pedwar. Roedd y gost o logi'r ystafell yn £50 neu £84 y sesiwn, gan ddibynnu ar a oedd angen offer ar gyfer y cyfarfod. Roedd disgwyl i'r gost o logi ystafell godi i £75 neu £120 fesul sesiwn ym mlwyddyn pedwar. Nid oedd y rhagdybiaethau hyn yn seiliedig ar unrhyw sail resymegol glir, ac maent yn ymddangos yn uchelgeisiol iawn o ystyried lleoliad y Ganolfan a maint y gymuned leol a fyddai'n gallu cynnal y Ganolfan.
- 1.6 Roedd gwybodaeth gyllidebu arall yn yr achos busnes yn wan hefyd. Er enghraifft, er y rhagwelwyd y byddai incwm yn cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod cynllunio pum mlynedd, roedd amcangyfrifon o wariant blynyddol dros yr un cyfnod yn aros yn gyson.
- 1.7 Er bod yr achos busnes yn seiliedig ar ragdybiaethau optimistaidd ond afrealistig ynglŷn ag incwm a gwariant, roedd yn parhau i nodi diffyg o £21,550 mewn incwm gweithredol yn y flwyddyn gyntaf. Rhagdybiwyd wedyn y byddai incwm y Ganolfan yn cyfateb i'w gwariant ym mlwyddyn dau, ac y byddai'r Ganolfan yn gwneud elw blynyddol o flwyddyn tri ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut y byddai'r Ganolfan yn ymdopi â'r diffyg rhagamcanol mewn incwm yn y flwyddyn gyntaf:
- a yn ôl yr achos busnes a gyflwynwyd i WEFO, roedd Antur Penllyn yn bwriadu defnyddio'r elw gweithredol rhagamcanol o'r blynyddoedd diweddarach i dalu am golledion y flwyddyn gyntaf, ond byddai rhaid aros tan flwyddyn pedwar i wneud hynny, ac nid oedd yr achos busnes yn egluro sut y byddai modd talu am y golled yn y cyfnod interim;
 - b yn ei chais cyntaf am grant gan y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, dywedodd Antur Penllyn ei bod yn disgwyl i gymorth grant a rhoddion dalu am y diffyg, ond ni ddarparodd unrhyw wybodaeth am ba grantiau a fyddai'n talu am y diffyg neu sut y byddai'n denu rhoddion;
 - c dywedodd Antur Penllyn ei bod yn deall y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal y prosiect am y tair blynedd gyntaf drwy 'ffynonellau eraill, ond ni ddigwyddodd hynny'.

⁴ Roedd £18,750 yn seiliedig ar 25 y cant o 25,000 o ymwelwyr yn gwario £3 y pen. Roedd £72,000 yn seiliedig ar 40 y cant o 40,000 o ymwelwyr yn gwario £4.50 y pen.

Roedd y penderfyniadau i ddarparu arian grant yn seiliedig ar set o amcanion aneglur ar gyfer y Ganolfan

- 1.8 Bwriad gwreiddiol Antur Penllyn oedd agor canolfan treialon cŵn defaid er mwyn manteisio ar lwyddiant Pencampwriaethau Cŵn Defaid y Byd a gynhaliwyd yn y Bala yn 2002 a'r ffaith fod y treialon cŵn defaid rhyngwladol cyntaf erioed wedi'u cynnal ar safle'r Ganolfan ym 1873. Yn 2000, penderfynodd Antur Penllyn, gyda chefnogaeth Bwrdd Croeso Cymru, gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer sefydlu canolfan treialon cŵn defaid.
- 1.9 Yn 2003, ysgrifennodd cynrychiolwyr o Ystâd Rhiwlas at Antur Penllyn i gadarnhau y byddai'n fodlon lesio'r safle i'r Antur ar gyfer treialon cŵn defaid a chanolfan dreftadaeth. O ganlyniad, ym mis Rhagfyr 2003 cyflwynodd Antur Penllyn gais am arian gwerth £498,000 i Fwrdd Croeso Cymru i agor canolfan treialon cŵn defaid. Ni brosesodd Bwrdd Croeso Cymru y cais hwnnw gan ei fod yn deall y byddai WEFO yn talu costau llawn y prosiect. Fodd bynnag, ym mis Medi 2004 cyflwynodd Antur Penllyn gais arall am arian i Fwrdd Croeso Cymru, gan nodi nad oedd WEFO mewn sefyllfa i dalu costau llawn y prosiect bellach. Derbyniodd Bwrdd Croeso Cymru nifer o bryderon yn ymwneud â'r cynnig i sefydlu canolfan treialon cŵn defaid oherwydd yr effaith bosibl ar atyniad cŵn defaid cyfagos⁵. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2004, cafodd Antur Penllyn wahoddiad gan Fwrdd Croeso Cymru i gyflwyno cais ffurfiol am arian, a chyflwynodd y cais ym mis Mai 2005.
- 1.10 Yn ystod y cyfnod rhwng cais gwreiddiol Antur Penllyn am arian a'i chais i Fwrdd Croeso Cymru ym mis Mai 2005, roedd pwyslais y prosiect wedi newid o ganolfan treialon cŵn defaid i barc bywyd gwledig a cherfluniau. Roedd y newid pwyslais hwn wedi'i nodi'n glir yng nghais gwreiddiol Antur Penllyn am arian gan WEFO ym mis Rhagfyr 2004. Cais oedd hwn am arian ar gyfer 'canolfan bywyd gwledig a cherfluniau rhyngwladol', ond rhagwelwyd y byddai treialon cŵn defaid yn cael eu cynnal 'yn achlysurol'. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn priodoli'r newid pwyslais hwn i'r pryderon a gododd gydag Antur Penllyn ynglŷn ag effaith bosibl canolfan treialon cŵn defaid ar Ewe-Phoria.
- 1.11 Dywedodd Antur Penllyn wrthym bod yna sail resymegol i gynnwys treftadaeth a cherflunwaith yn y prosiect gan fod bywyd diwylliannol yr ardal yn cyd-fynd â bywydau bob dydd y gymuned wledig. Fodd bynnag, nid oedd y sail resymegol ar gyfer creu canolfan bywyd gwledig a cherfluniau yn eglur fel arall, yn enwedig o ystyried y bwriad gwreiddiol i agor canolfan treialon cŵn defaid.
- 1.12 Cafodd y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y ganolfan bywyd gwledig a cherfluniau eu cwtogi er mwyn sicrhau arian grant WEFO. O ganlyniad, roedd maint y prif adeilad yn llai, felly hefyd y man a oedd yn cael ei orchuddio a'i ddiogelu rhag y glaw. Effeithiodd hyn ar hyfywedd posibl y Ganolfan, yn enwedig gan fod angen lleoli atyniadau allweddol, fel y cerfluniau, yr amffitheatr a'r man chwarae i blant, yn yr awyr agored. Roedd y cynlluniau a oedd yn sail i ddyfarnu grantiau i'r ganolfan yn cynnig ychydig iawn i ymwelwyr mewn tywydd gwael. Roedd y proffiliau incwm a gwariant a nodwyd yn achos busnes Antur Penllyn ar gyfer y Ganolfan ac a gyflwynwyd i gyllidwyr yn seiliedig ar y cynlluniau a oedd wedi'u cwtogi.

⁵ Canolfan Cŵn Defaid yng Nghorwen, naw milltir o'r Bala, yw Ewe-phoria. Yn Ewe-phoria, gall ymwelwyr gyfarfod cŵn defaid bach, gwyllo cŵn yn corlannu defaid, darganfod rhywogaethau defaid amrywiol a dysgu popeth am gneffio.

1.13 Ni wnaeth yr achos busnes ar gyfer y Ganolfan fynegi'n glir yr atyniadau a'r digwyddiadau penodol a fyddai ar gael yn y Ganolfan, neu sut y byddent yn cael eu hadnewyddu dros amser i sicrhau bod ymwelwyr yn dychwelyd. Yn ogystal:

- a roedd yr achos busnes yn seiliedig ar ddenu aelodau o'r gymuned leol a thwristiaid i'r Ganolfan, ond nid oedd yn nodi'n glir beth oedd y Ganolfan yn ei gynnig i'r ddau grŵp hollol wahanol, neu sut y byddent yn cael eu hannog i ymweld ac ailymweld â'r Ganolfan;
- b roedd yr achos busnes yn nodi y byddai 96 o weithgareddau a digwyddiadau yn 'cael eu datblygu' ar gyfer cam cyntaf y Ganolfan, ond roedd y cyfanswm uchel hwn a natur amrywiol y gweithgareddau a digwyddiadau, o drefnu blodau i ffeiriau hen bethau, yn adlewyrchu diffyg eglurder o ran pwrpas a diffyg canolbwyntio ar sut y byddai twristiaid yn cael eu perswadio i fynd allan o'u ffordd i ymweld â'r Ganolfan.

1.14 Roedd y prif gyllidwr, WEFO, wedi ymrwymo adnoddau i'r prosiect ar sail cynllun busnes ar gyfer canolfan bywyd gwledig a cherfluniau ar adeg pan nad oedd arian wedi'i sicrhau ar gyfer y cerfluniau. Cymeradwyodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant ar gyfer costau'r cerfluniau dros 12 mis ar ôl i WEFO gymeradwyo grant ar gyfer y prosiect. O ganlyniad, roedd WEFO wedi ymrwymo arian cyhoeddus i gefnogi cynllun nad oedd yn sicr o gael ei wireddu.

Ni wnaeth y cyllidwr unigol mwyaf, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), herio'n ddigonol y rhagdybiaethau incwm neu'r diffyg cynllun clir ynglŷn â'r hyn y byddai'r Ganolfan yn ei chynnig, er i rai o'r cyllidwyr eraill nodi a rhannu rhai pryderon

1.15 Methodd y prif gyllidwr, WEFO, ac Awdurdod Datblygu Cymru, graffu ar, a herio'n ddigonol y rhagdybiaethau allweddol a oedd yn sylfaen i geisiadau grant Antur Penllyn. Yn ôl yr arfarniad ariannol a ddylanwadodd ar WEFO wrth ystyried y cais am grant, roedd y lefelau incwm yn 'ansicr' a byddai'r ganolfan yn gwneud colled weithredol yn y lle cyntaf. Mewn cyfres o lythyrau a chyfarfodydd yn 2005, roedd Bwrdd Croeso Cymru hefyd wedi mynegi pryderon i WEFO ynglŷn â nifer rhagamcanol yr ymwelwyr, graddfa'r ffioedd arfaethedig, costau cyflogau a'r gwariant a ragwelwyd yn y caffi. Er enghraifft, mewn llythyr i WEFO ym mis Hydref 2005, cyfeiriodd Bwrdd Croeso Cymru at ei 'bryderon ynglŷn â hyfywedd a chynaliadwyedd y prosiect, yn enwedig o safbwynt nifer yr ymwelwyr a gyflwynwyd a'r rhagolygon ariannol'.

1.16 Ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi gweithredu mewn unrhyw ffordd i ymateb i'r pryderon hyn. Er enghraifft, ni wnaeth WEFO fynd ati wedyn i graffu'n fanylach ar ragdybiaethau allweddol yr achos busnes. Ar ben hynny, ni wnaeth WEFO gynnal unrhyw ddadansoddiad o sensitifrwydd ynglŷn â'r ffigurau a gyflwynwyd er mwyn penderfynu ar sensitifrwydd hyfywedd y prosiect o safbwynt amrywiadau mewn rhagdybiaethau allweddol.

Yn ogystal, methodd Awdurdod Datblygu Cymru herio unrhyw un o'r rhagdybiaethau allweddol a oedd yn sylfaen i'r achos busnes, neu nodi'r diffyg incwm.

- 1.17 Aeth nifer o'r cyllidwyr eraill ati i graffu ar, a herio ffigurau Antur Penllyn, ac o ganlyniad roedd risg i hyfywedd y prosiect:
- a gofynnodd Bwrdd Croeso Cymru i Antur Penllyn am dystiolaeth ynglŷn â nifer yr ymwelwyr; yn benodol, gofynnodd i Antur Penllyn am gyfiawnhad diamwys o'r honiad y byddai nifer yr ymwelwyr yn codi i 40,000 y flwyddyn erbyn blwyddyn pump; serch hynny, ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod Antur Penllyn wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol hon;
 - b yn ogystal, heriodd Bwrdd Croeso Cymru'r rhagdybiaethau ynglŷn â'r prisiau mynediad ac incwm y caffi, a'r sail resymegol ar gyfer newid y prosiect o fod yn ganolfan treialon cŵn defaid i ganolfan bywyd gwledig a cherfluniau;
 - c daeth asesiad gwreiddiol y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol i'r casgliad nad oedd ffigurau Antur Penllyn 'yn seiliedig ar ffeithiau', a chwestiynodd a oedd y prosiect wedi'i lunio'n dda; a
 - ch daeth arfarniad allanol a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i'r casgliad bod hyfywedd cyffredinol y prosiect yn ansicr, gan nodi bod mentrau newydd yn gweld gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr ar ôl y flwyddyn gyntaf cyn cyrraedd lefel ddigyfnewid, yn hytrach na'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn a ragwelodd Antur Penllyn.

Rhan 2

Ni wnaeth y cyllidwyr nodi neu fynd i'r afael â'r holl risgiau allweddol, ac roedd gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect. Roedd cydweithio rhwng cyllidwyr yn annigonol i gefnogi proses effeithiol o wneud penderfyniadau



Llwyddodd y rhan fwyaf o'r cyllidwyr i nodi'n ddigonol bod gallu Antur Penllyn i gyflenwi'r prosiect yn risg, ond ni wnaeth pob un ohonynt nodi bod diffyg cynllun busnes cadarn a diffyg cynllun marchnata addas i'r diben yn risgiau allweddol

- 2.1 Cwmni adfywio cymunedol a sefydlwyd ym 1989 o dan reolaeth bwrdd o gyfarwyddwyr gwirfoddol oedd Antur Penllyn. Roedd y cwmni wedi cyfrannu at nifer o fentrau blaenorol, fel sefydlu grŵp siopau lleol a grŵp twristiaeth lleol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r prosiectau hyn wedi cymharu â'r Ganolfan arfaethedig o ran maint neu gymhlethdod. Er mwyn i'r prosiect arfaethedig fod yn hyfyw, roedd angen ailddatblygu rhai adeiladau, cyflogi a rheoli 11 aelod o staff, a chynnal atyniad mawr a llwyddiannus i ymwelwyr yn barhaol. Dywedodd cyfarwyddwyr Antur Penllyn wrthym bod ganddynt rai pryderon ynglŷn â'u gallu i reoli'r prosiect, gan ei fod wedi newid o fod yn 'brosiect mawr i fod yn brosiect enfawr'. Serch hynny, roeddent wedi bod yn 'gymharol hyderus' y gallent reoli'r prosiect o ystyried eu profiad amrywiol.
- 2.2 Dylai diffyg arbenigedd rheoli prosiectau ac arbenigedd ariannol Antur Penllyn fod wedi bod yn amlwg i'r cyllidwyr adeg y cais am grant. Er enghraifft, yn yr achos busnes a gyflwynwyd i'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, nid oedd incwm a gwariant yn cyfateb ym mhob un o flynyddoedd cyntaf y prosiect. Er bod fersiynau dilynol o'r achos busnes yn cynnwys rhagor o fanylion ariannol, nid oedd yn ddigon cynhwysfawr o ystyried maint y cynnig a'r grantiau yr oedd Antur Penllyn yn ymgeisio amdanynt.

- 2.3 Ac eithrio Awdurdod Datblygu Cymru, nododd y cyllidwyr mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol fod gallu Antur Penllyn yn risg allweddol i'r prosiect. Er enghraifft, roedd WEFO wedi rhoi'r sgôr risg uchaf i Antur Penllyn ar gyfer ei 'phrofiad o reoli prosiectau', ac yn ôl adroddiad arfarnu Bwrdd Croeso Cymru, 'nid oes gan yr ymgeisydd gefndir cryf ym maes twristiaeth ac mae swyddogion yn cwestiynu'r arbenigedd i sicrhau bod y prosiect yn gynaliadwy'. Fodd bynnag, dim ond Cyngor Celfyddydau Cymru ac asesiad cychwynnol y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a nododd fod diffyg cynllun busnes cadarn a chynllun marchnata yn risgiau allweddol.

Ni wnaeth rhai o'r cyllidwyr nodi'n ddigonol y risg i'r ased pe bai'r Ganolfan yn methu

- 2.4 Fe fyddem wedi disgwyl i gyllidwyr ystyried y ffordd orau o ddiogelu eu buddsoddiad yn yr adeiladau a'r gwaith celf pe bai'r Ganolfan yn methu. Dim ond dau gyllidwr, Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a nododd y risg hon i'w buddsoddiad fel rhan o'u harfarniad.
- 2.5 Ni wnaeth WEFO nodi'n ddigonol y risg i'r ased pe bai'r Ganolfan yn methu. Cafodd y prosiect ei gymeradwyo gan WEFO cyn i Antur Penllyn lofnodi'r cytundeb les â'r tirlfeddiannwr. Er mwyn asesu a rheoli'r risg a oedd yn deillio o hyn yn llawn, dywedodd WEFO iddi atal taliadau i'r prosiect tan ar ôl i Antur Penllyn lofnodi'r cytundeb les â'r tirlfeddiannwr – proses o'r enw 'atal taliadau'. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2007, penderfynodd WEFO roi'r gorau i atal taliadau heb archwilio darpariaethau'r les yn llawn, ac ni ofynnodd am gyngor cyfreithiol ar y les tan flwyddyn yn ddiweddarach.

Nid oedd amodau grant, sef y prif ddull o reoli'r risgiau a nodwyd, yn gynhwysfawr neu'n realistig bob amser

2.6 Pennu amodau grant oedd y prif ddull a fabwysiadodd cyllidwyr o reoli'r risgiau a nodwyd ganddynt. Er enghraifft, er mwyn lliniaru'r risgiau a oedd yn deillio o delerau'r cytundeb les:

- a aeth Bwrdd Croeso Cymru ati i osod amod a olygai na allai Antur Penllyn waredu'r ased yn gyfreithlon heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- b aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i osod amod a ofynnai am gadarnhad o berchenogaeth y gwaith celf pe bai'r Ganolfan yn cau, a datblygu strategaeth i sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i allu gweld y gwaith celf (naill ai ar y safle neu drwy ei symud i safle arall).

2.7 Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd yr amodau grant yn cynnwys yr holl risgiau a nodwyd gan y cyllidwyr. Er enghraifft:

- a Ni wnaeth WEFO neu Fwrdd Croeso Cymru gynnwys unrhyw amodau i fynd i'r afael â diffyg profiad rheoli prosiectau Antur Penllyn, er iddynt nodi'r diffyg hwnnw;
- b ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru gynnwys yr angen i Antur Penllyn ddatblygu cyllideb gynhwysfawr, wedi'i chostio'n llawn fel un o amodau'r grant, er bod ei aseswyr allanol wedi'i nodi fel risg;
- c er bod WEFO wedi penderfynu bod incwm o'r prosiect yn 'ansicr', gan osod amod bod yn rhaid i Antur Penllyn sicrhau gorddrafft neu

fenthyciad banc gwerth £60,000 i dalu am y diffyg dros dro a ragwelwyd mewn incwm gweithredu, ni ofynnodd am unrhyw sicrwydd arall ynglŷn â lefelau incwm rhagamcanol;

- ch nododd ail asesiad y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ddiffyg rhwng incwm a gwariant, ond ni chafwyd unrhyw gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risg bosibl i gynaliadwyedd y prosiect;
- d o dan amodau'r grantiau, ni ofynnodd unrhyw un o'r cyllidwyr i Antur Penllyn adrodd ar berfformiad (o safbwynt nifer yr ymwelwyr, incwm a gwariant) fel y gallant fonitro perfformiad yn erbyn rhagdybiaethau'r achos busnes.

2.8 Roedd absenoldeb amodau i fynd i'r afael â diffyg profiad a gallu Antur Penllyn yn wendid difrifol. Er enghraifft, gellid fod wedi pennu bod grantiau'n dibynnu ar recriwtio staff â phrofiad o dwristiaeth ac o roi prosiectau mawr ar waith yn llwyddiannus. Yn ogystal, gan nad oedd angen i Antur Penllyn gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad gweithredol y Ganolfan, ni allai'r cyllidwyr fonitro risgiau i hyfywedd ariannol y Ganolfan na'r tebygolrwydd y byddai'n rhaid iddynt weithredu pe bai'n ymddangos bod y Ganolfan yn mynd i fethu.

2.9 Roedd cynnig grant Bwrdd Croeso Cymru yn 'amodol ar WEFO yn mynd i'r afael â rhagamcanion ariannol y prosiect o safbwynt hyfywedd, gan roi sylw penodol i'r cyflogau uchel a'r colledion a ragwelir'. Fodd bynnag, roedd yr amod hwn yn afrealistig gan nad oedd y prif gyllidwyr erioed wedi pennu y byddent yn datblygu ac yn gweithredu dull cyfunol o nodi a rheoli risgiau i'r prosiect.

Roedd rhai cyllidwyr wedi dibynnu gormod ar drefniadau craffu WEFO, a oedd yn cefnogi'r prosiect yn frwd

- 2.10 O dan y trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheoli cronfa Ffordd i Ffyniant Llywodraeth Cymru, ni wnaeth rheolwyr y gronfa gynnal arfarniadau manwl o'r prosiectau. Roedd modd i'r rhai a oedd yn gyfrifol am brosiect wneud cais i'r gronfa, a oedd yn cael ei gymeradwyo 'mewn egwyddor' wedyn. Ar ôl hynny roedd cyfle i ddangos bod pob ffynhonnell ariannu arall wedi'i disbyddu a bod canlyniadau'r prosiect yn cyd-fynd â thargedau strategol Adran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Ar ôl cael ei gymeradwyo mewn egwyddor, byddai prosiect yn destun prosesau arfarnu arferol WEFO wedyn, ac ni châi arian Ffordd i Ffyniant ei gadarnhau nes bod WEFO wedi cymeradwyo prosiect.
- 2.11 Mae'n amlwg bod WEFO wedi cefnogi'r prosiect yn frwd, gan annog Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cymru i ystyried ariannu'r Ganolfan hefyd. Gwrthododd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol y cais cyntaf am gymorth grant ar gyfer y prosiect. Ar ôl hynny, cadarnhaodd WEFO ei chefnogaeth i'r prosiect ar sawl achlysur, gan ofyn i'r ail gais am grant y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol gael ei ystyried 'fel ffynhonnell arian hanfodol ar gyfer y prosiect hwn'.
- 2.12 Roedd rhai cyllidwyr wedi dibynnu gormod ar brosesau craffu WEFO, y cyllidwr unigol mwyaf. Nid ydym yn gwybod a gynhaliodd Awdurdod Datblygu Cymru ei arfarniad ariannol llawn ei hun, ond dywedodd ei swyddog adolygu nad oedd angen arfarniad ar wahân gan fod WEFO eisoes wedi craffu ar achos busnes y prosiect. Roedd yr ail gais (Ilwyddiannus) i'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn seiliedig i raddau helaeth ar yr un achos busnes â'r cais cyntaf, a oedd yn destun cryn feirniadaeth. Roedd swyddog arfarnu gwahanol yn gyfrifol am arfarnu'r ail gais, ac ni edrychodd ar asesiad y cais gwreiddiol. I ryw raddau, roedd canlyniad gwahanol yr arfarniad yn adlewyrchu'r sicrwydd a ddeilliodd o gefnogaeth WEFO i'r prosiect, yn enwedig y canlynol:
- a roedd WEFO yn debygol o ymrwymo arian sylweddol o gymharu â'r swm a oedd yn cael ei ystyried gan y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol;
 - b drwy graffu ar y prosiect, nid oedd WEFO wedi canfod 'unrhyw broblemau â'r prosiect'.

Wrth wneud ei phenderfyniad ariannu, roedd WEFO wedi rhoi gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect, ac mae tystiolaeth bod pwysau eraill wedi llywio penderfyniadau i gymeradwyo ariannu'r Ganolfan

- 2.13 Roedd y cyllidwyr wedi nodi nifer o fanteision posibl y prosiect. Er enghraifft, yn ôl y cyflwyniad Gweinidogol a oedd yn ceisio sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer arian Ffordd i Ffyniant, roedd Grŵp Cyngori Thematig Datblygu Gwledig⁶ wedi 'adolygu manteision strategol y prosiect ac yn credu ei fod yn un o'r goreuon y mae wedi'u hystyried a'i fod yn awyddus iawn i'w gefnogi'. Dynodwyd y Bala yn un o ardaloedd twf twristiaeth diddordeb arbennig Bwrdd Croeso Cymru, ac roedd cyllidwyr yn gweld y prosiect fel un a oedd yn cefnogi nifer o strategaethau, fel Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru, strategaeth Bwrdd Croeso Cymru ar gynaliadwyedd, partneriaeth, ansawdd, cydraddoldeb a chreadigrwydd, a Strategaeth Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd.
- 2.14 Roedd WEFO wedi rhoi gormod o bwyslais ar fanteision posibl y Ganolfan heb nodi'r risgiau cysylltiedig a rhoi trefniadau digonol ar waith i'w lliniaru neu eu rheoli. Dywedodd WEFO wrthym ei bod wedi penderfynu cymeradwyo'r prosiect er gwaethaf y risgiau a nododd oherwydd mai hwn oedd yr unig brosiect yn yr ardal ddaearyddol, a'i fod yn berthnasol i ymrwymadau 'Cymru'n Un' i greu swyddi ledled Cymru a datblygu cymunedau gwledig ffyniannus. Wrth argymhell y dylai'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gymeradwyo arian Ffordd i Ffyniant ar gyfer y

prosiect, disgrifiwyd y prosiect gan bennaeth y gronfa Ffordd i Ffyniant fel un 'sy'n cael ei ystyried gan WEFO yn brosiect blaenoriaeth uchel sy'n hanfodol i'w helpu i gyrraedd ei thargedau'. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhoi gormod o bwyslais ar bwysigrwydd prosiect a oedd yn ceisio creu nifer cymharol fach o swyddi (saith aelod o staff llawn-amser a phedwar gweithiwr dros dro tymhorol). Yn ogystal, mewn dogfennau eraill yn ymwneud â'r prosiect, roedd WEFO wedi nodi y byddai'r prosiect yn cael effaith gyfyngedig ar ei rhaglen gyffredinol gan mai cyfraniad bach yn unig a wnaï at darged cyffredinol y rhaglen ar gyfer swyddi.

- 2.15 Roedd yr angen i wario Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn hytrach na dychwelyd yr arian i Ewrop, hefyd wedi llywio'r penderfyniad i ddefnyddio cronfa Ffordd i Ffyniant i ariannu'r prosiect. Ym mis Awst 2005, gofynnodd pennaeth cronfa Ffordd i Ffyniant am gymeradwyaeth y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ariannu'r Ganolfan, gan ddweud 'Mae hwn yn brosiect gwerthfawr sy'n hanfodol i osgoi dadneilltuo N+2.'⁷ Er gwaethaf ei bryderon am hyfywedd y prosiect, fe gytunodd Bwrdd Croeso Cymru i roi'r grant, gydag amodau, fel bod digon o arian cyfatebol ar gael i WEFO gymeradwyo'r prosiect.

⁶ Mae gan grwpiau cyngori thematig nifer fach o aelodau sy'n cael eu dewis oherwydd eu harbenigedd. Maent yn cyngori WEFO ar gyfeiriad strategol a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ym maes y rhaglen sy'n berthnasol iddynt, gan gynnwys dewis prosiectau yn ystod y broses datblygu ac arfarnu. Er enghraifft, gallant gyfeirio at i ba raddau y mae cynnig yn bodloni'r blaenoriaethau strategol, ac a yw'r costau, yr amseru a'r allbynnau yn realistig.

⁷ Cyflwynwyd rheol N+2 ar gyfer cylch 2000-2006 o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, ac mae'n gweithio fel a ganlyn. Mae aelod-wladwriaethau a'r Undeb Ewropeaidd yn cytuno ar ddyraniad ar gyfer pob blwyddyn o bob rhaglen. Mae'n rhaid i aelod-wladwriaethau wario dyraniad bob blwyddyn o fewn dwy flynedd. Er enghraifft, roedd rhaid gwario dyraniad 2002 erbyn diwedd 2004. Mae arian nad yw'n cael ei wario o fewn dwy flynedd yn cael ei 'golli' i'r aelod-wladwriaeth gan fod rhaid ei ddychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o'r broses 'dadneilltuo'.

Byddai cydweithredu gwell rhwng cyllidwyr wedi gwella'r broses o wneud penderfyniadau

- 2.16 Cafwyd cyfathrebu rheolaidd rhwng y cyllidwyr gwahanol ynglŷn â datblygiad ceisiadau grant Antur Penllyn, ac roedd rhai cyllidwyr yn rhannu pryderon allweddol â WEFO. Er enghraifft:
- a cafwyd trafodaethau rhwng Bwrdd Croeso Cymru a WEFO ynglŷn â phryderon y Bwrdd Croeso am ragolygon incwm Antur Penllyn a bil cyflog y prosiect;
 - b lleisiodd Cyngor Celfyddydau Cyngor ei bryderon i WEFO ynglŷn â hyfywedd y prosiect, gan ofyn am ddiogelwch WEFO dros yr ased i helpu i sicrhau bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu buddsoddiad y Cyngor;
 - c cafwyd trafodaeth rhwng y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a WEFO ynglŷn â safbwyntiau cyffredinol WEFO ar y prosiect ac a oedd WEFO wedi nodi unrhyw bryderon neu risgiau sylweddol.
- 2.17 Er bod tystiolaeth o gyfathrebu dwyochrog, ni ddaeth y cyllidwyr at ei gilydd i ddatblygu dull cyfunol a chydgyssylltiedig o rannu arfarniadau grant a nodi a rheoli risgiau allweddol. Mae'n anodd gwybod a fyddai'r prosiect wedi datblygu yn yr un ffordd pe bai'r holl gyllidwyr wedi rhannu'n llawn eu pryderon a'r risgiau a nodwyd ganddynt. Fodd bynnag, fel gofyniad sylfaenol, byddai cyfathrebu gwell a dull mwy cydweithredol o arfarnu grantiau a nodi a rheoli risgiau wedi rhoi sylfaen fwy cadarn ar gyfer penderfyniadau cyllidwyr.

Rhan 3

Er y cydymffurfiwyd â'r rhan fwyaf o amodau'r grantiau a bennwyd, roedd y broses o fonitro gwaith y Ganolfan yn annigonol, a buddsoddodd WEFO ragor o arian cyhoeddus heb gael unrhyw sicrwydd o hyfywedd ariannol y Ganolfan



Cydymffurfiwyd â'r rhan fwyaf o amodau'r grantiau, ond roedd y broses o fonitro gwaith y Ganolfan yn annigonol

- 3.1 Aeth dau o'r tri chyllidwr a bennodd amodau grant sylweddol ati i'w gwirio yn gadarn. Llwyddodd WEFO i gydymffurfio â phob un o'i naw amod arbennig. Aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati hefyd i wirio cydymffurfiaeth â'i wyth o amodau grant arbennig. Er enghraifft, aeth ati i:
- a atal taliadau grant dros dro nes cael lefel ddigonol o sicrwydd ynglŷn ag un amod – cadarnhad gan y tirlfeddiannwr y byddai modd mynd at y gwaith celf o hyd pe bai'r Ganolfan yn cau; ac
 - b atal y taliad olaf gwerth £18,480 gan na chydymffurfiwyd ag un o amodau eraill y grant – strategaeth farchnata a chodi ymwybyddiaeth addas i'r diben.
- 3.2 Fodd bynnag, roedd dull gweithredu Bwrdd Croeso Cymru yn fwy amrywiol, a gwiriodd rai o amodau'r grant, ond nid pob un ohonynt. Er enghraifft:
- a llwyddodd i sicrhau bod Antur Penllyn yn llofnodi'r dogfennau cyfreithiol a oedd yn sicrhau na allai'r cwmni waredu'r ased heb gydsyniad ysgrifenedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ond
 - b ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod dau amod wedi'u gwirio neu eu bodloni - gwybodaeth am sut oedd Antur Penllyn yn mynd i wella arddangosfeydd y Ganolfan, a'r amod i'r Ganolfan sicrhau Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd bedair seren fel gofyniad sylfaenol.
- 3.3 Aeth WEFO ati i fonitro'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan yn ofalus. Cafwyd diweddariadau ar gynydd wythnosol gan Antur Penllyn, ac aeth WEFO ati i graffu arnynt a'u herio. Yn ogystal, cynhaliodd WEFO gyfarfodydd chwarterol ag Antur Penllyn, yn unol ag un o amodau'r grant. Fodd bynnag, roedd y cyfarfodydd hyn (na chafodd eu cofnodi bob amser) yn canolbwyntio ar y gwaith o godi'r adeiladau; ni wnaeth WEFO fonitro cynnydd ar agweddau gweithredol y Ganolfan neu ar unrhyw gamau gweithredu i reoli'r risgiau i hyfywedd ariannol y Ganolfan:
- a ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod WEFO wedi gofyn i Antur Penllyn am unrhyw wybodaeth am nifer yr ymwelwyr, yr incwm yn deillio o ffioedd mynediad a/ neu'r incwm yn deillio o'r caffï neu'r swyddfa. Nes yr ymchwiliad hwn, nid oedd WEFO yn ymwybodol nad oedd Antur Penllyn wedi codi tâl ar neb i ymweld â'r Ganolfan; ac
 - b o'r amser pan oedd y Ganolfan i fod i ddechrau gweithredu'n llawn ym mis Rhagfyr 2008, ychydig iawn o gysylltiad a gafodd WEFO ag Antur Penllyn tan fis Ionawr 2010 pan drafodwyd y posibilrwydd o gau'r prosiect.
- 3.4 Ni wnaeth cyllidwyr eraill lawer o ymdrech i fonitro perfformiad gweithredol y Ganolfan chwaith. Roedd hyn naill ai oherwydd bod cyllidwyr fel Ffordd i Ffyniant yn dibynnu ar WEFO i wneud y gwaith monitro, neu oherwydd nad oedd cyfanswm y grant yn fwy na'r trothwyon mewnol ar gyfer monitro manwl, fel oedd yn wir am Gyngor Celfyddydau Cymru.

Penderfynodd WEFO roi arian ychwanegol sylweddol i'r prosiect, heb ofyn am unrhyw sicrwydd ychwanegol o'i hyfywedd a heb fanteisio ar y cyfle i roi camau mwy effeithiol ar waith i liniaru risgiau'r prosiect

- 3.5 Ym mis Ebrill 2008, cymeradwyodd WEFO grant ychwanegol gwerth £350,000 i unioni'r diffyg yn y TAW a oedd wedi deillio o anallu Antur Penllyn i gofrestru i gael ei heithrio rhag talu TAW. Yn ogystal, gofynnodd Antur Penllyn i Gyngor Celfyddydau Cymru am grant ychwanegol i unioni'r diffyg yn y TAW ar gyfer y gwaith celf. Fodd bynnag, yn hytrach na chynyddu'r grant, cytunodd Cyngor Celfyddydau Cymru i gwtogi ar rai o'r gweithiau celf er mwyn unioni'r diffyg yn y TAW.
- 3.6 Ar yr adeg pan oedd WEFO yn ystyried y cais am grant i dalu am y diffyg yn y TAW, derbyniodd gopi o adroddiad beirniadol gan ymgynghorydd oddi wrth Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn nodi problemau â'r seilwaith ar y safle a phroblemau o safbwynt agweddau gweithredol y prosiect (**Ffigur 1**).⁸ Daeth yr ymgynghorydd i'r casgliad 'y bydd y prosiect yn methu'n ddifrifol' heb newidiadau sylweddol.
- 3.7 Daeth adroddiad yr ymgynghorydd i'r casgliad bod angen rhagor o arian sylweddol, yn ogystal â'r arian ychwanegol i dalu am y diffyg yn y TAW, i roi cyfle i'r Ganolfan lwyddo. Mewn ymateb, gofynnodd WEFO i Antur Penllyn am achos busnes ar gyfer y grant ychwanegol. Lluniodd Antur Penllyn achos busnes gyda chymorth yr ymgynghorydd, gan ei gyflwyno ym mis Awst 2008. Nododd 'ddiffygion difrifol' yn y Ganolfan, gan gynnwys:

- a y ffaith fod y Ganolfan yn cynnig gwerth am arian gwael ar gyfer ymwelwyr, gydag ymwelwyr yn treulio rhwng 10 a 30 munud yn unig yno, gan ddibynnu ar a oeddent yn mynd i'r caffi, ac nid oedd unrhyw reswm iddynt ddychwelyd;
- b diffyg cysgod rhag y glaw, er enghraifft nid oedd to ar yr amffitheatr;
- c capasiti cyfyngedig yn y gegin a'r caffi;
- ch gofod ac ystafelloedd annigonol yn y Ganolfan a thoiledau ar y safle.

Ffigur 1 - Adroddiad annibynnol ar y Ganolfan ac ychwanegiadau cyfalaf arfaethedig

Nododd yr ymgynghorydd yr angen am welliannau cyfalaf, gyda'r nod penodol o sicrhau bod y Ganolfan yn gallu gwrthsefyll tywydd gwael yn well. Nododd yr ymgynghorydd y problemau canlynol hefyd:

- diffyg referniw a dim cyllid ar gael ar gyfer costau rheolwr y Ganolfan ar ôl mis Mehefin 2008 a dim cyllid ar gael ar gyfer y ddau gynorthwydd ar ôl mis Medi 2008;
- nid oedd gan y prosiect gyfeiriad strategol – nid oedd unrhyw syniad clir ynglŷn â natur y cyfleuster;
- nid oedd strwythur corfforaethol/sefydliadol y prosiect yn glir;
- nid oedd gan y Ganolfan gynllun marchnata cryf neu gynllun busnes – nid oedd Antur Penllyn yn gwybod faint o ymwelwyr oedd eu hangen i dalu costau'r Ganolfan, ac ar wahân i'r cyfleuster gorddrafft, nid oedd 'dim byd ar waith' i gynnal y Ganolfan.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffeiliau achos WEFO

⁸ Ni ddaethom o hyd i'r rhesymau pam fod Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi comisyynu adolygiad o'r prosiect gan ymgynghorydd busnes.

- 3.8 Roedd yr achos busnes yn cynnig nifer o gamau i fynd i'r afael â'r diffygion hyn, gan gynnwys ehangu ffocws y Ganolfan a'i rhaglen ddigwyddiadau; cymorth gwaith cyfalaf a referniw ychwanegol; ac, fel dewis olaf, lleihau costau rhedeg y Ganolfan. O ganlyniad, cytunodd WEFO i roi arian ychwanegol gwerth £863,546, a gymeradwywyd mewn dwy gyfran:
- a ym mis Medi 2008, cafwyd £799,660 gan WEFO i unioni'r diffyg referniw a gwella'r cyfleusterau;
 - b ym mis Mawrth 2009, cafwyd £63,886 gan WEFO i dalu costau adeiladu ychwanegol a phrynu pabell fawr fel bod y Ganolfan yn gallu cynnal gweithgareddau mewn tywydd gwlyb.
- 3.9 Cyflwynodd WEFO bapur i'r Dirprwy Prif Weinidog gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ei phenderfyniad i roi arian ychwanegol i'r prosiect, gan gydnabod bod 'elfen o risg ynghlwm wrth roi rhagor o arian i'r fenter hon. ...Fodd bynnag, gyda'r ychwanegiadau hyn mae yna gyfle gwirioneddol i unioni rhai o'r diffygion a rhoi sylfaen gryfach i'r Ganolfan lwyddo.'
- 3.10 Gwnaeth WEFO ei phenderfyniad i roi arian ychwanegol i'r Ganolfan mewn cyfnod o 18 mis, ac yn ystod y cyfnod hwn fe gytunodd ar estyniad neu gynnydd ariannol ar gyfer 240 prosiect gwahanol. Yn ystod y cyfnod hwn, ail-ddosbarthodd WEFO dros £50 miliwn o arian ychwanegol a oedd wedi deillio o symudiadau cyfraddau cyfnewid ac achosion dadneilltuo hwyr. Mae'n amlwg bod rheoli cynifer o brosiectau yn gryn her i WEFO, oedd yn ffactor a arweiniodd at y newid sylweddol mewn dulliau yn dilyn rownd ariannu 2007-2013, lle mae adnoddau yn canolbwyntio ar lai o brosiectau.
- 3.11 Roedd yr achos busnes i gefnogi'r cais am arian ychwanegol ar gyfer y Ganolfan yn cynnwys nifer o wendidau sylfaenol na chawsant eu nodi na'u dilyn gan WEFO. Er enghraifft, roedd yr achos busnes:
- a yn cynnwys rhai ffigurau incwm a gwariant cyfyngedig, ond roedd yn cydnabod bod 'yr amcangyfrifon hyn braidd yn enghreifftiol... ond byddant yn cael eu hadolygu a'u newid ar gyfer y cynllun busnes newydd'. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gynllun busnes newydd;
 - b yn hepgor unrhyw ddadansoddiad manwl o incwm a gwariant gweithredol er mwyn nodi a fyddai'r Ganolfan yn gallu bod yn hyfyw, a phryd y byddai hynny'n digwydd;
 - c yn seiliedig ar y Ganolfan yn denu 26,000 o ymwelwyr yn talu'r pris mynediad ac yn amlinellu rhaglen ddigwyddiadau ehangach i gyrraedd y targed hwn. Ond roedd yn afrealistig disgwyl y byddai ymwelwyr ar gyfer llawer o'r digwyddiadau, fel clybiau a chysiau misol, yn talu i gael mynediad; ac
 - ch yn rhagweld y byddai diben y Ganolfan yn newid yn sylweddol er mwyn dibynnu llawer mwy ar ddenu'r gymuned leol yn hytrach na'r fasnach dwristiaeth. Ond ni wnaeth WEFO graffu ar y newid na'i effaith i weld a fyddai'n debygol o arwain at fusnes mwy hyfyw.

- 3.12 Yn dilyn canfyddiadau negyddol yr ymgynghorydd, dywedodd WEFO wrth Antur Penllyn y byddai angen cynnal cyfarfodydd cynnydd yn fwy rheolaidd, ac y byddai'n sicrhau bod unrhyw lythyr diwygiedig â chynnig grant yn cynnwys amod arbennig yn nodi'n glir yr angen am 'gyfarfodydd misol i adolygu cynnydd (ar ddyddiadau a bennir ymlaen llaw) sy'n ein galluogi ni (WEFO) i gau'r prosiect os yw'r broses o'i gyflenwi yn mynd y tu hwnt i lefel goddefiant nas cytunwyd eto'. Fodd bynnag, nid oedd y llythyrau a oedd yn cynnig grantiau i Antur Penllyn ym mis Medi 2008 a mis Mawrth 2009 yn cynnwys unrhyw ofynion o'r fath. Yn hytrach, roedd y ddau lythyr â'r cynnig grant yn parhau i ofyn am gyfarfodydd monitro chwarterol yn unol â'r llythyr gwreiddiol â'r cynnig grant.
- 3.13 Ni wnaeth WEFO graffu ar nifer yr ymwelwyr neu'r broses o gynnal y digwyddiadau fel y'u nodwyd yng nghynllun busnes 2008-09, ac ni ofynnodd i Antur Penllyn am sicrwydd yn eu cylch. Ni ofynnodd WEFO i Antur Penllyn am gynllun busnes tebyg ar gyfer 2009-10 chwaith.

Rhan 4

Roedd y cyllidwyr yn araf yn ymateb i'r broses o gau'r Ganolfan, a'r bygythiad i'w chau cyn hynny, ac yn araf yn diogelu budd y cyhoedd yn yr asedau



Cafodd y Ganolfan ei chadw ar agor am lai o oriau gan staff gwirfoddol nes i'r cyfnod cadw asedau ddod i ben

4.1 Agorwyd y Ganolfan gan y Dirprwy Brif Weinidog ym mis Ebrill 2008. Nid ydym wedi dod o hyd i lawer o wybodaeth ystyrllon am berfformiad gweithredol y Ganolfan rhwng mis Ebrill 2008 a'r adeg pan gaeodd y Ganolfan ym mis Medi 2011. Y rheswm am hynny yw na ofynnodd unrhyw un o'r cyllidwyr i Antur Penllyn adrodd ar gynnydd yn erbyn y penderfynyddion perfformiad allweddol (fel nifer yr ymwelwyr a gwariant y pen yn y caffi), ac ni wnaeth Antur Penllyn gadw cofnodion o nifer yr ymwelwyr. Mae cyfrifon Antur Penllyn yn dangos bod y Ganolfan wedi gwneud colled yn ystod dwy o'r tair blynedd weithredol olaf, a bod problem sylfaenol yn bodoli o safbwynt proffidioldeb y Ganolfan. Wrth ddiystyru'r arian grant ar gyfer costau refeniw, gwnaeth y Ganolfan golled ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, a chyfanswm y golled oedd £83,314.

4.2 Dywedodd cyfarwyddwyr Antur Penllyn fod rhai o'r sefydliadau a oedd wedi defnyddio'r adeilad ar gyfer cyfarfodydd wedi canmol y cyfleusterau. Dywedon nhw hefyd fod y Ganolfan wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn 2011, gan gynnwys Ffair Aeaf, Ffair y Pasg, Gŵyl Robin Jac, ysgol syrcau, ffair wledig a nifer o gyngherddau ac arddangosfeydd. Darparodd Antur Penllyn gopi o'r llyfr ymwelwyr hefyd, ac roedd y llyfr yn cynnwys amrywiaeth o sylwadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth gyfyngedig a gyflwynodd y cyfarwyddwyr am berfformiad gweithredol ac ariannol y Ganolfan yn dangos ei bod wedi methu cyflawni yn erbyn nifer o'r rhagdybiaethau allweddol a nodwyd yn yr achos busnes a gymeradwywyd gan WEFO:

- a mae cyfanswm y ffigurau incwm a gwariant rhagamcanol yn wahanol iawn i'r ffigurau a nodwyd yng nghyfrifon Antur Penllyn, ac roedd gwariant, ac yn enwedig incwm, yn llawer is na'r disgwyl;
- b ni chreodd y Ganolfan unrhyw incwm o gwbl o ffoedd ymwelwyr. Penderfynodd cyfarwyddwyr Antur Penllyn beidio â gofyn am dâl mynediad oherwydd, hyd yn oed ar ôl i'r Ganolfan agor, roedd yn edrych fel 'safle adeiladu', gan fod gwaith yn cael ei wneud i helpu'r Ganolfan i wrthsefyll tywydd gwael;
- c roedd yr achos busnes a gymeradwyodd WEFO yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai'r tâl mynediad yn cynnwys tâl i weld gwaith celf amrywiol o gwmpas y safle. Fodd bynnag, ni ddadorchuddiwyd y gwaith celf tan fis Ebrill 2009, sy'n golygu mai'r unig atyniad ar y safle am flwyddyn oedd arddangosfa ar fywyd gwledig;
- ch dywedodd y cyfarwyddwyr fod y caffi yn gwneud elw gweithredol o £10,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, ni allem gymharu'r ffigur o £10,000 o elw â rhagdybiaethau'r achos busnes, gan fod yr achos busnes yn cyfeirio at incwm blyneddol y caffi yn unig, yn hytrach nag elw blyneddol; ac
- d yn unol â'r hyn a ragwelwyd yn yr achos busnes, roedd y Ganolfan wedi rhentu ei hystafell gyfarfod i greu incwm. Fodd bynnag, mae cyfrifon Antur Penllyn yn dangos na lwyddodd i greu lefel yr incwm a ragwelwyd o logi'r ystafell gyfarfod (£6,700 yn y flwyddyn gyntaf, gan godi i £13,650 ym mlwyddyn pedwar). Mewn gwirionedd, creodd yr ystafell gyfarfod incwm o £3,561 yn y flwyddyn gyntaf a £6,111 ym mlwyddyn tri.

- 4.3 Ym mis Ionawr 2010, hysbyswyd WEFO gan Antur Penllyn fod y Ganolfan ar fin cau. Ym mis Mawrth 2010, cadarnhaodd WEFO y byddai'n ceisio adennill cyfran o'r grant gan Antur Penllyn pe bai'r Ganolfan yn cau cyn 9 Gorffennaf 2011, gan y byddai hynny o fewn y cyfnod cadw asedau pum mlynedd⁹ a nodwyd fel un o amodau'r grant. Gadawodd rheolwr y Ganolfan ym mis Mawrth 2010 gan nad oedd unrhyw arian ar ôl i daflu ei gyflog. Ar ôl hynny, arhosodd y Ganolfan ar agor am lai o oriau tan fis Medi 2011, gyda staff gwirfoddol yn ei chynnal. Dywedodd cyfarwyddwyr Antur Penllyn iddynt fuddsoddi £20,000 o'u harian eu hunain yn y prosiect yn y cyfnod hwn er mwyn talu dyledion y Ganolfan.
- 4.4 Cysylltodd WEFO ag Antur Penllyn drwy negeseuon e-bost a ffôn ynglŷn â gweithrediadau'r Ganolfan a'r trefniadau staffio tan fis Mehefin 2010. Fodd bynnag, ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth sylweddol bod WEFO wedi gweithredu ar ôl mis Mehefin 2010, nes i adroddiadau yn y cyfryngau ym mis Ionawr 2013 hysbysu WEFO ei bod yn ymddangos bod yr adeilad wedi'i drosglwyddo i'r tîrfeddiannwr.
- 4.5 Cadarnhaodd tîm Erthygl 30 WEFO¹⁰ fod y Ganolfan wedi aros yn agored tan ar ôl y cyfnod cadw asedau. Ym mis Medi 2012, nododd y tîm Erthygl 30 fod 'Y Ganolfan wedi cau ar hyn o bryd ... ond ei bod wedi parhau i weithredu am yr amser gofynnol i gydymffurfio â rheoliadau'r UE'.

Ni weithredodd y cyllidwyr mewn ffordd amserol neu gydgysylltiedig i ddiogelu budd y cyhoedd yn yr ased

- 4.6 Er i WEFO gael ei hysbysu am yr anawsterau a oedd yn wynebu'r Ganolfan yn y cyfnod cyn iddi gau ym mis Medi 2011, ni rannodd y wybodaeth hon â chyllidwyr eraill y prosiect. Ni chafwyd unrhyw gysylltiad rhwng WEFO a'r cyllidwyr eraill tan fis Ionawr 2013, pan adroddwyd yn y cyfryngau bod y Ganolfan yn mynd i gau. Yn dilyn y sylw yn y cyfryngau, gweithredodd Llywodraeth Cymru i nodi i ba raddau roedd ganddi unrhyw fudd yn yr adeiladau, ac a oedd unrhyw bosibilrwydd o adennill arian grant. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad gan Gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (Ffigur 2), a chydweithio agos rhwng WEFO, Croeso Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru.
- 4.7 Nid oedd gan y Ganolfan unrhyw asedau arian parod er mwyn i gyllidwyr adennill grantiau a dalwyd. Hefyd, erbyn mis Rhagfyr 2013, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi egluro'r union sefyllfa yn ymwneud â pherchenogaeth yr adeilad. Fodd bynnag, yn y pen draw mae'n bosibl y bydd perchenogion ystâd Rhiwlas yn meddiannu adeilad a godwyd gyda £3.4 miliwn o arian cyhoeddus, a hynny heb unrhyw gost i'r ystâd.

⁹ Mae llythyr arferol WEFO sy'n cynnig grant yn cynnwys amod bod yn rhaid i brosiect fod yn weithredol am bum mlynedd ers dyddiad cymeradwyo'r grant gwreiddiol. Os nad yw prosiect yn weithredol am y pum mlynedd ofynnol, gall WEFO geisio adennill cyfran o'r grant a ddyfarnwyd; proses o'r enw 'adfachu'.

¹⁰ Mae'r tîm Erthygl 30 yn gyfrifol am gadarnhau bod y cyfarpar a/neu'r adeiladau sydd wedi derbyn arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn parhau i gael ei ddefnyddio at y dibenion y cymeradwywyd y grant ar eu cyfer am o leiaf pum mlynedd ar ôl cymeradwyo'r grant. Mae enw'r tîm yn deillio o reoliad perthnasol y Cyngor Ewropeaidd, sef Erthygl 30 (4).

Ffigur 2 - Adolygiad Llywodraeth Cymru 2013 o arian cyhoeddus ar gyfer y Ganolfan

Yn dilyn adroddiadau yn y cyfryngau ym mis Ionawr 2013 ynglŷn â chau'r Ganolfan, aeth Llywodraeth Cymru ati i adolygu camau gweithredu cyllidwyr cyhoeddus y Ganolfan. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod 'y broses ddiwydrwydd dyladwy wedi nodi risgiau allweddol y prosiect. Fodd bynnag, prin iawn yw'r dystiolaeth bod y risgiau hyn wedi'u rheoli neu'u lliniaru'n effeithiol.' Dyma ganfyddiadau'r adolygiad:

- Nid oedd gan Antur Penllyn ddigon o brofiad o roi prosiectau mor fawr â'r Ganolfan ar waith.
- Roedd diwydrwydd dyladwy gydol y prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar adeiladu'r ased yn hytrach nag ar gynaliadwyedd hirdymor y prosiect. Er enghraifft, 'ychydig iawn o dystiolaeth' a ganfu'r adolygiad bod cyllidwyr wedi rhoi 'syllw dyledus' i'r ffaith a oedd gan y Ganolfan raglen ddigwyddiadau hyfyw a oedd ei hangen i greu'r incwm i gynnal y Ganolfan.
- Yn ystod y cyfnod arfarnu, roedd WEFO wedi nodi bod Antur Penllyn yn atebol i dalu TAW, er bod Antur Penllyn wedi hysbysu WEFO y byddai'n cofrestru i gael ei heithrio o dalu TAW pe bai ei chais yn llwyddiannus. Canfu'r adolygiad na wnaeth cyllidwyr cyhoeddus ddigon i gadarnhau statws TAW Antur Penllyn, er gwaetha'r ffaith iddynt nodi y byddai angen £351,373 ychwanegol o bosibl ar gyfer y prosiect pe bai cais Antur Penllyn i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gael ei heithrio o dalu TAW yn methu.
- Cafodd y prosiect ei gymeradwyo gan WEFO cyn i'r les gael ei llofnodi, ac er mwyn rheoli'r risgiau cysylltiedig, dywedodd WEFO na fyddai'n gwneud unrhyw daliadau i'r prosiect nes bod y les wedi'i llofnodi. Fodd bynnag, ni ofynnodd am gyngor cyfreithiol ar y les cyn dechrau gwneud taliadau, ac ni nododd broblemau sylfaenol â'r les. Yn ôl cyngor cyfreithiol a dderbyniodd Gyngor Celfyddydau Cymru, roedd 'y les yn tueddu i ffafrio'r landlord' ac roedd yn cynnwys 'darpariaethau nad oeddent yn ystyriol o'r tenant, fel cyfnod y les'. Mae'r les ar gyfer 50 mlynedd, ac roedd y cyfnod hwnnw'n rhy fyr i fod yn werthadwy yn ôl y cyngor cyfreithiol.
- Roedd y cytundeb rhwng WEFO ac Antur Penllyn yn cynnwys darparu arian cyfatebol mewn nwyddau gwerth £200,000, ar ffurf gwerth y tir a lesiwyd i'r Ganolfan. Yn ôl prisiad annibynnol, roedd y les 50-mlynedd yn werth £240,000. Fodd bynnag, dros 15 mlynedd gyntaf y les, byddai'n ofynnol i Antur Penllyn wneud taliadau rhent i ystâd Rhiwlas gwerth dros £63,300, gyda'r rhent blynyddol yn cynyddu ar ôl y 15 mlynedd gyntaf.¹¹ O ganlyniad, roedd yr adolygiad yn cwstyfnu a oedd £200,000 o arian cyfatebol mewn nwyddau wedi'i ddefnyddio ar gyfer y prosiect mewn gwirionedd.
- Mae'r adolygiad yn nodi cyngor cyfreithiol a gafodd Llywodraeth Cymru. Yn ôl y cyngor hwn, pe bai'r adeilad yn cael ei ddychwelyd i'r landlord, 'gall hynny fod yn gyfystyr â chymorth gwladwriaethol ar gyfer y landlord'.

Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gyllidwyr cyhoeddus yn adennill unrhyw arian grant a dalwyd i Antur Penllyn. Wrth wneud hynny, cyfeiriodd at nifer o ddarpariaethau grant y gallai Llywodraeth Cymru ddewis eu defnyddio i ddechrau'r broses adfachu. Fodd bynnag, nododd hefyd fod y tebygolrwydd o Lywodraeth Cymru yn adennill unrhyw arian yn isel, gan nad oedd gan Antur Penllyn unrhyw asedau sefydlog ac roedd ei hasedau hylifol yn gyfyngedig iawn.

Ffynhonnell: Briff Llywodraeth Cymru ar brosiect Canolfan Cywain, Chwefror 2013

¹¹ O dan amodau'r les, mae'n rhaid i Antur Penllyn wneud taliadau rhent gwerth £63,000 yn ystod 15 mlynedd gyntaf y les. Fodd bynnag, oherwydd natur y fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrifo taliadau rhent blynyddol ar gyfer gweddill y les, ni allai adolygiad Llywodraeth Cymru ganfod cyfanswm y taliadau rhent.

- 4.8 Ar 30 Medi 2013, llofnododd Antur Penllyn a'r tîrfeddiannwr 'weithred ildio' i drosglwyddo'r les ar gyfer y tir i'r tîrfeddiannwr, a fyddai hefyd wedi arwain at drosglwyddo'r adeilad i'r tîrfeddiannwr. Fodd bynnag, nid yw'r Gofrestrfa Tir wedi cofrestru trosglwyddiad y teitl oherwydd y cyfyngiad a osodwyd ar yr eiddo gan Fwrdd Croeso Cymru. Yn ôl y cyfyngiad hwn, mae'n ofynnol i Antur Penllyn sicrhau cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i waredu unrhyw ased. Nid yw Antur Penllyn wedi gofyn am, neu sicrhau, cydsyniad o'r fath, ac o ganlyniad nid yw'r Gofrestrfa Tir wedi cofrestru trosglwyddiad y teitl.
- 4.9 Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth oherwydd y ffaith i Antur Penllyn gael ei diddymu yn dilyn dileu gwirfoddol¹² ym mis Mehefin 2013. Bu'n rhaid aros tan fis Rhagfyr 2013 cyn i Lywodraeth Cymru ofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn â chanlyniadau diddymu Antur Penllyn, hynny mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Oherwydd diddymu Antur Penllyn, daeth y cyngor cyfreithiol i'r casgliad na allai Llywodraeth Cymru ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Antur Penllyn i adennill unrhyw arian a oedd yn ddyledus iddi, pe bai'n dod i'r amlwg bod Antur Penllyn wedi torri telerau ei grant.
- 4.10 Hefyd, erbyn mis Rhagfyr 2013, nid oedd WEFO wedi cael atebion i ddau o'r pryderon a gododd mewn trafodaeth â Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, sef:
- a a oedd y tîrfeddiannwr wedi darparu'r arian cyfatebol gwerth £200,00 y cytunwyd arno – mae amheuan ynglŷn â hyn oherwydd bod y les wedi dod i ben cyn y tymor llawn a nodwyd yng nghytundeb y les;
- b achos posibl o gymorth gwladwriaethol¹³ yn deillio o'r posibilrwydd bod y landlord wedi elwa ar adeilad a godwyd ag arian cyhoeddus heb dalu dim byd amdano.
- 4.11 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd wedi bod yn araf yn gweithredu i sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i gael mynediad i'r darnau o waith celf. Yn 2008, derbyniodd Cyngor Celfyddydau Cymru ymrwymiad clir gan y tîrfeddiannwr a olygai, pe bai'r Ganolfan yn cau, y gallai mynediad cyhoeddus i'r darnau o waith celf na ellir eu symud o'r safle¹⁴ barhau am gyfnod o 15 mlynedd¹⁵ ac y byddai'r landlord yn cydweithredu i symud unrhyw waith celf y gellid ei adleoli.
- 4.12 Hefyd yn 2008, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cytuno ar gynllun datgomisiynu ag Antur Penllyn ar gyfer y darnau o waith celf y gellid eu symud. Nododd y cynllun fod Antur Penllyn yn gyfrifol am dalu'r gost o symud ac adleoli'r gwaith celf, ac am ei yswirio a'i gynnal a'i gadw. Fel rhan o'r cynllun datgomisiynu, cytunodd Cyngor Gwynedd i helpu Antur Penllyn i ddod o hyd i arian allanol i dalu am adleoli'r darnau o waith celf os oedd angen gwneud hynny; ac ymrwymodd Parc Cenedlaethol Eryri i ganiatáu arddangos y darnau o waith celf ar dir gerllaw sy'n eiddo iddo.
- 4.13 Fodd bynnag, bu'n rhaid aros tan fis Medi 2013, adeg yr ymchwiliad hwn, cyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ysgrifennu at y tîrfeddiannwr yn gofyn am gadarnhad bod y darnau o waith celf yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Erbyn mis Rhagfyr 2013, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ateb gan y tîrfeddiannwr. Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru y byddai'n cysylltu ag eraill â buddiant, fel Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ar ôl derbyn ateb gan y tîrfeddiannwr ynglŷn â hygyrchedd y gwaith celf.

¹² Dileu gwirfoddol yw'r broses a ddefnyddir gan gyfarwyddwyr cwmni i gau cwmni drwy wneud cais i Dŷ'r Cwmnïau ddileu'r cwmni o'r gofrestr gwmmnïau.

¹³ Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio cymorth gwladwriaethol fel a ganlyn: '*advantage in any form whatsoever conferred on a selective basis to undertakings by national public authorities*'. Gan fod cymorth gwladwriaethol yn cael ei ystyried yn gymorth sy'n rhoi mantais i gwmni dros ei gystadleuwyr, mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn rheoli'r defnydd ohono.

¹⁴ Mae natur dau o'r darnau o waith celf, amffitheatr a'r ysgythriadau ar ddrysau gwyrdr y caffï, yn golygu nad oes modd eu symud o'r safle.

¹⁵ Mae cyfnod monitro Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y grant (15 mlynedd safonol) yn dod i ben yn 2023.

- 4.14 Nid oes unrhyw waith cynnal a chadw wedi'i wneud ar adeilad, tir neu waith celf y Ganolfan ers iddi gau ym mis Medi 2011. Dywedodd Antur Penllyn ei bod wedi penderfynu gadael nifer o eitemau, sy'n werth £40,000 yn ôl asiant tir, ar y safle er mwyn 'hwyluso pethau yn y gobaith y byddai rhywun arall yn cymryd drosodd'.
- 4.15 Ni fu unrhyw gyfathrebu neu gydweithredu rhwng y cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill, fel Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael i'r Ganolfan, ac a fyddai modd ei defnyddio eto er budd y cyhoedd a'r gymuned leol. Er bod y cyfnod cadw asedau wedi dod i ben ar gyfer llawer o'r cyllidwyr, o dan yr amgylchiadau ein barn ni yw bod cyfrifoldeb o hyd ar y cyllidwyr i fanteisio ar unrhyw gyfle i sicrhau rhyw fath o fudd parhaol i'r cyhoedd yn sgil yr arian cyhoeddus sylweddol a fuddsoddwyd yn y Ganolfan.

Atodiadau

Atodiad 1 - Ffrydiau ariannu ar gyfer y Ganolfan

Atodiad 2 - Dulliau ymchwilio

Atodiad 3 - Llinell amser o ddigwyddiadau
allweddol



Atodiad 1

Ffrydiau ariannu ar gyfer y Ganolfan

Sefydliad ariannu	Rhaglen grant	Swm a gymeradwywyd yn wreiddiol (£)	Swm a dalwyd (£)	Gwahaniaeth (£)
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru	Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop	900,000	2,094,917	1, 214,919
Llywodraeth Cymru	Ffordd i Ffyniant – Adran 126 Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996	644,950	644,950	0
Llywodraeth Cymru	Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol	270,000	270,000	0
Awdurdod Datblygu Cymru	Pecyn Cymorth Adfywio Cymunedol – Refeniw	52,310	52,310	0
Awdurdod Datblygu Cymru	Grant Amgylcheddol Adran 15	100,000	100,000	0
Bwrdd Croeso Cymru	Grant Cyfalaf Adran 4	87,500	87,500	0
Antur Penllyn	Adnoddau mewnol	52,480	52,480	0
Parc Cenedlaethol Eryri	Cronfa Datblygu Cynaliadwy	34,999	34,999	0
Cyngor Celfyddydau Cymru	Loteri	200,000	181,520	(18,480)
Ystâd Rhiwlas	Gwerth tir arian cyfatebol	200,000	200,000	0
Cyfanswm arian y prosiect		2,542,239	3,738,678	1,196,439
Cyfanswm arian y sector cyhoeddus		2,289,759	3,486,198	1,196,439

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

WEFO oedd y cyllidwr unigol mwyaf drwy'r Cronfeydd Strwythurol. Mae Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi gweithgareddau sy'n ceisio lleihau anghydraddoldeb strwythurol rhwng rhanbarthau a grwpiau cymdeithasol gwahanol. Maent yn cael eu rhoi ar waith drwy raglenni saith mlynedd sy'n cael eu cytuno rhwng yr aelod-wladwriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd. Roedd y taliadau i Antur Penllyn yn dod o un o'r pedair cronfa, Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF), fel rhan o gyfnod rhaglennu 2000-2006. Nod yr EAGGF oedd cynorthwyo datblygiad ac arallgyfeirio cymunedau mewn ardaloedd gwledig, ac fe'i gweinyddwyd gan WEFO, rhan o Lywodraeth Cymru, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer rheoli cyffredinol a rheoli ariannol y cyllid.

Ni all y Gronfa Strwythurol ariannu prosiectau'n llawn. Fel arfer, bydd Ewrop yn cyfrannu rhwng 45 y cant a 75 y cant tuag at gyfanswm costau'r prosiect. Mae'n rhaid i noddwr y prosiect godi gweddill yr arian o dan y drefn 'arian cyfatebol'. Gall arian cyfatebol ddod o adnoddau'r rhai sy'n cyflwyno'r cais, neu o arian y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol; mae'n gallu bod yn arian cyfatebol 'gwirioneddol', sy'n gyfraniad arian parod, neu'n gyfraniad 'mewn nwyddau' lle mae sefydliad neu unigolyn yn darparu gwasanaeth neu gynnyrch heb godi tâl amdano. Mae prif ffynonellau arian cyfatebol wedi'u crynhoi isod.

Arian Ffordd i Ffyniant

O dan Gronfeydd Strwythurol 2000-2006, sefydlodd Llywodraeth Cymru ddwy gyllideb benodol fel ffynonellau arian cyfatebol ar gyfer cyrff allanol – un o'r rhain oedd cronfa Ffordd i Ffyniant. Cronfa arian cyfatebol 'pan fetha popeth arall' oedd cronfa Ffordd i Ffyniant. Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir eu bod wedi ceisio – a methu – sicrhau arian cyfatebol gan bob ffynhonnell bosibl arall.

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

Dechreuodd Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn 2002. Mae'n rhaglen grantiau cyfalaf sy'n darparu arian pan fetha popeth arall ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio darparu neu wella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.

Arian Awdurdod Datblygu Cymru¹⁶

Ariannwyd y Ganolfan gan Awdurdod Datblygu Cymru drwy ddwy raglen grant. Roedd y Pecyn Cymorth Adfywio Cymunedol yn darparu arian refeniw i geisio helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu partneriaethau lleol a hyrwyddo datblygiad economaidd eu cymuned. Yr ail ffynhonnell oedd Grant Amgylcheddol Adran 15, a ddarparodd arian cyfalaf. Dyfarnwyd grantiau amgylcheddol Adran 15 i ariannu prosiectau i uwchraddio neu ddarparu cyfleusterau cymunedol ar dir wedi'i adfer neu dir diffaith. Er mwyn cael ei ddewis ar gyfer grant, roedd yn rhaid dangos bod y cynllun arfaethedig yn debygol o gyfrannu at adfywio a datblygu economi Cymru, yn ogystal ag economi'r gymuned leol.

¹⁶ Trosglwyddwyd swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2006.

Arian Bwrdd Croeso Cymru¹⁷

Darparodd Bwrdd Croeso Cymru arian o dan Adran 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969. Mae Adran 4 o'r ddeddf yn gwneud darpariaeth i fyrddau croeso roi arian grant i 'unrhyw brosiect a fydd, ym marn y Bwrdd, yn darparu neu'n gwella amwynderau a chyfleusterau i dwristiaid', gyda'r 'budd economaidd mwyaf'. Cafodd Antur Penllyn arian gan Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf yn ymwneud â chostau adeiladu, peiriannau, offer, deunyddiau a ffioedd proffesiynol.

Arian Cyngor Celfyddydau Cymru

Nid oedd yr arian a ddarparodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhan o'r pecyn gwreiddiol o Gronfeydd Strwythurol ac arian cyfatebol a gytunwyd gan WEFO ym mis Gorffennaf 2006. Daeth arian Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer yr amffitheatr a'r gwaith celf o Gronfeydd y Loteri a weinyddwyd ganddo.

Ffynonellau arian cyfatebol preifat

Roedd y pecyn ariannu a gytunwyd rhwng WEFO ac Antur Penllyn yn cynnwys gwerth £200,000 o arian cyfatebol mewn nwyddau gan ystâd Rhiwlas, perchennog y tir. Cafodd y tir ar gyfer y Ganolfan ei lesio gan yr ystâd i Antur Penllyn am gyfnod o 51 mlynedd, o dan drefniant taliadau rhent fesul tipyn dros y cyfnod. Gwerth masnachol y lesddaliad oedd £240,000. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae cytundeb y les yn cyfateb i arian cyfatebol mewn nwyddau gwerth £200,000.

Cafwyd cyfraniad arian cyfatebol gwerth £52,480 gan Antur Penllyn ei hun.

¹⁷ Trosglwyddwyd swyddogaethau Bwrdd Croeso Cymru i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2006.

Atodiad 2

Dulliau ymchwilio

Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, aethom ati i gasglu tystiolaeth o ffynonellau amrywiol rhwng mis Medi a mis Hydref 2013.

Adolygiadau o ffeiliau a dogfennau

Aethom ati i adolygu ffeiliau yn ymwneud â chymeradwyo grantiau WEFO, Ffordd i Ffyniant, y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru (Croeso Cymru erbyn hyn). Ni wnaethom adolygu ffeiliau Parc Cenedlaethol Eryri gan fod cyfanswm y grant mor isel.

Aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys yr achos busnes ar gyfer y Ganolfan, adroddiadau mewnol Llywodraeth Cymru, ac adroddiadau Croeso Cymru blynyddol yn ymwneud ag atyniadau twristiaid.

Cyfweliadau ac ymweld â safleoedd

Roeddem yn gallu cyfweld â'r rhan fwyaf o swyddogion allweddol a oedd yn rhan o'r gwaith o asesu a chymeradwyo'r grantiau ar gyfer y Ganolfan. Er bod cryn amser wedi mynd heibio ers cymeradwyo'r grantiau, llwyddwyd i nodi a chyfarfod swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru, WEFO, Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, a'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. Aethom ati hefyd i gyfweld â staff o Gyngor Gwynedd a oedd yn rhan o'r gwaith parhaus o fonitro a chefnogi Antur Penllyn. Nid oedd modd i ni gyfarfod ag unrhyw swyddog a oedd yn rhan o'r broses o gymeradwyo'r grant Ffordd i Ffyniant.

Buom hefyd yn cyfarfod â chyn-gyfarwyddwyr Antur Penllyn ac yn ymweld â'r Ganolfan.

Atodiad 3

Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
2004	
Mawrth	Awdurdod Datblygu Cymru yn cymeradwyo grant gwerth £100,000 ar gyfer y prosiect.
Hydref	Antur Penllyn yn gwneud cais cyntaf aflwyddiannus ar gyfer arian y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.
Rhagfyr	WEFO yn derbyn y cais gwreiddiol gan Antur Penllyn.
Rhagfyr	Bwrdd Croeso Cymru yn gwahodd Antur Penllyn i gyflwyno cais ffurfiol am arian.
2005	
Ionawr	Antur Penllyn yn gwneud ail gais am arian i'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.
Mawrth	Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn cymeradwyo grant gwerth £270,000 ar gyfer y prosiect.
Mai	Antur Penllyn yn cyflwyno cais ffurfiol am arian i Fwrdd Croeso Cymru.
Awst	Gofynnir am gymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer arian Ffordd i Ffyniant i'r Ganolfan.
Hydref	Bwrdd Croeso Cymru yn cymeradwyo grant gwerth £87,500 ar gyfer y prosiect.
	Cronfa Ffordd i Ffyniant yn cymeradwyo 'mewn egwyddor' grant gwerth £644,950 ar gyfer y prosiect.
Rhagfyr	Awdurdod Datblygu Cymru yn cymeradwyo grant Pecyn Cymorth Adfywio Cymunedol gwerth £52,310 ar gyfer y prosiect i ddatblygu ei gynigion ar gyfer y Ganolfan.

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
2006	
Mawrth	Antur Penllyn yn cyflwyno cais arall i WEFO.
Mehefin	Grant £644,950 Ffordd i Ffyniant yn cael ei gadarnhau.
Gorffennaf	WEFO yn cynnig grant gwerth £900,000 i'r prosiect i ariannu cyfalaf.
Tachwedd	WEFO yn gwahardd taliadau i'r prosiect – y taliadau'n cael eu hatal nes bod cytundeb y les yn cael ei lofnodi.
Rhagfyr	WEFO yn derbyn copi o gytundeb y les.
2007	
Mawrth	WEFO yn codi'r gwaharddiad ar y taliadau.
Mai	Cyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn cais am grant gan Antur Penllyn. Parc Cenedlaethol Eryri yn cadarnhau arian gwerth £34,999.
Gorffennaf	Aseswyr allanol yn cyflwyno asesiad beirniadol o'r prosiect arfaethedig i Gyngor Celfyddydau Cymru.
Medi	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymeradwyo grant gwerth £200,000 ar gyfer y prosiect. Antur Penllyn yn cadarnhau bod diffyg incwm o dros £350,000 gan na all gofrestru i gael ei heithrio rhag talu TAW.
Tachwedd	WEFO yn cadarnhau i Antur Penllyn y bydd yn helpu i dalu'r costau cynyddol oherwydd y newidiadau i TAW. Cyngor Celfyddydau Cymru yn cysylltu ag Antur Penllyn ynglŷn â'r amodau grant nas cydymffurfiwyd â nhw, gan gynnwys cadarnhad ysgrifenedig mai Antur Penllyn sy'n gyfrifol am y darnau o waith celf; a chadarnhad o berchenogaeth/mynediad i'r gwaith celf os yw'r Ganolfan yn cau.
Rhagfyr	Cyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn yn anfoddog bod angen lleihau nifer y darnau o waith celf i dalu am y diffyg yn y TAW gwerth £33,850. Ond mae'n rhybuddio y bydd yn tynnu ei arian yn ôl os oes unrhyw ostyngiadau eraill i'r briff.

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
2008	
Ionawr	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadarnhau na fydd yn gwneud unrhyw daliadau eraill oni bai bod Antur Penllyn yn cydymffurfio â'r amod yn ymwneud â mynediad.
Chwefror	WEFO yn derbyn cais diwygiedig i dalu am gostau uwch y prosiect oherwydd TAW.
Mawrth	WEFO yn derbyn cyngor cyfreithiol mewnol ar ddiogelwch ei buddsoddiad os yw'r prosiect yn methu.
Ebrill	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn hysbysu WEFO am gasgliadau negyddol yr ymgynghorydd costau a gomisiynodd WEFO i archwilio'r prosiect.
	Cyn i'r Dirprwy Brif Weinidog fynychu'r seremoni agoriadol, mae'n derbyn briff ysgrifenedig gan swyddogion sy'n nodi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorydd costau.
	Pennaeth Is-adran WEFO yn cymeradwyo cynyddu cyfraniad EAGGF i dalu'r costau TAW ychwanegol.
	Y Dirprwy Brif Weinidog yn cyfarch y seremoni agoriadol.
	WEFO yn cynnig grant diwygiedig (cynnydd o £351,373 i gyfanswm o £1,231,371) i dalu am y diffyg yn y TAW.
Mehefin	Yn dilyn sawl ymdrech, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn datganiad boddhaol ar fynediad gan y tîrfeidiannwr, ac o ganlyniad mae'n ailddechrau taliadau i Antur Penllyn.
Gorffennaf	WEFO yn cyfarfod ag Antur Penllyn i drafod canfyddiadau'r ymgynghorydd a chytuno ar ffordd ymlaen.
Awst	Antur Penllyn yn cyflwyno achos busnes i WEFO am ragor o arian.
	WEFO yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Dirprwy Prif Weinidog ac yn cadarnhau ei bwriad i roi grant ychwanegol gwerth £800,000 i hwyluso cynaliadwyedd hirdymor y prosiect.
	Antur Penllyn yn cyflwyno cais diwygiedig i WEFO am arian cyfalaf a referniw.
Medi	WEFO yn cynnig grant diwygiedig (cynnydd pellach o £799,660 i £2,031,031) i dalu costau cyfalaf ychwanegol a thalu am ddiffyg referniw.
Hydref	Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn cwblhau Gwerthusiad Ariannol cryno iawn o'r prosiect.

Tudalen y pecyn 163

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
2009	
Mawrth	WEFO yn derbyn gohebiaeth gan Antur Penllyn ynglŷn â'r posibilrwydd o 'gau' y prosiect.
	WEFO yn cynnig grant diwygiedig (cynnydd pellach o £63,866 i £2,094,917) i dalu costau adeiladu ychwanegol a phrynu pabell fawr.
Ebrill	Y Gweinidog dros Dreftadaeth yn dadorchuddio'r darnau o waith celf yn y Ganolfan yn swyddogol.
2010	
Ionawr	Antur Penllyn yn e-bostio WEFO i ddweud bod y Ganolfan yn mynd i gau.
Chwefror	Cyngor Celfyddydau Cymru yn gofyn i Antur Penllyn am strategaeth farchnata ac ymwybyddiaeth fwy cynhwysfawr gan nad yw'r fersiwn presennol yn addas i'r diben.
Mawrth	Rheolwr prosiect y Ganolfan yn hysbysu WEFO ei fod yn gadael ddiwedd mis Mawrth, ac y bydd y cyfarwyddwyr yn cynnal y Ganolfan gyda staff gwirfoddol.
	WEFO yn hysbysu Antur Penllyn y bydd ganddi hawl i 'adfachu' cyfran o'r grant a ddyfarnwyd os yw'r Ganolfan yn cau cyn 9 Gorffennaf 2011.
Mehefin	Cyfarwyddwr Antur Penllyn yn hysbysu WEFO bod y Ganolfan ar agor rhwng 9 a 12 diolch i staff gwirfoddol.
Hydref	'Tîm Graddio' Croeso Cymru yn ymweld â'r Ganolfan ac yn dod i'r casgliad nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer 'atyniad y pennir seren ar ei gyfer'. Mae adroddiad y Tîm Graddio yn datgan: 'Dim ond caffi, arddangosfa dros dro, y gerddi a siop fechan oedd i'w gweld yn ystod ein hymweliad. Roedd ansawdd yr adeiladau, y gwasanaeth gan staff, ansawdd y bwyd ac ati rhwng da iawn a rhagorol.'
Tachwedd	Cyngor Celfyddydau Cymru yn penderfynu na fydd yn rhyddhau gweddill ei grant gan fod Antur Penllyn wedi methu cyflwyno strategaeth farchnata foddhaol.
2011	
Medi	Y Ganolfan yn cau ei drysau.

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
2012	
Mawrth	Tîm Erthygl 30 yn ymweld â'r Ganolfan. (Mae'n gyfrifol am gadarnhau bod offer a/neu adeiladau a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn parhau i gael eu defnyddio at y dibenion a gymeradwywyd yn wreiddiol am o leiaf bum mlynedd ar ôl cymeradwyo'r grant.)
	Antur Penllyn a'r tîrfeddiannwr yn llofnodi 'Gweithred Ildio' ar gyfer yr adeiladau a'r tir.
Ebrill	Cyhoeddi adroddiad Erthygl 30 sy'n cadarnhau bod y Ganolfan wedi aros yn agored tan ar ôl y cyfnod cadw asedau.
2013	
Ionawr	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael gwybod drwy'r cyfryngau bod y Ganolfan wedi cau.
	WEFO yn gofyn i Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru am gyngor ar y posibilrwydd o 'adfachu' cyfran o'r grant. Mae'n derbyn y cyngor ychydig ddyddiau wedyn ym mis Chwefror.
Chwefror	WEFO yn gofyn i Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru am gyngor ar y les ac ar arian cyfatebol, ac yn derbyn y cyngor.
	WEFO yn gofyn i Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru am gyngor ar y 'Weithred Cyfamod' ac ar gyfyngiad y Gofrestrfa Tir ar grant Bwrdd Croeso Cymru, ac yn derbyn y cyngor.
Mawrth	Croeso Cymru yn gofyn i Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru am gyngor ar a oes ganddo 'ddiogelwch deiliadaeth ar y safle'.
Mehefin	Antur Penllyn yn cael ei diddymu drwy ddileu gwirfoddol.
Medi	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cysylltu â'r tîrfeddiannwr ynglŷn â mynediad i'r darnau o waith celf, fel y cam cyntaf i'w datgomisiynu.

24 Ebrill 2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tudalen y pecyn 166

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol
o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yr aelodau o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd
wrth baratoi'r adroddiad hwn oedd Ben Robertson, Emma Giles
a Chris Pugh o dan arweiniad Ann-Marie Harkin.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilydd penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Cynnwys

	Crynodeb	6
	Mae'r rhaglenni wedi mynd rhagddynt yn eithaf da ar y cyfan er gwaethaf rhai anawsterau, ond mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith gyffredinol	7
	Mae trefniadau rheoli yn effeithiol ac maent wedi gwella ers y cylch rhaglenni blaenorol, er gwaethaf ychydig o darfu yn ystod camau cynnar gweithredu rhaglenni	11
	Argymhellion	14
1	Cymru a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd	18
2	Mae'r rhaglenni wedi mynd rhagddynt yn eithaf da ar y cyfan er gwaethaf rhai anawsterau, ond mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn eu heffaith gyffredinol	30
	Yn gyffredinol, mae WEFO wedi gwneud cynnydd da o ran neilltuo'r arian sydd ar gael i brosiectau	31
	Mae'r rhaglenni wedi cyflawni targedau gwariant yr UE, er bod cyfradd y gwariant cyffredinol yn arafach na'r hyn a ragwelwyd gan noddwyr prosiect	35
	Mae'r rhaglenni ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau perfformiad allweddol, gan ragori arnynt o gryn dipyn mewn rhai achosion, ond maent yn debygol o fethu â chyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal	40
	Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y rhaglenni'n llawn, ceir rhai arwyddion cadarnhaol a bydd gwerthusiadau parhaus yn rhoi darlun cliriach	52

3	Mae'r trefniadau rheoli yn effeithiol ac maent wedi gwella ers y cylch rhaglennu blaenorol, er gwaethaf ychydig o darfu yn ystod camau cynnar gweithredu rhaglenni	60
	Cymysg fu'r farn ynglŷn â gweinyddu'r rhaglenni yn gyffredinol, er bod rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi'r camau gweithredu a gymerwyd gan WEFO i symleiddio strwythur rhaglenni a lleihau nifer y prosiectau	61
	Mae'r rhaglenni wedi bod yn ddigon hyblyg i ymateb yn effeithiol i'r dirywiad economaidd ac i rai newidiadau sylweddol o ran polisi	64
	Mae'r defnydd cynyddol o gaffael cystadleuol fel model cyflawni wedi bod yn anodd ei weithredu, ond os caiff ei reoli'n dda, dylai gael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hwy	67
	Mae WEFO wedi sefydlu system gadarn i gefnogi'r broses o ddatblygu a dewis prosiectau ond, ym marn y noddwyr, gall y broses fod yn heriol ac yn feichus	73
	Mae rheoli ariannol yn gadarn	78
	Caiff perfformiad ei reoli'n well nag o dan y rhaglenni blaenorol ond gall fod yn dynnach mewn rhai meysydd	84
	Mae WEFO wedi atgyfnerthu trefniadau monitro a gwerthuso ac wedi datblygu dulliau mwy cadarn o fesur effeithiau, ond mae ansawdd data yn achos pryder o hyd	86
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Dulliau Archwilio	96
	Atodiad 2 – Fframweithiau strategol	99
	Atodiad 3 – Data dangosyddion lefel rhaglen ar gyfer rhaglenni'r ERDF	101
	Atodiad 4 – Data dangosyddion lefel rhaglen ar gyfer rhaglenni'r ESF	103
	Atodiad 5 – Gwybodaeth sydd ei hangen gan noddwyr prosiectau mewn cynlluniau busnes	105

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y ffordd y gweinyddir rhaglenni cronfeydd strwythurol 2007-2013 yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru (**Arddangosyn 1**). Fel yr 'Awdurdod Rheoli', caiff y rhaglenni hyn eu rheoli gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sef un o isadrannau Llywodraeth Cymru, a'u goruchwylio gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni¹. Caiff prosiectau unigol eu goruchwylio gan sefydliad sy'n 'noddwr y prosiect' ond gall gynnwys sawl sefydliad partner.
- 2 Mae cyfrifoldebau WEFO yn cynnwys dewis prosiectau a chymeradwyo eu cynlluniau busnes, talu arian grant a hawlio ad-daliadau gan y Comisiwn, monitro cynnydd a gwerthuso effaith. Mae WEFO hefyd yn gyfrifol am sicrhau
- 3 cydymffurfiaeth â'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y caiff cronfeydd yr UE eu defnyddio, gyda chosbau ariannol llym o bosibl os na chydymffurfir â hwy.
- 3 Gan ystyried profiad rhaglenni 2000-2006, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar raglenni 2007-2013 gydag awydd i symleiddio strwythurau rhaglenni, canolbwyntio rhaglenni'n fwy ar flaenoriaethau strategol a rheoli perfformiad yn fwy effeithiol drwy lai o brosiectau ond prosiectau mwy. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd am roi pwyslais cryfach ar gydweithredu rhwng rhanddeiliaid a mwy o ddefnydd o gaffael cystadleuol.

Arddangosyn 1 – Cymru a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd

Mae Cymru yn gymwys i gael tua €2.22 biliwn o arian o dan raglenni cronfeydd strwythurol 2007-2013 yr UE, gyda'r nod o leihau gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng rhanbarthau'r UE. Bydd gwariant o dan y rhaglenni hyn yn parhau tan ddiwedd 2015. Cafodd Cymru €2.14 biliwn o dan raglenni cronfeydd strwythurol 2000-2006 ac mae tua'r un swm wedi cael ei ddyrannu ar gyfer rhaglenni 2014-2020.

Ar ddiwedd 2013, mae arian yr UE o dan raglenni 2007-2013 yn werth tua £1.9 biliwn. Gydag arian cyfatebol o ffynonellau'r DU, mae cyfanswm gwerth y rhaglenni dros y cyfnod rhaglennu cyfan tua £3.2 biliwn.

Am fod gwerth rhaglenni'r cronfeydd strwythurol i Gymru wedi'i bennu mewn ewros ar ddechrau'r rhaglenni, mae cyfraddau cyfnewid newidiol yn rhan o'r her o ran cyflawni'r targedau gwariant blynyddol. Os na chaiff y targedau hyn eu cyflawni, mae'r UE yn tynnu'r swm nas gwariwyd yn ôl ac ni chaiff ei ailneilltuo i'r rhaglenni fel arfer.

Daw arian yr UE o ddwy brif ffynhonnell:

- £1.11 biliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer cymorth i fusnesau, arloesi masnachol, seilwaith economaidd, ynni adnewyddadwy ac adfywio; a
- £756 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gefnogi hyfforddiant a mentrau eraill i gynyddu cyfranogiad economaidd a gwella sgiliau'r gweithlu.

Darperir y ddwy gronfa hyn drwy ddwy raglen – Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth (Cystadleurwydd) – sef pedair prif raglen i gyd. Mae'r Rhaglenni Cydgyfeirio yn cyfrif am tua 94 y cant o gronfeydd yr UE sydd ar gael ac maent wedi'u cynllunio i wella economi'r 15 ardal awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sydd â chynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) o lai na 75 y cant o gyfartaledd yr UE. Mae'r Rhaglenni Cystadleurwydd ar gael i weddill Cymru (a elwir yn Ddwyrain Cymru).

Mae pob un o'r pedair raglen yn cael ei hategu gan ddogfen 'rhaglen weithredol', sef cynllun sy'n nodi sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt. Cytunwyd ar y rhaglenni gweithredol a'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod 2007. O ran rhaglenni 2007-2013, caiff y rhaglenni gweithredol eu hategu gan gyfres o ddogfennau fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi canllawiau ychwanegol ar flaenoriaethau a dylunio prosiectau.

¹ Mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd statws sylwedydd, mae'n cael adroddiadau cynnydd rheolaidd ac yn cynnal ei archwiliadau ei hun er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a yw rhaglenni 2007-2013 wedi cael eu gweinyddu'n effeithiol gan WEFO ac a ydynt ar y trywydd iawn i sicrhau'r buddiannau a fwriadwyd, gan ystyried cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer dyrannu arian, gwariant ac allbynnau allweddol. Paratowyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae **Atodiad 1** yn nodi manylion ein methodoleg archwilio yn llawn. Adolygwyd y ffordd y gweinyddwyd y rhaglenni yn gyffredinol ar lefel gymharol uchel, ac ategwyd ein gwaith drwy rai astudiaethau achos ac arolwg o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiectau WEFO. Mae adolygiadau manylach, megis ein hystyriaeth ddiweddar o'r ffordd y cafodd prosiectau a noddir gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) eu hariannu gan WEFO yn awgrymu bod rhai gwendidau yn y broses weinyddu ar lefel prosiectau. Rydym hefyd wedi ystyried gwerthusiadau ac adolygiadau eraill, gan gynnwys adroddiad Dr Grahame Guildford ym mis Mawrth 2013 ar drefniadau ar gyfer y cylch rhaglennu nesaf.

5 Rydym wedi dod i'r casgliad bod y rhaglenni wedi mynd rhagddynt yn dda ar y cyfan, wedi'u hategu gan drefniadau rheoli gwell o gymharu â'r cylch rhaglennu blaenorol ac er gwaethaf rhai anawsterau yn ystod y camau cynnar. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y rhaglenni, na fydd yn gwbl amlwg am beth amser ar ôl i'r rhaglenni gau, ond ceir arwyddion cadarnhaol o'r gwerthusiadau a gynhelir.

6 Yn ddiweddar, adolygodd y Comisiwn Ewropeaidd ei ganllawiau ar y fethodoleg i'w defnyddio gan Awdurdodau Archwilio (y cyrff ym mhob rhanbarth sy'n archwilio gwariant ar ei ran) wrth ddewis prosiectau i'w harchwilio. O ganlyniad, mae bellach yn ofynnol iddynt yn arferol ddefnyddio dulliau samplu ystadegol yn hytrach na'r dull samplu ar hap nad yw'n ystadegol a ddefnyddir

ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Archwilio yng Nghymru ac mewn ychydig o ranbarthau eraill ledled Ewrop. Mae hyn wedi amharu ar daliadau ERDF dros dro ar sail dechnegol tra bod cyfraddau gwallau yn cael eu hailgyfrifo. Dengys y ffigurau diweddaraf fod cyfraddau gwallau yn parhau'n gymharol isel yng Nghymru ar y cyfan a bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau nad yw hyn wedi amharu ar daliadau i noddwyr prosiectau. Mae Llywodraeth Cymru yn obeithiol y caiff y sefyllfa ei datrys yn fuan.

7 Wrth wneud cymariaethau â rhaglenni 2000-2006, rydym wedi ystyried canfyddiadau adroddiadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn 2002 a 2004. Rydym wedi cyfeirio at y canfyddiadau hyn yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2013 ar *Arian Cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon*. Cafodd Fferm Bysgod Penmon arian gan yr UE o dan raglenni 2000-2006. Cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Mai 2010 ar faterion a oedd yn ymwneud ag arian rhaglenni 2000-2006 yn *Rheoli arian cyhoeddus Cymad Cyf* (Mai 2010) ac rydym wrthi'n ystyried arian o raglenni 2000-2006 ar gyfer Canolfan Cywain yn y Bala (Ebrill 2014).

Mae'r rhaglenni wedi mynd rhagddynt yn eithaf da ar y cyfan er gwaethaf rhai anawsterau, ond mae'n rhy gynnar i asesu eu heffaith gyffredinol

8 **Yn gyffredinol, mae WEFO wedi gwneud cynnydd da o ran neilltuo'r arian sydd ar gael i brosiectau.** Er yr ymddengys i rai noddwyr prosiect ddisgwyl y byddai'r rhaglenni yn dechrau'n gynt, ers hynny mae WEFO wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i thargedau neilltuo blynyddol, a oedd yn fwy heriol na'r rhai a bennwyd yn y rhaglenni gweithredol. Er gwaethaf effaith cyfraddau cyfnewid sy'n gostwng² a thynnu arian yn ôl o brosiectau penodol yn sgil newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru,

² Oherwydd gostyngiad sydyn yng nghyfradd gyfnewid £/€ ar ôl i'r rhaglenni gael eu cymeradwyo rhyddhawyd swm sylweddol o arian ychwanegol yr oedd angen ei neilltuo ar gyfer prosiectau.

erbyn diwedd 2012 roedd arian wedi'i neilltuo ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd rhaglenni. Er bod cynnydd yn araf mewn rhai meysydd rhaglenni ar y dechrau mae WEFO wedi ymateb yn briodol i fynd i'r afael â diffygion o ran arian a neilltuwyd drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru i ysgogi datblygiad prosiectau a thrwy ailddyrannu arian i feysydd eraill.

9 **Mae'r rhaglenni wedi cyflawni targedau gwariant yr UE, er bod cyfradd y gwariant cyffredinol yn arafach na'r hyn a ragwelwyd gan noddwyr prosiect.** Mae WEFO wedi cyflawni pob un o'r targedau gwariant blynyddol a bennwyd ar gyfer pob rhaglen, o gryn dipyn fel arfer. Yn 2010, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd ei dargedau ar gyfer y rhaglenni er mwyn ystyried effaith andwyl y dirywiad economaidd ehangach ar arian cyfatebol. Penderfynodd WEFO y byddai'n ceisio cyflawni'r targedau blynyddol, mwy heriol, gwreiddiol o hyd, ac mae wedi llwyddo ar y cyfan.

10 Ar ddiwedd 2013, roedd WEFO wedi ardystio bod £2.17 biliwn o wariant prosiect yn gymwys i gael ei ad-dalu gan yr UE. Roedd cyfraddau gwario rhaglenni wedi cael hwb drwy'r canlynol: cynnydd yn y gyfradd ymyrraeth gyfartalog³ a ganiateir gan y Comisiwn Ewropeaidd, a ryddhaodd swm ychwanegol o £187 miliwn o arian yr UE erbyn 31 Rhagfyr 2013; ariannu'n ôl-weithredol brosiectau a oedd wedi'u cwblhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan WEFO ar gyfer arian yr UE; a thalu £73 miliwn o arian yr UE i mewn i gronfeydd buddsoddi a oedd yn cyfrif yn erbyn targedau ERDF pan dalwyd yr arian i mewn i'r cronfeydd, yn hytrach na phan dalwyd yr arian o'r cronfeydd drwy fuddsoddiadau.

11 Nid oes gan brosiectau unigol dargedau gwariant ffurfiol, ond mae pob noddwr prosiect yn cytuno ar broffil cyflawni, sy'n cynnwys gwariant a ragwelir, â WEFO. Yn gyffredinol, mae patrwm gwariant prosiectau yn gyson â'r rhaglenni blaenorol. Ym mis Rhagfyr 2013, roedd tua un o bob tri phrosiect a oedd yn mynd rhagddynt 20 y cant neu fwy y tu ôl i'w proffil gwariant. Gostyngodd y diffyg cyffredinol rhwng gwariant gwirioneddol a gwariant a ragwelwyd o 31 y cant ym mis Mehefin 2010 i 19 y cant y mis Rhagfyr 2013, ond gellir priodoli llawer o'r gwelliant hwnnw i'r ffaith bod noddwyr prosiect wedi diweddarau eu proffiliau yn hytrach na gwneud cynnydd o ran eu proffiliau gwreiddiol. Mae gwariant prosiectau wedi bod yn arafach na'r hyn a ragwelwyd am amrywiol resymau gan gynnwys gorhyder yn gyffredinol, anawsterau caffael a recriwtio staff ac effaith y dirywiad economaidd.

12 **Mae'r rhaglenni ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau perfformiad allweddol, a rhagori arnynt, mewn rhai achosion.** O ystyried y Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd gyda'i gilydd, mae WEFO yn disgwyl cyflawni'r targedau y mae wedi'u pennu ar gyfer ei 'ddangosyddion dangosfwrdd' allweddol (**Arddangosyn 2**). Mae perfformiad rhaglenni ESF, yn enwedig y Rhaglen Cystadleurwydd, wedi bod yn gadarn, a rhagwelir y byddant yn rhagori ar bob un o'u targedau ar lefel rhaglen, o gryn dipyn yn achos llawer ohonynt (**Arddangosyn 4**). Ar ddiwedd 2013, nododd rhagolygon noddwyr prosiect y byddai Rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn cyflawni chwech o'i 11 o dargedau ar lefel perfformiad ac y byddai'r Rhaglen Gystadleurwydd yn cyflawni pump o'i hwyth targed (**Atodiad 3**)⁴.

³ Mae'r gyfradd ymyrraeth ar gyfer prosiect unigol yn adlewyrchu cyfran cyfanswm costau prosiect a delir drwy arian yr UE yn hytrach nag arian cyfatebol.

⁴ Yn gyffredinol, mae'r chwe dangosydd ERDF ar lefel rhaglen na fyddai'n cael eu cyflawni yn ymwneud â'r pum thema ganlynol: nifer y swyddi gros a grëwyd; buddsoddiad a ysgogwyd; cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lanswyd; lleihau, aildddefnyddio neu ailgylchu gwastraff; a budd o elw. Bwriedir i'r mesur budd o elw gofnodi cynnydd mewn elw sy'n deillio o arbedion neu fuddiannau cynhyrchiant a gyflawnwyd drwy gymorth yr UE. Nid yw WEFO wedi rhagnodi unrhyw ddull penodol o gyfrifo budd o elw ac mae buddiolwyr yn ei chael hi'n anodd priodoli elw i wasanaethau penodol a ddarparwyd drwy brosiectau a ariennir gan yr UE a'i gyfrifo. Mae tangofnodi yn debygol, ond mae amgylchiadau economaidd hefyd yn ffactor.

Arddangosyn 2 – Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rhaglenni ERDF ac ESF¹

	Targed ²	Rhagolwg ²	% y targed y rhagwelwyd y câi ei gyflawni	Cyflawnwyd ar 31 Rhag 2013
Busnesau a gynorthwywyd (ERDF)	15,900	22,038	139%	12,703
Busnesau a grëwyd (ERDF)	5,604	11,849	211%	7,574
Swyddi gros a grëwyd (ERDF)	38,540	43,052	112%	23,649
Cyfranogwyr (ESF)	294,100	629,227	214%	487,542
Cyfranogwyr sy'n dechrau gweithio (ESF)	31,000	88,354	285%	53,781
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau (ESF)	89,180	235,396	264%	160,847

Noder:

- 1 Mae WEFO yn canolbwyntio ar rhwng wyth a 14 o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn monitro'r ffordd y caiff pob un o'r rhaglenni gweithredol ei chyflawni. Mae WEFO yn rhoi sylw penodol i'r chwe dangosydd a restrir isod sy'n sail i'w phrosesau adrodd ar berfformiad fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad ehangach Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cyfuno yma dargedau rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ar gyfer pob Cronfa.
- 2 Mae targed a rhagolwg yn cyfeirio at ddiwedd y rhaglenni. Disgwylir i'r rhaglenni gau ar ddiwedd 2015.

Ffynhonnell: WEFO

13 Ceir dros gant o ddangosyddion monitro yn y pedair rhaglen i gyd ynghyd â'u priod flaenoriaethau. Cymysg yw'r perfformiad ar lefel blaenoriaeth, gan adlewyrchu effaith benodol newidiadau yn yr amgylchiadau economaidd, newidiadau mewn polisi a newidiadau yn y ffordd y dosberthir arian ar feysydd penodol â blaenoriaeth o gymharu â'r tybiaethau cychwynnol. Ar sail rhagolygon noddwyr prosiect ar 31 Rhagfyr 2013, byddai 72 o'r 125 o dargedau lefel blaenoriaeth ERDF a 50 o'r 62 o dargedau lefel blaenoriaeth ESF yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y rhaglenni.

14 Mae'r rhaglenni dipyn yn fwy erbyn hyn o ran cyfanswm y gwariant a neilltuwyd (12 y cant -38 y cant ar ddiwedd 2013) nag a ragwelwyd pan bennwyd y targedau, ac mae angen ystyried perfformiad yn y cyd-destun hwn. O ran rhaglenni ESF, mae'r dirywiad economaidd wedi creu mwy o alw am wasanaethau cymorth cyflogaeth ac ailhyfforddi ar gyfer pobl sydd newydd fod yn ddi-waith ac yn gynyddol ar gyfer pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur. Fodd bynnag, ymddengys bod targedau rhaglenni ESF wedi'u pennu'n rhy isel i ddechrau. Roedd cyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn arafach na ffigurau proffiliau'r noddwyr prosiect ar ddiwedd 2013, gan adlewyrchu'n rhannol lithiant yn erbyn proffiliau gwariant prosiectau.

- 15 **Mae'r themâu trawsbynciol sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal wedi'u sefydlu'n weld nag yn y rhaglenni blaenorol, ond mae'r rhaglenni yn debygol o fethu â chyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau cysylltiedig.** Er enghraifft, mae cyfran y cyfranogwyr o grwpiau oedran hŷn a phobl sydd â salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio yn debygol o fod dipyn yn is na'r lefelau disgwylidiedig. Fodd bynnag, gan fod rhaglenni ESF yn debygol o ragori ar eu targedau cyfranogi cyffredinol o gryn dipyn, mae cyfanswm y menywod a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n cyfranogi yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol, er bod cyfran gyffredinol y cyfranogwyr o'r grwpiau hyn yn brin o'r targedau a bennwyd. Ym mis Ionawr 2011, nododd gwerthusiad a gomisiynwyd gan WEFO gynnydd amrywiol ymhlith noddwyr o ran integreiddio'r themâu trawsbynciol â'r broses o gyflawni eu prosiectau, a chanfu nad oedd gan noddwyr y wybodaeth na'r adnoddau yn aml i roi cyngor arbenigol i fuddiolwyr.
- 16 **Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y rhaglenni, ceir rhai arwyddion cadarnhaol a bydd gwerthusiadau parhaus yn rhoi darlun cliriach.** Mae'r dystiolaeth ar ei ffurf fwyaf datblygedig ar gyfer rhaglenni ESF ac mae canfyddiadau o Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd a gwaith gwerthuso arall yn awgrymu bod effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr, ond bod effaith rhaglenni ar gyfraddau cyflogaeth yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhyw, oedran, lleoliad, cyflwr iechyd a hanes cyflogaeth cyfranogwyr.
- 17 Awgryma canlyniadau Arolwg 2011 o Fusnesau sy'n cael cymorth ERDF fod rhaglenni ERDF wedi creu neu wedi diogelu nifer sylweddol o swyddi, ond dim ond lleiafrif o ymatebwyr sy'n priodoli unrhyw ganlyniadau diriaethol i'w busnes i'r ERDF. Nododd canfyddiadau'r arolwg fod yr effaith o ran diogelu swyddi o leiaf cymaint â chreu swyddi. Roedd yr arolwg yn seiliedig ar sampl gymharol fach o weithgarwch rhaglenni, ond bwriedir ei gynnal eto yn 2014.
- 18 **Awgryma tystiolaeth o raglenni 2000-2006 fod effaith gadarnhaol ar swyddi a sgiliau, ond erys y bwch ffyniant rhwng Cymru a chyfartaledd yr UE yn sylweddol o hyd.** Mewn dadansoddiad gan WEFO yn 2011 cafodd rhwng 26,000 a 45,500 o swyddi newydd a rhwng 1,700 a 2,500 o fusnesau bach a chanolig (BBaChau), eu priodoli i'r rhaglenni blaenorol, gyda rhwng 48,700 a 89,300 o bobl yn dechrau gweithio neu ymgymryd â dysgu pellach o ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan mewn rhaglenni ESF. Mae'n anodd asesu effaith economaidd ehangach y rhaglenni oherwydd bwriedir iddynt arwain at welliannau hirdymor mewn gallu economaidd y mae'n anodd eu cysylltu ag ymyriadau penodol. Yn wir, gwaethygu a wnaeth CMC y rhanbarth rhwng 2000 a 2010 o'i gymharu â chyfartaledd y DU a'r UE, yn rhannol oherwydd effaith cymudo rhwng y Cymoedd a Dwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae dangosyddion eraill megis prif incwm, cyfraddau cyflogaeth, cyfraddau gweithgarwch economaidd a lefelau cymwysterau oll wedi gwella i ryw raddau yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2008 ac mae'r bwch â chyfartaleddau'r DU wedi cau rhywfaint.

Mae trefniadau rheoli yn effeithiol ac maent wedi gwella ers y cylch rhaglenni blaenorol, er gwaethaf ychydig o darfu yn ystod camau cynnar gweithredu rhaglenni

- 19 **Cymysg fu'r farn ynglŷn â gweinyddu'r rhaglenni ar y cyfan, er bod rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi'r camau gweithredu a gymerwyd gan WEFO i symleiddio strwythur rhaglenni a lleihau nifer y prosiectau.**
Canfuwyd gennym fod noddwyr prosiect yn tueddu i gredu bod system reoli WEFO yn araf ac yn fiwrocrataidd, ond teimlwyd ei bod yn gweithio'n well ar ôl dechrau anodd. Cafwyd cefnogaeth eang i benderfyniad WEFO i symleiddio strwythurau rhaglenni a lleihau nifer y prosiectau (sydd wedi lleihau o 2,463 yn y rhaglenni blaenorol i lai na 300), er i noddwyr godi rhai pryderon ymarferol ynglŷn â chydweithredu a gweithio mewn partneriaeth a hanes cyflawni prosiectau mwy o faint.
- 20 **Mae'r rhaglenni wedi bod yn ddigon hyblyg i ymateb yn effeithiol i'r dirywiad economaidd ac i rai newidiadau sylweddol o ran polisi.**
Gwnaeth WEFO ailddyrannu adnoddau a newid rhai meini prawf cymhwyso er mwyn ymateb i'r dirywiad economaidd. Yn 2009, manteisiodd WEFO ar bunt wannach (a oedd wedi cynyddu gwerth sterling arian yr UE) i gyd-drafod cynnydd yng nghyfraddau arian grant â'r Comisiwn Ewropeaidd, a thrwy hynny leddfu'r pwysau ar arian cyfatebol.
- 21 Gweithiodd WEFO yn gyflym ac yn effeithiol gyda rhannau eraill o Lywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn polisi a oedd yn deillio o lansio Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn 2010. Bu hon yn dasg lawer haws nag y byddai wedi bod yn gynt am fod llai o brosiectau o gymharu â'r rhaglenni blaenorol, y noddwyd

llawer ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae WEFO wedi addasu rhaglenni ESF er mwyn osgoi dyblygu 'Rhaglen Waith' Llywodraeth y DU.

- 22 **Bu'r pwyslais cynyddol ar ddefnyddio caffael fel model cyflawni yn anodd ei roi ar waith, ond os caiff ei reoli'n dda dylai gael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hwy.** Mae WEFO yn disgwyl i tua un rhan o bob tair o holl wariant rhaglenni gael ei gwario drwy gaffael gan noddwyr prosiect. Yn ymarferol, mae llawer o brosiectau yn gweithredu modelau cyflawni cymysg, gyda rhai gwasanaethau'n cael eu caffael ac eraill yn cael eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gynlluniau grant.
- 23 Er y credir yn gyffredinol mai dyna'r ffordd gywir o weithredu, bu'n anodd rhoi'r pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol ar waith. Fodd bynnag, mae rhai o'r heriau cynnar wedi cael eu goresgyn ar ôl i WEFO adolygu ei chanllawiau ar fodolau cyflawni. Mae WEFO wedi cyflawni lefel uchel o gydymffurfiaeth â rheoliadau caffael⁵, ond mae'n llai amlwg i ba raddau y mae'r pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol wedi sicrhau gwell gwerth am arian a mynediad ehangach i arian yr UE. Ar ddiwedd 2013, roedd noddwyr prosiect wedi dyfarnu cyfanswm o 2,569 o gontractau gwerth £1.09 biliwn drwy gaffael, yn bennaf i'r sector preifat (£644 miliwn), gyda'r sector gwirfoddol yn sicrhau contractau gwerth £178 miliwn. Nid oes unrhyw ddata ar gael er mwyn cymharu'r ffigurau hyn â'r cylch rhaglenni blaenorol.
- 24 **Mae WEFO wedi sefydlu system gadarn i gefnogi'r broses o ddatblygu a dewis prosiectau ond, ym marn y noddwyr, gall y broses fod yn heriol ac yn feichus.** Mae WEFO wedi sefydlu dulliau effeithiol o sicrhau bod prosiectau'n gyson ag amcanion strategol, fel y'i nodwyd yn y dogfennau fframwaith strategol, ond mae lle i ddatblygu dull gweithredu mwy soffistigedig ar gyfer y cylch nesaf o raglenni.

5 Mae WEFO wedi sicrhau cyfradd isel iawn o wallau y gellir eu priodoli i faterion caffael, mewn gwrthgyferbyniad â rhannau eraill o'r UE lle mae'r Comisiwn wedi rhoi dirwyon mawr i awdurdodau rheoli.

- 25 Mabwysiadodd WEFO ffordd newydd o flaenoriaethu, datblygu a dewis prosiectau ar gyfer rhaglenni 2007-2013, gan gynnwys cyflwyno cam mynegi diddordeb er mwyn hidlo a gwaredu prosiectau anaddas. Ar y cyfan, mae'r system hon yn seiliedig ar feini prawf cadarn ac mae wedi gwella ansawdd cynigion ar gyfer prosiectau, ac mae 'swyddogion datblygu prosiectau' a gyflwynwyd gan WEFO er mwyn cynnig un pwynt cyswllt parhaus i noddwyr prosiect wedi helpu yn hynny o beth. Mae'r meini prawf dewis hefyd wedi cael eu nodi'n arfer da gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyd y broses a'i gofynion gweinyddol wedi peri rhwystredigaeth i rai noddwyr prosiect ac mae safbwyntiau ynglŷn â'r system gyffredinol ar gyfer rhoi cymorth a chanllawiau i noddwyr prosiect yn amrywio.
- 26 Bu'n anodd iawn rhoi cymorth effeithiol yn ystod camau cynnar y rhaglenni oherwydd newidiadau mewn trefniadau gweinyddu rhaglenni, gyda llawer o noddwyr prosiect a staff WEFO yn anghyfarwydd â'r systemau newydd. Fodd bynnag, ni chafwyd bod unrhyw gonsensws amlwg ynglŷn â'r gwelliannau y gellid eu gwneud ac, yn ein barn ni, nid oes angen newid y broses yn sylfaenol ar gyfer y cylch rhaglenni nesaf, a ddylai helpu i sicrhau cyfnod trosiannol didrfferth. Nod WEFO yw canolbwyntio rhaglenni 2014-2020 yn fwy ar feysydd â blaenoriaeth economaidd gan ddefnyddio un ddogfen fframwaith a symleiddio'r broses o ddatblygu prosiectau ymhellach heb leihau ei gwaith craffu ar gynigion prosiect.
- 27 **Mae rheoli ariannol yn gadarn.** Mae datblygiad system TG newydd wedi'i gwneud yn haws i WEFO reoli cyllid rhaglenni, yn ogystal â symleiddio agweddau eraill ar weinyddu rhaglenni. Mae'r system wedi costio swm sylweddol - cost datblygu o £18.1 miliwn a chostau rhedeg blynyddol o £1.25 miliwn - er i'r Comisiwn Ewropeaidd gyfeirio ato fel meincnod i awdurdodau rheoli eraill ac mae WEFO yn hyderus y bydd yn gallu parhau i ddefnyddio'r system am wyth blynedd arall heb angen llawer o fuddsoddiad ychwanegol.
- 28 Mae WEFO yn talu grantiau mewn ffordd amserol ar ôl cynnal gwiriadau priodol ac mae wedi atgyfnerthu rheolaethau dros flaendaliadau yn ddiweddar. Mae WEFO hefyd mewn sefyllfa dda i reoli amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid a risgiau ariannol wrth i'r rhaglenni dynnu at eu terfyn. Mae WEFO yn dilyn polisi o orneilltuo arian yr UE a ddyrennir er mwyn adlewyrchu patrwm tanwariant gan noddwyr yn y cylch rhaglenni blaenorol. Mae WEFO yn bwriadu nodi prosiectau lle y gellid lleihau'r ddarpariaeth yn ôl yr angen neu ei chyflwyno drwy brosiectau newydd yn y cylch rhaglenni nesaf.
- 29 Mae gan WEFO systemau rheoli ariannol effeithiol ar y cyfan, gan gynnwys cyfres o 'wiriadau rheoli', er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chanfod gwallau cyn i wariant y prosiect gael ei ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae tîm taliadau WEFO yn craffu ar geisiadau am arian grant a chânt eu harchwilio gan archwilwyr allanol annibynnol. Mae Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau WEFO yn adolygu systemau rheolaeth ariannol noddwyr ac yn archwilio gwariant prosiectau. Mae WEFO ei hun yn cael ei harchwilio gan yr Awdurdod Archwilio (Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru - EFAT) ac archwilwyr yr UE ei hun. Mae'r gyfradd afreoleidd-dra a ddatganwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod dipyn yn is na'r uchafswm o 2 y cant a dderbynnir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym **mharagraff 6**, mae'r Awdurdod Archwilio wrthi'n ailgyfrifo cyfraddau gwallau er mwyn bodloni gofynion diwygiedig y Comisiwn Ewropeaidd, ond dengys y ffigurau diweddaraf fod y rhain yn parhau'n isel ar y cyfan.

- 30 Gall gofynion cydymffurfio ac archwilio osod baich gweinyddol trwm ar noddwyr prosiect ac mae cryn orgyffwrdd rhwng swyddogaethau archwilio. Er nad oes modd osgoi'r sefyllfa hon i raddau helaeth am fod pob swyddogaeth yn ofynnol o dan reoliadau'r UE, mae rhywfaint o le i WEFO gydgyssylltu'r gwaith hwn er mwyn lleihau gorgyffwrdd.
- 31 **Caiff perfformiad ei reoli'n well nag o dan y rhaglenni blaenorol ond gallai fod yn dynnach mewn rhai meysydd.** Mae WEFO yn monitro cynnydd prosiectau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo drwy'r hawliadau chwarterol am arian grant a'r adroddiadau cynnydd, y mae'n ofynnol i bob prosiect eu cyflwyno, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd â noddwyr lle y gellir trafod unrhyw broblemau neu faterion o bwys. Nododd ein hadolygiad o ffeiliau prosiectau nad oedd y cyfarfodydd adolygu hyn bob amser yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac nad oedd y rhesymau dros oedi wrth weithredu prosiect bob amser yn amlwg o'r ffeiliau. Serch hynny, mae trefniadau rheoli perfformiad yn dynnach na chynt o dan y rhaglenni blaenorol, ac maent wedi'u hwyluso gan y ffaith bod llai o brosiectau. Mae WEFO wedi tynnu arian yn ôl o brosiectau nad ydynt wedi perfformio yn ôl y disgwyl, sef proses haws nag ydoedd o dan y rhaglenni blaenorol am fod cymaint o brosiectau yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru.
- 32 **Mae WEFO wedi atgyfnerthu trefniadau monitro a gwerthuso ac wedi datblygu dulliau mwy cadarn o fesur effeithiau, ond mae ansawdd data yn achos pryder o hyd.** Mae tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO yn coladu data monitro ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt, yn trefnu gwerthusiadau ar lefel rhaglen ac yn cynghori prosiectau ynglŷn â gwerthuso. Ceir cyfres o ddangosyddion monitro cydlynol a phenodol. Fodd bynnag, nid yw'r dangosydd 'swyddi gros a grëwyd' yn cofnodi pob effaith ar gyflogaeth yn llawn am nad yw'n cynnwys swyddi a ddiogelwyd, swyddi dros dro a swyddi gweinyddu prosiectau. Amrywiol hefyd fu'r cynnydd o ran mesur 'canlyniadau meddal' er mwyn cofnodi effaith gweithgareddau sydd â'r nod o ddatblygu priodoleddau personol ymhlith y rhai sy'n wynebu risg o gael eu hallgáu o'r farchnad lafur.
- 33 Mae WEFO wedi cyflwyno rheolaethau a chanllawiau i wella ansawdd data a oedd yn aml yn wael yn y cylch rhaglenni blaenorol. Fodd bynnag, erys pryderon ynglŷn ag ansawdd data ar lefel cyfranogwyr a chyfrif dwbl o ran canlyniadau rhwng prosiectau.
- 34 Mae cynllun gwerthuso WEFO yn adeiladu ar brofiad y rhaglenni blaenorol. Mae cyfres o werthusiadau thematig interim ar fin cael ei chwblhau ac, ynghyd â gwerthusiadau interim o brosiectau, bydd yn llywio'r ffordd y cynllunnir rhaglenni 2014-2020, ond mae'n rhy gynnar i asesu effaith y rhan fwyaf o brosiectau ar hyn o bryd. Mae WEFO wedi datblygu dull mwy soffistigedig o fesur effaith net drwy ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu a setiau data busnes a ddelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn datblygu grwpiau cymharu y gellir eu defnyddio i gymharu canlyniadau'r rhaglenni â hwy. Mae'r dull gweithredu hwn wedi gweithio'n eithaf da ar gyfer rhaglenni ESF, ond mae data o ansawdd gwael a chwmpas cyfyngedig y setiau data busnes wedi atal yr Arolwg o Fusnesau sy'n cael cymorth ERDF rhag creu grwpiau cymharu dibynadwy.

Argymhellion

- A1 Roedd y broses dewis prosiectau yn aneglur i rai noddwyr ar y dechrau ac roeddent yn disgwyl proses fyrrach nag y byddai'n realistig ym marn WEFO. Er mwyn helpu i sicrhau bod llai o wahaniaeth rhwng disgwyliadau ar y dechrau ar gyfer cylchoedd rhaglennu yn y dyfodol, **rydym yn argymhell bod WEFO yn cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio cynnwys, diben a pharhad tebygol pob cam o'r broses sy'n arwain at gymeradwyo prosiect, gan nodi'r achosion mwyaf cyffredin o ansicrwydd ac oedi a sut y gellir osgoi neu liniaru problemau o'r fath. Dylai'r canllawiau nodi cyfrifoldebau'r noddwr a WEFO am sicrhau bod y broses yn un ddiraffferth a bod cyn lleied o oedi â phosibl.**
- A2 Achosodd ansicrwydd ynglŷn â modelau cyflawni a ganiateir (er enghraifft, caffael o gymharu â chyflawni uniongyrchol) darfu ac oedi wrth brosesu rhai ceisiadau. Nid oedd rhai noddwyr yn barod ar gyfer y newid i weithredu ar sail caffael ac nid oedd ganddynt yr arbenigedd i gynnal ymarfer caffael effeithiol. **Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:**
- a **Mae WEFO yn nodi ei pholisi ynglŷn â modelau cyflawni (a chaffael yn fwy penodol) ar ddechrau'r cylch rhaglenni nesaf, gan wneud unrhyw newidiadau i'r polisi cyfredol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid tra bod y rhaglenni gweithredol yn cael eu datblygu, ac yn amodol ar unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan y Comisiwn.**
- b **Mae WEFO yn adolygu gallu noddwyr prosiect i gynnal ymarferion caffael effeithiol ac yn meithrin gallu lle y bo'n briodol. Gall hyn gynnwys cynnig arbenigedd mewn caffael i ystod ehangach o noddwyr gan ddefnyddio cymorth technegol (dim ond cyrff gwirfoddol sy'n cael y cymorth hwnnw ar hyn o bryd), hyfforddiant a lledaenu arfer da.**
- A3 Mae dogfennau fframwaith strategol Llywodraeth Cymru wedi helpu WEFO i asesu ceisiadau ond nid ydynt wedi bod mor werthfawr i ymgeiswyr ac nid ydynt wedi cael eu defnyddio'n rhagweithiol i fonitro cynnydd na datblygu camau gweithredu i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau. Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, bydd cynigion WEFO ar gyfer Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd *amgen a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.* **Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:**
- a **dylai canllawiau strategol (ar ffurf y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd neu fel arall) fod mor benodol â phosibl ynglŷn â mathau o weithgarwch, buddiolwyr a dargedir a dulliau cyflawni, gan gynnwys blaenoriaethau cymharol, tra'n cydnabod y cyfyngiad na ellir gwarantu y bydd prosiectau penodol yn cael arian oni fyddant yn mynd drwy'r broses arfarnu ac yn cael eu cymeradwyo a hyd nes y gwnânt hynny; a**
- b **chaiff y canllawiau eu diweddarau'n rheolaidd, gyda phwyslais ar nodi camau gweithredu i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd neu fynd i'r afael â phroblemau neu fylchau yn y ddarpariaeth.**
- A4 Nid oes llawer o le i symleiddio'r broses oherwydd yr angen i gynnal proses sy'n bodloni gofynion yr UE ac sy'n sicrhau bod y gweithrediadau arfaethedig wedi'u hategu gan gynlluniau cyflawni clir, cadarn a chredadwy. **Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:**
- a **ni ddylai WEFO wneud unrhyw newidiadau mawr i'r broses gyfredol, ond dylai ystyried cyfleoedd i symleiddio neu egluro agweddau penodol ar y broses fel rhan o'i gwaith i ddatblygu rhaglenni 2014-2020;**

- b cyhoeddi canllawiau mewn da bryd cyn lansio'r cylch rhaglenni nesaf er mwyn sicrhau bod canllawiau cynhwysfawr ar gael i ymgeiswyr o'r dechrau; a
- c sicrhau bod canllawiau mor benodol â phosibl, er mwyn osgoi cwynion ynglŷn â chanllawiau amwys a defnydd anghyson gan Swyddogion Datblygu Prosiectau.

A5 Roedd hyd y broses datblygu prosiectau yn achos pryder mawr i noddwyr prosiect. Rydym yn cydnabod y bydd pob prosiect yn wahanol ac efallai na fydd amserlen safonol yn briodol. Fodd bynnag, **rydym yn argymhell bod cytundeb clir â noddwyr prosiect ar ddechrau'r broses o ddatblygu prosiect er mwyn sicrhau bod pob parti yn gwybod beth mae'n rhaid ei wneud ac erbyn pryd, a bod cerrig milltir allweddol wrth ddatblygu prosiect yn cael eu monitro gan WEFO fel y gellir ymchwilio i honiadau o oedi amhriodol.**

A6 Cafwyd rhai problemau wrth roi'r rhaglenni ar waith yn 2008 a 2009. Mae angen rhoi prosiectau ar waith mewn ffordd amserol er mwyn sicrhau proses drosiannol ddidrafferth rhwng cyfnodau rhaglennu ac er mwyn helpu i gyflawni targedau o ran gwariant. Rydym yn cymeradwyo cynigion WEFO, gan weithredu ar Adolygiad Guildford, i gyflwyno cyfnod rhoi ar waith ar gyfer rhaglenni 2014-2020 a fydd yn golygu bod yn rhaid i noddwyr neilltuo amser i sefydlu dulliau cyflawni, er enghraifft, i ddewis contractwyr. **Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:**

- a cyn i'r rhaglenni newydd gael eu lansio, mae gwaith yn dechrau ar ddatblygu prosiectau 'strategol' allweddol, gyda'r nod o'u cymeradwyo cyn gynted ag y bod modd ar ôl cymeradwyo'r rhaglenni gweithredol; ac

- b mae WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i'r amserlen ar gyfer cyflawni prosiect gynnwys cerrig milltir allweddol ar gyfer camau rhoi ar waith a chyflawni, ac yn defnyddio'r amserlen hon i herio a diwygio terfynau amser afrealistig, sef yr hyn sy'n achosi proffiliau gwariant gorhyderus yn aml.

A7 Mae WEFO eisoes wedi atgyfnerthu'r gwaith o fonitro allbynnau a chanlyniadau o gymharu â'r cylch rhaglenni diwethaf ac mae wedi gwella'r ffordd y mae'n gwerthuso effaith. Er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau hyn ymhellach, **argymhellwn y canlynol:**

- a O gofio bod rhaglenni ESF wedi rhagori ar eu targedau o gryn dipyn, dylai targedau ar gyfer y cylch rhaglennu newydd gael eu pennu ar lefel heriol ond realistig ar sail amgylchiadau economaidd cyfredol a phrofiad hyd yn hyn yn y cylch rhaglennu cyfredol.
- b Ar gyfer y cylch nesaf o raglenni ESF, dylai diffiniad o gyfranogwr di-waith fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddir gan yr Arolwg o'r Llafurlu. Ar hyn o bryd, dim ond y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith y mae rhaglenni ESF yn eu cyfrif, ond mae hyn yn tueddu i orddatgan y graddau y mae'r rhaglenni yn targedu'r boblogaeth economaidd anweithgar sydd o dan yr anfantais fwyaf.
- c Yn lle'r dangosydd monitro 'budd i elw' dylai WEFO ddefnyddio un cliriach a haws ei fesur, megis cynnydd mewn trosiant neu leihad mewn costau o ganlyniad i arian yr UE.

- ch **Dylai WEFO roi mwy o ffocws ar fonitro targedau allbynnau er mwyn sicrhau bod pob noddwr prosiect yn cytuno ar dargedau allbynnau, gan gynnwys dosbarthu allbynnau rhwng grwpiau targed ac ardaloedd daearyddol lle y bo'n briodol, ac yn eu monitro'n rheolaidd.**
- d **Dylai adroddiadau monitro rhaglenni gynnwys esboniadau llawn o unrhyw amrywiadau sylweddol o'r ffigurau disgwylidig, gan gynnwys diffygion sylweddol yng nghyfran y cyfranogwyr o grwpiau o dan anfantais neu dystiolaeth arall o fylchau posibl yn y ffordd y cyflawnir y prosiect. Dylai'r Pwyllgor drafod cynnydd yn erbyn targedau allbynnau a chanlyniadau ar gyfer pobl rhaglen o leiaf bob blwyddyn ac argymell unrhyw gamau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.**
- A8 Darperir cyfran fawr o arian y rhaglenni drwy contractau wedi'u caffael, a all fod o fudd i gwmnïau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig. Nid yw WEFO yn casglu gwybodaeth am werth contractau a ddyfernir i BBaChau na chwmnïau a leolir yng Nghymru. Byddai gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol er mwyn gwerthuso effaith y broses o gyflawni rhaglenni ar economi Cymru. **Rydym yn argymell y dylai WEFO fonitro gwerth contractau a ddyfernir i gwmnïau a BBaChau yng Nghymru.**
- A9 Mae noddwyr prosiect yn ddarostyngedig i drefn archwilio ac arolygu drwyadl sydd wedi llwyddo i sicrhau bod cyfraddau gwallau yn gymharol isel. Fodd bynnag, gall y system fod yn feichus i noddwyr. **Ar gyfer cylchoedd rhaglennu 2014-2020, rydym yn argymell y dylai WEFO adolygu cwmpas pob elfen o'r drefn archwilio ac arolygu gyda'r nod o ddileu dyblygu diangen, cydgysylltu gwaith er mwyn datblygu dull sy'n seiliedig ar risg cyhyd ag y bo'n ymarferol, ac adeiladu ar ei gwaith ataliol presennol.**
- A10 Mae WEFO wedi cael trafferth cael data o ansawdd derbyniol ar lefel cyfranogwyr yn amserol gan noddwyr prosiect, yn enwedig o ran prosiectau ERDF, ac mae hyn wedi llesteirio ymdrechion i werthuso prosiectau ERDF. Mae data ar gaffael hefyd yn anghyflawn. **Rydym yn argymell y dylai WEFO:**
- a **orfodi safonau ansawdd data yn fwy trwyadl er mwyn sicrhau bod noddwyr yn rhoi gwybodaeth amserol, cywir a chyflawn am gyfranogwyr a busnesau; ac**
 - b **ystyried defnyddio cronfa ddata ryngweithiol yn lle darparu data ar gyfranogwyr ar daenlenni, lle mae noddwyr yn cofnodi data'n uniongyrchol mewn fformat rhagnodedig, a thrwy hynny'n gwella ansawdd y data a gyflwynir, lleihau'r risg o ganlyniadau dyblyg a lleihau costau gweinyddol i WEFO.**
- A11 Cafodd Arolwg 2011 o Fusnesau sy'n cael cymorth ERDF, a gaiff ei gynnal eto yn 2014, gyfraddau gwrthod a diffyg ymwybyddiaeth cymharol uchel (ni allai busnesau hyd yn oed gofio cael cymorth). Er mwyn gwella ansawdd data, **rydym yn argymell y dylai WEFO gynnal yr Arolwg o Fusnesau sy'n cael cymorth ERDF yn barhaus, efallai ar adeg benodol ar ôl i'r cymorth i fusnes penodol ddod i ben, gydag adroddiadau ar ganlyniadau o bryd i'w gilydd er mwyn rhoi tystiolaeth o effaith.**

- A12 Caiff y rhan fwyaf o werthusiadau o brosiectau ei chomisiynu'n annibynnol gan noddwyr prosiect, ac nid oes llawer o gydweithredu rhwng noddwyr na chysylltiadau â gwerthuswyr eraill a allai roi tystiolaeth dda o effeithiau sy'n dod i'r amlwg.
- Rydym yn argymhell y dylai WEFO wneud y canlynol:**
- a **Galluogi noddwyr prosiect i ddefnyddio data sy'n ymwneud â'u prosiectau o werthusiadau o raglenni cyfan (yn enwedig yr Arolwg o Fusnesau sy'n cael cymorth ERDF ac Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd) er mwyn gwerthuso prosiectau lle bynnag y bo hynny'n briodol (h.y. yn amodol ar berthnasedd ac ar ofynion diogelu data).**
 - b **Annog a chefnogi noddwyr prosiect neu weithgareddau tebyg i gomisiynu gwerthusiadau ar y cyd neu gydweithredu ar ddulliau ac arfer da lle na fyddai gwerthusiad unigol yn briodol. Yn benodol, dylai WEFO geisio ffordd gyffredinol o werthuso canlyniadau meddal, yr effeithiau ar gyflogaeth a dangosyddion effaith allweddol eraill ar gyfer prif themâu rhaglenni, a sicrhau y caiff gwybodaeth o'r fath ei chasglu'n barhaus er mwyn llywio'r ffordd y caiff prosiectau a rhaglenni eu rheoli.**

Rhan 1

Cymru a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd



Tudalen y pecyn 183

1.1 Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yn helpu i ariannu nifer o fesurau i gefnogi'r broses o greu swyddi, cystadleurwydd, twf economaidd, gwell ansawdd bywyd a datblygu cynaliadwy. Mae Cronfeydd Strwythurol yn rhan o bolisi rhanbarthol yr UE ac yn cefnogi tri phrif amcan: Cydgyfeirio; Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol; a Chydlyniant Tiriogaethol (**Arddangosyn 3**). Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o gyllideb y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2007-2013 ei chyfeirio at amcan Cydgyfeirio sef lleihau gwahaniaethau economaidd rhwng rhanbarthau'r UE.

1.2 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu prif nodweddion Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-2013 (1 Ionawr 2007 i 31 Rhagfyr 2013) a sut y maent yn gymwys i Gymru ac yn gweithio yng Nghymru. Mae'r terfyn amser o saith mlynedd ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn caniatáu ar gyfer gwaith cynllunio a chyllidebau am gyfnod hwy nag a welir yn achos gwariant mewnwladol fel arfer. Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer 2007-2013 tua 18 mis cyn dechrau'r cyfnod a bydd gwariant yn para am hyd at ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod, ac wedyn bydd proses adolygu ac archwilio gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Disgwyli'r i Gymru gael tua £1.9 biliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer y cyfnod 2007-2013, yn bennaf i Orllewin Cymru a'r Cymoedd

1.3 Dosberthir Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru drwy ddwy gronfa:

- a Mae'r *ERDF* yn cyfrif am 60 y cant o'r arian sydd ar gael. Nod yr *ERDF* yw unioni diffyg cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd aelod-wladwriaethau drwy:
 - ymchwil, datblygu ac arloesi – meithrin gallu busnesau i ddatblygu a chynnig cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau gwell a newydd;
 - mae cyswllt penodol rhwng y seilwaith ariannu ac adfywio, telathrebu, yr amgylchedd, ynni a thrafnidiaeth; a
 - chyllid - grantiau ad-daladwy a grantiau nad ydynt yn ad-daladwy i gefnogi swyddi a thwf.
- b Mae'r *ESF* yn cyfrifo am 40 y cant o'r arian. Nod yr *ESF* yw hyrwyddo cyflogaeth yn yr UE drwy ariannu prosiectau er mwyn:
 - helpu cyflogwyr a chyflogeion i addasu i alwadau economaidd sy'n newid drwy gynlluniau hyfforddiant;
 - gwella mynediad at gyfleoedd swyddi, yn enwedig i'r rhai, megis pobl ddi-waith yn yr hirdymor, sydd fwyaf pell o'r farchnad lafur; ac
 - annog dysgu gydol oes, arloesi yn y gweithle a chyfle cyfartal i bawb.

Arddangosyn 3 – Amcanion polisi rhanbarthol yr UE a'r ffordd y dosberthir Cronfeydd Strwythurol yr UE


Amcan polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Cwmpas daearyddol • Poblogaeth a gwmpesir • Canran cyllid Cronfeydd Strwythurol yr UE a ddyrannwyd i'r amcan
<p>Cydggyfeirio</p> <p>Lleihau gwahaniaethau economaidd rhwng rhanbarthau'r UE drwy alluogi rhanbarthau tlotach i gyrraedd lefelau rhanbarthau cyfoethocach.</p> <p>Y rhanbarthau sy'n gymwys yw'r rhai sydd â CMC y pen o lai na 75 y cant o gyfartaledd yr UE¹.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 99 o ranbarthau • 170 miliwn o bobl • 81.5 y cant o'r gyllideb
<p>Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol</p> <p>Creu swyddi drwy hyrwyddo cystadleurwydd a sicrhau bod y rhanbarthau dan sylw yn atyniadol i fusnesau a buddsoddwyr.</p> <p>Mae'n gymwys i bob rhanbarth nas cwmpesir gan Gydgyfeirio. Bwriedir iddo helpu rhanbarthau cyfoethocach berfformio hyd yn oed yn well, creu datblygiad mwy cytbwys, dileu ardaloedd bach o dlodi sy'n dal i fodoli a chael budd canlyniadol ar weddill yr UE.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 170 o ranbarthau • 330 miliwn o bobl • 16 y cant o'r gyllideb.
<p>Cydlyniant Tiriogaethol</p> <p>Annog cydweithredu ar draws ffiniau - boed hynny rhwng gwledydd neu ranbarthau - na fyddai fel arall yn digwydd. Gallai mentrau gynnwys cyd-reoli adnoddau naturiol, datblygu cysylltiadau trafnidiaeth a chreu rhwydweithiau o brifysgolion a sefydliadau ymchwil. Gall y rhaglenni trawsffiniol hyn gwmpasu pob rhanbarth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 269 o ranbarthau • 500 miliwn o bobl • 1.5 y cant o'r gyllideb

Nodiadau:

¹ Caiff CMC – sef gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchwyd – eu mesur mewn ffordd sy'n addasu ar gyfer effaith gwahaniaethau mewn prisiau rhwng aelod-wladwriaethau.

Ffynhonnell: Gwefan yr UE

Arddangosyn 4 – Ardaloedd Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ar gyfer Cronfeydd Strwythurol



1.4 Yn gyffredinol, disgwylir i Gymru gael tua £1.87 biliwn o arian Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-2013 (ar 31 Rhagfyr 2013)⁶. Ceir dwy raglen ar wahân (un i'r ERDF ac un i'r ESF) ar gyfer pob un o'r rhanbarthau canlynol⁷:

a *Gorllewin Cymru a'r Cymoedd* o dan amcan Cydgyfeirio. Mae'r rhanbarth yn cwmpasu 15 o ardaloedd awdurdod lleol, tua 62 y cant o arwynebedd tir Cymru a thua 1.9 miliwn o bobl (**Arddangosyn 4**). Bydd y rhanbarth yn

cael tua £1.76 biliwn o arian Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2007-2013 - tua 94 y cant o gyfanswm yr arian a ddyrennir i Gymru.

b *Dwyrain Cymru* o dan amcan Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol. Mae'r rhanbarth yn cwmpasu ardaloedd cyfoethocach Cymru y tu allan i'r rhanbarth Cydgyfeirio, gyda phoblogaeth o ychydig dros filiwn, a fydd yn cael £115 miliwn o arian Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2007-2013, tua chwe y cant o'r gyfanswm sydd ar gael i Gymru.

⁶ Mae gwerth y rhaglenni mewn sterling yn amrywio, yn dibynnu ar gyfradd gyfnewid £/€. Gostyngodd y bunt o €1.47 i €1.02 rhwng cymeradwyo rhaglenni ERDF ym mis Awst 2007 a diwedd 2008, gan gynyddu gwerth posibl y Cronfeydd Strwythurol 44 y cant neu £670 miliwn. Yna, bu cynnydd yng ngwerth y bunt i €1.20 ar ddiwedd 2012, gan wrthdroi ychydig o dan hanner yr enillion blaenorol. Drwy'r adroddiad hwn i gyd, mae ffigurau ewro wedi cael eu troi'n sterling ar gyfradd o 1.20, a ddefnyddiodd gan WEFO at ddiobenion cynllunio a chofnodi ar 31 Rhagfyr 2013.

⁷ Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan yn y rhaglen drawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon, sy'n annog cydweithrediad rhwng ardaloedd gorllewinol Cymru a rhanbarth de-ddwyrain Iwerddon, ond nid Cymru yw'r Awdurdod Rheoli dros hynny. Mae'r UE wedi dyrannu tua £42 miliwn i'r rhaglen hon ar gyfer y cyfnod 2007-2013, a rennir rhwng y ddwy wlad. Gall Cymru hefyd wneud cais am adnoddau o dan raglenni Gogledd-orllewin Ewrop ac Arfordir yr Iwerydd, sy'n annog cydweithrediad traws-wladol.

1.5 Mae gan bob rhaglen gyllideb ar gyfer arian yr UE ynghyd â'r arian cyfatebol gofynnol gan y sector cyhoeddus⁸ a'r sector preifat. Gan gynnwys yr arian cyfatebol hwn, mae rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn werth tua £3.20 biliwn i Gymru. Mae cymhareb arian yr UE ac arian cyfatebol yn amrywio o raglen i raglen (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5 – Dyraniadau'r Cronfeydd Strwythurol i Gymru, 2007-2013, yn ôl Rhaglen a Chronfa

	Arian grant yr UE (£ miliwn) ¹	Arian cyfatebol (£ miliwn)	Cyfanswm yr arian (£ miliwn)	Cyfradd yr arian grant (y cant)
Cydggyfeirio ERDF	1,053	786	1,839	57%
Cydggyfeirio ESF	703	391	1,094	64%
Rhaglenni Cydggyfeirio	1,756	1,177	2,933	60%
Cystadleurwydd ERDF	62	75	137	45%
Cystadleurwydd ESF	53	80	133	40%
Rhaglenni cystadleurwydd	115	155	270	43%
Cyfanswm ar gyfer pob rhaglen	1,871	1,332	3,203	58%

Noder:

¹ Dyraniadau ariannol sy'n seiliedig ar y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2013 gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid o €1.20 i £1.

Ffynhonnell: WEFO

Mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u cynllunio er mwyn helpu i gyflawni polisiau i'r UE cyfan o ran swyddi, twf a datblygu cynaliadwy

- 1.6 Mae pob rhaglen wedi'i rhannu'n flaenoriaethau sy'n ymwneud ag amcan cymdeithasol neu economaidd penodol, er enghraifft annog arloesedd neu leihau anweithgarwch economaidd. Mae gan bob blaenoriaeth ei chyllideb ei hun (**Arddangosyn 6**) a gellir rhannu blaenoriaethau yn themâu sy'n cael eu dyraniadau ariannol dangosol (nad ydynt yn gyfrwymol).
- 1.7 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cytuno â'r awdurdod perthnasol ym mhob aelod-wladwriaeth ar raglenni gwaith gweithredol ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu⁹. Yng Nghymru, yr awdurdod perthnasol yw Llywodraeth Cymru. Mae pob rhaglen weithredol:
- a yn adolygu'r sefyllfa economaidd a chymdeithasol yn yr ardal raglennu, a'i hanghenion, ei chryfderau a'i gwendidau;
 - b yn cynnig strategaeth i ddiwallu anghenion yr ardal yn unol â chanllawiau strategol yr UE a pholisi domestig (Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn);
 - c yn nodi rhaglen integredig o weithgareddau i gyflawni'r strategaeth, wedi'i threfnu'n flaenoriaethau sydd â chyllidebau penodol (gweler **Arddangosyn 6** ar gyfer Cymru), dangosyddion monitro a thargedau allbynnau;
 - ch esbonio sut y bydd y rhaglen yn hyrwyddo themâu trawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal; a
 - d disgrifio'r trefniadau gweinyddol a fydd yn gymwys drwy gydol y rhaglen.

⁹ Caiff y rhaglenni gweithredu eu cymeradwyo ar ôl proses sy'n cymryd tua dwy flynedd ac sy'n cynnwys aelod-wladwriaethau yn cytuno ar gyllideb yr UE, cyhoeddi rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a'r Comisiwn Ewrop yn derbyn Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol Llywodraeth y DU, sef dogfen sy'n nodi ar lefel uchel sut y caiff cronfeydd yr UE eu defnyddio a'u gweinyddu.

Arddangosyn 6 – Dyraniadau'r Cronfeydd Strwythurol i Gymru, 2007-2013, yn ôl Cronfa a blaenoriaeth

Enw'r flaenoriaeth (rhif)	Dyraniad (£ miliwn) ¹		Engbreiffiau o weithgareddau a ariennir
	Arian grant yr UE	Cyfanswm	
Rhaglenni ERDF			
Gwybodaeth ac arloesed <i>Blaenoriaeth 1 Cydgyfeirio</i> <i>Blaenoriaeth 1 Cystadleurwydd</i>	291	531	Cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu sydd â buddiannau masnachol tebygol, TGCh, seilwaith a chymorth ar gyfer arloesedd busnes
Twf busnes a chystadleurwydd <i>Blaenoriaeth 2 Cydgyfeirio</i> <i>Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd</i>	138	267	Cymorth ar gyfer entrepreneuriaeth, cyllid busnes (gan gynnwys cronfeydd cyfalaf)
Seilwaith strategol <i>Blaenoriaeth 3 Cydgyfeirio</i>	327	588	Prosiectau ffyrdd a rheilffyrdd, cludiant cymunedol, safleoedd ar gyfer busnes
Creu amgylchedd busnes atyniadol <i>Blaenoriaeth 4 Cydgyfeirio</i> Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd <i>Blaenoriaeth 3 Cystadleurwydd</i>	204	350	Ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, amddiffynfeydd rhag llifogydd, mentrau twristiaeth sy'n seiliedig ar dreftadaeth leol a'r amgylchedd naturiol
Cymunedau cynaliadwy <i>Blaenoriaeth 5 Cydgyfeirio</i> Adfywio ar gyfer twf <i>Blaenoriaeth 4 Cystadleurwydd</i>	141	220	Adfywio ffisegol, datblygu economaidd cymunedol
Rhaglenni ESF			
Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol <i>Blaenoriaeth 1 Cydgyfeirio</i>	104	159	Mentrau i fynd i'r afael â thangyflawni mewn ysgolion a gwella sgiliau ac uchelgeisiau, e.e. drwy fentora, gwirfoddoli, profiad gwaith, cyfarwyddwyd gyrfaedd a chodi ymwybyddiaeth
Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd <i>Blaenoriaeth 2 Cydgyfeirio</i> <i>Blaenoriaeth 1 Cystadleurwydd</i>	302	501	Cymorth personol i chwilio am swydd wedi'i deilwra at anghenion unigol, lleoliadau gwaith, mentrau i gyflogwyr i gyflogi a chadw unigolion di-waith
Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu <i>Blaenoriaeth 3 Cydgyfeirio</i> <i>Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd</i>	308	494	Hyfforddiant sgiliau sylfaenol, prentisiaethau, hyfforddiant ar bob lefel, mentrau i herio gwahanu yn y gweithlu ar sail rhyw

Arddangosyn 6 – Dyraniadau'r Cronfeydd Strwythurol i Gymru, 2007-2013, yn ôl Cronfa a blaenoriaeth (parhad)

Enw'r flaenoriaeth (<i>rhif</i>)	Dyraniad (£ miliwn) ¹		Enghreifftiau o weithgareddau a ariennir
	Arian grant yr UE	Cyfanswm	
Moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus <i>Blaenoriaeth 4 Cydgyfeirio</i>	28	46	Annog cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus, prosiectau i feithrin gallu cyrff cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell
ERDF ac ESF			
Cymorth technegol <i>(un Flaenoriaeth ym mhob rhaglen)</i>	28	47	Systemau TG pwrpasol er mwyn rheoli arian yr UE, ymchwil a gwerthuso, hyfforddiant i reolwyr prosiect, cyngor arbenigol, cymorth i bartneriaethau a rhwydweithiau
Cyfanswm	1,871	3,203	

Noder:

¹ Dyraniadau ariannol sy'n seiliedig ar y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2013 gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid o €1.20 i £1. Mae rhaglenni Cystadleurwydd yn ariannu ystod fwy cyfyngedig o weithgarwch na Chydgyfeirio.

Ffynhonnell: Data ariannol a rhaglenni gweithredol WEFO

- 1.8 Gall rhaglenni gweithredol, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, gael eu haddasu er mwyn adlewyrchu newidiadau sylweddol mewn polisi neu yn y cyd-destun economaidd, ond dim ond gyda chymeradwyaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ac wedyn y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod cylch ariannu 2007-2013, caiff y rhaglenni gweithredol eu hategu gan gyfres o ddogfennau fframwaith strategol sy'n rhoi canllawiau ychwanegol ar flaenoriaethau a dylunio prosiectau. Caiff y fframweithiau hyn eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ac nid oes angen iddynt gael eu hawdurdodi'n benodol gan y Comisiwn Ewropeaidd ([Arddangosyn 7](#)).

Arddangosyn 7 – Fframweithiau strategol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE: rhaglenni yng Nghymru

Ceir 20 o fframweithiau strategol sy'n cwmpasu pob un o feysydd gweithgarwch rhaglenni ac maent yn gymwys i raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd (Atodiad 2). Mae pob fframwaith wedi'i gysylltu â blaenoriaethau a themâu penodol o fewn y rhaglenni. Mae 15 yn fframweithiau thematig, sy'n ymdrin â meysydd polisi penodol megis newid yn yr hinsawdd neu gyllid busnes. Mae pump yn fframweithiau gofodol sy'n cwmpasu gweithgarwch adfywio mewn ardaloedd daearyddol penodol (Bae Abertawe, Sir Benfro, De Ddwyrain Cymru, Canol Cymru a Gogledd Cymru) sy'n adlewyrchu'r ardaloedd a ddynodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru.

Mae pob un o'r fframweithiau thematig hefyd yn cynnwys adran sy'n ymdrin â'r cyd-destun gofodol - y prif heriau a chyfleoedd a wynebir gan bob un o ardaloedd y fframweithiau gofodol a'r lleoliadau a'r grwpiau y dylid eu targedu.

Mae gan y fframweithiau fformat cyffredin ac maent yn cwmpasu:

- amlinelliad o brif strategaethau, polisiâu a mentrau'r UE sy'n berthnasol i'r fframwaith;
- y mathau o weithgarwch a gaiff eu hariannu o dan y fframwaith (a elwir yn feysydd ymyrryd), eu diben a'u dulliau cyflawni disgwylidiedig;
- dangosyddion monitro a dyraniadau ariannol;
- egwyddorion a rheoliadau allweddol, gan gyfeirio at ganllawiau perthnasol; a
- gwerthuso ac adolygu fframweithiau, gan gynnwys cwestiynau gwerthuso i'w defnyddio i werthuso prosiectau.

1.9 Disgwylir i bob rhaglen gyflawni yn erbyn 'Agenda Lisboa' ar gyfer swyddi a thwf, y cytunwyd arni gan bob aelod-wladwriaeth yn 2000 ac a atgyfnerthwyd yn 2005 gan Strategaeth Twf a Swyddi'r UE. Mae canllawiau strategol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol yn amlinellu sut y dylai aelod-wladwriaethau gyfrannu at dri phrif amcan y strategaeth:

- Sicrhau bod Ewrop yn lle mwy atyniadol i fuddsoddi a gweithio ynddo** drwy fuddsoddi mewn seilwaith trafniadaeth, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Er mwyn atgyfnerthu synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwf economaidd, mae'r canllawiau strategol yn annog aelod-wladwriaethau i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n diogelu'r amgylchedd, rheoli gwastraff ac adfywio, a hefyd i ddatblygu buddiannau economaidd asedau naturiol a diwylliannol.
- Annog gwybodaeth ac arloesedd ar gyfer twf** drwy gynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu a'i dargedu'n well, hwyluso a hyrwyddo entrepreneuriaeth, hyrwyddo'r gymdeithas wybodaeth, a gwella gallu busnesau bach i gael gafael ar gyllid.
- Creu mwy o swyddi a gwell swyddi** drwy ddenu a chadw mwy o bobl yn y farchnad lafur, gwella gallu gweithwyr a busnesau i ymaddasu, a chynyddu buddsoddiad mewn cyfalaf dynol drwy addysg a sgiliau gwell. Bydd y Cronfeydd Strwythurol hefyd yn buddsoddi yng ngallu gweinyddol gwasanaethau cyhoeddus.

- 1.10 Mae'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen weithredu Cydgyfeirio neilltuo 67 y cant o arian i weithgareddau penodol sy'n cyfrannu fwyaf tuag at Agenda Lisboa, gan gynyddu i 75 y cant ar gyfer rhaglenni Cystadleurwydd. Mae'r gofyniad hwn yn cyfyngu ar allu aelod-wladwriaethau i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i ariannu gweithgareddau nas ffeirir, er enghraifft cyngor busnes cyffredinol neu gymhellion i fewnfuddsoddi.
- 1.11 Yn strategaeth 'Ewrop 2020' yr UE, ailddatganwyd yr ymrwymiad i swyddi a thwf a rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddatblygu cynaliadwy, adferiad economaidd a chyfuno ariannol. Disgwylir i'r Cronfeydd Strwythurol gyfrannu at bum targed allweddol strategaeth Ewrop 2020, sef, erbyn 2020:
- a bydd 75 y cant o bobl 16-64 oed mewn cyflogaeth;
 - b bydd yr UE yn buddsoddi tri y cant o'i CMC mewn ymchwil a datblygu ac arloesed bob blwyddyn;
 - c er mwyn lliniaru newid yn yr hinsawdd, bydd yr UE wedi torri allyriadau nwyon tŷ gwydr 20 y cant ers 1990, wedi cynyddu effeithlonrwydd ynni 20 y cant ac wedi cael 20 y cant o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy;
 - ch o ran addysg, bydd cyfraddau disgyblion sy'n rhoi'r gorau i'r ysgol yn llai na 10 y cant a bydd 40 y cant o bobl 30-34 oed wedi cwblhau addysg trydedd lefel (uwch); a
 - d bydd 20 miliwn yn llai o bobl yn yr UE mewn tlodi ac yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol neu sy'n wynebu risg o hynny.
- 1.12 Gan adlewyrchu amcanion a thargedau'r UE, mae rhaglenni o dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2007-2013 yn canolbwyntio mwy ar arloesedd a seilwaith na'r hyn a welwyd yng nghylch rhaglennu 2000-2006.
- Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn gweithredu o fewn framwaith penodol o reoliadau a rheolaethau**
- 1.13 Mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u llywodraethu gan reoliadau'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau penodol ar gyfer pob cronfa sy'n pennu gweithgareddau cymwys, gwariant, prosesau cofnodi ac archwilio. Mae rheoliadau cyffredinol yr UE ynglŷn â chaffael cyhoeddus a chymorth gwladwriaethol (cymorth llywodraeth i fusnesau masnachol) hefyd yn bwysig iawn am fod prosiectau a ariennir drwy'r rhaglenni yn aml yn cynnwys comisiynu gwasanaethau ac iddynt farchnad ryngwladol neu'n cynnwys cymorth i fusnesau penodol. Caiff y rhaglenni eu harchwilio gan sawl sefydliad gan gynnwys Llys Archwilwyr Ewrop, a gall achosion o afreoleidd-dra arwain at adfachu arian yr UE sydd eisoes wedi'i dalu i'r aelod-wladwriaeth.
- 1.14 Dim ond gweithgarwch sy'n wirioneddol 'ychwanegol' at yr hyn a fyddai wedi cael ei ariannu heb gymorth yr UE y bydd y Cronfeydd Strwythurol yn talu amdano. Mae'r UE yn rheoleiddio ychwanegedd drwy gytuno â phob aelod-wladwriaeth ar isafswm y gwariant domestig yn yr ardaloedd rhaglennu ar y categorïau gwariant cyffredinol (seilwaith sylfaenol, adnoddau dynol a buddsoddi cynhyrchiol) sy'n cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'n rhaid cynnal y lefel hon o wariant er mwyn dangos nad yw'r awdurdod perthnasol wedi defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yn lle gwariant cyhoeddus neu wariant strwythurol cyfatebol.

- 1.15 Caiff rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol eu cyflawni drwy brosiectau unigol, yr oedd 287 ohonynt ar 31 Rhagfyr 2013. Arweinir pob prosiect gan un sefydliad, sef 'y noddwr prosiect' sy'n atebol o dan gontract (Llythyr Cynnig Grant) i WEFO am reoli a chyflawni'r prosiect yn unol â'i gynllun busnes, rheoliadau perthnasol yr UE, Rheolau Cenedlaethol Cymru ar Gymhwysedd a thelerau'r Llythyr Cynnig Grant. Gall y noddwr prosiect gael ei gynorthwyo gan sefydliadau 'cyd-noddwr' eraill. Sefydliadau'r sector cyhoeddus yw'r rhan fwyaf o noddwyr prosiect, Llywodraeth Cymru ei hun yn aml. Yn y pen draw, bydd cynnydd rhaglenni yn dibynnu ar ba mor gyflym y gall noddwyr gynllunio a chyflawni eu prosiectau, ond mae hyn yn ei dro yn dibynnu i raddau helaeth ar y cymorth a roddir gan WEFO.
- 1.16 Y prif gyrrff sy'n ymwneud â rheoli'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer rhanbarth penodol yw:
- a Mae'r **Comisiwn Ewropeaidd** yn gweinyddu'r Cronfeydd Strwythurol ar ran yr UE ac mae'n gyfrifol am y canlynol:
- dyrannu cyllidebau cyffredinol y Cronfeydd Strwythurol rhwng aelod-wladwriaethau a rhaglenni;
 - datblygu canllawiau strategol ar ddefnyddio'r Cronfeydd;
 - cymeradwyo rhaglenni gweithredol;
 - monitro cynnydd y rhaglenni drwy adolygu adroddiadau blynyddol a gweithredu fel sylwedyddion yng nghyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (gweler isod);
 - awdurdodi prosiectau sy'n werth dros €50 miliwn o arian grant yr UE; a
 - dilysu cydymffurfiaeth â rheoliadau.
- b Mae'r **Awdurdod Rheoli** yn atebol i'r Comisiwn Ewropeaidd am weithredu ei rhaglenni'n effeithlon yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglenni Cymru, ac mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i WEFO, sef un o isadrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am y canlynol:
- dewis prosiectau i'w hariannu yn unol â meini prawf dewis a rheoliadau'r UE;
 - sicrhau bod y rhaglen gyfan yn gwneud cynnydd da ac y caiff ei chyflawni yn unol â'r rhaglen weithredol;
 - talu arian grant yr UE i noddwyr prosiect yn seiliedig ar hawliadau am wariant cymwys a pharatoi ceisiadau am ad-daliad gan y Comisiwn Ewropeaidd;
 - cynnal gwiriadau dilysu ar sail sampl er mwyn sicrhau bod hawliadau'n ddilys a bod y trafodion sylfaenol wedi'u dogfennu'n ddigonol;
 - monitro a gwerthuso'r rhaglenni yn unol â chynllun y cytunwyd arno;
 - rhoi gwybodaeth hanfodol i noddwyr prosiect a rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i'r rhaglenni; a
 - pharatoi'r adroddiadau gweithredu blynyddol, adroddiadau rheolaeth blynyddol a'r adroddiadau terfynol sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan reoliadau'r UE.

- c Mae'r **Awdurdod Ardystio** yn gyfrifol am wirio hawliadau am arian Ewropeaidd gan yr Awdurdod Rheoli, gan sicrhau eu bod wedi'u datgan yn gywir ac wedi'u hategu'n ddigonol, a chyflwyno'r cais i'r Comisiwn Ewropeaidd. Yng Nghymru, WEFO sy'n gweithredu fel Awdurdod Ardystio, ond mae'r rhan o WEFO sy'n ymgymryd â'r dasg hon wedi'i gwahanu'n swyddogaethol oddi wrth weddill y sefydliad er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl.
- ch Mae'r **Awdurdod Archwilio** yn gyfrifol am archwilio'n annibynnol systemau rheoli ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, ac archwilio sampl o brosiectau er mwyn sicrhau y caiff gwariant ei hawlio'n gywir a'i fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Mae'r Awdurdod Archwilio yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ganlyniadau ei waith. Mae'n cyflwyno datganiad cau ar ddiwedd y rhaglenni, gan asesu dilysrwydd cais yr Awdurdod Ardystio am y taliad olaf i'w ryddhau gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Tîm Archwilio Cronfeydd Strwythurol yn rhan o dîm llywodraethu corfforaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu fel Awdurdod Archwilio ar gyfer rhaglenni Cymru.
- d Mae **Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni** yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd ac ansawdd pob rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu un pwyllgor i oruchwyllo pob un o'i phedair rhaglen, sy'n cynnwys 14 o gynrychiolwyr o'r prif grwpiau rhanddeiliaid (gan gynnwys llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a busnesau preifat) a 10 arbenigwr a benodwyd. Mae'r pwyllgor yn:
- ystyried ac yn cymeradwyo unrhyw gynigion gan yr Awdurdod Rheoli i ddiwygio'r rhaglenni gweithredol sydd wedyn yn amodol ar gytundeb y Comisiwn Ewropeaidd (**paragraff 1.8**);
 - monitro cynnydd o ran cyflawni'r rhaglenni, yn benodol yn erbyn targedau ariannol ac allbynnau rhaglenni; ac
 - yn ystyried ac yn cymeradwyo'r adroddiadau blynyddol a'r adroddiadau terfynol sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- cytuno bod y fframweithiau strategol yn addas at y diben fel rhan o'r meini prawf a ddefnyddir i ddewis gweithrediadau;

Rhan 2

Mae'r rhaglenni wedi mynd rhagddynt yn eithaf da ar y cyfan er gwaethaf rhai anawsterau, ond mae'n rhy gynnar i asesu'n llawn eu heffaith gyffredinol



- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried cynnydd cyffredinol y rhaglenni, gan roi sylw penodol i'r canlynol:
- a rhoi arian i brosiectau, a elwir yn arian a neilltuwyd o dan raglen;
 - b lefelau o wariant ar ôl i arian gael ei neilltuo, ar lefel rhaglen yn erbyn targedau gwariant y Comisiwn Ewropeaidd¹⁰ ac ar lefel prosiect yn erbyn proffiliau cyflawni prosiectau; a
 - c pherfformiad y rhaglenni o ran cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a fwriadwyd.
- 2.3 Cytunodd WEFO ar ei rhaglenni gweithredu ERDF â'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Awst 2007, wyth mis ar ôl dechrau'r cyfnod rhaglennu ond yn gynt na llawer o raglenni gweithredol eraill ledled yr UE. Cymeradwywyd rhaglenni ESF ym mis Hydref 2007, yn unol â llawer o rai eraill. Roedd WEFO eisoes wedi sefydlu Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Mai 2007 ac wedi dechrau datblygu meini prawf dewis prosiectau a chanllawiau i ymgeiswyr o hanner cyntaf 2007. Golyga hyn fod gofynion allweddol ar gyfer datblygu prosiectau ar waith erbyn mis Rhagfyr 2007, gan gynnwys: meini prawf dewis prosiectau a blaenoriaethu y cytunwyd arnynt; canllawiau i ymgeiswyr; cynllun monitro a gwerthuso; a dogfennau fframwaith strategol ategol gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, mae WEFO wedi gwneud cynnydd da o ran neilltuo'r arian sydd ar gael i brosiectau

Mae WEFO wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau neilltuo blynyddol a bennwyd iddi'i hun, ac mae arian wedi'i neilltuo ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd rhaglenni

- 2.2 Ni allai WEFO neilltuo unrhyw arian sy'n ddyledus i Gymru nes bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r rhaglen weithredol ar gyfer pob un o'r rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd. Rhoddir y gymeradwyaeth honno ar ddiwedd proses sydd y tu hwnt i reolaeth WEFO i raddau helaeth. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyfnod trosiannol didrafferth o un rhaglen i'r llall, mae'n bwysig cael momentwm o'r camau cynharaf yn ystod y cyfnod rhaglennu newydd.

- 2.4 Erbyn mis Mawrth 2008, roedd WEFO eisoes wedi cael 160 o ddatganiadau mynegi diddordeb gan noddwyr prosiect yr oedd 50 ohonynt wedi mynd yn eu blaen i gael eu hasesu'n fanylach. Dywedodd swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am oruchwylio rhaglenni Cymru wrthym eu bod yn fodlon ar gyflymder lansio'r prosiectau. Nododd ein harolwg o noddwyr prosiect fod cynnydd yn arafach nag yr oedd llawer o noddwyd wedi'i ddisgwyl, ond mae WEFO o'r farn y gall hyn fod yn gysylltiedig â disgwyliadau ynglŷn â'r safonau a ddisgwyilir gan gynigion prosiect.

¹⁰ Mae targedau neilltuo a thargedau gwariant wedi cael eu gwneud yn fwy heriol oherwydd newidiadau yn y gyfradd gyfnewid rhwng y bunt a'r ewro sydd, yn gyffredinol, wedi cynyddu gwerth y rhaglenni.

2.5 Mae targedau a bennwyd yn y Rhaglenni Gweithredol yn rhagdybio y caiff tua'r un faint o arian yr UE ei neilltuo ym mhob un o flynyddoedd y rhaglenni. Mae'r proffil neilltuo hwn yn ddangosydd cynnar pwysig o weithgarwch rhaglen ac fe'i defnyddir i gyfrifo'r targedau gwariant N+2 (paragraffau 2.10) a ddefnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd at ddibenion rheolaeth. Fodd bynnag, mae WEFO yn pennu ei thargedau neilltuo ei hun ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2008 a 2012 (Arddangosyn 8). O 2009 ymlaen, roedd y targedau hyn yn fwy heriol na'r rhai a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn helpu i

greu momentwm a lleihau'r risg o golli targedau gwariant yr UE. Yn hyn o beth, roedd WEFO yn dysgu'r wers o raglenni 2000-2006, a welodd gryn lithriant ymhlith y prosiectau. Roedd targedau neilltuo uwch hefyd yn rhan o strategaeth i fynd i'r afael ag effaith y dirywiad economaidd, a oedd yn cynnwys cyd-drafod cyfraddau grant uwch â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn sicrhau mwy o werth o arian cyfatebol domestig. Yn ein barn ni, roedd y strategaeth hon – neilltuo arian yn gynt a gwneud y mwyaf o'r gwariant – yn briodol a llwyddwyd i WEFO i ragori ar dargedau ffurfiol y Comisiwn Ewropeaidd.

Arddangosyn 8 – Arian cronol yr UE a neilltuwyd o gymharu â thargedau'r Comisiwn Ewropeaidd a WEFO, 2007-2013¹

	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Targedau neilltuo²							
Targed rhaglenni gweithredol y Comisiwn Ewropeaidd	13%	27%	41%	55%	70%	85%	100%
Targed mewnol WEFO	dd/g ³	20%	50%	75%	80%	100%	100%
Arian a neilltuwyd mewn gwirionedd							
Cydygyfeirio ERDF	0%	22%	42%	74%	79%	103%	101%
ERDF Cystadleurwydd	0%	28%	53%	61%	70%	103%	111%
Cydygyfeirio ESF	0%	35%	66%	86%	90%	94%	101%
Cystadleurwydd ESF	0%	28%	62%	100%	97% ⁴	101%	108%

Nodiadau:

- ¹ Mae ffigurau yn cyfeirio at ffigurau ar 31 Rhagfyr ar gyfer pob blwyddyn ac maent yn seiliedig ar yr arian cronol a neilltuwyd dros yr holl flynyddoedd blaenorol yn ystod y cyfnod rhaglennu, fel canran o gyfanswm arian yr UE a ddyrannwyd ar ddiwedd pob blwyddyn.
- ² Mae targedau'r Comisiwn Ewropeaidd a WEFO yn gymwys i bob rhaglen ar sail unigol yn hytrach na sail gyfunol.
- ³ Ni phennodd WEFO darged ar gyfer 2007 am na chafodd y rhaglenni gweithredol eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd tan fis Awst a mis Hydref yn y flwyddyn honno ac am nad oedd WEFO yn gallu cymeradwyo unrhyw brosiectau nes bod y rhaglenni wedi'u cymeradwyo.
- ⁴ Gall cyfran yr arian a neilltuwyd i raglen ostwng gan fod arian yn cael ei ddatneilltuo oddi wrth brosiectau.

Ffynhonnell: WEFO

2.6 Roedd WEFO yn rhagori ar broffiliau'r Rhaglenni Gweithredol o ran arian a neilltuwyd i raglenni erbyn diwedd 2009 ac mae'r sefyllfa hon wedi parhau ers hynny. Rhagorodd WEFO ar ei thargedau neilltuo ei hun ar gyfer ESF ym mhob blwyddyn rhwng 2008 a 2011, a hynny o gryn dipyn, ond methodd â chyflawni ei thargedau mwy heriol ei hun ar gyfer ERDF¹¹. Y rheswm dros y diffyg ar gyfer Rhaglen Gystadleurwydd ERDF yn 2011 oedd bod y maes â blaenoriaeth a oedd â'r gyllideb fwyaf, sef gwybodaeth ac arloesedd, ond wedi neilltuo 44 y cant o'r £27.5 miliwn o arian a oedd ar gael.

2.7 Ar y cyfan, roedd y cynnydd yn yr arian a neilltuwyd rhwng 2010 a 2011 yn llawer llai nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, a hynny'n rhannol am fod arian wedi cael ei neilltuo'n llawn neu bron yn llawn mewn llawer o feysydd ac am fod arian wedi'i ddadneilltuo (wedi'i dynnu'n ôl) o rai prosiectau. Yn arbennig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad mawr o'i pholisi ym maes datblygu economaidd yn 2010 ac o ganlyniad i hynny dilëwyd rhai prosiectau neu cwtogwyd ar raddfa rhai ohonynt er mwyn bodloni gofynion y polisi newydd yn well. Arweiniodd hyn at ddadneilltuo tua £50 miliwn yn 2010 oddi wrth Raglen Gydgyfeirio ERDF¹². Fodd bynnag, (ym mis Mawrth 2011, penderfynodd WEFO gau sawl maes o dan raglenni ERDF i ymgeiswyr newydd, yn bennaf oherwydd y lefelau uchel o arian gwirioneddol a phosibl a neilltuwyd.

2.8 Mae cyfraddau neilltuo ar gyfer rhaglenni 2007-2013 wedi rhagori ar y rhai ar gyfer rhaglenni 2000-2006 ym mhob un o'r blynyddoedd cyfatebol yn ystod y cyfnod rhaglennu, yn enwedig yn y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn¹³. Ar ddiwedd 2013, roedd cyfraddau neilltuo wedi mynd y

tu hwnt i 100 y cant ar gyfer pob un o'r pedair rhaglen ac roedd arian wedi'i neilltuo'n llawn mewn naw o'r 19 o flaenoriaethau. Roedd y blaenoriaethau lle nad oedd arian wedi'i neilltuo'n llawn ond yn cyfrif am 2.8 y cant o gyfanswm arian yr UE a ddyrannwyd ar gyfer rhaglenni ERDF a 2.0 y cant ar gyfer raglenni ESF. Mae WEFO yn bwriadu gorneilltuo pump y cant i raglenni ERDF a 10 y cant i raglenni ESF er mwyn helpu i sicrhau y caiff swm llawn arian yr UE ei hawlio hyd yn oed os bydd prosiectau'n tanwario neu os bydd y bunt yn gwanhau yn erbyn yr ewro, gan ryddhau mwy o arian yr UE yn ddiweddarach.

Gan weithio gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, mae WEFO wedi ymateb yn briodol i fynd i'r afael â diffygion yn yr arian a neilltuwyd

2.9 Mae WEFO wedi monitro'r symiau a neilltuwyd i wahanol feysydd polisi ac mae cynnydd wedi cael ei drafod yn rheolaidd â'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am yr adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru. Er mai araf fu'r cynnydd mewn rhai meysydd ar y dechrau, mae WEFO ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau priodol i ysgogi'r broses o ddatblygu prosiectau neu i ailddyrrannu arian. Er enghraifft:

- a *Moderneiddio a gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus*: Ym mis Medi 2010, dim ond 25 y cant o'r £27.5 miliwn o arian Rhaglen Gydgyfeirio ESF a oedd ar gael at y diben hwn a oedd wedi'i neilltuo. Dywedodd swyddogion WEFO wrthym eu bod wedi disgwyl i gynnydd fod yn araf yn y dechrau am fod y flaenoriaeth hon yn un arloesol a bod Llywodraeth Cymru am sicrhau cymaint o effaith strategol â phosibl yn hytrach

11 Byddai WEFO wedi cyflawni pob un o'i thargedau neilltuo ERDF ei hun rhwng 2008 a 2010 pe bai'r gyfradd gyfnewid wedi aros ar lefel 1.48 ewro i'r bunt ym mis Awst 2007 (pan gymeradwywyd y rhaglenni gweithredol gan y Comisiwn Ewropeaidd).

12 Cafodd symiau eraill, llai o faint, eu dadneilltuo oddi wrth brosiectau er mwyn adlewyrchu tangyflawni, arbedion effeithlonrwydd, gwariant anghymwys ac, mewn rhai achosion, ddiffyg arian cyfatebol. Ers hynny mae WEFO wedi ailgylchu'r arian a ryddhawyd a'i roi i brosiectau eraill ond bu effaith dros dro ar lefelau neilltuo.

13 Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd neilltuo ar gyfer 2000-2006 a 2007-2013 yn adlewyrchu, i ryw raddau, natur wahanol y ddau gylch rhaglennu. Ar gyfer 2000-2006, roedd prosiectau unigol yn tueddu i fod o werth is a phara am gyfnod byrrach. Ar gyfer 2007-2013 mae'r rhan fwyaf o brosiectau yn para o leiaf dair blynedd ac mae llawer yn para chwe blynedd ac yn cynnwys cryn dipyn o is-gontractio gwasanaethau a ddarperir.

na thwf mewn prosiectau lleol ar raddfa fach. Mae WEFO wedi priodoli'r achosion o oedi i gyflymder amrywiol y partneriaid yr oedd angen iddynt gydweithredu er mwyn datblygu cynigion prosiect ac i'r ffaith bod y fframwaith strategol wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu polisi newydd Llywodraeth Cymru. Gweithiodd WEFO gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru er mwyn datblygu cynigion prosiect a chreodd Llywodraeth Cymru gronfa benodol o arian cyfatebol gwerth hyd at £1 filiwn. Erbyn 31 Rhagfyr 2013 roedd tua 76 y cant o'r arian a oedd ar gael wedi'i neilltuo. Fodd bynnag, roedd WEFO o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai digon o brosiectau o safon ddigon da yn cael eu cyflwyno er mwyn i'r arian a oedd yn weddill gael ei neilltuo yn llawn ac, felly, ailddywannodd £4.5 miliwn i feysydd rhaglenni eraill.

- b *Newid yn yr hinsawdd:* Roedd £141 miliwn o arian yr UE wedi cael ei ddyrannu o dan raglenni ERDF er mwyn lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd drwy amddiffynfeydd rhag llifogydd, arbed ynni, ynni adnewyddadwy a phrosiectau rheoli gwastraff. Araf fu'r cynnydd ar y dechrau oherwydd natur gymhleth rhai prosiectau ac am nad oedd prosiectau o dan arweiniad y sector preifat a ragwelwyd wedi dod i'r golwg wrth i'r dirywiad economaidd ei gwneud hi'n anodd codi arian. Ym mis Mawrth 2011, yn sgil newid yn rheoliadau'r UE, roedd WEFO yn gallu cymeradwyo £33 miliwn o arian ERDF tuag at brosiect Arbed Llywodraeth Cymru a oedd â'r nod o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu mewn cartrefi presennol.

Mae WEFO hefyd wedi cymeradwyo grantiau o £50 miliwn ar gyfer prosiectau amddiffyn rhag llifogydd. O ganlyniad, roedd 74 y cant o'r dyraniad dangosol wedi'i glustnodi erbyn mis Rhagfyr 2013, ond gyda llai o bwyslais ar ynni adnewyddadwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa ganolog, Ynni'r Fro, er mwyn helpu i gyflwyno mwy o brosiectau cynhyrchu ynni lleol ar raddfa fach drwy roi grant neu gyllid benthyciad.

- c *Seilwaith TGCh a manteisio i'r eithaf ar TGCh:* Mae rhaglenni ERDF yn cynnwys tua £101 miliwn ar gyfer y thema hon, ond gyda 54 y cant yn unig wedi'i neilltuo erbyn mis Mai 2011. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithredu prosiect mawr - Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru - er mwyn ymestyn gwasanaethau band eang cyflym i bob rhan o Gymru erbyn 2020. Bydd y prosiect yn costio cyfanswm o £203 miliwn, y caiff £89.5 miliwn o'r swm hwnnw ei ddarparu gan ERDF ac, o ganlyniad, hwn fydd y prosiect mwyaf a ariennir gan yr UE. Mae'r broses o ddatblygu'r prosiect wedi bod yn feichus oherwydd ei faint a'i gymhlethdod, yr angen am ymchwil fanwl i ddangos methiant y farchnad, a'r gofyniad i gael cymeradwyaeth benodol fel prosiect mawr gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r prosiect wedi'i gymeradwyo bellach a bydd yn defnyddio'r holl arian o fewn blaenoriaethau perthnasol rhaglenni ERDF.

Mae'r rhaglenni wedi cyflawni targedau gwariant yr UE, er bod cyfradd y gwariant cyffredinol yn arafach na'r hyn a ragwelwyd gan noddwyr prosiect

Mae WEFO wedi cyflawni pob un o dargedau gwariant yr UE, gan sicrhau na cholodd Cymru unrhyw arian

2.10 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi pennu targedau gwariant blynyddol (N+2) ar gyfer pob un o'r rhaglenni gweithredol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob rhaglen wario'r gyllideb flynyddol y cytunwyd arni ac a ddyrannwyd o fewn dwy flynedd i ddiwedd y flwyddyn y'i dyrannwyd ar ei chyfer¹⁴. Os na fydd rhaglen yn cyflawni ei tharged gwariant, caiff y swm nas gwariwyd ei ddadneilltuo, ac fel arfer ni chaiff ei ailneilltuo, sy'n golygu y caiff yr arian ei golli am byth.

2.11 Ar sail y rheol dwy flynedd hon, dylai'r targedau gwariant cyntaf fod wedi ymwneud â'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2009. Yn 2010, er mwyn helpu awdurdodau rheoli i reoli effaith andwyol y dirywiad economaidd ar arian cyfatebol, penderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd ddiddymu targed gwariant 2009 a diwygio'r targedau ar gyfer 2010-2015. Roedd y targedau diwygiedig dipyn yn llai heriol yn 2010 a 2011. Fodd bynnag, penderfynodd WEFO y byddai'n ceisio cyflawni'r targedau gwreiddiol o hyd, ac mae wedi llwyddo ar y cyfan.

2.12 Fel awdurdodau rheoli eraill y DU, cyflawnodd WEFO y targedau gwariant gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer pob un o'i phedair rhaglen yn 2009, 2010 a 2011, a hynny o gryn dipyn gan mwyaf (**Arddangosyn 9**). Cyflawnodd WEFO bob un o'r pedwar targed diwygiedig yn 2012 a 2013 ond methodd â chyflawni dau darged gwreiddiol rhaglenni ERDF o ychydig, a bu'r perfformiad yn nes at y targed yn gyffredinol wrth i'r targedau fynd yn gynyddol heriol.

Arddangosyn 9 – Gwariant arian yr UE o gymharu â thargedau'r Comisiwn Ewropeaidd, 2009-2013

Rhaglen a blwyddyn	Gwariant gwirioneddol (£ miliwn) ¹	Gwariant gwirioneddol fel canran o'r targed gwreiddiol	Gwariant gwirioneddol fel canran o'r targed diwygiedig ²
2009			
Cydgysfeirio ERDF	74.5	110%	N/A
Cystadleurwydd ERDF	15.8	403%	N/A
Cydgysfeirio ESF	68.9	153%	N/A
Cystadleurwydd ESF	5.3	154%	N/A

¹⁴ Mae perfformiad o ran targedau gwariant yn seiliedig ar hawliadau am ad-daliad gan WEFO i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae angen bod WEFO wedi derbyn ac wedi talu hawliad dilys am arian grant prosiect cyn y gall gynnwys y gwariant perthnasol yn ei hawliad i'r Comisiwn. O ganlyniad, gall fod oedi o hyd at chwe mis rhwng gwariant 'ar lawr gwlad' a hawliad gan WEFO.

Arddangosyn 9 – Gwariant arian yr UE o gymharu â thargedau'r Comisiwn Ewropeaidd, 2009-2012 (parhad)

Rhaglen a blwyddyn	Gwariant gwirioneddol (£ miliwn) ¹	Gwariant gwirioneddol fel canran o'r targed gwreiddiol	Gwariant gwirioneddol fel canran o'r targed diwygiedig ²
2010			
Cydgyfeirio ERDF	206.7	101%	275%
Cystadleurwydd ERDF	21.6	182%	393%
Cydgyfeirio ESF	165.9	121%	260%
Cystadleurwydd ESF	11.7	112%	239%
2011			
Cydgyfeirio ERDF	337.7	106%	152%
Cystadleurwydd ERDF	33.6	161%	220%
Cydgyfeirio ESF	276.9	115%	157%
Cystadleurwydd ESF	23.9	130%	178%
2012			
Cydgyfeirio ERDF	483.6	97%	110%
Cystadleurwydd ERDF	27.4	95%	104%
Cydgyfeirio ESF	342.1	103%	115%
Cystadleurwydd ESF	29.7	117%	131%
2013			
Cydgyfeirio ERDF	637.2	97%	101%
Cystadleurwydd ERDF	37.6	96%	103%
Cydgyfeirio ESF	466.0	103%	110%
Cystadleurwydd ESF	38.1	110%	118%

Nodiadau:

1 Mae ffigurau yn cyfeirio at ffigurau ar 31 Rhagfyr ar gyfer pob blwyddyn ac maent yn seiliedig ar y gwariant cronol dros yr holl flwyddoedd blaenorol yn ystod y cyfnod rhaglennu yr ardystiodd WEFO ei fod yn gymwys i gael ei ad-dalu gan yr UE.

2 Dd/G = Ddim yn Gymwys. Yn 2010 penderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd ddiddymu targed gwariant 2009 a diwygio pob targed ar gyfer y dyfodol.

Ffynhonnell: WEFO

Tudalen y pecyn 201

2.13 Mae tri ffactor wedi helpu i gynyddu faint o arian Cronfeydd Strwythurol yr UE y mae WEFO wedi'i wario:

- a Y cynnydd sylweddol yn y gyfradd ymyrraeth gyfartalog ar lefel Blaenoriaeth – cyfran cyfanswm y costau a delir drwy arian yr UE yn hytrach nag arian cyfatebol – y llwyddodd WEFO i'w gyd-drafod â'r Comisiwn Ewropeaidd, o gyfartaledd o 49.0 y cant i gyfartaledd o 59.3 y cant ar gyfer y pedair rhaglen. Drwy'r newid hwn, rhyddhawyd swm ychwanegol o £187 miliwn o arian yr UE erbyn 31 Rhagfyr 2013.
- b Rhai achosion o ariannu'n ôl-weithredol brosiectau a oedd wedi'u cwblhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan WEFO. Bu tri phrosiect seilwaith trafndiaeth cwbl ôl-weithredol o dan Raglen Gydgyfeirio ERDF. Hawliodd y prosiectau hyn gyfanswm o £12.1 miliwn o arian grant ôl-weithredol. Bu 10 prosiect arall hefyd lle rhoddwyd mwy na £1 filiwn neu 25 y cant o gyfanswm y grant yn ôl-weithredol.
- c Cymru oedd un o'r rhanbarthau cyntaf yn yr UE i sefydlu offerynnau ariannol JEREMIE a JESSICA, sef cronfeydd buddsoddi sy'n dilyn yr un patrwm ledled yr UE ac y bwriedir iddynt ariannu busnesau bach a mentrau datblygu eraill ar sail fasnachol, gan gynhyrchu adenillion sy'n ariannu buddsoddiadau pellach. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn talu'r holl arian grant ar gyfer y cronfeydd hyn pan sefydlir y cronfeydd gyntaf (2009 ar gyfer JEREMIE a 2010 ar gyfer JESSICA), a thrwy'r rhain hawliwyd arian grant ychwanegol o £73.2 miliwn o dan ddwy raglen ERDF.¹⁵

Mae gwariant prosiectau wedi bod yn arafach na'r hyn a ragwelwyd am amrywiol resymau gan gynnwys gorhyder yn gyffredinol, anawsterau caffael a recriwtio staff ac effaith y dirywiad economaidd

- 2.14 Mae pob noddwr prosiect yn cytuno ar broffil cyflawni â WEFO sy'n nodi faint o arian y mae'r prosiect yn disgwyl ei wario a pha allbynnau y mae'n disgwyl eu cyflawni ym mhob cyfnod o dri mis yn ystod oes y prosiect. Croesgyfeirir at y proffil cyflawni y cytunwyd arno a'r cynllun busnes sylfaenol yn y ddogfen cynnig grant a lofnodir gan y noddwr. Ers mis Mehefin 2010, mae WEFO wedi paratoi adroddiadau misol sy'n cymharu'r gwariant a ragwelwyd â gwariant gwirioneddol ar gyfer pob prosiect. Hyd at fis Tachwedd 2013, roedd WEFO yn ystyried bod unrhyw brosiect o fewn 15 y cant o wariant ei broffil yn gweithredu yn ôl y bwriad, ar y cyfan, ond mae'r trothwy hwn wedi cael ei ailbennu'n bump y cant ers hynny wrth i'r rhaglenni dynnu at eu terfyn.
- 2.15 Bu patrwm cyson o brosiectau'n tanwario yn erbyn eu proffil cyflawni. Ym mis Rhagfyr 2013, roedd tua un o bob tri phrosiect a oedd yn mynd rhagddynt 20 y cant neu fwy y tu ôl i'w proffil gwariant (**Arddangosyn 10**). Er i'r diffyg cyffredinol rhwng gwariant gwirioneddol a gwariant a ragwelwyd ostwng o 31 y cant ym mis Mehefin 2010 i 19 y cant y mis Rhagfyr 2013, gellir priodoli llawer o'r gwelliant hwnnw i'r ffaith bod noddwyr prosiect wedi diweddarau eu proffiliau er mwyn adlewyrchu llithriant mawr yn hytrach na gwneud cynnydd o ran eu proffiliau gwreiddiol. Mae llawer o brosiectau wedi cadw'n fwy agos at eu proffil gwariant ar ôl iddynt ddatrys anawsterau yn ystod y cam sefydlu. Yn gyffredinol, mae WEFO yn caniatáu un ailwerthusiad mawr i noddwyr.

¹⁵ Canslwyd prosiect JESSICA ym mis Rhagfyr 2013 a thynnwyd y £25 miliwn o arian grant a dderbyniodd yn ôl o raglenni ERDF bryd hynny, gan effeithio ar berfformiad yn erbyn targed N+2 2013. Fodd bynnag, roedd yr arian yn dal i gyfrif yn erbyn targedau N+2 blaenorol.

2.16 Roedd y diffyg cyffredinol o 19 y cant ym mis Rhagfyr 2013 yn cyfrif am wariant prosiect posibl gwerth £411 miliwn, gyda thua £212 miliwn o'r swm yn arian yr UE. Ar y pryd, roedd y rhaglenni wedi talu tua £1.09 biliwn (58 y cant o gyfanswm arian yr UE a ddyrannwyd) i noddwyr o gymharu â £1.55 biliwn (69 y cant) ar yr un adeg yn ystod rhaglenni cyfatebol 2000-2006.¹⁶

2.17 Mae lefel gwariant prosiectau yn erbyn eu proffil yn gyson â'r patrwm yn y rhaglenni blaenorol. Mae lefel y gwariant a ragwelwyd gan noddwyr prosiect dipyn yn uwch na'r isafswm sy'n ofynnol i gyflawni targedau gwariant yr UE. Yn seiliedig ar ragolygon prosiectau, mae WEFO yn amcangyfrif y bydd yn cyflawni pob un o dargedau gwariant 2014, o gryn dipyn mewn tair o'r pedair rhaglen, ac mae wedi dosbarthu gwariant rhaglenni yn 'wyrdd' yn ei hadroddiadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni. Serch hynny, mae unrhyw danwariant

yn erbyn proffil yn awgrymu na fydd buddiannau sy'n deillio o brosiectau yn treiddio i economi Cymru mor gyflym â'r disgwyl. Mae swyddogion WEFO wedi gofyn i bob partner sydd wrthi'n cyflawni prosiectau ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau'n brydlon er mwyn hywlyso cyflawni'r rhaglenni yn ôl y bwriad.

2.18 Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd lefel y llithriant yn tueddu i fod yn uwch ar gyfer prosiectau cyfalaf, sy'n dwyn mwy o elfen o risg ariannol fel arfer, ac ar gyfer rhai prosiectau arloesol megis y rhai sydd â'r nod o foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae prosiectau ERDF sydd wedi'u cynllunio i annog arloesedd a phrosiectau ESF sydd wedi'u hanelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer y farchnad lafur wedi gwella eu perfformiad yn gyffredinol wrth i'r rhaglenni dynnu at eu terfyn. Mae llithriant wedi bod yn gymharol isel drwy gydol y cyfnod rhaglennu ym meysydd

Arddangosyn 10 – Gwariant prosiect gwirioneddol o gymharu â gwariant proffil, mis Mehefin 2010 a mis Rhagfyr 2013¹

	Rhagfyr 2013
Diffyg gwariant cyffredinol yn erbyn proffil (<i>pob prosiect sy'n mynd rhagddo</i>)	19%
Dadansoddiad o berfformiad prosiectau (<i>canran y prosiectau ym mhob band</i>):	
Coch: Mae prosiect 20% neu fwy y tu ôl i'w broffil gwariant	36%
Ambr: Mae'r prosiect 6-19% y tu ôl i'w broffil gwariant a 5% o flaen ei broffil gwariant ²	34%
Gwyrdd: Mae prosiect o fewn 5% (o flaen neu y tu ôl) i'w broffil gwariant	30%

Nodiadau:

1 Mae'r dadansoddiad yn y tabl hwn yn seiliedig ar wariant prosiect gwirioneddol o gymharu â gwariant proffil ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys pob prosiect nad oedd wedi'i gwblhau'n ariannol ar y dyddiadau perthnasol; felly nid yw'n cynnwys cronfeydd buddsoddi, prosiectau newydd nad ydynt wedi hawlio unrhyw arian grant eto, na phrosiectau wedi'u cwblhau.

2 Roedd 20 o 241 o brosiectau wedi mynd dros eu proffil ar 31 Rhagfyr 2013, gydag wyth ohonynt wedi mynd fwy na phump y cant dros eu proffil.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ystadegau talu WEFO

16 Rhaglenni cyfatebol a ddiffinnir fel Amcan 1 ERDF, Amcan 1 ESF, Amcan 2 (heb gynnwys arian trosiannol) ac Amcan 3. Mae'r rhaglenni hyn yn cyfateb yn fras i Raglenni Cydgyfeirio ERDF, Cydgyfeirio ESF, Cystadleurwydd ERDF, Cystadleurwydd ESF yn y drefn honno. Ni fydd y swm a dalwyd i noddwyr prosiect yn gyson â'r symiau a hawliwyd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn ystod yr un cyfnod oherwydd gwahaniaethau amseru, ac oherwydd y gall cyfraddau ymyrraeth ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd fod yn wahanol i'r cyfraddau ymyrraeth safonol a ddefnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd wrth dalu arian Cronfeydd Strwythurol i aelod-wladwriaethau.

mwy sefydledig y rhaglenni megis mesurau sydd wedi'u hanelu at leihau anweithgarwch economaidd ac ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd wedi parhau ers y cylchoedd rhaglennu blaenorol, megis Prentisiaethau Modern a Chymorth i Fusnesau Newydd.

- 2.19 Nid oedd y rhesymau dros lithriant bob amser yn amlwg o'r ffeiliau o'r sampl o 36 o brosiectau a adolygwyd gennym. Fodd bynnag, ymhlith themâu cyffredin roedd y canlynol:
- a *Anawsterau caffael*: Cafodd rhai noddwyr prosiect anhawster i addasu yn sgil y gofynion caffael cystadleuol newydd a gyflwynwyd gan WEFO ar gyfer rhaglenni 2007-2013 ac ni neilltuwyd yr amser yr oedd ei angen arnynt i sefydlu'r gweithdrefnau angenrheidiol. Cyfeiriwyd at gaffael fel achos o oedi mewn naw o'r 36 o brosiectau a archwiliwyd gennym a chafodd y problemau hyn gryn effaith ar rai prosiectau mawr yn ystod 2009 a 2010. Ymddengys bod y prif broblemau wedi cael eu goresgyn erbyn hyn ar ôl i WEFO adolygu ei dull gweithredu ac addasu ei chanllawiau ar fodolau cyflawni.
 - b *Anawsterau recriwtio staff*: Nododd 13 o'r 36 o brosiectau a archwiliwyd gennym anawsterau staffio, yn enwedig recriwtio, fel rheswm dros oedi. Mewn llawer o achosion, ymddengys nad oedd prosiectau wedi neilltuo'r amser yr oedd ei angen i recriwtio i swyddi allweddol a staffio prosiectau newydd neu fawr yn llawn. Mewn achosion eraill, cafodd noddwyr problemau penodol i ddod o hyd i ymgeiswyr â'r sgiliau a'r profiad priodol. O ran Llywodraeth Cymru, mae trosiant staff sy'n deillio o ailstrwythuro a diswyddo gwirfoddol, wedi'i gwneud yn anodd sicrhau parhad ac mae hyn wedi arwain at fylchau mewn timau prosiect.

2.20 Problemau eraill, llai cyffredin a nodwyd oedd:

- a *Llai o alw na'r disgwyl am wasanaethau prosiect*: a oedd yn deillio, er enghraifft, o effaith y dirywiad economaidd ar y galw am gyngor busnes a newidiadau mewn polisi a arweiniodd at newidiadau yn y farchnad ar gyfer ynni adnewyddadwy.
- b *Argaeledd arian cyfatebol*: nododd ychydig o brosiectau fod diffyg arian cyfatebol ar gyfer cyd-noddwyr neu gyd-ymgeiswyr am arian grant wedi atal cynnydd un neu fwy o elfennau o'u prosiect.
- c *Oedi cyn cymeradwyo prosiect*: a barodd i ychydig o brosiectau yn y sector addysg gollu dechrau'r flwyddyn academiaidd. Penderfynodd rhai asiantau cyflawni fynd rhagddynt ar eu menter eu hunain tra'n aros i'w prosiect gael ei gymeradwyo, ond dechreuodd eraill eu gweithgareddau flwyddyn yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol.

2.21 Yn gyffredinol, ac fel yn y rhaglenni blaenorol, ymddengys hefyd fod gorhyder cynhenid ym mhroffiliau cyflawni noddwyr. Nid yw proffiliau cyflawni prosiectau yn nodi'r rhagdybiaethau a wnaed ar y dechrau ynglŷn â dyddiadau cerrig milltir ar gyfer tasgau allweddol megis recriwtio staff a chyhoeddi hysbysiadau contractau. Yn niffyg gwybodaeth o'r fath, mae'n anodd i staff WEFO asesu pa mor realistig yw cynlluniau busnes ac ni welsom unrhyw dystiolaeth iddynt herio proffiliau gwariant hyd yn oed lle roedd cynnydd wedyn yn awgrymu eu bod yn afrealistig. Mae WEFO yn bwriadu cyflwyno 'cam rhoi ar waith' ar gyfer rhaglenni 2014-2020, lle y bydd gan brosiectau gyfnod penodol i gadarnhau eu dulliau cyflawni cyn y disgwylir i gyflawni 'ar lawr gwlad' ddigwydd. Os caiff ei gynllunio'n realistig, dylai'r cam rhoi ar waith helpu i leihau gorhyder mewn proffiliau cyflawni.

Mae'r rhaglenni ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau perfformiad allweddol, gan ragori arnynt o gryn dipyn mewn rhai achosion, ond maent yn debygol o fethu â chyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal

Mae WEFO yn canolbwyntio ar rhwng wyth a 14 o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn monitro'r ffordd y caiff pob un o'r rhaglenni gweithredol ei chyflawni

2.22 Yn 2007, cytunodd WEFO ar gyfres o ddangosyddion monitro ar gyfer pob un o'r pedair rhaglen weithredol â'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu prif amcanion strategol yr UE ac amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion monitro yn dod o dan ddau categori:

- a mae *dangosyddion allbynnau* yn adlewyrchu'r gweithgareddau y mae prosiect yn ymgymryd â hwy, megis nifer y busnesau a gynorthwyir neu nifer y cyfranogwyr mewn rhaglen hyfforddiant; a
- b *dangosyddion canlyniadau* yw effeithiau uniongyrchol prosiect ac maent yn adlewyrchu ei nodau allweddol, er enghraifft, creu swyddi neu ennill cymwysterau penodol.

2.23 Mae WEFO yn defnyddio dangosyddion eraill i fesur effaith gyffredinol ehangach y rhaglenni. Mae effeithiau yn digwydd dros yr hirdymor fel arfer, mae'n fwy anodd eu mesur nag allbynnau a chanlyniadau, a chânt eu hasesu drwy werthuso ar lefel rhaglen yn hytrach na lefel prosiect.

2.24 Ceir dros gant o ddangosyddion monitro i gyd, sy'n cwmpasu'r pedair rhaglen ynghyd â'u priod flaenoriaethau. Fodd bynnag, mae WEFO yn canolbwyntio ar rhwng wyth a 14 o ddangosyddion allbynnau a chanlyniadau allweddol er mwyn monitro'r ffordd y caiff pob un o'r rhaglenni gweithredol ei chyflawni. O'r rhain, chwe 'dangosydd dangosfwrdd' allweddol – swyddi a grëwyd, busnesau a gynorthwywyd, cyfranogwyr a gynorthwywyd, cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau a chyfranogwyr sy'n dechrau gweithio – yw sail proses adrodd ar berfformiad WEFO fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r ddwy raglen ERDF yn rhannu sawl un o'r dangosyddion allweddol, a hefyd y ddwy raglen ESF.

2.25 Mae targedau wedi'u pennu ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion lefel rhaglen a lefel blaenoriaeth. Pennwyd y targedau ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu a hynny'n seiliedig ar amgylchiadau economaidd a rhagdybiaethau ar y pryd ynglŷn â maint a ffurf y rhaglen (ond mae rhai targedau wedi'u newid ers hynny, a hefyd y diffiniad o ddangosyddion penodol). Mae WEFO yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni, yn seiliedig ar ffurflenni gan noddwyr prosiect. Mae **Atodiadau 3 a 4** yn disgrifio perfformiad cyffredinol pob un o'r pedair rhaglen weithredu ar 31 Rhagfyr 2013 ac fel y'i rhagwelwyd bryd hynny erbyn diwedd y rhaglenni.

Mae WEFO yn disgwyl cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau allweddol ERDF, yn bennaf oherwydd y cynnydd yng ngwerth y rhaglenni oherwydd newidiadau yn y gyfradd gyfnewid sydd wedi helpu i wrthbwyo effaith y dirywiad economaidd


2.26 Mae'r sefyllfa a nodwyd gan noddwyr prosiect ar ddiwedd 2013 – o ran perfformiad gwirioneddol hyd hynny ac alldro a ragwelwyd – yn awgrymu y byddai WEFO yn cyflawni chwech o'i 11 o

dargedau ar lefel rhaglen ar gyfer Rhaglen Gydgyfeirio ERDF a phump o'r wyth targed ar lefel rhaglen ar gyfer Rhaglen Gydgyfeirio ERDF (Arddangosyn 11). Rhagorwyd ar sawl un o'r targedau hyn eisoes, neu rhagwelir y bydd yn rhagori ar dargedau o gryn dipyn. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Gystadleurwydd eisoes wedi nodi bod pumwaith yn fwy o fusnesau wedi'u creu na'r targed.


Arddangosyn 11 – Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir yn erbyn targedau Rhaglenni ERDF ar 31 Rhagfyr 2013

Mae'r graff yn dangos y perfformiad a ragwelwyd hyd at ddiwedd y cyfnod rhaglenni ar gyfer pob dangosydd fel cyfran o'r targed. Mae glas yn dangos y perfformiad gwirioneddol. Mae coch yn dangos gweddill y rhagolwg nad oedd wedi'i gyflawni eto ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r marc 100 y cant yn dangos y targed; nodir dangosyddion dangosfwrdd (paragraff 2.24) â llythrennau trwm. Dangosir y mesur targed mewn cromfachau wrth ymyl pob dangosydd. Sail y ffigurau yw cofnodion noddwyr prosiectau a ddaeth i law yn WEFO erbyn 31 Rhagfyr 2013.

Rhaglen Gydgyfeirio



Rhaglen Gystadleurwydd



Nodiadau:

- ¹ 'Budd o elw' yw swm yr elw cynyddol a wna busnesau yn sgil arbedion neu fuddiannau cynhyrchiant, sydd wedi deillio o gymorth neu gefnogaeth ariannol y Cronfeydd Strwythurol.
- ² Mae'r targed ar gyfer lleihau, aildefnyddio neu ailgylchu gwastraff wedi'i ostwng o filiwn o dunelli i 600,000 tunnell.
- ³ Nifer y 'swyddi gros a grëwyd' yw nifer y swyddi a sicrhawyd drwy gymorth ERDF. Mae swyddi newydd a chysylltiedig (megis swyddi adeiladu ar gyfer prosiectau cyfalaf) wedi'u cynnwys ond ni chaiff swyddi gweinyddol prosiectau eu cynnwys. Mae WEFO wedi diweddarau'r diffiniad o 'swyddi gros a grëwyd' i gynnwys penodiadau am gyfnod penodol o fwy na blwyddyn. Mae WEFO o'r farn bod y dangosydd diwygiedig yn adlewyrchu'r farchnad lafur gyfredol yn well ac mae hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y swyddi y nodwyd eu bod wedi'u creu. Erys targedau ar gyfer creu swyddi yn ddigyfnewid.

Ffynhonnell: WEFO

- 2.27 Noda rhagolygon diwedd 2013 y byddai pob un o dargedau dangosyddion dangosfwrdd ERDF ond un yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae cyflawni'r targed ar gyfer creu swyddi o dan Raglen Gydgyfeirio ERDF yn debygol o fod yn heriol iawn, er gwaethaf newid yn y ffordd y mesurir y targed sydd wedi cynyddu nifer y swyddi a nodwyd. Ar ddiwedd 2013, roedd Rhaglen Gydgyfeirio ERDF wedi cynorthwyo tua 10,700 o fusnesau ac wedi helpu i greu tua 5,000 o fusnesau newydd a 17,000 o swyddi newydd am £1.18 biliwn o gyfanswm gwariant y rhaglen (gan gynnwys arian cyfatebol). Roedd Rhaglen Gystadleurwydd ERDF wedi cynorthwyo 2,000 o fusnesau ac wedi helpu i greu tua 2,600 o fusnesau newydd a 6,600 o swyddi am £117 miliwn o gyfanswm gwariant y rhaglen.
- 2.28 Mae'r chwe dangosydd a fyddai'n methu â chyflawni targedau o bell ffordd, yn seiliedig ar ragolygon diwedd 2013, yn ymwneud â'r pedair thema ganlynol:
- a *Buddsoddiad a ysgogwyd*: yn ôl rhagolygon prosiectau bydd Rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn sicrhau £277 miliwn o fuddsoddiad preifat (58 y cant o'r targed, sef £473 miliwn). Mae'r dirywiad economaidd wedi'i gwneud yn fwy anodd codi cyllid preifat na'r disgwyl. Nid yw WEFO yn bwriadu newid y targed hwn. Disgwylir i'r Rhaglen Gydgyfeirio ragori ar ei tharged is ar gyfer buddsoddiad a ysgogwyd.
 - b *Cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well*: Mae WEFO wedi cael adborth bod cwmnïau, oherwydd y dirywiad economaidd, yn treulio mwy o amser ar y cam datblygu nes eu bod yn hyderus eto y byddai eu cynnyrch, eu proses neu eu gwasanaeth yn llwyddiant masnachol. Er gwaethaf peth gwelliant ers diwedd 2011, awgryma rhagolygon prosiectau y bydd y Rhaglen Gydgyfeirio tua 50 y cant yn brin o'i tharged. Fodd bynnag, ymddengys bod gweithgarwch ymchwil a datblygu yn mynd yn ei flaen yn dda, ar sail perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd a gofrestrir â Swyddfa Eiddo Deallus y DU¹⁷.
 - c *Lleihau, aildefnyddio neu ailgylchu gwastraff*: bu diffyg galw am brosiectau lleihau gwastraff gan fod cymaint o'r seilwaith lleihau gwastraff ar raddfa fawr wedi'i roi ar waith o dan Raglen Amcan 1 2000-2006. Mae'r newid mewn pwyslais yn y rhaglenni cyfredol o ailgylchi i leihau gwastraff mewn busnesau bach a chanolig wedi effeithio ar berfformiad. Er bod y Comisiwn Ewropeaidd eisoes wedi cytuno i leihau targed y Rhaglen Gydgyfeirio o 1 filiwn i 600,000 tonnelli, awgryma rhagolygon prosiectau mai dim ond 68 y cant o'r targed hwn o 600,000 tonnelli a gaiff ei gyflawni.
 - ch *Budd o elw*: mae noddwyr prosiect yn rhagweld y byddant ond yn cyflawni 36 y cant o darged y Rhaglen Gydgyfeirio a 29 y cant o darged y Rhaglen Gystadleurwydd. Bwriedir i'r targed gofnodi cynnydd mewn elw sy'n deilio o arbedion neu fuddiannau cynhyrchiant a gyflawnwyd drwy gymorth yr UE. Mae WEFO o'r farn bod y dirywiad economaidd wedi cael effaith, ond bod problem fawr o ran mesur hefyd, gyda buddiolwyr yn cael anhawster i briodoli elw i wasanaethau penodol a ariennir gan yr UE a'i gyfrifo. Nid yw WEFO yn bwriadu newid y targedau a bydd yn ystyried y mater hwn drwy werthuso. Nid yw WEFO wedi rhagnodi unrhyw ddull penodol o gyfrif budd o elw.

17 Mae cofrestrïadau yn rhagflaenu lansio cynnyrch, gan fod angen datblygu'r eiddo deallus a grëwyd yn gynig masnachol cyn y gellir lansio cynnyrch.

2.29 Mae gwerth cyfanswm yr arian a neilltuwyd ar 31 Rhagfyr 2013, gan gynnwys arian cyfatebol, 12 y cant yn uwch na dyraniadau gwreiddiol y rhaglenni ar gyfer Rhaglen Gydgyfeirio ERDF a 38 y cant yn uwch ar gyfer y Rhaglen Gystadleurwydd. Mae'r cynnydd yng ngwerth y rhaglenni wedi'i gwneud yn haws i gyflawni'r targedau ar lefel rhaglen, gan wrthbwysu rhai o effeithiau negyddol y dirywiad economaidd ehangach. Pe bai WEFO wedi cynyddu targedau ei rhaglenni yn unol â lefelau neilltuo yna, yn seiliedig ar ragolygon noddwyr prosiect ar 31 Rhagfyr 2013, byddai Rhaglen Gydgyfeirio ERDF wedi cyflawni chwech o'i 11 o dargedau o hyd, ond dim ond 85 y cant o'r swyddi y disgwyliid eu creu. Bydd Rhaglen Gystadleurwydd ERDF wedi methu â chyflawni pedwar o'i wyth targed, gan gynnwys swyddi gros a grëwyd.

2.30 Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd y perfformiad gwirioneddol ar y pryd, ar ei hôl hi o'i gymharu â'r rhagolwg ar gyfer 10 o'r 19 o ddangosyddion rhaglen ERDF. Mae oedi wrth gyflawni prosiectau a thanwariant cysylltiedig yn debygol o fod yn ffactor ond hefyd gall fod oedi mawr cyn bod noddwyr a'u contractwyr yn coladu gwybodaeth am berfformiad o gymharu â thystiolaeth o wariant prosiectau. Serch hynny, byddai rhaglenni ERDF yn cyflawni rhai o'r targedau ar lefel perfformiad pe bai'r un lefel o lithriant yn parhau tan ddiwedd y rhaglenni.

2.31 O dan ddangosyddion ar lefel rhaglen, cymysg yw'r perfformiad ar lefel blaenoriaeth, unwaith eto yn rhannol oherwydd effaith benodol newidiadau yn yr amgylchiadau economaidd, newidiadau mewn polisi (gan gynnwys rheolau Cymorth Gwladwriaethol) a gwahaniaethau yn y ffordd y dosberthir arian ar feysydd penodol â blaenoriaeth o gymharu â'r tybiaethau cychwynnol. Er enghraifft, mae arian trafniadaeth wedi bod yn canolbwyntio ar gynlluniau ffyrdd yn hytrach na chynlluniau rheilffyrdd i raddau mwy

na'r disgwyl, gan olygu ei bod yn annhebygol y caiff targedau rheilffyrdd eu cyflawni.

2.32 Yn sgil adolygiad yn 2010, diwygiodd WEFO rai o'i thargedau ar lefel blaenoriaeth. Dim ond tri o'r targedau a ostyngwyd ond cynyddwyd 23 o dargedau, a hynny'n sylweddol mewn rhai achosion. Cyflwynodd WEFO dri tharged newydd hefyd er mwyn darparu ar gyfer gweithgarwch newydd ym maes marchnata cyrchfannau i ymwelwyr. Yn gyffredinol, ar sail rhagolygon noddwyr prosiect ar 31 Rhagfyr 2013, byddai 72 o'r 125 o dargedau ar lefel blaenoriaeth yn cael eu cyflawni.

Mae perfformiad rhaglenni ESF wedi bod yn gadarn, a rhagwelir y byddant yn rhagori ar eu targedau allweddol, a hynny o gryn dipyn yn achos llawer ohonynt

2.33 Mae rhaglenni'r ESF yn dibynnu i raddau helaeth ar gynlluniau cenedlaethol mawr wedi'u sefydlu'n gymharol dda ac nid ydynt wedi dioddef yn sgil yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chymorth gwladwriaethol, prosiectau cyfalaf a newidiadau polisi sydd wedi effeithio ar rannau o rhaglenni'r ERDF. O ganlyniad, mae rhaglenni'r ESF wedi mynd rhagddynt yn fwy hwylus. Yn ogystal, mae'r dirywiad economaidd hefyd wedi creu mwy o alw am y gwasanaethau cymorth hyfforddiant a chyflogaeth yr anelir y rhan fwyaf o wariant rhaglenni'r ESF atynt ac mae gwerth cynyddol y rhaglenni unwaith eto wedi'i gwneud hi'n haws cyflawni targedau rhaglenni.

2.34 Ar ddiwedd 2013, roedd Rhaglen Gydgyfeirio ESF wedi helpu 423,430 o gyfranogwyr mewn rhaglenni cymorth hyfforddiant a chyflogaeth, gyda chyfanswm gwariant rhaglen (gan gynnwys arian cyfatebol) o £779 miliwn. Roedd Rhaglen Gystadleurwydd ESF wedi helpu 64,112 o gyfranogwyr, gyda chyfanswm gwariant o tua £98 miliwn.¹⁸

¹⁸ Gwariant a hawliwyd gan brosiectau, nid gwariant a hawliwyd gan WEFO oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.


2.35 Noda rhagolygon noddwyr prosiect ar 31 Rhagfyr 2013 y caiff pob un o'r 27 o dargedau lefel Rhaglen ESF gwreiddiol eu cyrraedd, ac y rhagorir yn sylweddol ar lawer ohonynt (**Arddangosyn 12**). Nodwyd eisoes bod 22 o'r 27 o dargedau wedi'u cyrraedd ac, ar y cyfan, mae tua dwywaith cymaint o gyfranogwyr ag y disgwyliwyd

yn wreiddiol yn debygol o gymryd rhan yn y rhaglenni. Mae'r Rhaglen Gystadleurwydd yn perfformio'n eithriadol o dda, a rhagwelir y bydd y rhaglen honno hefyd yn rhagori ar bob un ond un o'i 21 o dargedau lefel blaenoriaeth. Rhagwelir y bydd y Rhaglen Gydgyfeirio yn rhagori ar 30 o'i 41 o dargedau lefel blaenoriaeth.


Arddangosyn 12 – Perfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir yn erbyn targedau Rhaglenni'r ESF ar 31 Rhagfyr 2013

Mae'r graff yn dangos y perfformiad a ragwelwyd hyd at ddiwedd y cyfnod rhaglenni ar gyfer pob dangosydd fel cyfran o'r targed. Mae glas yn dangos y perfformiad gwirioneddol. Mae coch yn dangos gweddill y rhagolwg nad oedd wedi'i gyflawni eto ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r marc 100 y cant yn dangos y targed; nodir dangosyddion dangosfwrdd (**paragraff 2.24**) â llythrennau trwm. Dangosir y mesur targed mewn cromfachau wrth ymyl pob dangosydd. Sail y ffigurau yw cofnodion noddwyr prosiectau a ddaeth i law yn WEF0 erbyn 31 Rhagfyr 2013.

Rhaglen Gydgyfeirio



Rhaglen Gystadleurwydd



Nodiadau:

¹ Cyfranogwyr sy'n economaidd anweithgar yw'r cyfranogwyr hynny nad ydynt wedi'u cyflogi am fwy na 16 awr yr wythnos nac yn ddi-waith (yn chwilio am waith ac ar gael i weithio neu'n destun rhybudd diswyddo ffurfiol).

² Mae'r lefelau cymwysterau yn cyfeirio at Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Yn gyffredinol, mae lefel 2 yn cyfateb i TGAU, lefel 3 i safon Uwch a lefel 4 i gymwysterau addysg uwch.

Source: WEFO

- 2.36 Er gwaethaf y perfformiad cryf yn erbyn targedau lefel rhaglen, mewn perthynas â rhaglenni'r ERDF, bu cyfradd y cynnydd yn erbyn dangosyddion yn arafach nag a ragwelwyd gan noddwyr prosiect, gan adlewyrchu o bosibl danwariant cyffredinol ac unrhyw fwch amser wrth gasglu gwybodaeth am berfformiad. Oni fodlonir y diffyg hwn erbyn diwedd y rhaglenni, byddai dau o'r targedau lefel rhaglen (cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer y ddwy raglen) yn cael eu methu, ond byddai'r holl dargedau eraill yn cael eu cyrraedd yn hawdd.
- 2.37 Gan edrych islaw'r targedau lefel rhaglen, bu nifer o feysydd nad ydynt yn perfformio cystal â'r disgwyl. Er enghraifft:
- a Roedd Blaenoriaeth 1 o'r Rhaglen Gydgyfeirio, sy'n anelu at atal pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed rhag rhoi'r gorau i ddysgu neu dangyflawni, yn faes gweithgarwch newydd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ac roedd yn gymharol araf i ddechrau. Roedd tua 108,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn prosiectau cysylltiedig erbyn diwedd 2013, a oedd yn sylweddol uwch na'r targed o 35,500 ar gyfer y cyfnod rhaglennu cyfan. Fodd bynnag, roedd y targed yn tybio y câi gwasanaethau prosiect eu cyfeirio at y bobl ifanc a oedd yn wynebu'r risg fwyaf. Fel y bu, llwyddodd y prosiectau i ddenu amrywiaeth ehangach o gyfranogwyr, ac mae WEFO o'r farn bod prosiectau yn fwy effeithiol os bydd grŵp ehangach o bobl ifanc yn cymryd rhan. Rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau yn rhagori ar y targed, ond nid i'r un graddau â nifer y cyfranogwyr. Mae nifer y cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach ar ei hôl hi'n sylweddol o gymharu â dangosyddion eraill, yn rhannol gan mai dim ond y rheini sy'n parhau i lefel uwch o addysg anorfodol o fewn chwe mis o gwblhau eu cyfranogiad yn y prosiect y gall noddwyr eu cyfrif. Ymddengys fod noddwyr wedi disgwyl diffiniad llai caeth o'r dangosydd hwn wrth bennu eu targedau.
 - b Mae'n debygol y bydd diffyg yn nifer y cyflogwyr a gaiff gymorth neu gefnogaeth ariannol gan y mesurau a gynlluniwyd i gynyddu lefelau cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd. Rhagwelir y bydd perfformiad 58 y cant yn is na'r targed ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio a phedwar y cant yn is na'r targed ar gyfer y Rhaglen Gystadleurwydd. Mae amgylchiadau economaidd wedi'i gwneud hi'n anodd i brosiectau gynnwys cyflogwyr mewn mesurau i helpu pobl ddi-waith a phobl sy'n anweithgar yn economaidd, ac nid yw WEFO yn disgwyl i'r sefyllfa wella'n sylweddol erbyn diwedd y rhaglenni. I'r gwrthwyneb, mae'r rhagamcan ar gyfer nifer y cyflogwyr a gafodd gymorth i hyfforddi eu gweithwyr presennol yn rhagori'n sylweddol ar y targed.
 - c Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd ar Flaenoriaeth 4 o Raglen Gydgyfeirio ESF (moderneiddio a gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus) yn araf ac mae WEFO wedi tynnu rhywfaint o'r arian a ddyrannwyd yn wreiddiol i'r flaenoriaeth hon yn ôl. Noda rhagolygon noddwyr prosiect y bydd y flaenoriaeth hon yn methu â chyrraedd ei tharged ar gyfer nifer y cyfranogwyr o 75 y cant ac y bydd yn methu â chyrraedd ei tharged ar gyfer nifer y lleoliadau secondiad erbyn diwedd y rhaglen o 82 y cant, ond y rhagorir ar y targedau ar gyfer cytundebau cydweithredol rhwng cyrff gwasanaeth cyhoeddus, mentrau lledaenu a dangosyddion eraill sy'n ymwneud â gweithgarwch cydweithredol. Roedd gan weithgarwch yn y maes hwn bwyslais llawer cryfach ar gydweithredu nag a fwriadwyd yn wreiddiol, gyda chyfran is na'r disgwyl o'r arian a oedd ar gael yn cael ei neilltuo i arweinyddiaeth a hyfforddiant caffael.

2.38 Er bod gwahaniaethau o ran natur a maint y rhaglenni a'r diffiniad o allbwn, roedd y targedau y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn ar gyfer rhaglenni'r ESF ar gyfer 2007-2013 yn is ar y cyfan na'r rheini a bennwyd ar gyfer rhaglenni'r ESF ar gyfer 2000-2006. Roedd WEFO yn awyddus i dargedau 2007-2013 adlewyrchu'r rheolaeth well dros gyfrif dwbl yr oedd yn disgwyl ei chymhwyso, a'r pwyslais cynyddol ar grwpiau anodd eu cyrraedd. Roedd WEFO hefyd yn awyddus i sicrhau mai dim ond yr allbynnau hynny lle roedd noddwr y prosiect wedi ymyrryd yn sylweddol a allai gael effaith hirdymor ar y buddiolwr y byddai'r rhaglenni yn eu datgan, a phennodd dargedau ceidwadol i adlewyrchu'r bwriad hwn.

2.39 Serch hynny, mae'r graddau y rhagorwyd ar y targedau hynny yn awgrymu y pennwyd targedau rhaglen ESF ar lefel rhy isel. Er mwyn sicrhau bod her amlwg ar waith am weddill cyfnod y rhaglen, ym mis Rhagfyr 2011, gofynnodd WEFO i'r Comisiwn Ewropeaidd gynyddu targedau ar gyfer 23 o'r 27 o ddangosyddion ar lefel rhaglen o rhwng 33 a 461 y cant¹⁹. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno ar y newidiadau hyn eto a cheir awgrym y byddai newid o'r fath yn cymylu'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y cynllun cyflawni gwreiddiol. Os bydd y targedau yn newid yn unol â chynnig blaenorol WEFO, awgryma'r rhagolygon ar 31 Rhagfyr 2013 y byddai'r rhan fwyaf o'r targedau diwygiedig yn cael eu cyflawni o hyd.

Mae'r themâu trawsbynciol sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal wedi'u sefydlu'n well nag yn y rhaglenni blaenorol, ond mae'r rhaglenni yn debygol o fethu â chyflawni'r rhan fwyaf o'u targedau cysylltiedig

2.40 O dan reoliadau'r UE, mae'n rhaid i'r ddwy thema drawsbynciol, sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal, gael eu hintegreiddio â phob agwedd ar raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Mae **Arddangosyn 13** yn amlinellu'r amcanion o dan bob thema. Mae WEFO yn monitro'r themâu trawsbynciol drwy ddefnyddio cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd, y mae rhai ohonynt yn cael eu cymhwyso'n gyffredinol (dangosyddion cyffredinol) ac y mae eraill ar gyfer mathau penodol o weithgarwch (dangosyddion penodol). Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol wrth werthuso prosiectau a rhaglenni.

2.41 Nododd proses werthuso a gomisiynwyd gan WEFO²⁰ ym mis Ionawr 2011 bod y gwaith o integreiddio'r themâu trawsbynciol ar brif lefel (er enghraifft, yng nghynlluniau prosiectau) wedi datblygu ers y cylch rhaglennu blaenorol. Dywedwyd bod canllawiau a chymorth gan gynghorwyr arbenigol WEFO yn dda a bod y rhan fwyaf o brosiectau wedi cael sgôr canolog neu uchel yn erbyn meini prawf asesu ar gyfer y ddwy thema drawsbynciol. Adlewyrchir y patrwm hwnnw hefyd mewn ffigurau a gyflwynwyd yn fwy diweddar gan WEFO i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

¹⁹ Mae WEFO hefyd wedi gofyn am ganiatâd i leihau rhai targedau ar lefel blaenoriaeth er mwyn adlewyrchu anawsterau penodol wrth gyflawni'r lefel arfaethedig o berfformiad (yn enwedig mewn perthynas â mentrau gwasanaethau cyhoeddus) neu lle mae'n disgwyl tynnu gwasanaethau yn ôl er mwyn osgoi'r risg o ddyblygu gwasanaethau a ddarperir gan Raglen Waith Llywodraeth y DU. Byddai dyblygu o'r fath yn groes i reoliadau'r UE ynglŷn ag ychwanegedd.

²⁰ Old Bell 3 Ltd et al, *Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period*, gwerthusiad a gomisiynwyd gan WEFO, Ionawr 2011.

Arddangosyn 13 – Amcanion trawsbynciol y Cronfeydd Strwythurol ynglŷn â chynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal

Cynaliadwyedd amgylcheddol

- lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr er mwyn helpu i gyfyngu ar raddau newid yn yr hinsawdd a helpu i addasu ei effeithiau;
- hyrwyddo trafniadaeth gynaliadwy;
- hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau;
- hyrwyddo'r gwaith o reoli tir, moroedd a dyfroedd mewnwladol yn gynaliadwy; a
- gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig lleol a chyfleoedd i gael mynediad i fannau gwyrdd.

Cyfle cyfartal

- cynyddu nifer yr unigolion sydd o dan anfantais luosog sy'n cael mynediad at gyflogaeth a hunangyflogaeth;
- cynyddu nifer y menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl sy'n cael hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau â chyflogau uwch ac uwch sgiliau a hunangyflogaeth;
- herio gwahanu yn ôl galwedigaeth drwy gynyddu nifer y menywod a dynion sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd annhraddodiadol, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae prinder sgiliau; a
- chynyddu nifer y cyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sydd â strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys systemau monitro a dulliau o ymgorffori gwelliannau.

Ffynhonnell: WEFO

2.42 Fodd bynnag, daeth y gwerthusiad i'r casgliad mai amrywiol fu cynnydd noddwyr prosiect o ran integreiddio'r themâu â'r broses o gyflawni prosiectau. Roedd rhai noddwyr yn dal i edrych ar y themâu fel ymarfer cydymffurfiaeth ac, oherwydd diffyg gwybodaeth ac adnoddau, ni allai noddwyr roi digon o gyngor i gontractwyr a buddiolwyr prosiectau. Roedd rhai noddwyr wedi gohirio gwaith penodol ar y themâu trawsbynciol nes bod eu prosiectau wedi'u sefydlu, a all gyfrif am ychydig o'r perfformiad diffygiol yn erbyn y dangosyddion cyffredinol. Canfu gwerthusiadau thematig dilynol²¹ feysydd o arfer da, lle roedd prosiectau wedi mynd ati i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a monitro effeithiolrwydd y camau a gymerwyd, ond meysydd eraill lle nad oedd ymagwedd fwy goddefol wedi sicrhau'r cynnydd disgwylidig.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

2.43 Mae gan raglenni ERDF darged cyffredinol o sicrhau bod 20 y cant o fusnesau neu sefydliadau a gynorthwyr yn mabwysiadu cynllun gweithredu er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol. Ar ddiwedd 2013, dim ond 10 y cant o fusnesau neu sefydliadau a gynorthwyr oedd wedi mabwysiadu cynllun, er bod disgwyl i'r sefyllfa gyrraedd 14 y cant erbyn diwedd y rhaglenni. Canfu proses werthuso mis Ionawr 2011 fod diffyg gallu ymhlith noddwyr i roi'r cymorth arbenigol yr oedd ei angen er mwyn cyflawni'r targed gwreiddiol (sef mabwysiadu system rheoli amgylcheddol wedi'i hachredu'n ffurfiol) ac nad oedd canolfannau gwasanaethau busnes Llywodraeth Cymru y cyfeiriwyd cleientiaid atynt yn gallu ymdopi â'r galw. Mae WEFO hefyd o'r farn bod gallu'r sector cymorth busnes amgylcheddol i ddarparu

21 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, *Thematic Evaluations of the 2007-2013 Structural Funds Programmes in Wales: Synthesis Report*, Llywodraeth Cymru, 2013.

gwasanaethau wedi lleihau yn sgil y dirywiad economaidd. Ymatebodd WEFO drwy bennu targed newydd sef mabwysiadu cynlluniau gweithredu nad ydynt o reidrwydd yn gofyn am gyngor proffesiynol, yn lle'r targed gwreiddiol. Serch hynny, nid oes unrhyw fwriad i gynyddu adnoddau er mwyn rhoi cymorth.

2.44 Cymysg fu cynnydd y rhaglenni yn erbyn y dangosyddion penodol ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol. Rhagwelir y bydd wyth o'r 15 o ddangosyddion yn cael eu cyflawni neu y rhagorir arnynt erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu, a hynny o gryn dipyn yn achos rhai. Ar ddiwedd 2013 nododd rhagolygon prosiectau y byddai rhaglenni ERDF yn gwneud y canlynol:

- a Rhagori ar dargedau ar gyfer mentrau rheoli risg amgylcheddol er mwyn datblygu'r amgylchedd naturiol neu hanesyddol, darparu mynediad cyhoeddus i gefn gwlad neu'r arfordir, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a phobl sy'n cael budd o fesurau diogelu rhag llifogydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed ar brosiectau rheoli amgylcheddol, cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref a'r arian uwch na'r disgwyl ar gyfer mesurau diogelu rhag llifogydd.
- b Methu â chyrraedd o bell ffordd dargedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, arbed ynni, lleihau gwastraff a mentrau sy'n monitro allyriadau carbon. Araf fu'r cynnydd o ran y rhan fwyaf o brosiectau ynni a gwastraff.

2.45 Mae rhaglenni ESF yn debygol o fethu â chyflawni'r tri tharged ar lefel blaenoriaeth ar gyfer integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol â chodi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant, er bod gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn ystod 2012 ar ôl ymarfer gan WEFO i roi cymorth ychwanegol i brosiectau. Roedd y rhaglenni hefyd

yn debygol o ragori ar y targed bod 10 y cant o brosiectau yn cynnig hyfforddiant arbenigol ar ddatblygu cynaliadwy.

Cyfle cyfartal

2.46 Daeth gwerthusiadau o raglen 2000-2006 i'r casgliad bod angen gwneud rhagor i gefnogi ac annog cyflogwyr i integreiddio gweithdrefnau cydraddoldeb yn eu gweithrediadau. Mae'r targed bod 50 y cant o fusnesau, sefydliadau a chyflogwyr yn cael cymorth i fabwysiadu neu wella strategaeth cyfle cyfartal yn un o nodau allweddol rhaglenni 2007-2013. Mae perfformiad yn erbyn y targed wedi bod yn siomedig: rhagwelir y bydd cyflawniad o 21 y cant erbyn diwedd y rhaglenni, gyda chyflwyniad gwirioneddol o 12 y cant erbyn diwedd 2013.

2.47 Mae cynnydd ar brosiectau ERDF wedi cael ei lesteirio yn sgil ailflaenoriaethu arian a'i dynnu oddi wrth wasanaethau cymorth penodol o ganlyniad i Raglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru. O ran prosiectau ESF, mae WEFO yn priodoli'r tangyflawniad i gyfuniad o dangofnodi gan noddwyr prosiect ac effaith oedi wrth gyflawni a throsiant staff o fewn timau datblygu prosiect noddwyr. Mewn rhai achosion, nid oedd staff prosiect yn ymwybodol o'r ymrwymiad i gyflawni'r dangosydd o ran cydraddoldeb. Mae WEFO wedi bod yn cyfarfod â noddwyr ac yn rhoi astudiaethau achos o arfer da iddynt er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r themâu trawsbynciol a dangos sut y gellir eu hintegreiddio â'r broses o gyflawni prosiect. Mae WEFO yn disgwyl i gyfraddau cyflawni wella wrth i noddwyr prosiect fynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae'n disgwyl y bydd gwerthusiadau o brosiectau yn datgelu tystiolaeth arall o fuddiannau sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd gwelliant mawr heb adnoddau ychwanegol i gefnogi cwmnïau a chyflogwyr.

- 2.48 Mae WEFO yn paratoi data helaeth ar gyfran y cyfranogwyr ESF mewn 'grwpiau ymyrryd allweddol', sy'n cynnwys rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Nodir targedau allbynnau ar gyfer canran y cyfranogwyr o bob grŵp, ond nid ar gyfer canlyniadau (er enghraifft, cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau neu sy'n dechrau gweithio). Mae'r patrymau canlynol yn amlwg o'r data ar 31 Rhagfyr 2013:
- a *Rhyw*: roedd tua 45 y cant o gyfranogwyr rhaglenni ESF yn fenywod, o gymharu â tharged cyfartalog o 55 y cant yn y ddwy raglen ESF. Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn ennill cymwysterau (43 y cant yn fenywod) ond roedd menywod ond yn cyfrif am 36 y cant o gyfranogwyr a oedd yn dechrau gweithio a 37 y cant o'r rhai a oedd yn ymgymryd â dysgu pellach. Dim ond tua dau y cant o fenywod a gymerodd ran mewn cynlluniau hyfforddiant mewnol a ariannwyd gan Raglen Gydgyfeirio ESF oedd yn weithwyr rhan amser, o gymharu â tharged o 29 y cant.
 - b *Cyfranogwyr hŷn (50 oed a throsodd)*: cafodd y rhain eu tangynrychioli yn y ddwy raglen ESF. Dim ond wyth y cant o gyfranogwyr a ddaeth o'r grŵp oedran hwn yn erbyn targed o 36 y cant, ond rhagwelwyd y byddai hyn yn cynyddu i 21 y cant erbyn diwedd y rhaglenni. Roedd gweithwyr hŷn yn cyfrif am gyfran isel debyg o gyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau, sy'n dechrau gweithio neu sy'n ymgymryd â dysgu pellach.
 - c *Statws pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig*: roedd cyfraddau cyfranogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn eithaf isel ar y cyfan, sef tua phedwar y cant ar gyfer y ddwy raglen ESF, ond mae hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth gymharol fach o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn yr ardal Gydgyfeirio. Roedd cyfradd gyfranogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig dipyn yn uwch ar gyfer y mesurau anweithgarwch economaidd yn y Rhaglen Gystadleurwydd – 18 y cant yn erbyn targed o 12 y cant.
- ch *Pobl â salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio*: roedd y rhain yn cyfrif am tua 27 y cant o'r cyfranogwyr mewn prosiectau a oedd wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, o gymharu â tharged cyfartalog o 54 y cant a rhagolwg o 39 y cant erbyn diwedd y rhaglenni. Roedd y bobl hŷn yn llai tebygol o ennill cymwysterau na chyfranogwyr eraill ond roeddent yn fwy tebygol o ddechrau gweithio na grwpiau eraill. Roedd cynrychiolaeth y grŵp yn arbennig o wan o ran cynlluniau hyfforddiant cyflogwyr, sef tua thri y cant yn erbyn targed o 13 y cant.
- 2.49 Ar y cyfan, mae'r ffigurau yn dangos na fydd rhaglenni ESF yn cael yr effaith ddisgwyliedig ar y 'grwpiau ymyrryd allweddol' o'u cymharu â grwpiau eraill. I ryw raddau mae hyn yn adlewyrchu effaith y dirywiad economaidd, sydd wedi cynyddu nifer y cyfranogwyr di-waith o'u cymharu â'r rhai sydd wedi'u dosbarthu'n economaidd anweithgar. Mae cyfran uwch o'r bobl ddi-waith yn ifanc a/neu'n ddynion. Fodd bynnag, nododd y gwerthusiadau thematig²² fod cynllun prosiectau yn broblem hefyd. O ran prosiectau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu cyflogaeth, roedd bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau penodol i weithwyr hŷn, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau oherwydd trafndiaeth i gael gwaith (mae'r ddau grŵp olaf hyn yn fwy tebygol o fod yn fenywod). O ran prosiectau sydd wedi'u hanelu at wella sgiliau, canfu'r gwerthusiad fod prosiectau wedi bod yn 'eithaf goddefol' yn y

22 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, *Thematic Evaluations of the 2007-2013 Structural Funds Programmes in Wales: Synthesis Report*, Llywodraeth Cymru, 2013.

ffordd yr oeddent wedi mynd ati i ymgysylltu â grwpiau targed, gan adlewyrchu'r gyfran isel iawn o gyfranogwyr anabl a hŷn hyd yma, sy'n grwpiau nad oes unrhyw brosiectau penodol wedi cael eu comisiynu ar eu cyfer.

- 2.50 Gan fod rhaglenni ESF yn debygol o ragori ar eu targedau cyfranogi, a hynny o gryn dipyn, mae cyfanswm y menywod a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n cymryd rhan yn dal i fod yn debygol o fod yn uwch na'r disgwyl gwreiddiol. Ond mae nifer y cyfranogwyr hŷn a'r rhai sydd â salwch neu anabledd sy'n ymwneud â gwaith yn dal i fod yn debygol o fethu â chyrraedd lefelau disgwylidig o dipyn (y naill o tua 54 y cant a'r llall 23 y cant, yn seiliedig ar y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2013).

Camau unioni y mae WEFO yn bwriadu eu cymryd

- 2.51 Mae swyddogion WEFO yn cydnabod bod cynnydd yn erbyn targedau cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol wedi bod yn anghyson ac wedi dweud wrthym eu bod yn cymryd y camau unioni canlynol neu'n bwriadu eu cymryd:
- a cyfarfod â noddwyr er mwyn trafod cynlluniau adfer lle mae perfformiad wedi bod yn anghyson;
 - b rhannu enghreifftiau o arfer da ac annog prosiectau sy'n cael anhawster i ddysgu gan eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch tebyg;
 - c cynnal trafodaethau â sawl sefydliad ynglŷn â datblygu prosiect penodol i helpu i gyflawni'r dangosyddion penodol;
 - ch o ran rhaglenni 2014-2020, integreiddio targedau cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn agosach â gweithgarwch

prosiectau o ddydd i ddydd, fel nad ydynt yn cael eu hystyried yn feysydd ychwanegol sy'n gofyn am weithgarwch ar wahân; a

- d threfnu rhaglen dreigl o ddigwyddiadau hyfforddiant er mwyn ategu'r dull gweithredu newydd ar gyfer rhaglenni 2014-2020 (mae'r gyfres gyntaf o ddigwyddiadau eisoes wedi cael eu cynnal gan staff WEFO a'r rhai sy'n cyflawni prosiectau).

Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y rhaglenni'n llawn, ceir rhai arwyddion cadarnhaol a bydd gwerthusiadau parhaus yn rhoi darlun cliriach

Cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynglŷn ag effaith hirdymor rhaglenni 2007-2013, ond mae gwaith gwerthuso yn mynd rhagddo

- 2.52 Mae'n anodd asesu effaith uniongyrchol rhaglenni economaidd-gymdeithasol yn fanwl am fod ffactorau eraill yn yr amgylchedd allanol, megis y dirywiad economaidd diweddar, yn dylanwadu ar hynny²³. At hynny, gall effaith y rhaglenni hyn gynnwys canlyniadau 'meddal' megis mwy o hyder personol neu well cydberthnasau a chydweithio rhwng pobl a sefydliadau.
- 2.53 Asesir perfformiad yn erbyn y dangosyddion effaith yn y rhaglenni gweithredol fel rhan o'r gwaith o werthuso prosiectau. Bwriedir ymgymryd â llawer o'r gwaith gwerthuso hwn tua diwedd y cyfnod rhaglennu ac, ar ddiwedd 2013, eithaf cyfyngedig oedd y dystiolaeth gyhoeddedig o effaith. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth o effaith ar gael gan y ffynonellau canlynol, sy'n cwmpasu rhaglenni ESF yn bennaf:

²³ Un ffordd o wneud hyn yw ceisio cyfrifo'r effaith net ar ôl i ffactorau megis 'di-fuddiant' a 'dadleoli' gael eu hystyried. Difuddiant yw'r buddiannau a gofnodwyd a fyddai wedi digwydd sut bynnag heb gymorth y rhaglen. Dadleoli yw'r graddau y caiff buddiannau eu trosglwyddo o un lle i'r llall yn unig oherwydd ymyrraeth. Gall y cyfrifiad hwn gynnwys cymharu â grwpiau rheoli (neu sampl gynrychioliadol o fuddiolwyr nad ydynt wedi cymryd rhan yn y rhaglen) neu ddefnyddio ffactorau disgowntio safonol i amcangyfrif di-fuddiant, dadleoli ac effeithiau lluosydd. Yr effaith lluosydd yw'r gweithgarwch economaidd ychwanegol a gynhyrchir yn uniongyrchol gan y cymorth, fel arfer drwy wario ar gyflenwyr lleol.

- a *Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd* (arolwg blynyddol mawr o gyfranogwyr sy'n gadael darpariaeth ESF) ac *Arolwg ERDF o Fusnesau* (cwmnïau sy'n cael cymorth ERDF). Mae WEFO yn defnyddio canfyddiadau'r arolygon mawr hyn er mwyn amcangyfrif effaith net rhaglenni ESF ar ganlyniadau cyflogaeth ac effaith net rhaglenni ERDF ar greu swyddi.
- b *Gwerthusiadau thematig interim*. Comisiynodd WEFO gyfres o werthusiadau thematig interim sy'n cwmpasu blaenoriaethau rhaglenni unigol a chyhoeddodd y canfyddiadau hyn ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r gwerthusiadau yn canolbwyntio ar faterion polisi, trefniadau gweithredol, effeithiolrwydd tebygol gwasanaethau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion monitro yn hytrach nag effaith. Fodd bynnag, mae'r ddau werthusiad a gyhoeddwyd erbyn diwedd mis Mai 2013²⁴ yn dod i rai casgliadau ynglŷn ag effaith o dystiolaeth arolygon a chyfweliadau â chyfranogwyr. Caiff y gwerthusiadau thematig interim eu dilyn gan werthusiadau terfynol a fydd yn ystyried effaith y rhaglenni yn fanylach.
- c *Gwerthusiadau interim o brosiectau a gomisiynwyd gan noddwyr prosiect*. Erbyn 31 Mai 2013, roedd WEFO wedi cyhoeddi 10 gwerthusiad o brosiectau ar ei gwefan gyda'r bwriad o gyhoeddi tua 40 arall yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r 10 gwerthusiad a gyhoeddwyd ar y pryd yn cynnwys rhywfaint o asesiad o effaith, yn seiliedig yn bennaf ar ddadansoddi data monitro a chanlyniadau arolygon o gyfranogwyr neu gyfweliadau â chyfranogwyr. Roedd wyth o'r gwerthusiadau yn ymwneud â phrosiectau ESF ac roedd dau yn ymwneud â phrosiectau ERDF, gyda gwerth y prosiectau hyn yn amrywio o £2 filiwn i £78 miliwn.
- 2.54 Yn ychwanegol at eu canfyddiadau ar effaith, daw rhai themâu cyffredinol i'r amlwg yn y rhan fwyaf o'r gwerthusiadau. Er enghraifft, canfu'r gwerthusiadau y canlynol:
- a Roedd amcanion rhaglenni a gweithgareddau disgwylidig wedi'u cwmpasu'n dda ar y cyfan ym mhob maes thematig o'r rhaglenni. Y prif fwch oedd seilwaith strategol, lle roedd ffocws llawer mwy ar gynlluniau ffyrdd yn hytrach na'r cydbwysedd disgwylidig rhwng trafndiaeth gyhoeddus a ffyrdd.
- b Cafwyd lefel uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd ymhlith chyfranogwyr ESF a chyflogwyr, yn enwedig ansawdd y ddarpariaeth. Lle y bo'n berthnasol, roedd cyfranogwyr yn rhoi gwerth penodol ar y cymorth wedi'i deilwra'n unigol a ddarparwyd gan fentoriaid a chwmselwyr.
- c Roedd trefniadau gweinyddu prosiectau yn effeithiol ar y cyfan, er gwaethaf rhai problemau ac oedi ar y dechrau. Roedd gallu rheoli prosiect yn amrywio rhwng prosiectau ac o fewn prosiectau.
- ch Roedd prosiectau wedi addasu'n eithaf da i gydweithredu²⁵ a gwelwyd llawer o enghreifftiau ym mhob un o feysydd y rhaglenni, er ei bod wedi cymryd peth amser i sefydlu trefniadau cydweithio effeithiol lle roedd graddfa'r cydweithio yn ddatblygiad newydd, er enghraifft, mewn prosiectau rhanbarthol a oedd wedi'u hanelu at ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i gael cyflogaeth yn y dyfodol. Nododd sawl gwerthusiad o brosiect bryderon nad oedd partneriaid yn cyfeirio chyfranogwyr at y prosiect cymaint ag y dylent ei wneud neu nodwyd bod angen mwy o rannu arfer da rhwng staff cyflawni prosiect.

24 Roedd y ddau werthusiad hyn yn ymwneud â Blaenoriaeth 1 o Raglen Gydyfeirio ESF (dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i gael cyflogaeth yn y dyfodol) a Blaenoriaeth 2 o'r un rhaglen (cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd).

25 Mae cydweithredu rhwng partneriaid a phrosiectau yn un o nodau allweddol y cylch rhaglennu presennol (paragraff 3.1).

Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rhaglenni ESF fod effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr, ond bod yr effaith ar gyfraddau cyflogaeth yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhyw, lleoliad a hanes cyflogaeth

Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol

2.55 Roedd gwerthusiadau yn y maes hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid (staff prosiect ac eraill a oedd yn ymwneud â darparu neu orchwyllo gwasanaethau) a chyfranogwyr. Cafodd y gwerthusiadau adborth cadarnhaol iawn ar y gwasanaethau a ddarparwyd a nododd cyfranogwyr effeithiau buddiol ar eu hyder, eu sgiliau cymdeithasol, eu cymhelliant a'u huchelgeisiau. Cafwyd teimlad cryf ymhlith rhanddeiliaid fod y gwasanaeth yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol, sef casgliad a gadarnhawyd gan y gwerthusiadau eu hunain. Fodd bynnag, oherwydd bylchau yn y data a'r ffaith nad oedd yr offer mesur sydd ar gael wedi cael eu cymhwyso'n gyson, nid oedd modd mesur y 'canlyniadau meddal' a gyflawnwyd, y cyflawniadau sy'n awgrymu cynnydd – 'pellter a deithiwyd' – ar y llwybr tuag at gyflogaeth.

2.56 Nid oedd yr un gwerthusiad yn gallu mesur maint yr effaith ar ganlyniadau yn y tymor hwy. Fodd bynnag, ceisiodd y gwerthusiad o brosiect Engage gyfrifo effaith y prosiect ar rai dangosyddion o allgáu cymdeithasol ([Arddangosyn 14](#)).

Arddangosyn 14 – Aseu Effaith prosiect Engage

Prosiect cydweithredol rhwng 10 awdurdod lleol a choleg addysg bellach oedd Engage, gyda'r nod o helpu pobl ifanc 14-19 oed yn y de-orllewin i wella eu presenoldeb yn yr ysgol a magu hyder er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gyrfa. Roedd gweithgareddau yn cynnwys cwnsela, mentora, lleoliadau gwaith a gwaith gwirfoddol. Roedd y prosiect yn costio £21 miliwn gan bara am tua thair blynedd hyd at ddiwedd 2012.

Wrth werthuso prosiect Engage cymharwyd tueddiadau yng nghyfran y rhai a oedd wedi gadael yr ysgol ar ôl blwyddyn 11 nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, cyfran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau, absenoldeb o'r ysgol heb ei awdurdodi a chyfraddau gwahardd ysgolion rhwng ardaloedd a gwmpaswyd gan Engage a'r rhai nas cwmpaswyd gan y prosiect. Canfu fod tueddiadau cadarnhaol yn sylweddol uwch mewn ardaloedd Engage o'u cymharu â gweddill Cymru ac awgrymodd y gellid priodoli hyd at hanner y gwelliant i Engage. Cydnabu'r gwerthusiad fod dadansoddiad o'r fath yn ddiffygiol ar sawl cyfrif am ei bod yn anodd addasu ar gyfer effaith ffactorau eraill, ond daeth i'r casgliad bod y dadansoddiad, serch hynny, yn rhoi cipolwg ar faint y cafodd ei gyflawni mewn cyfnod cymharol fyr. Fodd bynnag, nid oedd modd priodoli canlyniadau yn y tymor hwy megis cyflogaeth i'r prosiect, o ystyried mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oedd wedi bod yn weithredol.

Ffynhonnell: Wavehill Ltd ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Prosiect Engage – 'Gwerthusiad Terfynol', mis Ionawr 2013

Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (gwella cyfranogiad)

2.57 Mae'r dystiolaeth fwyaf datblygedig o effaith yn deillio o Arolygon ESF o'r Bobl a Adawodd. Gofynnodd canfyddiadau'r arolwg diweddaraf a gyhoeddwyd²⁶ i 3,544 o gyfranogwyr a adawodd wasanaethau rhaglenni ESF yn 2011 am eu rhesymau dros gyfranogi, y buddiannau a beth oedd wedi digwydd iddynt ers hynny. Roedd yr adroddiad ar yr arolwg yn cynnwys asesiad o effaith net drwy gymharu newidiadau mewn gyrfa ar gyfer yr ymatebwyr i'r arolwg, megis cael swydd, gyda'r rhai ar gyfer sampl cyfatebol o bobl na wnaethant gyfranogi²⁷. Mae canfyddiadau allweddol o'r arolwg o'r rhai a adawodd yn cynnwys:

- a Enillodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr gymwysterau, ac roedd cymwysterau uwch yn gysylltiedig â buddiannau gwell. Enillodd tua 73 y cant o'r ymatebwyr gymhwyster a, lle roedd modd canfod hynny²⁸, dywedodd 13 y cant o ymatebwyr fod y cymhwyster a enillwyd ganddynt ar lefel uwch na'u cymhwyster(au) blaenorol. Roedd y rhai a enillodd gymhwyster ar yr un lefel neu lefel uwch yn fwy tebygol o nodi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol o'u hyfforddiant na chyfranogwyr eraill.
- b Nododd cyfranogwyr gynnydd mawr mewn cyfraddau cyflogaeth yn dilyn cyfranogi: o 14 y cant i 66 y cant. Dim ond 22 y cant o'r ymatebwyr a ddaeth o hyd i waith oedd o'r farn bod ymyrraeth ESF wedi bod yn 'hanfodol' i'w helpu i gael eu swydd²⁹. Fodd bynnag, ar draws grwpiau cleientiaid gwahanol, roedd cyfraddau cyflogaeth yn uwch na'r grwpiau rheoli cymaradwy. Roedd canlyniadau cyflogaeth yn amrywio yn ôl hanes cyflogaeth cyfranogwyr ac amgylchiadau personol eraill:

- Roedd canlyniadau cyflogaeth yn sylweddol well ar gyfer y rhai a oedd wedi'u gwneud yn ddi-waith yn ddiweddar a oedd wedi cael hyfforddiant penodol ar gyfer y rhai a oedd wedi colli'u gwaith - roedd 76 y cant mewn cyflogaeth 12 mis ar ôl cwblhau eu hyfforddiant, 12 pwynt canran yn uwch na'r grŵp rheoli. I'r gwrthwyneb, 43 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y cyfranogwyr di-waith eraill (chwe phwynt canran yn uwch na'r grŵp rheoli) a dim ond 17 y cant ar gyfer y cyfranogwyr economaidd anweithgar (naw pwynt canran yn uwch na'r grŵp rheoli).
- Roedd cyfraddau cyflogaeth yn sylweddol waeth ymhlith y rhai â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, y rhai o dan 25 oed neu dros 55 oed, a'r rhai a oedd wedi bod allan o waith am dros flwyddyn.
- Roedd amodau cyflogaeth lleol yn cael effaith, gyda chanlyniadau gwaeth ar gyfer y cyfranogwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf (h.y. y rhan fwyaf o Gyfoedd De Cymru).
- Roedd tua 85 y cant o'r cyfranogwyr a oedd wedi dod o hyd i waith â thâl yn fodlon ar eu swyddi. Fodd bynnag, roedd lefelau enillion a sgiliau yn dueddol o ostwng yn islaw cyfartaledd Cymru, yn enwedig ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio. Roedd y cyfranogwyr a oedd wedi cael hyfforddiant diswyddo naw i 13 pwynt canran yn llai tebygol o gael gwaith â thal isel na grŵp rheoli, ond nid oedd unrhyw effaith ystadegol sylweddol ar gyfer grwpiau eraill.

26 Prifysgol Caerdydd, Old Bell 3 Ltd ac IFF Research Ltd, *The 2011 European Social Fund Leavers' Survey*, WEFO, Mawrth 2013.

27 Dewiswyd y sampl wedi'i pharu o'r rhai nad ydynt yn gyfranogwyr (y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn ESF) i adlewyrchu mor agos â phosibl nodweddion yr ymatebwyr i'r Arolwg o'r Rhai a Adawodd, a thrwy hynny ei gwneud yn bosibl i gymariaethau dibynadwy gael eu gwneud rhwng y ddau grŵp. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn holi tua 16,000 o aelwydydd yng Nghymru bob tri mis am eu hamgylchiadau a'u profiadau o ran nifer o bynciau gan gynnwys tai, cyflogaeth ac addysg.

28 Heb gynnwys y 51 y cant o'r boblogaeth na ellid cadarnhau lefel eu cymwysterau cyn ac ar ôl ymyrraeth.

29 Yn yr un modd, cofnodwyd lefelau uchel o ddi-fuddiant gan gyfranogwyr yn rhaglen ReAct, a roddodd gymorth ariannol ar gyfer ailhyfforddi i bobl a oedd wedi colli eu swyddi yn ddiweddar am fod eu swyddi wedi'u dileu.

2.58 Nododd gwerthusiadau prosiect ar gyfer gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaedd a lleoli graddedigion lefelau uchel o foddhad â'r gwasanaethau cyfarwyddyd a gwasanaethau eraill a ddarparwyd, ac roedd canfyddiad ymhlith cyfranogwyr bod y prosiectau wedi eu helpu i ddod o hyd i waith lle y digwyddodd hynny. Nododd cyflogwyr a ddarparodd leoliadau i raddedigion fuddiannau masnachol mewn perthynas â'r lleoliadau a'u bod yn fwy tebygol o recriwtio graddedigion yn y dyfodol.

Gwella sgiliau ac addasrwydd cyflogeion yn y gweithle (cefnogi datblygiad)

2.59 Canfu Arolwg ESF o'r Rhai a Adawodd yn 2011 fod 73 y cant o'r cyfranogwyr wedi ennill cymhwyster, ond dim ond 17 y cant o'r rhai y gellid olrhain eu cymhwyster oedd wedi ennill cymhwyster lefel uwch na'r lefel uchaf a enillwyd ganddynt yn flaenorol. Roedd gwelliant ymylol yng nghyfran y cyfranogwyr a oedd yn meddu ar gymwysterau lefel 3 a 4 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (Safon Uwch neu gymhwyster lefel uwch). Fodd bynnag, dywedodd cyfran uchel o'r ymatebwyr eu bod yn meddu ar sgiliau cyffredinol (e.e. cyfathrebu, trefnu, meithrin tîm, arwain) a'u bod wedi profi buddiannau meddalach megis hyder neu gymhelliant.

2.60 O ran y rhai a oedd eisoes mewn cyflogaeth, dywedodd 65 y cant o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn cael mwy o gyfleoedd hyfforddi, roedd 64 y cant yn fwy bodlon ar eu gwaith a dywedodd 56 y cant bod ganddynt ragolygon gwell o ran cyflog a dyrchafiad yn y dyfodol, gyda 27 y cant yn dweud eu bod wedi cael dyrchafiad. Roedd y buddiannau hyn yn arbennig o amlwg lle roedd cyfranogwyr wedi newid swyddi, a dywedodd 20 y cant o'r cyfranogwyr hyn bod ymyrraeth ESF wedi

bod yn hanfodol i'w helpu i gael eu swydd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dim ond saith y cant o'r cyfranogwyr a ddywedodd bod unrhyw welliannau yn eu cyflogaeth wedi bod yn uniongyrchol cysylltiedig ag ymyrraeth ESF.

2.61 Roedd enillion cyfartalog yr ymatebwyr (£391 yr wythnos) yn uwch nag ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn flaenorol ac roeddent yn dueddol o weithio oriau hirach a bod mewn swyddi mwy diogel.

2.62 Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am effeithiau darpariaeth hyfforddiant ESF ar gyflogwyr a'r economi ehangach. Mae'r dangosyddion monitro a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn canolbwyntio'n bennaf ar y buddiannau i unigolion. Eithriad diddorol yw'r gwerthusiad o brosiect ProAct (**Arddangosyn 15**).

Arddangosyn 15 – Effaith prosiect ProAct ar gyflogwyr

Prosiect gwerth £66.8 miliwn oedd ProAct a noddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig â gwaith i gyflogeion a oedd yn wynebu risg o golli eu swyddi neu newid i waith amser byr yn ystod y dirwasgiad. Rhoddwyd y prosiect ar waith rhwng mis Ionawr 2009 a mis Mehefin 2010 er mwyn mynd i'r afael ag effaith ddifrifol y dirwasgiad ar nifer fawr o gyflogwyr yng Nghymru.

Nododd y gwerthusiad o brosiect ProAct fod y buddiannau economaidd mewn gwerth ychwanegol gros (cyflogau ac elw gweithredu) yn cyfateb i £95.8 miliwn ar gost o £21 million, gan ddiogelu 1,833 o swyddi ar gost fesul swydd o £12,015. Nododd y gwerthusiad fod hyn yn ganlyniad canmoladwy o ystyried yr amgylchiadau eithriadol o anodd yr oedd y prosiect yn ymdrin â hwy. Bu ProAct yn fodd i gwmnïau wella sgiliau eu gweithlu yn barod ar gyfer y gwelliant yn yr economi ac er mwyn osgoi colli cyflogeion medrus a phrofiadol. Nododd cyflogwyr gynnydd mewn cynhyrchiant mewn dwy ran o dair o achosion, gan ddangos buddiannau a oedd yn mynd y tu hwnt i ddiogelu swyddi'n uniongyrchol.

Ffynhonnell: Cambridge Policy Consultants for the Welsh Government, 'Impact Evaluation of ProAct', Hydref 2011

Awgryma canlyniadau Arolwg 2011 ERDF o Fusnesau fod rhaglenni ERDF wedi creu neu wedi diogelu nifer sylweddol o swyddi, ond dim ond lleiafrif o ymatebwyr sy'n priodoli unrhyw ganlyniadau diriaethol i'w busnes i ERDF

- 2.63 Nododd Arolwg 2011 ERDF o Fusnesau ganlyniadau o 778 o fusnesau a oedd wedi cael cymorth drwy flaenoriaethau ymchwil a datblygu a chymorth busnes dwy raglen ERDF (cyfradd ymateb o 40 y cant). Nid oedd yr arolwg yn cwmpasu cyllid busnes, adfywio, seilwaith na phrosiectau cyfalaf eraill, ni allai gymharu'r canlyniadau â sampl o fusnesau cymaradwy nad oeddent wedi cael cymorth ac nid oedd yn addasu ar gyfer achosion posibl o gyfrif dwbl. Felly, er bod angen trin y canlyniadau â gofal, canfu'r arolwg y canlynol:
- a Roedd tua hanner y cwmnïau a oedd wedi cael cymorth i feithrin partneriaethau ymchwil a datblygu cydweithredol wedi mynd ymlaen i atgyfnerthu'r rhain, gyda'r rhan fwyaf yn nodi bod y partneriaethau hyn yn rhan bwysig o'u strategaeth fusnes.
 - b Roedd yr ymatebwyr yn "syndod o debygol" o gofio'r hinsawdd economaidd, i nodi newidiadau cadarnhaol yn eu busnes. Dywedodd tua dwy ran o dair ohonynt eu bod wedi cyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd neu wedi'u haddasu a nododd nifer o rai eraill fuddiannau ariannol (**Arddangosyn 16**). Fodd bynnag, roedd y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn priodoli'r newidiadau hyn i ERDF yn fwy cyfyngedig, yn enwedig pan ofynnwyd iddynt a fyddai newidiadau o'r fath wedi digwydd heb ERDF.
 - c Roedd y rhan fwyaf o fusnesau yn canolbwyntio ar farchnadoedd yng Nghymru ac yn recriwtio o fewn Cymru, sy'n dangos y gallai'r cwmnïau a gynorthwywyd ddadleoli twf o fusnesau nas cynorthwywyd o fewn ardal y rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd y canfyddiad hwn mor wir yn achos busnesau a oedd yn creu swyddi, ac roedd y 38 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ERDF wedi eu helpu i ennill busnes newydd yn priodoli hyn yn gyffredinol i'r ffaith eu bod wedi mynd â chyfran o'r farchnad oddi wrth gystadleuwyr lleol. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad fod effaith dadleoli yn gymharol fach.
 - ch Dim ond 17 y cant o'r ymatebwyr a briodolodd unrhyw swyddi a grëwyd i gymorth ERDF. Gan ystyried di-fuddiant, dadleoli a ffactorau lluosogi, amcangyfrifodd yr arolwg y gellid priodoli 275 (75 y cant) a 335 (92 y cant) o'r 363 o swyddi newydd a nodwyd gan yr ymatebwyr hyn i raglenni ERDF. Mae cyfran amcangyfrifedig y swyddi newydd y gellir eu priodoli i'r rhaglenni yn cymharu'n ffafriol â'r gymhareb 29 i 45 y cant a amcangyfrifwyd ar gyfer rhaglenni 2000-2006³⁰. Byddai cymhwyso cymarebau'r Arolwg o Fusnesau at nifer y swyddi a grëwyd ar ddiwedd 2013 yn dangos y byddai rhaglenni ERDF 2007-2013 yn creu rhwng 32,300 a 39,600 o swyddi newydd. Fodd bynnag, mae angen trin yr amcangyfrif hwn yn ofalus oherwydd cyfyngiadau'r sampl fel y'u nodir uchod.

30 Old Bell 3 – *Mid-term Evaluation Update for the Objective 1 Programme*, adroddiad terfynol, Rhagfyr 2005. Cyfrifwyd effaith net drwy ddisgowntio rhagolwg data canlyniadau gros gan WEF0 ar ddiwedd y rhaglen, gan ddefnyddio tystiolaeth o arolygon a meincnodau economaidd. Diweddarwyd y cyfrifiadau gan WEF0 drwy roi'r canlyniadau terfynol a gyflawnwyd mewn gwirionedd yn lle data'r rhagolwg.

d Mae effaith ERDF o ran diogelu swyddi yr un mor sylweddol os nad yn fwy sylweddol â'r effaith ar greu swyddi, gyda 1.25 o swyddi wedi'u diogelu am bob swydd a grewyd. Cyfrifodd yr Arolwg o Fusnesau fod rhwng 350 a 428 o swyddi net wedi'u diogelu. Nid yw WEFO yn casglu gwybodaeth fonitro am swyddi a ddiogelwyd, ond maent yn amlwg yn un o ganlyniadau cyflogaeth bwysig y rhaglenni. Nid ystyriwyd bod diogelu swyddi yn amcan ar ddechrau'r cylch o raglenni pan oedd yr amgylchiadau economaidd yn fwy llewyrchus, felly nid yw WEFO wedi casglu data yn uniongyrchol ar swyddi a ddiogelwyd

dros gyfnod cyfan y rhaglenni. Bellach maent yn gofyn i noddwyr prosiect gasglu'r data hyn yn anffurfiol, ac mae'r Comisiwn wedi nodi y bydd ganddo ddiddordeb yn y wybodaeth hon pan asesir effaith gyffredinol y rhaglenni ar ôl i gyfnod y rhaglenni ddod i ben.

dd Nid oedd yn bosibl dod i gasgliad pendant ynghylch lefelau cyflog a sgiliau swyddi a grewyd o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond awgrymodd y dystiolaeth fod y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer yr holl swyddi ym musnesau'r ymatebwyr yn debyg i'r rhai sydd eu hangen ledled Cymru gyfan.

Arddangosyn 16 – Ymatebwyr Arolwg ERDF o Fusnesau – trosiant, proffidioldeb, cynhyrchiant ac allforion ers cael cymorth ERDF

	Trosiant	Proffidioldeb	Cynhyrchiant	Allforion
Newid a nodwyd:				
Cynnydd	42%	34%	42%	34%
Dim newid	49%	60%	54%	62%
Gostyngiad	9%	6%	4%	4%
Effaith ganfyddedig cymorth ERDF:				
% yr ymatebwyr a ddywedodd fod ERDF wedi cael effaith gadarnhaol	41%	37%	40%	24%
% yr ymatebwyr a ddywedodd y byddai'r canlyniad wedi bod yn waeth heb ERDF ¹	32%	29%	29%	18%

Noder:

¹ % yr ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn "debygol iawn" neu'n "debygol" y byddai'r canlyniad wedi bod yn waeth.

Ffynhonnell: Arolwg ERDF o Fusnesau, Old Bell Ltd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd ac IFF Research Ltd, cyhoeddwyd gan WEFO yn 2012.

Awgryma tystiolaeth ar gyfer rhaglenni 2000-2006 fod effaith gadarnhaol ar swyddi a sgiliau, ond erys y bwch ffyniant rhwng Cymru a chyfartaledd yr UE yn sylweddol o hyd

- 2.64 Prif nod y Rhaglenni Cydgyfeirio yw helpu i gau'r bwch ffyniant rhwng cyfartaledd yr UE a'r rhanbarthau hynny sydd ar ei hôl hi. Fel arfer, defnyddir CMC fel prif ddangosydd ffyniant ardal ac fe'i defnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd i bennu pa ardaloedd sy'n cael arian rhaglenni, er mai diben y rhaglenni yw mynd i'r afael ag ystod eang o amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol nad ydynt o reidrwydd yn arwain at CMC uwch.
- 2.65 Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y rhaglenni cyfredol ar CMC y pen – mae'r effeithiau'n debygol o ddigwydd dros yr hirdymor a bydd yn anodd eu dadgyfuno o rymoedd economaidd ehangach, o ystyried bod yr arian sydd ar gael yn cyfateb i gyfran fach o economi'r ardal. Mae data ar CMC rhanbarthol hefyd yn araf yn dod i'r fei ac ar gyfer 2010 mae'r data diweddaraf, pan nad oedd y rhaglenni cyfredol ond newydd ddechrau darparu gwasanaethau.
- 2.66 Roedd y rhaglenni blaenorol yn gymharol debyg o ran maint ac yn ariannu gweithgareddau tebyg i'r rhaglenni cyfredol, er eu bod yn gwneud hynny mewn hinsawdd economaidd fwy ffafriol. Dangosodd dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2011³¹ fod CMC wedi gostwng ychydig yn erbyn cyfartaledd 15 gwlad yr UE³² a gwelwyd y duedd negyddol hon yn cyflymu yn ystod y dirwasgiad dilynol wrth i economi gyfan y DU ddirwyo'n gynt na gweddill yr UE. O ganlyniad, gostyngodd CMC yr ardal Gydgyfeirio o 75 y cant o gyfartaledd y DU yn 2000 i 70 y cant erbyn 2010, ar ôl cyrraedd ei lefel uchaf, sef 78 y cant yn 2005. Cred Llywodraeth Cymru fod rhywfaint o'r gostyngiad yn deillio o effaith allgymudo – mae mwy o bobl yn gweithio y tu allan i ardal y rhaglenni yng Nghaerdydd a Chasnewydd, fel bod eu cynhyrchiant yn cael ei gyfrif yn Nwyrain Cymru yn hytrach na'r Gorllewin a'r Cymoedd.
- 2.67 Dangosodd dangosyddion allweddol eraill ganlyniadau mwy ffafriol ar gyfer y degawd hyd at 2010. Bu cynnydd sylweddol mewn prif incwm o gymharu â chyfartaleddau'r DU a'r UE; mae prif incwm yn mesur yr incwm a enillwyd o weithgarwch economaidd gan drigolion ardal yn hytrach na'r hyn a gynhyrchwyd yn yr ardal, ac mae'n gwrthbwysu effaith allgymudo. Mae cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd hefyd wedi cynyddu o gymharu â chyfartaledd y DU, felly hefyd gyfraddau cymwysterau, er eu bod yn parhau islaw cyfartaledd y DU. Mae'n anodd pennu'n sicr gyfraniad y Cronfeydd Strwythurol at y newidiadau hyn. Fodd bynnag, amcangyfrifodd dadansoddiad gan WEFO yn 2011³³, a ddefnyddiodd ganfyddiadau o werthusiad tymor canolig o'r rhaglenni blaenorol yn 2005³⁴ a'r canlyniadau a nodwyd gan brosiectau ar ddiwedd y cyfnod rhaglennu fod y rhaglenni wedi gwneud y canlynol:
- creu rhwng 26,000 a 45,500 o swyddi net (rhwng 29 a 45 y cant o'r ffigurau gros a nodwyd gan brosiectau);
 - creu rhwng 1,700 a 2,500 o BBaChau newydd net (rhwng 10 a 15 y cant o'r ffigurau gros a nodwyd gan brosiectau); ac
 - arwain at 48,700 - 89,300 o gyfranogwyr net rhaglenni ESF yn dechrau gweithio neu'n ymgymryd â dysgu pellach (rhwng 44 a 80 y cant o'r ffigurau gros a nodwyd gan y prosiectau).

31 Llywodraeth Cymru, *2000-2006 Structural Funds Synthesis Report*, Mawrth 2012 a Chyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru (2011): 'Sub-Regional GDP Estimates, paper for the Programme Monitoring Committee,' WEFO, Mawrth 2011.


32 Mae WEFO o'r farn mai UE-15 (aelodau o'r UE yn 1999 pan oedd Cymru yn gymwys i gael arian Amcan 1) yw'r cymharydd mwyaf priodol i Gymru. Mae economïau'r 14 aelod-wladwriaeth a ymunodd o 2004 yn tueddu i dyfu'n gynt o sylfaen is, a byddai eu cynnwys mewn cymariaethau yn rhoi argraff lai cywir o berfformiad economaidd yng Nghymru.

33 Llywodraeth Cymru, *2000-2006 Structural Funds Synthesis Report*, Mawrth 2012.

34 Old Bell 3 Ltd, *Mid-Term Evaluation Update for the Objective 1 Programme*, WEFO, 2005.

Rhan 3

Mae'r trefniadau rheoli yn effeithiol ac maent wedi gwella ers y cylch rhaglennu blaenorol, er gwaethaf ychydig o darfu yn ystod camau cynnar gweithredu Rhaglenni



- 3.1 Mae'r rhan o'r adroddiad yn ystyried rheolaeth WEFO o raglenni 2007-2013 gan gyfeirio'n benodol at:
- a addasrwydd y rhaglenni i newidiadau mewn polisi ac amodau allanol;
 - b mwy o bwyslais ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar gaffael;
 - c gweithdrefnau arfarnu prosiectau;
 - ch prosesau rheoli ariannol; a
 - d dulliau cyflawni, monitro a gwerthuso prosiectau.
- 3.2 Mae ein dadansoddiad, yn rhannol, yn defnyddio canfyddiadau o'n harolwg o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect WEFO yn 2011³⁵ (Atodiad 1). Mae hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau o arolwg cwsmeriaid a gomisiynwyd gan WEFO yn 2009 ac ymarfer 'gwerthuso prosesau' a gwblhawyd yn 2011. Nid yw gweithdrefnau WEFO wedi newid rhyw lawer ers i'r dystiolaeth hon gael ei chasglu a chymeradwywyd y rhan fwyaf o'r prosiectau sydd ar waith neu a gwblhawyd hyd yma cyn 2011. Serch hynny, mae'n bosibl bod safbwyntiau wedi newid ers i'r arolygon hyn gael eu cynnal.

Cymysg fu'r farn ynglŷn â gweinyddu'r rhaglenni yn gyffredinol, er bod rhanddeiliaid yn gyffredinol yn cefnogi'r camau gweithredu a gymerwyd gan WEFO i symleiddio strwythur rhaglenni a lleihau nifer y prosiectau


- 3.3 Roedd ein harolwg o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect WEFO yn cynnwys rhai cwestiynau cyffredinol am gynllun a phroses weinyddu gyffredinol rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Awgrymodd yr adborth cyffredinol a gawsom y canlynol:
- a roedd y system gyfan yn gweithio'n well ar ôl dechrau anodd (Arddangosyn 17), ond cymysg oedd y farn ynglŷn â'i heffeithlonrwydd cyffredinol gyda swyddogion datblygu prosiect yn dueddol o ystyried y system yn effeithlon, tra bod barn noddwyr y prosiectau wedi'i rhannu'n lled-gyfartal;
 - b ystyriwyd hefyd fod proses gwneud penderfyniadau WEFO yn araf, ond roedd noddwyr yn priodoli hyn yn bennaf i fiwrocratiaeth tra bod swyddogion datblygu prosiect yn dueddol o'i briodoli i gymhlethdod y materion dan sylw; ac
 - c roedd noddwyr prosiect yn dueddol o gredu bod WEFO yn gymharol anhyblyg o ran ei gweithdrefnau rheoli a'i hymagwedd at reolau a rheoliadau, a'i bod yn amharod i fentro – tra bod swyddogion datblygu prosiect yn fwy tebygol o gredu bod WEFO yn meddu ar ddull gweithredu hyblyg y gellir ei addasu gyda'r risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli;

35 Mae swyddogion datblygu prosiectau sy'n bennaf cyfrifol am arfarnu ceisiadau am arian grant ac yn arolygu cynnydd y prosiectau hynny.

Arddangosyn 17 – Barn ymatebwyr arolwg SAC ar y system reoli

Gofynnodd yr arolwg yn 2011 i ymatebwyr ddewis safiad rhwng y tri datganiad isod. Mae'r dotiau'n dangos nifer yr ymatebwyr ac mae'r ardal wedi'i lliwio yn dangos y crynhoad mwyaf o ymatebion. Dengys y canlyniadau'r cydbwysedd barn ymhlith ymatebwyr ac ni fwriedir iddynt gael eu dadansoddi'n feintiol.

Safbwyntiau ar y system gyfan a roddwyd ar waith i reoli'r rhaglenni:



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect

- ch lle roedd pethau'n mynd yn dda, priodolwyd hyn gan noddwyr a swyddogion datblygu prosiect i'r bobl dan sylw yn hytrach na'r broses a ddilynwyd neu'r adnoddau oedd ar gael; a
- d lle y bu problemau, priodolwyd hyn i'r prosesau yn hytrach na'r bobl neu'r adnoddau.

3.4 Gofynnwyd i ymatebwyr ein harolwg ddarparu sylwebaeth naratif am eu profiad o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Yn gyffredinol, nododd 49 y cant o'n 91 o ymatebwyr sylwadau negyddol a nododd 32 y cant sylwadau cadarnhaol (roedd 17 y cant yn niwtral ac roedd dau y cant yn ansicr). Nid oedd unrhyw wahaniaeth pendant rhwng noddwyr prosiect a'r swyddogion datblygu prosiect.

- 3.5 Canfu arolwg boddhad cwsmeriaid 2009 WEFO³⁶ fod 41 y cant o'r noddwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn ar lefel gyffredinol y gwasanaeth gan WEFO. Fodd bynnag, o blith y rhai a fu'n ymwneud â'r cylch rhaglennu blaenorol, dywedodd 75 y cant fod y rhaglenni cyfredol yn fwy biwrocraidaidd yn eu barn hwy.
- 3.6 Mae WEFO wedi ceisio symleiddio prosesau gweinyddu a lleihau costau drwy symleiddio strwythurau rhaglenni penodol. Y prif newidiadau, y cytunwyd arnynt yn fras gan randdeiliaid, yw:
- Dim ond un Pwyllgor Monitro Rhaglenni sy'n bodoli bellach, gan gwmpasu'r holl raglenni, yn hytrach na'r chwe phwyllgor ar wahân a fodolai ar gyfer rhaglenni 2000-2006.
 - Diddymwyd y 'grwpiau cynghori thematig' a oedd yn cynghori swyddogion WEFO yn flaenorol. Mae WEFO bellach yn gwneud penderfyniadau ariannu yng ngoleuni cyngor arbenigol priodol.
 - Mae'r Rhaglenni Gweithredol yn llai rhagnodol o ran y broses o ddyrannu adnoddau na rhaglenni 2000-2006. Rhennir blaenoriaethau rhaglenni yn nifer lai o is-adrannau (y cyfeirir atynt fel 'mesurau' yn rhaglenni 2000-2006 a 'themâu' yn y rhaglenni cyfredol). Y Comisiwn Ewropeaidd oedd yn rheoli unrhyw newidiadau i gyllidebau mesurau yn flaenorol. Ar gyfer 2007-2013, mae gan WEFO yr hyblygrwydd i drosglwyddo cronfeydd rhwng themâu gan mai dyraniadau ariannu dangosol yn unig a nodwyd.
- 3.7 Ariannodd WEFO 2,463 o brosiectau yn y rhaglenni cymaradwy³⁷ o dan y cylch rhaglenni blaenorol. Roedd gweinyddu cynifer o brosiectau cymharol fach yn defnyddio llawer o adnoddau. Roedd adnoddau WEFO yn canolbwyntio ar dasgau craidd penodol yn ymwneud ag arfarnu prosiectau, talu grantiau a materion cydymffurfiaeth yn hytrach na rheoli perfformiad prosiectau unigol yn weithredol. Mae WEFO wedi llwyddo i leihau nifer y prosiectau yn sylweddol yn ystod y cylch rhaglenni cyfredol, gyda chyfran sylweddol uwch o arian rhaglenni yn cael ei wario ar brosiectau gwerth uwch (**Arddangosyn 18**). Roedd 287 o brosiectau ar waith yn 31 Rhagfyr 2013, gyda 107 ohonynt yn cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru. Mae WEFO yn disgwyl i nifer gyffredinol y prosiectau gynyddu ychydig erbyn diwedd y cylch o raglenni, gyda rhai prosiectau llai yn cael eu cymeradwyo er mwyn diwallu anghenion penodol a defnyddio adnoddau sydd ar gael.
- 3.8 Dangosodd canfyddiadau ein harolwg, a'n gwaith maes ehangach, gefnogaeth mewn egwyddor gyffredinol i'r symudiad tuag at lai o brosiectau mwy o faint, ond nododd canfyddiadau'r arolwg rai pryderon ynghylch cymhwyso'r dull gweithredu hwn yn ymarferol a chydweithrediad a gwaith partneriaeth yn gyffredinol. Cododd sylwadau a wnaed gan rai o ymatebwyr yr arolwg amrywiaeth o bryderon ymarferol ynghylch hanes cyflawni prosiectau mwy o faint, anawsterau o ran cynnwys y sector gwirfoddol, a'r angen i WEFO wneud mwy i annog a chefnogi cydweithrediad.

³⁶ Databuild Research and Solutions, *WEFO Customer Insight Survey 2009*, WEFO, Mai 2010.

³⁷ Rhaglenni Amcan 1, Amcan 2 ac Amcan 3 yng nghylch rhaglennu 2000-2006.

Arddangosyn 18 – Newid ym maint cyfartalog prosiectau yn ôl gwerth grant a gymeradwywyd gan yr UE ar gyfer rhaglenni cymaradwy

	2007-2013	2000-2006
Cyfanswm nifer y prosiectau	287	2,463
Gwerth cyfartalog prosiect (grant a gymeradwywyd, £000)	£6,654	£584
Cyfran y rhaglenni a gynhaliwyd gan brosiectau drwy grant a gymeradwywyd gan yr UE o:		
Llai na £100,000	0.04%	2.9%
£100,000 – £999,999	1.3%	31.2%
£1m i £9.999m	41.9%	57.3%
£10m neu drosodd	56.7%	8.6%

Ffynhonnell: WEFO (cronfeydd data prosiectau a gymeradwywyd ar 31 Rhagfyr 2013)

Mae'r rhaglenni wedi bod yn ddigon hyblyg i ymateb yn effeithiol i'r dirywiad economaidd ac i rai newidiadau sylweddol o ran polisi

Ailddyrrannodd WEFO adnoddau er mwyn ymateb i'r dirywiad economaidd gan fanteisio ar bunt wannach i leihau pwysau ar arian cyfatebol

3.9 Cymerodd WEFO nifer o gamau pwysig i sicrhau bod y rhaglenni yn y sefyllfa orau i helpu Cymru i ymateb i heriau'r dirywiad economaidd a ddechreuodd yn 2008. Cefnogwyd y camau hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

- a Datblygodd a gweithredodd Llywodraeth Cymru brosiect ProAct er mwyn helpu cyflogwyr i hyfforddi eu staff yn ystod cyfnod tawel ac ehangodd brosiect ReAct, a

ddarparodd grantiau disgresiwn i unigolion di-waith i'w helpu i ailhyfforddi ar ôl colli swydd. Mae Twf Sgiliau Cymru, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2010 fel olynydd ProAct, yn cynnwys pwyslais cryfach ar dwf cwmni a sgiliau uwch er mwyn helpu i adfer yr economi. Ail-lansiwyd ReAct ym mis Ebrill 2011 er mwyn canolbwyntio'n fwy ar recriwtio staff newydd yn hytrach nag ailhyfforddi gweithwyr a oedd wedi colli eu swydd.

- b Ailddyrrannu adnoddau a newid gweithgareddau cymwys er mwyn diwallu anghenion penodol, gan gynnwys:
 - trosglwyddo £37.7 miliwn o Flaenoriaeth 1 Cydgyfeirio ESF (gwaith atal gyda phobl ifanc) i Flaenoriaeth 2 (cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd) er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra;

- gwneud cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn weithgarwch cymwys er mwyn ateb y galw am gyfarwyddyd gyrfaoedd personol manwl; a
 - darparu rhywfaint o arian i annog mentrau twristiaeth cynaliadwy i achub ar gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o'r farchnad tra'n mynd i'r afael â phroblemau a grewyd gan y dirwasgiad.
- c Negodi â'r Comisiwn Ewropeaidd gyfradd ymyrraeth gynyddol ar gyfer arian yr UE er mwyn lleihau'r pwysau ar arian cyfatebol a oedd yn deillio o'r dirywiad economaidd yn gyffredinol a'r gyfradd gyfnewid ewro/sterling wannach. Roedd y ffaith bod gwerth y bunt yn gwanhau yn golygu bod mwy o arian yr UE, a delir mewn ewros, ar gael i Gymru o bosibl Ond byddai hyn, yn ei dro, wedi golygu bod angen arian cyfatebol ychwanegol heb gynydd yn y gyfradd ymyrraeth ar gyfer arian yr UE.
- c ehangu a chynyddu'r sylfaen sgiliau;
- ch annog arloesedd; a
- d thargedu cymorth busnes Llywodraeth Cymru tuag at chwe sector lle y gall Cymru gael mantais gystadleuol (TGCh, ynni a'r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a proffesiynol).
- 3.11 Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog, cychwynnodd WEFO adolygiad o ddwy raglen ERDF. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o brosiectau a noddwyd ganddo o dan raglenni ERDF er mwyn sicrhau eu bod hefyd yn gyson â'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Cwblhawyd yr adolygiadau erbyn mis Medi 2010 ac yn sgil hynny, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, gwnaed y newidiadau canlynol i Raglen Gydgyfeirio ERDF yn ogystal â newidiadau dilynol i dargedau rhaglenni perthnasol:

Gweithiodd WEFO yn gyflym ac yn effeithiol gyda rhannau eraill o Lywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn polisi a oedd yn deillio o lansip Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn 2010

- 3.10 Ym mis Gorffennaf 2010, lansiodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad Newydd*. Cynlluniwyd y 'Rhaglen Adnewyddu'r Economi' ategol i helpu'r economi i adfer mewn modd cynaliadwy o'r dirwasgiad ac mae'n canolbwyntio ar bum blaenoriaeth:
- a buddsoddi mewn seilwaith o ansawdd uchel a chynaliadwy;
 - b gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i fusnesau;
 - a canolbwyntiwyd cymorth i fusnesau ar y chwe sector â blaenoriaeth a nodwyd yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi;
 - b ailddyranwyd cronfeydd a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer cymorth i fusnesau (£40 miliwn o arian yr UE a £50 miliwn mewn arian cyfatebol) i brosiectau seilwaith trafndiaeth, gan adlewyrchu'r newid mewn pwyslais oddi ar grantiau i fuddsoddi a seilwaith; ac
 - c ailddyranwyd arian a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer cymorth technegol (£10 miliwn o arian yr UE ac £11 miliwn mewn arian cyfatebol) i brosiectau adfywio.

3.12 Gwnaed dau newid i Raglen Gystadleurwydd ERDF hefyd:

- a Daeth gweithgarwch seilwaith TGCh ac ymchwil a datblygu (y cafodd yr olaf ei ariannu drwy'r Rhaglen Gydyfeirio yn unig yn flaenorol) yn gymwys i gael cymorth a, lle y bo angen, datblygwyd dangosyddion perthnasol i adlewyrchu hyn; a
- b lleihawyd dau o dargedau'r rhaglen, sef 'cynorthwyo mentrau' a 'lansio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd' er mwyn adlewyrchu'r broses o leihau prosiectau penodol.

3.13 Ailgynlluniwyd rhai prosiectau a diddymwyd rhai eraill neu eu lleihau. Yn gyffredinol, tynnodd WEFO £50 miliwn yn ôl oddi wrth brosiectau a gymeradwywyd, gyda'r nod o ailddyrrannu'r arian hwn i brosiectau a oedd yn cefnogi nodau Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn well. Roedd nifer y prosiectau mawr o fewn y rhaglenni cyfredol, y caiff llawer ohonynt eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, yn golygu ei bod yn haws ailgynllunio prosiectau a/neu dynnu arian yn ôl oddi wrth brosiectau yn haws nag y gallai fod wedi bod o dan y rhaglenni blaenorol.

Mae WEFO wedi addasu rhaglenni ESF er mwyn osgoi dyblygu 'Rhoglen Waith' Llywodraeth y DU

3.14 Cyflwynodd Llywodraeth y DU y 'Rhoglen Waith' ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r Rhoglen Waith yn disodli holl gynlluniau o fudd-dal i waith Llywodraeth y DU sy'n bodoli eisoes i raddau helaeth ac fe'i hariennir yn rhannol gan ESF³⁸. Mae'r Rhoglen Waith yn darparu cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl ddi-waith yn yr hirdymor neu economaidd anweithgar i gael gwaith. Mae'n cwmpasu'r rhai sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth unwaith y byddant

wedi bod yn cael budd-daliadau am gyfnod penodol o amser, yn amrywio o dri i 12 mis yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

3.15 Mae'r Rhoglen Waith yn targedu'r un bobl â nifer o brosiectau ar draws y ddwy raglen ESF yng Nghymru. Er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion i ddangos gwerth ychwanegol, penderfynodd WEFO y byddai'n ailganolbwyntio'r rhan fwyaf o weithgarwch rhaglenni ESF ar y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Rhoglen Waith, megis rhieni unigol â phlant ifanc, pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed a hawlwr Budd-dal Analluogrwydd, yn ogystal â'r rhai, er eu bod yn gymwys i ymuno â'r Rhoglen Waith, nad ydynt wedi gwneud hynny eto. Roedd WEFO wedi cynnig eithrio'r holl bobl a oedd yn gymwys i ymuno â'r Rhoglen Waith, ond diwygiodd ei chynlluniau i adlewyrchu pryderon na fyddai'r Rhoglen Waith yn gallu cefnogi'r holl gleientiaid cymwys ac efallai na fyddai rhai unigolion yn gymwys i gael cymorth gan unrhyw raglen.

3.16 Sut bynnag, ystyriwyd bod y Rhoglen Waith yn debygol o leihau'r galw am fesurau a gynlluniwyd i gynyddu cyflogaeth. Felly cynigiodd WEFO ailddyrrannu £26 miliwn o arian yr UE i fesurau a gynlluniwyd i atal anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc a datblygu sgiliau'r gweithlu, y bu galw mawr am y ddau ohonynt. Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Rhagfyr 2011, ac maent ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd.

³⁸ Ym mis Ionawr 2012, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar The introduction of the Work Programme. Mae'r Rhoglen Waith ei hun wedi'i hariannu'n rhannol drwy ESF a delir i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'r defnydd cynyddol o gaffael cystadleuol fel model cyflawni wedi bod yn anodd ei weithredu, ond os caiff ei reoli'n dda, dylai gael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hwy

Mae WEF0 wedi rhoi pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol ac mae'n disgwyl i tua un rhan o dair o'r holl wariant rhaglenni gael ei gwario drwy gaffael gan noddwyr prosiect

- 3.17 Ar gyfer rhaglenni 2000-2006, defnyddiwyd caffael cystadleuol³⁹ gan noddwyr prosiect ar gyfer rhai prosiectau cymorth busnes a hyfforddi ond nid hwnnw oedd y model cyflawni mwyaf cyffredin. Ar gyfer rhaglenni 2007-2013, mae WEF0 wedi ei gwneud yn ofynnol i noddwyr gaffael gwasanaethau oni bai bod cydberthynas arbennig rhwng y noddwr neu dderbynydd y grant a'r grŵp targed o fuddiolwyr, a hynny dim ond os oes marchnad wirioneddol ar gyfer y gwasanaethau dan sylw.
- 3.18 Mae llawer o brosiectau yn gweithredu modelau cyflawni cymysg, gyda rhai gwasanaethau'n cael eu caffael ac eraill yn cael eu darparu'n uniongyrchol neu drwy gynlluniau grant. Yn gyffredinol, mae WEF0 yn disgwyl i o leiaf £1.30 biliwn neu 35 y cant o gyfanswm gwariant y rhaglenni gael ei wario ar gcontractau a gaffaelwyd gan noddwyr. Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd noddwyr prosiect wedi dyfarnu cyfanswm o 2,569 o gcontractau gwerth £1.09 biliwn drwy gaffael, yn bennaf i'r sector preifat. Mae nifer y contractau a gaffaelwyd yn debygol o fod yn sylweddol uwch oherwydd tangofnodi gan noddwyr.

3.19 Bwriedir i'r pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol gyflawni'r buddiannau canlynol:

- a Llai o risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, yn enwedig:
- *Rheoliadau caffael cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd*; Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gcontractau a osodir gan awdurdodau cyhoeddus gael eu gosod drwy gystadleuaeth agored yn unol â gweithdrefnau penodol.
 - *Rheolau Cymorth Gwladwriaethol*⁴⁰: Er mwyn osgoi ystumio'r gystadleuaeth rhwng aelod-wladwriaethau, mae Cymorth Gwladwriaethol yn anghyfreithlon oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo'n benodol neu wedi'i gwmpasu gan gategoriâu eithrio penodol. Drwy brofi'r farchnad a thalu pris y farchnad drwy gaffael cystadleuol, mae WEF0 yn lleihau'r risg yr ystyrir bod unrhyw gcontractwr wedi cael Cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon.
 - *Rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n llywodraethu cymhwysedd a chywirdeb gwariant*: Unwaith y caiff gwasanaeth ei gaffael, nid oes angen i wariant y contractwr ei hun fel arfer gael ei archwilio. I'r gwrthwyneb, caiff gwariant prosiect gan dderbynwyr grant ei gwmpasu'n llawn gan y rheolau⁴¹.
- b Gwerth am arian gwell ac amlwg, oherwydd caiff gwasanaethau eu darparu ar ôl profi'r farchnad ar gyfer y cyflenwyr mwyaf priodol.

39 Mae ymarfer caffael cystadleuol yn profi'r farchnad gyflenwyr gwasanaethau a nodwyd yn benodol, caiff tendrau eu gwerthuso drwy ddefnyddio meini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw, ac mae rhyddid gan gcontractwyr i wneud elw. Mae cynlluniau grant cystadleuol yn dyfarnu grantiau i nifer lai o sefydliadau, fel arfer gyda chryn hyblygrwydd o ran ffurf y ddarpariaeth, ac mae rheolau a gweithdrefnau yn aml yn symlach na threfniadau caffael. Caiff dyfarniadau grant eu gwerthuso yn erbyn meini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, ni all y rhai sy'n derbyn grant wneud elw o'r grant.

40 Ystyr Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw gymhorthdal a roddir o adnoddau'r wladwriaeth (arian cyhoeddus) i unrhyw sefydliad er mwyn ymgymryd â gweithgarwch economaidd penodol sy'n cael ei fasnachu rhwng aelod-wladwriaethau'r UE.

41 Mae'n rhaid i'r rhai sy'n derbyn grant gadw cofnodion manwl iawn er mwyn dangos bod pob gwariant yn gymwys ac wedi'i gyfrifo'n gywir sydd yn aml yn cynnwys defnyddio tafenni amser er mwyn dosrannu costau. Mae'r gofynion hyn yn gymhleth, yn feichus ac yn agored i wallau. Caiff cydymffurfiaeth ei harchwilio gan archwilydd allanol prosiect ac o bosibl gan WEF0 a'r Awdurdod Archwilio hefyd.

- c Mynediad ehangach at y cyfleoedd a ddarperir gan arian yr UE i'r sector preifat ac, o bosibl, i'r sector gwirfoddol (er bod y sector gwirfoddol wedi cael budd yn flaenorol o arian grant ac mae'n llai cyfarwydd â chaffael cystadleuol fel ffynhonnell ariannu).

Bu'r pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol yn anodd ei weithredu er bod rhai o'r heriau cynnar wedi'u goresgyn

- 3.20 Pan lanswyd y rhaglenni yn 2007, nid oedd polisi WEFO ar gaffael yn glir i rai noddwyr ac ni chyhoeddwyd canllawiau ffurfiol tan 2008. Hyd yn oed bryd hynny, cafodd WEFO gwynion gan rai noddwyr nad oedd y canllawiau yn glir. Dangosodd arolwg boddhad cwsmeriaid 2009 WEFO lefel is o foddhad ar gyfer cyngor ar gaffael a materion yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol nag ar gyfer agweddau eraill ar ddatblygu'r prosiect, a nodwyd pryderon tebyg yn ein gwaith maes ein hunain ac yng ngwerthusiad WEFO o brosesau yn 2011. Roedd cwynion yn canolbwyntio ar gyngor amwys a rhwystredigaeth na ellid cael gaffael ar arbenigedd Llywodraeth Cymru mewn caffael yn uniongyrchol.
- 3.21 Ni chyflogodd WEFO ei harbenigwyr caffael ei hun ar gyfer y rhaglenni cyfredol a bu'n rhaid iddi geisio cyngor cyfreithiol ar y risgiau o ran caffael a Chymorth Gwladwriaethol fesul achos. Bu'n rhaid i rai noddwyr prosiect ailgynllunio eu cynlluniau busnes er mwyn mabwysiadu dull caffael, gan beri anawsterau lle y gallai noddwyr ar y cyd fod wedi disgwyl darparu gwasanaethau yn uniongyrchol. At hynny, wynebodd llawer o noddwyr prosiect anawsterau ymarferol wrth fabwysiadu gweithdrefnau addas ar gyfer caffael cystadleuol oherwydd diffyg arbenigedd neu yn syml am eu bod wedi tanamcangyfrif y gwaith dan sylw, gan arwain at oedi sylweddol (Arddangosyn 19). Nid oes ar WEFO unrhyw rwymedigaeth o

dan reoliadau neu ganllawiau Ewropeaidd i roi unrhyw gymorth i noddwyr ar gyfer caffael neu unrhyw swyddogaeth reoli arall. Yn wir, mae'n bwysig bod WEFO yn parhau'n annibynnol ar gyflawni prosiectau er mwyn sicrhau nad yw'n cyfaddawdu ei swyddogaeth oruchwylio swyddogol. Serch hynny, gan weithredu ar un o argymhellion Adolygiad Guilford, ar gyfer y cylch rhaglennu nesaf, mae WEFO wedi penderfynu galluogi rhywfaint o gymorth caffael hyd braich i'r noddwyr hynny a allai, ym marn WEFO, yn rhesymol, ganfod y broses o gynnwys gorbenion yn annioddefol. Barn WEFO o hyd, fodd bynnag, yw y dylai noddwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus feddu ar eu gallu caffael eu hunain ac na ddylai fod angen cymorth arbenigol arnynt.

- 3.22 Bu sicrhau arian cyfatebol wrth gaffael yn her benodol ar gyfer rhai prosiectau. Mae'r prosiectau hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gyfrannu arian cyfatebol er mwyn helpu i dalu cost gyffredinol y prosiect. Mae hyn yn cynyddu'r risg o groesgymhorthdal – caiff y grant Ewropeaidd hwnnw a delir i'r contractwr fel rhan o'i elw ei ad-dalu i'r prosiect fel arian cyfatebol - a fyddai wedi mynd yn groes i ganllawiau WEFO. Mae contractwyr sy'n darparu arian cyfatebol felly'n ddarostyngedig i ofynion caffael a chadw cofnodion llaw fel pe baent yn dderbynwyr grant. Mae'r gofynion hyn yn dileu prif fuddiannau caffael i asiantau cyflenwi (elw a gweinyddu syml) ac wedi golygu na all busnesau masnachol i raddau helaeth ymrwymo i gontractau penodol, am nad oes ganddynt yr adnoddau na'r mandad i ddarparu arian cyfatebol.

- 3.23 Mae rhai noddwyr wedi cwyno am ofynion caffael a oedd yn rhy feichus yn ei barn hwy, gan gynnwys canllawiau ar y defnydd o wefan 'prynwchigymru' a gynhelir gan Gwerth Cymru (cangen gaffael Llywodraeth Cymru). Mae canllawiau Gwerth Cymru yn argymhell mai

Arddangosyn 19 – Problemau a wynebir gan noddwyr wrth fodloni gofynion caffael

Dywedodd noddwyr prosiect wrthym am sawl enghraifft o anawsterau ymarferol a wynebwyd ganddynt wrth sefydlu arferion caffael effeithiol yn eu prosiectau:

- Anawsterau wrth recriwtio staff â sgiliau a'r profiad dymunol ac oedi wrth hyfforddi aseswyr tendrau.
- Anawsterau ymhlith cynigwyr - sefydliadau gwirfoddol bach nad oeddent yn gyfarwydd â chaffael fel llwybr ariannu yn bennaf - i addasu i ofynion caffael, gyda llawer ohonynt yn methu ar y cam diwydrwydd dyladwy oherwydd methiannau technegol nad oeddent yn gysylltiedig ag ansawdd sylfaenol eu cynnig, megis diffyg polisi ar ddiogelu data.
- Amharodrwydd sefydliadau gwirfoddol i ymrwymo i gontractau cyfreithiol rhwymol, gan arwain at oedi cyn dechrau darparu gwasanaethau.
- Y defnydd o ddeialog cystadleuol gan noddwyr, proses lle y caiff cynnig terfynol ei ddatblygu drwy nifer o fersiynau nes ei fod yn cyflawni amcanion y prynwr. Fodd bynnag, defnyddir y dechneg hon yn fwy aml ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr a phrofodd yn anymarferol ac yn feichus, gan beri i'r noddwr newid i ddull gweithredu mwy confensiynol.
- Ni chynhaliodd y noddwr ymarferol cyn-gymhwyso (arfer safonol ar gyfer ymarferion caffael mawr er mwyn cyfyngu ar nifer y tendrau) a bu'n rhaid iddo asesu dros 200 o dendrau llawn. Cyflogodd y noddwr ymgynghorwyr caffael yn dilyn hynny er mwyn datblygu proses a oedd yn cynnwys cam cyn-gymhwyso.

Ffynhonnell: Astudiaethau achos Swyddfa Archwilio Cymru

dim ond contractau sy'n werth dros £25,000 y dylid eu hysbysebu ar prynwchigymru. Roedd canllawiau WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i noddwyr prosiect hysbysebu pob contract drwy prynwchigymru, ni waeth beth fo'i werth. Er bod y canllawiau yn caniatáu mathau eraill o hysbysebu lle yr ystyrir nad prynwchigymru yw'r "dull gorau" o wneud hynny, nid yw'n glir beth yn union y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol. Yn ymarferol, ymddengys bod noddwyr prosiect wedi teimlo rheidrwydd i gaffael drwy prynwchigymru ar gyfer hyd yn oed y contractau lleiaf.

- 3.24 Cyhoeddodd WEFO ganllawiau cliriach ar fodolau cyflawni yn 2010. Er na fu unrhyw newid sylfaenol mewn dull gweithredu, mae WEFO wedi addasu ei chanllawiau i alluogi grantiau cystadleuol mewn ystod ehangach o amgylchiadau. O ganlyniad, mae nifer o brosiectau wedi newid o rai caffael i brosiectau nawdd ar y cyd neu grantiau, sydd wedi bod yn llawer mwy syml a haws eu

defnyddio yn eu barn hwy. Un newid amlwg fu penderfyniad WEFO i alluogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i fabwysiadu cynllun grantiau cystadleuol ar gyfer ei brosiectau Porth Ymgysylltu⁴² o fis Mawrth 2011. Noda CGGC fod y newid mewn dull gweithredu wedi cynyddu nifer y ceisiadau yn sylweddol ac wedi lleihau'n sylweddol y cyfnod o amser rhwng dewis cynigwyr llwyddiannus a chadarnhau cytundebau cyfreithiol, gan fod y sefydliad yn dychwelyd i broses fwy cyfarwydd a llai biwrocraidd.


- 3.25 Er gwaethaf yr heriau, nododd ein harolwg o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect fod y mwyafrif o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect yn cefnogi'r newid i gaffael cystadleuol mewn egwyddor, er bod nifer sylweddol yn teimlo nad oedd yn gweithio yn ymarferol (Arddangosyn 20).

⁴² Cynllun a gynhelir gan CGGC yw'r Porth Ymgysylltu, sy'n rhoi grantiau i fudiadau gwirfoddol er mwyn helpu unigolion sydd y tu allan i'r farchnad lafur i ddod yn fwy cyflogadwy ac, os oes modd, gael gwaith â thâl.

Arddangosyn 20 – Barn ymatebwyr yr arolwg ar gaffael cystadleuol

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr ddewis safiad rhwng y tri datganiad isod. Mae'r dotiau'n dangos nifer yr ymatebwyr ac mae'r ardal wedi'i lliwio yn dangos y crynhoad mwyaf o ymatebion. Dengys y canlyniadau'r cydbwysedd barn ymhlith ymatebwyr ac ni fwriedir iddynt gael eu dadansoddi'n feintiol.

Mae caffael cystadleuol ffurfiol fel y ffordd arferol o ddewis asiantau cyflawni ar gyfer prosiectau yn:



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect. Mae pob dot yn cynrychioli un ymatebydd.

Mae WEFO wedi cyflawni lefel uchel o gydymffurfiaeth â'i rheoliadau caffael, ond mae'n llai amlwg i ba raddau y mae'r pwyslais cynyddol ar gaffael cystadleuol wedi sicrhau gwerth am arian gwell a mynediad ehangach i arian yr UE

- 3.26 Hyd yma, mae WEFO wedi cyflawni lefel uchel o gydymffurfiaeth â rheoliadau caffael a Chymorth Gwladwriaethol yr UE ar draws rhaglenni 2007-2013. I'r gwrthwyneb, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod caffael, yn fwy cyffredinol, wedi bod yn un o brif achosion gwallau ar draws gwariant yr UE mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol, gan arwain at gosbau ariannol mawr i rai aelod-wladwriaethau. Roedd materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â rheoliadau caffael hefyd yn un o achosion sylweddol gwallau yn rhaglenni 2000-2006 yng Nghymru.
- 3.27 Canfu gwerthusiad o brosesau WEFO yn 2011 fod y rhan fwyaf o'r noddwyr prosiect a gyfwelwyd o'r farn ei bod yn rhy gynnar i bennu a oedd caffael wedi gwella gwerth am arian⁴³. Fodd bynnag, roedd nifer o'r farn bod profi'r farchnad drwy gaffael wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau, er enghraifft drwy alluogi'r prosiect i recriwtio ystod ehangach o arbenigedd. Nododd rhai noddwyr hefyd fod y pwyslais ar gaffael cystadleuol wedi arwain at ddiwylliant sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.
- 3.28 Roedd noddwyr prosiect wedi dyfarnu bron 2,600 o gontractau a gaffaelwyd gwerth cyfanswm o £1.09 biliwn erbyn diwedd 2013, yr oedd £644 miliwn ohono wedi mynd i'r sector preifat (Arddangosyn 21). Mae gwerth y contractau hyn yn llawer mwy na'r £22 miliwn o arian yr UE a ddyfarnwyd i noddwyr prosiect yn y sector

preifat. Nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol â rhaglenni 2000-2006 am na chasglwyd data ar gontractau, ond ymddengys yn debygol fod ehangu caffael fel model cyflawni wedi galluogi'r sector preifat i ddarparu cyfran uwch o arian y rhaglenni.

- 3.29 Mae'n llai amlwg i ba raddau y mae BBaChau neu fusnesau sy'n haniu o Gymru wedi gallu cael budd o'r rhaglenni drwy gymryd rhan yn y gwaith o'u cyflawni (yn hytrach na chael cymorth fel buddiolwr uniongyrchol). Nododd WEFO wrth Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Medi 2012 fod 78 o gontractau a osodwyd o dan y rhaglenni wedi mynd i gwmnïau â chyfeiriad yng Nghymru, ond gallai nifer y contractau a ddyfarnwyd i gwmnïau â phencadlys yng Nghymru, yn ogystal â'r gyfran o wariant y rhaglenni y gellid ei briodoli i gontractau o'r fath, fod yn sylweddol lai. Nid yw WEFO yn monitro nifer na gwerth contractau nac is-gontractau a ddyfermir i BBaChau a busnesau sy'n haniu o Gymru fel mater o drefn⁴⁴.
- 3.30 Mae gan nifer o'r sefydliadau noddï mwy o faint eu polisïau eu hunain i annog BBaChau i gymryd rhan mewn caffael cyhoeddus ac mae canllawiau WEFO yn gofyn i noddwyr, o leiaf, gwblhau asesiad risg cynaliadwedd⁴⁵. Mae'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r noddwr ystyried cyfleoedd i BBaChau gyflawni'r contract ac i ystyried mesurau ymarferol i helpu BBaChau i wneud cais. Mae'r asesiad risg cynaliadwyedd hefyd yn hyrwyddo mesurau sy'n ymwneud â themâu trawsbynciol y rhaglenni, sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal. Fodd bynnag, nid yw WEFO yn monitro i ba raddau y caiff mesurau o'r fath eu mabwysiadu ar gyfer contractau a ariennir gan yr UE.

43 Yn gyffredinol, canolbwyntiodd sylwadau ynglŷn â chaffael yn ein harolwg ein hunain o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiectau WEFO ar yr anawsterau a wynebwyd wrth gymhwyso trefniadau caffael cystadleuol yn hytrach na'r buddiannau canfyddedig. Mae angen i unrhyw asesiad byrdymor o fuddiannau gwerth am arian sy'n deillio o gaffael cystadleuol ystyried yr anawsterau a wynebwyd wrth weithredu'r dull hwnnw.

44 Ym mis Awst 2012, nododd 'Adolygiad McLelland' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod y sector cyhoeddus yng Nghymru ar y cyfan wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal BBaChau rhag cymryd rhan mewn caffael cyhoeddus. Canfu'r adolygiad fod gwerth contractau a ddyfermir i gwmnïau â swyddfa yng Nghymru wedi cynyddu o tua 30 y cant yn 2005 i 52 y cant yn 2020-11, ond daeth i'r casgliad bod perfformiad yn anghyson ledled Cymru a bod modd gwneud cynnydd pellach. John F McLelland CBE, *Maximising the Impact of Welsh Procurement Policy*, Awst 2012.

45 Er ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn cyflenwyr ar sail cenedligrwydd neu leoliad o dan reoliadau caffael cyhoeddus yr UE, gellir gwneud cryn dipyn o fewn y rheoliadau er mwyn helpu BBaChau lleol i ennill contractau.

Arddangosyn 21 – Contractau caffael a osodwyd gan noddwyr prosiect ar 31 Rhagfyr 2013

	ERDF	ESF	Cyfanswm
Nifer y contractau	1,196	1,373	2,569
yn cynnwys: Y sector cyhoeddus	9%	17%	13%
Y sector preifat	86%	45%	65%
Y trydydd sector	5%	38%	22%
Cyfanswm gwerth y contract (£m)	£565.3 miliwn	£521.5 miliwn	£1,086.8 miliwn
yn cynnwys: Y sector cyhoeddus	13%	37%	25%
Y sector preifat	75%	42%	59%
Y trydydd sector	12%	21%	16%
Gwerth y contract (£000)	£473	£380	£423

Ffynhonnell: WEFO

3.31 Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd noddwyr prosiect wedi arwain contractau gwerth £178 miliwn (tua 16 y cant o gyfanswm gwerth y contractau a ddyfarnwyd ar y pryd, sef £1.09 biliwn) i sefydliadau gwirfoddol. At hynny, ar 31 Rhagfyr 2013 roedd WEFO wedi cymeradwyo prosiectau â chyfanswm cost o £185 miliwn (£102 miliwn o arian yr UE) i sefydliadau yn y trydydd sector⁴⁶. Cyflwynodd y sector gwirfoddol ran sylweddol o raglenni 2000-2006 ac nid yw'n glir a yw ei gyfranogiad cyffredinol yn rhaglenni 2007-2013 wedi lleihau. Mae'r broses o newid i gaffael mwy cystadleuol hefyd wedi bod yn anos i'r sector gwirfoddol a chreodd y newid diwylliannol o bartneriaeth (a bwysleisiwyd yn y rhaglenni blaenorol) i gystadleuaeth rywfaint o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gallai sefydliadau gydweithredu yn ystod y broses gynnig.

3.32 Gwerth cyfartalog contract oedd £388,000 ar gyfer y sector preifat a £308,000 ar gyfer y sector gwirfoddol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2013. Mae maint cymharol fach nifer o gontractau yn debygol o fod wedi golygu bod y mwyafrif o gontractau yn agored i'r rhan fwyaf o BBaChau a sefydliadau gwirfoddol, yn unol â'u gallu i gydymffurfio â gofynion y tendr.

⁴⁶ Bydd y £185m yn cynnwys arian a drosglwyddir i fudiadau gwirfoddol ar ffurf contractau wedi'u caffael.

Mae WEFO wedi sefydlu system gadarn i gefnogi'r broses o ddatblygu a dewis prosiectau ond, ym marn y noddwyr, gall y broses fod yn heriol ac yn feichus

Mae WEFO wedi sefydlu dulliau effeithiol o sicrhau bod prosiectau'n gyson ag amcanion strategol, fel y'u nodwyd yn y dogfennau fframwaith strategol, ond mae lle i ddatblygu dull gweithredu mwy soffistigedig ar gyfer y cylch nesaf o raglenni

- 3.33 Mae'r fframweithiau strategol sy'n cefnogi'r rhaglenni gweithredol yn un o'r ffyrdd y mae WEFO yn ceisio sicrhau bod prosiectau'n mynd i'r afael ag amcanion strategol pob rhaglen. Mae dau ddiben i'r fframweithiau strategol: arwain noddwyr prosiect i ddatblygu prosiectau sy'n cyflawni amcanion strategol y rhaglenni, a helpu WEFO i ddewis a blaenoriaethu prosiectau. Mae gan bob fframwaith gydgyssylltydd fframwaith strategol sy'n un o swyddogion Llywodraeth Cymru y tu allan i WEFO sy'n gyfrifol am ddatblygu, adolygu a hyrwyddo'r fframwaith mewn ymgynghoriad â phartneriaid.
- 3.34 Nododd canfyddiadau ein harolwg fod noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect WEFO o'r farn bod y rhaglenni ar y cyfan yn cydweddu â pholisïau a strategaethau swyddogol eraill, ond roedd rhai o'r farn nad oedd y rhaglenni bob amser yn diwallu anghenion lleol. Fodd bynnag, byddai asesiad manylach o anghenion lleol yn ymestyn y fframweithiau strategol yn sylweddol ac yn golygu bod angen eu diweddarau'n fwy rheolaidd⁴⁷.

- 3.35 Canfu arolwg cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod 94 y cant o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r fframwaith perthnasol i baratoi eu ceisiadau a bod 77 y cant o'r farn ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn pennu'r fframwaith perthnasol ar gyfer eu prosiect. Nododd gwerthusiad o brosesau WEFO yn 2011 fod y fframweithiau strategol wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu swyddogion datblygu prosiect i asesu ceisiadau am brosiectau, yn enwedig yn ystod camau cynnar y rhaglenni. Canfu'r gwerthusiad o brosesau hefyd fod y fframweithiau wedi helpu i arwain noddwyr prosiect tuag at feysydd dymunol o weithgarwch a bod nifer o randdeiliaid o'r farn bod y fframweithiau wedi eu helpu i sefydlu dull mwy cydweithredol, er nad y rheini oedd y prif ddylanwad⁴⁸. Fodd bynnag, daeth y gwerthusiad i'r casgliad nad oedd y fframweithiau ynddynt eu hunain wedi newid cynllun prosiectau yn sylweddol ac nad oeddent wedi chwarae rhan fawr wrth dargedu gweithgareddau at leoliadau penodol.
- 3.36 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl fframweithiau strategol yn 2009 a gwnaed newidiadau pellach i rai fframweithiau ar ddechrau 2011. Er i'r gwerthusiad o brosesau argymhell y dylid eu cynnal, mae nifer o randdeiliaid allweddol o'r farn bod y fframweithiau strategol wedi cyflawni eu diben, ac nad ydynt yn chwarae unrhyw rôl allweddol yng ngwaith WEFO o reoli a monitro rhaglenni'n barhaus. Canfuwyd bod rhai cydgysylltwyr fframwaith yn aneglur ynghylch cwmpas eu cyfrifoldebau ac nad oeddent yn ystyried bod monitro parhaus yn rhan o'u rôl, neu eu bod o'r farn nad oedd ganddynt yr amser i gyflawni dyletswyddau o'r fath. Yn gyffredinol, canfuwyd bod cydgysylltwyr y fframweithiau thematig llai yn ymgysylltu'n well â WEFO na chydgyssylltwyr fframweithiau gofodol.

47 Dim ond y fframweithiau strategol gofodol sy'n nodi unrhyw fanylion am flaenoriaethau neu brosiectau lleol; mae pob fframwaith thematig yn cynnwys adran ar y 'cyd-destun gofodol' sy'n nodi anghenion a blaenoriaethau ar lefel uchel ac nid yw'n ddefnyddiol iawn wrth ddylunio prosiectau.

48 Y prif ddylanwadau yw polisiau cyfredol Llywodraeth Cymru, gwerthusiadau perthnasol eraill, profiad gyda'r rhaglenni blaenorol, negeseuon cynnar gan Weinidogion yn pwysleisio'r angen am gydweithredu ac ymdrechion swyddogion WEFO yn ystod y broses dewis prosiectau.

- 3.37 Soniodd nifer o'r cydgysylltwyr fframwaith a gyfwelwyd gennym am y wybodaeth sydd ar gael gan WEFO i olrhain cynnydd y fframweithiau. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael gwybodaeth am brosiectau a gymeradwywyd ac yn yr arfaeth, ond nid ar eu cynnydd o ran gwariant ac allbynnau. O ganlyniad, nid oeddent bob amser yn ymwybodol o unrhyw broblemau, er enghraifft, oedi, bylchau mewn darpariaeth neu ddyblygu gweithgarwch.
- 3.38 Gan weithredu ar un o argymhellion Adroddiad Guilford, mae WEFO yn datblygu *Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd* er mwyn cefnogi'r gwaith o dargedu rhaglenni 2014-2020 ar feysydd allweddol o gyfle economaidd. Mae'r fframwaith drafft, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013, yn rhestru'r prif feysydd o gyfle, buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes a rhai arfaethedig ym mhob maes, a'r potensial ar gyfer defnyddio Cronfeydd strwythurol i sicrhau bod y buddsoddiadau hyn yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Y nod yw helpu noddwyr i ddatblygu prosiectau a fydd yn gwella'r synergedd rhwng buddsoddiadau sy'n bodoli eisoes yn yr economi yng Nghymru a'r Cronfeydd Strwythurol, a thrwy hynny sicrhau bod y rhaglenni'n cael yr effaith fwyaf bosibl drwy ddull gweithredu mwy penodol. Mae WEFO yn bwriadu diweddarau'r fframwaith yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyd-destun economaidd a strategol, cyfleoedd economaidd sy'n dod i'r amlwg a chynnydd a wnaed wrth weithredu rhaglenni'r UE.

Mae WEFO wedi sefydlu system gadarn ar gyfer dewis prosiectau yn seiliedig ar feini prawf cadarn, sydd wedi gwella ansawdd cynigion prosiect

- 3.39 Mabwysiadodd WEFO dull newydd o flaenoriaethu, datblygu a dewis prosiectau ar gyfer rhaglenni 2007-2013. O gymharu â'r rhaglenni blaenorol, bellach ceir ymgysylltu llawer agosach rhwng noddwr y prosiect a WEFO er mwyn helpu noddwyr i ddatblygu cynigion o ansawdd uchel sy'n bodloni gofynion cyfundrefn asesu fwy heriol.
- 3.40 Mae WEFO yn annog darpar ymgeiswyr i gyhoeddi eu syniadau ar gyfer prosiect ar wefan WEFO ac i gydweithredu â phartïon eraill â diddordeb (y cam cyn datgan diddordeb) ac mae'n ystyried cynigion ar gam cynnar drwy ddatganiad o diddordeb⁴⁹. Mae'r cynigion cryfaf yn symud ymlaen i'r cam datblygu prosiect a chânt eu gwahodd i gyflwyno cynllun busnes manwl, sydd wedyn yn destun arfarnu pellach (*Arddangosyn 21*). Mewn gwirionedd, mae'r datganiad o ddiddordeb a'r cynllun busnes yn datblygu dros sawl fersiwn. Mae cynnwys gofynnol y cynllun busnes (*Atodiad 5*) yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu achos busnes pob cynnig. Canfu archwiliad gan yr Awdurdod Archwilio yn 2010 fod gwendidau gweithdrefnol (gyda rhai dogfennau allweddol yn anghyflawn neu ddiffyg gwybodaeth neu eglurhad digonol mewn rhai ohonynt) a nodwyd mewn archwiliad blaenorol yn 2009 wedi'u hunioni. Caiff y penderfyniad terfynol i gymeradwyo, gwrthod neu gadw prosiect wrth gefn ei wneud gan un o uwch swyddogion WEFO.

⁴⁹ Ar y dechrau, roedd dau gam mynegi diddordeb ond symleiddwyd y system gan WEFO ar ôl cyflogi arbenigwr ar newid busnes yn 2008 a chynnal adolygiad o'r broses. Nododd yr adolygiad hwnnw anghysondebau yn y ffordd yr oedd swyddogion datblygu prosiectau yn gweithredu a gwahaniaethau o ran yr amser a gymerwyd i ymateb i ymholiadau neu wybodaeth newydd.

- 3.41 Sefydlodd WEFO a Llywodraeth Cymru sawl math o gymorth i ategu'r broses o ddatblygu prosiect:
- a Ar ddechrau'r cam mynegi diddordeb, mae WEFO yn neilltuo swyddog datblygu prosiect i bob prosiect er mwyn bod yn brif bwynt cyswllt, helpu'r noddwr i ddatblygu'r prosiect ac arwain y gwaith o arfarnu'r prosiect.
 - b Mae aelodau eraill o staff WEFO yn rhoi cyngor arbenigol ar themâu trawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal, monitro a gwerthuso, arfarnu ariannol, cyfathrebu a materion cydymffurfiaeth. Gall swyddogion datblygu prosiect hefyd gael gafael ar gyngor arbenigol Llywodraeth Cymru ar ystadau, caffael a materion cyfreithiol.
 - c Mae 'Timau Ewropeaidd Gofodol' yn annog cydweithrediad, yn rhoi cymorth a chyngor annibynnol i ddarpar ymgeiswyr ar y cam datblygu, yn cynorthwyo noddwyr ar y cam gweithredu ('ôl-ofal'), ac yn rhoi cyngor i sefydliadau ar wneud cynigion ar gyfer contractau cyflawni mewn ymarferion caffael. Darperir y swyddogaethau allgymorth hyn gan dîm arbenigol o fewn WEFO a 17 o dimau a leolir mewn awdurdodau lleol⁵⁰.
 - ch Mae Cydgysylltwyr Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyngor arbenigol ar bolisi i staff WEFO a noddwyr prosiect.
 - d Mae canllawiau ysgrifenedig ar gael ar wefan WEFO.
- 3.42 Mae WEFO yn asesu cynigion prosiect drwy eu sgorio'n uchel, canolig neu isel yn erbyn pob un o'r 12 o feini prawf dethol (Arddangosyn 22). Nid oes angen i brosiect gyrraedd trothwy penodol i gael ei gymeradwyo, er na fyddai WEFO yn cymeradwyo prosiect â llawer o sgorau 'isel' neu sgôr isel ar gyfer un o'r meini prawf allweddol a aseswyd ar y cam datgan diddordeb. Yn dilyn cymeradwyo prosiect, bydd WEFO yn defnyddio'r sgorau i nodi risgiau y gall fod angen eu rheoli fel rhan o'r broses fonitro.
- 3.43 Yn ein barn ni, mae'r meini prawf dethol yn gynhwysfawr ac yn briodol. Yn benodol, maent yn welliant ar y system sgorio fwy cadarn a ddefnyddiwyd i asesu prosiectau ESF yn y cylch rhaglennu blaenorol, a oedd yn cynnwys trothwy a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer cymeradwyo prosiectau a llawer llai o gwmpas i arfer barn ar rinweddau cynllun y prosiect. At hynny, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod dull gweithredu WEFO yn enghraifft o arfer da. Mae WEFO yn bwriadu cynnal meini prawf tebyg ar gyfer cylch rhaglennu 2014-2020.
- 3.44 Dengys ein hastudiaethau achos fod WEFO yn cymhwyso pob un o'r 12 o feini prawf dethol mewn modd hyblyg ond yn ddigon trylwyr i ddod i benderfyniad eang am gryfder pob cynnig am brosiect. Canfuwyd nifer o enghreifftiau lle roedd y broses arfarnu wedi arwain at ostyngiadau mewn cost, gwelliannau o ran ansawdd neu fuddiannau eraill⁵¹. Roedd y rhain yn cynnwys:
- a Cwtogi gwaith cyfalaf datblygiad newydd heb gyfaddawdu buddiannau allweddol prosiect. Ystyriodd WEFO y gost fesul gwaith gormodol o gymharu â phrosiectau tebyg a negododd ostyngiad arfaethedig mewn costau o £1.2 miliwn yn erbyn yr amcangyfrif gwreiddiol o

50 Bwriadwyd i'r timau hyn, a phum tîm arall yn Llywodraeth Cymru, gyfrannu tuag at ddatblygu fframweithiau strategol, cydgysylltu â rhanddeiliaid, codi ymwybyddiaeth o'r Cronfeydd Strwythurol, ac ymgysylltu â chydgyssylltwyr y Fframwaith Strategol ynglŷn â monitro a gwerthuso prosiectau.

51 Wrth ymateb i'n harolwg, nododd un noddwr prosiect o'r sector addysg uwch: "As a result of the interactions with WEFO during the business plan development stage, we have ended up with a far superior project to the draft project originally submitted".

Arddangosyn 22 – Meini prawf asesu prosiect WEFO

Maen prawf (math)	Maen prawf (penodol) ¹
<p>Ffactorau cyfrannu Y cyfraniad tebygol y bydd prosiect yn ei wneud at amcanion rhaglen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweddu â strategaeth y cytunwyd arni a chyfrannu ati • Graddau'r ymgysylltu â phartneriaid • Diwallu anghenion y farchnad (tystiolaeth o fethiant penodol yn y farchnad neu fwlch mewn darpariaeth) • <i>Cyfraniad at themâu trawsbynciol</i> • <i>Cyfraniad at werth (gwerth am arian)</i> • <i>Cyfraniad at etifeddiaeth (effaith barhaus y tu hwnt i'r cyfnod ariannu)</i>
<p>Ffactorau sicrwydd Y tebygolrwydd y caiff y prosiect ei gyflawni'n llwyddiannus.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Cyflawni'r dangosyddion a ragwelwyd</i> • Sicrwydd y pecyn ariannu • Cynlluniau cyflawni dibynadwy ar waith • Cymhwysedd sefydliadol a'r gallu i gyflawni • Strategaeth ymadael glir a chynaliadwy • <i>Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol</i>

Noder:

¹ Yn dilyn proses adolygu busnes yn 2008, penderfynodd WEFO mai dim ond y pum maen prawf a ddangosir mewn llythrennau italig a gâi eu hasesu ar y cam datgan diddordeb. Caiff pob maen prawf ei asesu ar y cam datblygu prosiect.

Ffynhonnell: WEFO

- gost gwaith adeiladu o £3.9 miliwn. Sicrhaodd WEFO hefyd nifer o newidiadau i wella perfformiad amgylcheddol yr adeilad dan sylw, er enghraifft drwy ailgylchu 'dŵr llwyd'.
- b Rhoi cyngor ar gam cynnar ar sut i integreiddio cydraddoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol i mewn i brosiect sy'n rhoi cymorth i ddiwydiant gwyddorau'r môr yng Nghymru.
- 3.45 Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o grantiau WEFO i AWEMA dystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd gweithdrefnau arfarnu yn yr achos penodol hwnnw. Canfu'r adroddiad fod WEFO wedi herio costau'r tri phrosiect a arfarnwyd ganddi yn 2009 a 2010 ac wedi'u cwtogi'n sylweddol, ond nid oedd wedi herio prosesau llywodraethu'r sefydliad a'i allu i gyflawni yn ddigonol o ystyried problemau blaenorol â phrosiectau a ariannwyd gan WEFO a phrosiectau a reolwyd gan rannau eraill o Lywodraeth Cymru.

Mae noddwyr prosiect yn fodlon ar y cyfan ar y cymorth a roddir gan WEFO, ond mae rhai o'r farn bod hyd a chymhlethdod cyffredinol y broses arfarnu yn anodd eu rheoli

3.46 Yn gyffredinol, roedd noddwyr prosiect yn croesawu'r swyddogion datblygu prosiect a gyflwynwyd, sy'n darparu un pwynt cyswllt parhaus drwy oes y prosiect. Canfu arolwg boddhad cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod 73 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon ar wybodaeth eu swyddog datblygu prosiect a bod 68 y cant yn fodlon ar ei effeithlonrwydd. Roedd y sylwadau a wnaed gan noddwyr prosiect mewn ymateb i'n harolwg ein hunain yn gadarnhaol ar y cyfan, er i rai profiadau negyddol gael eu nodi ynghylch anghysondeb cyngor a chyngor anghywir, diffyg canllawiau yn gyffredinol, lefel o graffu a her nad oedd yn ystyried profiad noddwyr prosiect, a chyflymder ymateb lle roedd angen i swyddogion datblygu prosiect gael gafael ar gyngor arbenigol gan swyddogion eraill WEFO neu Lywodraeth Cymru. Canfu arolwg cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod cyfraddau boddhad yn uwch na 50 y cant ar gyfer holl dimau arbenigol WEFO, gyda chyfran gymharol uchel o ymatebion niwtral a chyfraddau anfodlonrwydd isel iawn⁵².

3.47 Mae barn ar agweddau eraill ar y system gymorth wedi amrywio:

- a Timau Ewropeaidd Gofodol - Yn gyffredinol ac er gwaethaf rhai pryderon am allu ac adnoddau, daeth gwerthusiad gan WEFO yn 2010 i'r casgliad bod y timau allgymorth a leolwyd mewn awdurdodau lleol a'r timau ESF a leolwyd yn Llywodraeth Cymru wedi cael effaith gadarnhaol. Roedd y timau wedi ehangu gwaith cydweithredol, gan ddatblygu prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol cryfach, ac roeddent wedi helpu darpar gyflenwyr i wneud cais am gcontractau caffael.

Fodd bynnag, roedd rôl y timau a leolwyd yn Llywodraeth Cymru yn aneglur ac nid oeddent wedi ychwanegu'r un gwerth. Gan weithredu ar yr adolygiad, dileodd WEFO y Timau Ewropeaidd Gofodol hyn gan gynnal y cymorth drwy'r timau allgymorth.

- b Cydgysylltwyr fframwaith strategol – canfu arolwg cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod 45 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant wrth geisio cyngor gan gydgysylltydd fframwaith strategol a bod 11 y cant yn anfodlon ar y gwasanaeth hwnnw, ond dim ond ar gyfer 42 y cant o'r prosiectau y ceisiwyd cyngor o'r fath ar y cam cyn datgan diddordeb a 51 y cant ar y cam datgan diddordeb.
- c Canllawiau ysgrifenedig – canfu arolwg barn cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod cyfraddau boddhad yn amrywio o 39 y cant i 77 y cant yn dibynnu ar y canllawiau penodol, gyda'r gyfradd boddhad isaf ar gyfer canllawiau ar fodolau cyflawni, a ddiwygiwyd yn dilyn hynny.

3.48 Bu'n anodd iawn rhoi cymorth effeithiol yn ystod camau cynnar y rhaglenni oherwydd newidiadau mewn trefniadau gweinyddu rhaglenni, gyda llawer o noddwyr prosiect a staff WEFO yn anghyfarwydd â'r systemau newydd. Roedd rhai noddwyr, yn enwedig mewn llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol, yn ansicr ynghylch y math o brosiectau a fyddai'n dderbyniol i WEFO o ran maint, graddau'r cydweithredu a ddisgwyliid, a ph'un a oedd WEFO yn disgwyl i Lywodraeth Cymru yn hytrach na sefydliadau eraill noddol prosiectau mewn meysydd polisi penodol. Nid oedd canllawiau ar y materion hyn bob amser ar gael yn hawdd. Cafwyd hefyd rai pryderon cynnar ymhlith noddwyr prosiect ynghylch yr amser a gymerwyd gan WEFO i brosesu ceisiadau, faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani a nifer y

52 Caiff noddwyr prosiect eu hannog i gyfeirio pob ymholiad drwy'r swyddog datblygu prosiectau. Ymddengys bod gan noddwyr a swyddogion datblygu prosiectau feddwl mawr o gyngor timau WEFO ar y themâu trawsbynciol, sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal yn arbennig. Mae'r timau hynny wedi cael adnoddau da. Mae'r cyngor gan arbenigwyr eraill wedi cymryd mwy o amser i'w gael fel arfer, yn aml oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Cymerodd sawl mis i gael cyngor cyfreithiol terfynol ar gydymffurfiaeth â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol a chaffael cyhoeddus wrth i drafodaethau gael eu cynnal ar fodolau cyflawni a ganiateir.

fersiynau o gynlluniau busnes yr oedd yn rhaid iddynt eu llunio er mwyn mynd i'r afael ag adborth WEFO. Yn 2009, cyhoeddodd WEFO ganllawiau newydd a chynhwysfawr i noddwyr a swyddogion datblygu prosiect a chynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi ar sut i lunio cynllun busnes.

- 3.49 Yn gyffredinol, nododd ymatebion i'n harolwg farn gymysg ar gynllun a gweithrediad y system ar gyfer gweinyddu'r cam 'cyn cymeradwyo', er bod swyddogion datblygu prosiect WEFO yn naturiol o bosibl yn fwy tebygol o fod o'r farn bod y system wedi'i chynllunio'n dda ac yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r broses sy'n arwain at gymeradwyo prosiect fel arfer yn cymryd o leiaf naw mis ac yn aml llawer hirach i'w chwblhau. Dywedodd un noddwr prosiect sector preifat wrth ymateb i'n harolwg fod ei brosiect, oherwydd yr amser a gymerwyd, eisoes wedi'i gwblhau yn rhannol cyn y cam cymeradwyo terfynol a bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd rheoli cyllid a disgwyliadau noddwyr am gymeradwyaeth gyflym o'u prosiectau.
- 3.50 Er bod WEFO yn monitro nifer y prosiectau yn yr arfaeth a'u gwerth, nid yw'n monitro'r amser a dreulir ar bob cam o'r broses o ddatblygu a dewis prosiectau yn ffurfiol. Mae'r amser a dreulir ar bob cam yn dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol WEFO i raddau helaeth, ac felly cred WEFO fod targedau cadarn ar gyfer amseroedd arfarnu yn amhriodol. Fodd bynnag, mae effeithlonrwydd cyffredinol y broses, a pha mor gyflym y caiff Cronfeydd Strwythurol eu defnyddio, yn dibynnu ar amseroldeb y broses datblygu prosiectau i raddau helaeth.
- 3.51 Er bod hyd y broses, ei gofynion gweinyddol, a graddau'r adborth gan WEFO yn ystod y broses, wedi peri rhwystredigaeth i rai noddwyr prosiect, nid ydym wedi nodi unrhyw gonsensws clir o ran y gwelliannau y gellir eu gwneud. Mae'r broses wedi esblygu dros amser ac, yn ein barn ni, nid

oes angen gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i'r system datblygu ac arfarnu prosiectau ar gyfer y cylch rhaglennu nesaf, er y gellid gwella rhai agweddau penodol ar y broses. Dylai hyn hefyd helpu i sicrhau proses bontio ddidrafferth. Yn yr un modd, daeth Adolygiad Guilford i'r casgliad ei bod yn well adeiladu ar y prosesau sy'n bodoli eisoes na gwneud newidiadau sylweddol, ond awgrymodd y dylid profi cymhwysedd prosiect a'r modd y mae'n cydweddu â chyfleoedd economaidd a nodwyd ar gam cynnar iawn. Gan weithredu ar argymhellion yr adroddiad, mae WEFO yn bwriadu cyflwyno dull gweithredu diwygiedig ar gyfer rhaglenni 2014-2020. Caiff cymhwysedd ac addasrwydd strategol eu trafod â noddwr fel rhan o gam cynllunio cyn i'r broses ffurfiol ddechrau, gydag asesiad manylach, yn canolbwyntio ar risgiau cyflawni, yn cael ei gynnal ar ôl i'r cynllun busnes ddod i law. Cyflwynir y cam cynllunio yn lle'r cam datgan diddordeb ffurfiol ac fe'i cynhelir ar ffurf sgwrs strwythuredig rhwng y noddwr a WEFO ar ofynion allweddol y prosiect. Gellir terfynu'r cais ar unrhyw adeg os bydd WEFO o'r farn na fydd yn bodloni meini prawf arfarnu hanfodol yn llawn.

Mae rheoli ariannol yn gadarn

Mae trefniadau WEFO ar gyfer rheoli arian rhaglenni yn gweithredu o fewn fframwaith o reolaethau a nodir gan yr UE

- 3.52 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar sut y dylai rheolaethau ariannol weithredu yn ymarferol. Er nad ydynt yn gyfreithiol gyfrwymol, mae risg y byddai'r Comisiwn yn atal taliadau pe na fyddai WEFO yn dilyn y canllawiau hyn mewn unrhyw ffordd berthnasol. At hynny, gall y Comisiwn gymhwyso 'cywiriadau ariannol' (tynnu arian yn ôl o raglen) os bydd yn canfod achosion difrifol o dorri'r rheoliadau. Felly, mae er budd WEFO i nodi ac unioni achosion o afreoleidd-dra ei hun.

Mae angen i WEFO hefyd dalu grantiau mewn ffordd amserol, cael ad-daliad gan y Comisiwn Ewropeaidd a sicrhau bod y gyfran fwyaf bosibl o arian a neilltuwyd i raglenni yn cael ei gwario cyn i'r rhaglenni gau. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r risg y bydd cyfraddau cyfnewid yn amrywio a phrosiectau yn tanwario.

Mae datblygu system TG newydd wedi ei gwneud yn haws i WEFO reoli arian y rhaglenni

- 3.53 Er mwyn ei helpu i reoli rhaglenni 2007-2013, comisiynodd WEFO system TG newydd ar-lein, sef PPIMS⁵³. Cyflwynwyd y system ym mis Mehefin 2008 wrth i'r prosiectau cyntaf gael eu datblygu. Bu'n rhaid cwtogi ar rywfaint o swyddogaethau'r system i ddechrau yn dilyn gorwariant sylweddol, ond mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau hyn bellach wedi'u hadfer ac mae'r system yn gweithio'n ddidrafferth. Mae'r system yn galluogi:
- a ymgeiswyr i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb, cynlluniau busnes a chynlluniau cyflawni yn electronig;
 - b noddwyr i gyflwyno hawliadau grant yn electronig, gyda llawer o'r cyfrifiadau bellach yn cael eu gwneud yn awtomatig, a chael arian yn llawer cynt nag o'r blaen;
 - c staff WEFO i ddogfennu ffeiliau yn electronig mewn system safonol, gan gael gwared ar ffeiliau papur i raddau helaeth, ac arbed amser drwy brosesu hawliadau grant a gwybodaeth arall yn electronig; a
 - ch rheolwyr WEFO i gael gafael ar ystod eang o wybodaeth reoli yn gynt nag o'r blaen, gan eu helpu i wella gwaith rhagamcanu a chael arian gan y Comisiwn Ewropeaidd yn gynt nag o'r blaen.

- 3.54 Mae WEFO yn amcangyfrif bod y system newydd wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd blynyddol yn ei phrosesau gweinyddu ei hun o ychydig o dan £277,000 o gymharu â'r gost cyfalaf untro o £18.1 miliwn a chostau rhedeg blynyddol o tua £1.25 miliwn y flwyddyn. Nid aseswyd arbedion ar gyfer noddwyr prosiect, ac maent yn anodd eu gwerthuso o ystyried newidiadau eraill sydd wedi gwneud gofynion adrodd yn fwy beichus yn gyffredinol. Cred WEFO mai prif fudd system PPIMS fu atgyfnerthu'r rhaglen reoli drwy wella ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth reoli bwysig. Mae hyn yn ei dro yn arwain at fuddiannau ymarferol o ran rhagamcanu, adrodd a hawlio ad-daliadau gan y Comisiwn Ewropeaidd. Noda'r Comisiwn Ewropeaidd fod y system yn feincnod ar gyfer awdurdodau rheoli eraill oherwydd yr amrywiaeth o swyddogaethau sydd ganddi. Mae WEFO yn hyderus y gall barhau i ddefnyddio'r system am wyth mlynedd arall heb fod angen llawer o fuddsoddiad ychwanegol.

Mae WEFO yn talu grantiau mewn ffordd amserol ar ôl cynnal gwiriadau priodol ac mae wedi atgyfnerthu rheolaethau dros flaendaliadau yn ddiweddar

- 3.55 Mae tîm taliadau WEFO yn gyfrifol am gadarnhau hawliadau, gwneud taliadau a mynd ar drywydd hawliadau hwyr er mwyn sicrhau y caiff arian rhaglenni ei dalu mewn ffordd amserol. Fel arfer caiff taliadau eu gwneud mewn ôl-ddyledion ond gall sefydliadau gwirfoddol gael blaendaliadau yn erbyn hawliadau yn y dyfodol yn seiliedig ar wariant amcangyfrifedig. Cynhelir gwiriadau dilysu sylfaenol yn awtomatig drwy system PPIMS. Ceir dwy lefel o wiriadau ychwanegol:

⁵³ Nid ydym wedi archwilio'r broses gaffael nac unrhyw agwedd arall ar y prosiect hwn yn fanwl fel rhan o'r astudiaeth hon. Mae rhagor o fanylion am brosiect PPIMS ar gael yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Darparu Gwasanaethau TGCh a Phrosiectau TGCh o dan Contract Merlin, Awst 2011 (Astudiaeth Achso 1, tudalen 42).

- a Mae tîm taliadau WEFO yn cynnal gwiriadau desg er mwyn sicrhau bod hawliadau yn ymddangos yn rhesymol. Mae pob hawliad wedi'i gefnogi gan restr o drafodion a gaiff ei adolygu ar gyfer unrhyw eitemau a all fod yn anghymwys, ac ers canol 2012 cynhelir gwiriadau sampl ar ddogfennaeth ategol er mwyn cadarnhau bod costau yn ddilys ac wedi'u talu.
- b Mae pob noddwr yn cyflogi archwilydd allanol annibynnol ar gontract, a elwir yn gyfrifydd adrodd, er mwyn cynnal archwiliad blynyddol a chyflwyno adroddiad i WEFO ar ddigonolrwydd rheolaethau a ph'un a oedd y gwariant a hawliwyd yn ystod y cyfnod yn gymwys ac wedi'i nodi'n gywir. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnal yr archwiliadau hyn ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau. Ar ôl derbyn adroddiad yr archwilydd, bydd WEFO yn ceisio datrys unrhyw faterion a godwyd gan yr archwilydd ac yn addasu taliad nesaf y grant i gwmpasu unrhyw wallau a ganfuwyd.
- 3.56 Mae lefel y gweithgarwch craffu yn llawer uwch nag yn ystod y cylch rhaglennu blaenorol, ac mae'r nifer lai o brosiectau yn y cylch cyfredol wedi helpu yn hyn o beth. Mae'r Awdurdod Archwilio (Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, sy'n arfer swyddogaethau archwilio ar ran y Comisiwn Ewropeaidd) wedi adolygu'r system taliadau ac wedi dod i'r casgliad ei bod yn effeithiol.
- 3.57 Yn 2012, atgyfnerthodd WEFO reolaethau dros flaendaliadau i sefydliadau yn y trydydd sector ar ôl colli'r rhan fwyaf o'r £300,000 o arian Ewropeaidd a ddarparwyd gan AWEMA, a aeth yn fethdalwr ar ôl cael blaendaliadau heb wario'r arian ar y gweithgarwch prosiect a gymeradwywyd. Mae hyn yn un o risgiau cynhenid blaendaliadau. Mae WEFO bellach yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gwirfoddol brofi bod angen blaendaliadau arno er mwyn ariannu'r prosiect ac wedi tynhau gweithdrefnau cymeradwyo ac amodau grant er mwyn lleihau'r risg y caiff arian ei golli neu na chaiff ei drosglwyddo i gontractwyr mewn ffordd amserol⁵⁴.
- 3.58 Mae'r broses o lunio hawliad sy'n cyrraedd safonau gofynnol y rheoliadau yn gymharol feichus i noddwyr ac mae risg y bydd hawliadau hwyr neu hawliadau wedi'u tanddatgan yn lleihau faint o arian y gall WEFO ei hawlio gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan effeithio ar berfformiad yn erbyn targedau gwariant ac o bosibl arwain at ddadymrwymo arian rhaglenni. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ceir hanes cymharol dda: mae noddwyr yn gwneud 80 y cant o'u hawliadau ar amser (o fewn tair wythnos i ddiwedd y chwarter y mae'r hawliad yn berthnasol iddo) ac nid yw'r rhan fwyaf o'r hawliadau sy'n weddill yn fwy nag ychydig wythnosau yn hwyr. Mae'r tîm taliadau yn mynd ar drywydd hawliadau hwyr yn rheolaidd ac yn talu tua 90 y cant o hawliadau o fewn y cyfnod targed o bedair wythnos i'w derbyn. Canfu arolwg cwsmeriaid WEFO yn 2009 fod 72 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn ar yr amser a gymerwyd i dalu hawliadau grant.
- 3.59 Un o is-adrannau WEFO yw'r 'Awdurdod Ardystio' sy'n gyfrifol am gyflwyno ceisiadau am ad-daliadau i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ôl cynnal y gwiriadau priodol i sicrhau mai dim ond gwariant dilys a gynhwysir. Mae'r Awdurdod Archwilio wedi adolygu systemau a rheolaethau'r Awdurdod Ardystio ac yn fodlon eu bod yn effeithiol.

⁵⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyberthynas Llywodraeth Cymru âChymdeithas Lleiafrifoedd EthnigCymru Gyfan*, Hydref 2012, paragraffau 3.37 (colli arian) a 3.49 (atgyfnerthu rheolaethau). Noda paragraff 3.37 i WEFO dalu £301,614 yn fwy na'r swm a hawliwyd a bod gwariant anghymwys anadenilladwy wedi cynyddu cyfanswm yr arian a gollwyd i £405,705.

Mae WEFO mewn sefyllfa dda i reoli amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid a risgiau ariannol wrth i'r rhaglenni dynnu at eu terfyn

- 3.60 Gan fod WEFO yn gwneud ymrwymadau a thaliadau i noddwyr prosiect mewn punnoedd sterling, ond yn cael ei had-dalu gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn ewros, mae WEFO yn gwneud elw neu golled yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyfnewid pan gaiff taliad ei wneud i noddwr prosiect a phan gaiff arian yr UE ei hawlio mewn gwirionedd. Gall yr enillion a'r colledion hyn fod yn sylweddol oherwydd anwadalrwydd y gyfradd gyfnewid a'r amser sy'n mynd heibio, a all fod yn fisoedd lawer. Ni ddechreuodd WEFO wneud taliadau tan 2009, ar ôl i werth yr ewro gyrraedd ei lefel isaf ac, ers yr adeg honno, mae cryfder cynyddol y bunt wedi tueddu i arwain at golledion o £5.9 miliwn yn 2010, £6.6 miliwn yn 2010 a £5.8 miliwn yn 2011. Fodd bynnag, gwnaeth WEFO elw o £655,000 yn 2012, gan adlewyrchu mantais y bunt wannach yn ail hanner y flwyddyn a phenderfyniad WEFO i wneud ceisiadau mwy rheolaidd am ad-daliadau i'r Comisiwn Ewropeaidd. Parhaodd y duedd yn 2013 gydag enillion cyfnewid disgwylidig o £4.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfan.
- 3.61 Pe bai gwerth y bunt yn gwanhau yn ystod 2014 a 2015, gallai WEFO ei chael hi'n anodd sicrhau bod cyllidebau'r rhaglenni (a bennwyd mewn ewros) yn cael eu defnyddio'n llwyr erbyn i'r rhaglenni gau yn 2015. I'r gwrthwyneb, pe bai gwerth y bunt yn cryfhau, gallai fod yn rhaid i WEFO ganslo neu gwtogi rhai prosiectau neu ddod o hyd i arian o adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn talu cost llawn prosiectau a gymeradwywyd. Byddai'n anodd delio â hyn pe bai'n digwydd ar gam hwyr iawn, ond gallai WEFO, pe bai angen, ariannu gweithrediadau parhau drwy raglennu newydd 2014-2020 ar yr amod bod gweithdrefnau cymeradwyo prosiectau

ar waith. Mae'r ffaith bod prosiectau yn tueddu i danwario yn erbyn eu cyllidebau gwreiddiol yn cymhlethu ymhellach y dasg o sicrhau bod cyllidebau rhaglenni yn cael eu gwario'n llwyr.

- 3.62 Polisi presennol WEFO yw i ymrwymo mwy na gwerth sterling presennol dyraniadau rhaglenni er mwyn caniatáu ar gyfer tanwariant gan brosiectau a goblygiadau unrhyw gynnydd sylweddol yng ngwerth y bunt. Yn seiliedig ar brofiad o raglenni 2000-2006, mae WEFO yn bwriadu gorymrwymo rhaglenni ERDF bump y cant a rhaglenni ESF 10 y cant. Mae gan raglenni ERDF fwy o brosiectau cyfalaf yr ystyrir eu bod yn llai tebygol o danwario na phrosiectau refeniw. Defnyddiodd WEFO ddull tebyg yn llwyddiannus ar gyfer rhaglenni 2000-2006, gan sicrhau bod 97 y cant o arian yr UE a oedd ar gael yn cael ei wario er gwaethaf cynnydd annisgwyl yng ngwerth yr ewro yn y ddwy flynedd cyn i'r rhaglenni gau yn 2009.

Mae gan WEFO systemau rheoli ariannol effeithiol ar y cyfan i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r UE, ond gallant fod yn faich gweinyddol trwm i noddwyr

- 3.63 Mae'r Awdurdod Archwilio wedi dod i'r casgliad bod system reoli WEFO yn darparu rheolaethau effeithiol a bod trefniadau a gweithdrefnau WEFO yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau perthnasol y DU. Mae gan yr Awdurdod Archwilio strategaeth archwilio sy'n cynnwys asesu holl systemau rheoli gwybodaeth WEFO dros y cyfnod rhaglennu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol. Mae canlyniadau'r archwiliadau o systemau hyd yma wedi bod yn dda: canfuwyd bod y rhan fwyaf o systemau yn gweithio'n dda a gwnaed gwelliannau a argymhellwyd o fewn 12 mis. Mae'r Awdurdod Archwilio wedi rhoi barn archwilio ddiamod (mewn geiriau eraill, mae'r rheolaethau yn effeithiol) ym mhob un o'i adroddiadau rheoli blynyddol hyd yma.

3.64 Caiff yr Awdurdod Archwilio ei hun ei archwilio gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cyhoeddodd y Comisiwn dri adroddiad archwilio ar gyfer y rhaglenni cyfredol a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan, ond mae wedi codi pryderon yn ddiweddar ynghylch y fethodoleg samplu a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Archwilio i ddewis prosiectau a thrafodion ar gyfer profion archwilio a'r sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyfraddau gwallau rhagamcanol. Fel sawl rhanbarth arall yn Ewrop, mae'r Awdurdod Archwilio hyd yn hyn wedi defnyddio methodoleg samplu ar hap nad yw'n ystadegol, ond mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach yn gorfodi canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n argymhell dull ystadegol yn seiliedig ar waith samplu uned ariannol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailgyfrifo cyfraddau gwallau yn seiliedig ar samplau ystadegol. Tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, ac er mwyn bod yn ofalus, penderfynodd y Comisiwn atal taliadau ERDF i WEFO dros dro ym mis Rhagfyr 2013. Dengys y ffigurau diweddaraf fod cyfraddau gwallau yn parhau'n isel yng Nghymru ar y cyfan ac mae Llywodraeth Cymru yn obeithiol y caiff y mater ei ddatrys yn fuan.

3.65 Mae systemau WEFO yn cynnwys cyfres o 'wiriadau rheoli' er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau a nodi gwallau cyn i'r gwariant cysylltiedig gael ei ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn unol â rheoliadau'r UE, mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys:

- a 'gwiriadau gweinyddol' ar bob hawliad er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gyfrifo'n gywir, bod arian cyfatebol wedi'i gael a bod y costau'n gymwys, a'i fod wedi'i gefnogi gan anfonebau; a
- b 'gwiriadau yn y fan a'r lle' er mwyn cadarnhau bod prosiectau'n mynd rhagddynt yn unol ag amodau'r grant a chadarnhau eu bod yn

cydymffurfio â rheoliadau na ellir eu hasesu'n ymarferol ar y cam hawliadau, er enghraifft cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau caffael a chyhoeddusrwydd.

3.66 Mae'r gwiriadau gweinyddol yn cynnwys gwaith y Tîm Taliadau ac archwilwyr allanol, a elwir yn gyfrifwyr adrodd (Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer) sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd WEFO. Mae tîm arolygu a gwirio prosiectau WEFO yn cynnal gwiriadau 'yn y fan a'r lle'. Mae'r tîm hefyd yn adolygu system rheolaethau'r noddwr ac yn profi trafodion mewn ffordd debyg i'r archwilydd cyffredinol. Nod y tîm, dros y cyfnod rhaglennu, yw ymweld â phrosiect cyntaf pob noddwr ac asesu 50 y cant o'r prosiectau sy'n weddill ar sail sampl sy'n seiliedig ar risg. Mae'r tîm wedi atgyfnerthu ei weithdrefnau ac mae wrthi'n gwella sgiliau staff mewn ymateb i feirniadaeth gan archwilwyr am ei ddetholiad o samplau, dogfennaeth, ansawdd gwaith a gweithdrefnau ar gyfer mynd ar drywydd argymhellion⁵⁵. At hynny, mae'r tîm bellach yn adolygu rheolaethau ariannol cyffredinol, trefniadau llywodraethu a hyfywedd ariannol yn y prosiectau hynny lle mae WEFO wedi nodi risg benodol yn y meysydd hyn.

3.67 Mae'r Awdurdod Archwilio hefyd yn archwilio sampl o brosiectau bob blwyddyn er mwyn cadarnhau bod y gwariant a hawliwyd gan WEFO yn ddilys ac yn gywir. Mae'r sampl yn cwmpasu pob prosiect sy'n cyfrif am fwy na dau y cant o'r arian a hawliwyd gan WEFO ac o leiaf 10 y cant o'r prosiectau eraill. Gall archwilwyr yr UE ei hun ac Archwilwyr Llys Ewrop hefyd archwilio systemau rheoli WEFO a phrosiectau unigol, er bod archwiliadau o'r fath yn anghyffredin ac yn llai sylweddol o lawer na gwaith yr Awdurdodau Rheoli ac Archwilio.

⁵⁵ Pryderon a godwyd mewn adroddiadau gan archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd (Tachwedd 2009) a'r Awdurdod Archwilio (Ebrill 2010). Canfu adroddiad dilynol gan yr Awdurdod Archwilio ym mis Mehefin 2010 fod y gwelliannau a argymhellwyd i weithdrefnau wedi'u gwneud, a bod y tîm yn rhoi cymorth i'r rhan fwyaf o'i staff ennill cymwysterau archwilio a chyfrifeg broffesiynol.

- 3.68 Ategir y rheolaethau hyn gan ganllawiau ysgrifenedig helaeth ynghyd â chysiau hyfforddi i noddwyr prosiect ar y broses archwilio a sut i gydymffurfio â'r prif reoliadau. Cyfyngwyd hyfforddiant yn wreiddiol i staff Llywodraeth Cymru ond ers hynny fe'i hestynnwyd i noddwyr eraill.
- 3.69 Y gyfradd gymhwyso – cyfradd y gwallau neu wallau posibl a ganfuwyd gan gyfrifwyr adrodd – oedd 0.44 y cant o'r gwariant a archwiliwyd hyd at 30 Medi 2013, gostyngiad calonogol o gymharu ag 1.09 y cant pan gofnodwyd y ffigurau gyntaf ym mis Awst 2011. Hon oedd cyfradd weddilliol y gwallau ar ôl i unrhyw waith unioni, sydd weithiau'n sylweddol, gael ei wneud. Cyfanswm cyfradd y gwallau a nodwyd gan reolaethau rheoli WEFO oedd 0.65 y cant hyd at ddiwedd mis Medi 2013. Ymhlith y problemau cyffredin a ganfuwyd mewn gwiriadau rheoli⁵⁶ mae:
- a **Gwariant anghymwys:** symiau cymharol fach a hawliwyd ar gyfer gwasanaethau nas cwmpeisir gan y Rhaglenni neu ar gyfer taliadau na chawsant eu gwneud neu a wnaed y tu hwnt i gyfnod y prosiect.
 - b **Costau anuniongyrchol** a gyfrifwyd yn anghywir. Gall y broses o ddosrannu gorbenion i brosiectau fod yn gymhleth a rhaid iddi gael ei gwneud gan ddefnyddio dull a gymeradwywyd gan WEFO, gan ddiweddarau cyfraddau gorbenion drwy gydol y prosiect. Mae WEFO wedi ceisio symleiddio'r broses i noddwyr drwy gymeradwyo costau gorbenion cyfradd sefydlog i noddwyr yn y sector addysg uwch [ac mae'n bwriadu ymestyn yr arfer hwn i sectorau eraill].
 - c Mae angen **taflenni amser** i gefnogi'r costau a hawliwyd ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan amser ar brosiect, ond ni chânt eu cadw weithiau, gan olygu bod y gwariant staff cysylltiedig yn cael ei ystyried yn anghymwys.
- ch **Adalw dogfennau:** gwelwyd problem gynyddol lle nad yw prosiectau'n cadw'r holl ddogfennau sydd eu hangen i gefnogi eu hawliadau grant.
- 3.70 Yn ddiweddar, mae WEFO wedi nodi problem sy'n dod i'r amlwg lle na all noddwyr ddarparu tystiolaeth ddigonol i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â rheoliadau caffael yr UE, a lle nad yw rhai eraill yn gallu cefnogi eu hallbynnau a hawliwyd. Serch hynny, mae cyfradd gyffredinol y gwallau yn gymharol isel ac nid yw'r problemau a nodwyd uchod yn adlewyrchu gwendidau sylfaenol a fyddai'n rhoi'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni yn y fantol. Mae'r gwiriadau rheoli yn effeithiol o ran lleihau nifer y gwallau mewn gwariant a gaiff ei ddatgan i'r Comisiwn Ewropeidd (h.y. ar ôl unioni gwallau a ganfuwyd gan gyfrifwyr adrodd): dim ond 0.36 y cant oedd cyfradd ragamcanol y gwallau a nodwyd gan yr Awdurdod Archwilio wrth brofi gwariant prosiectau yn 2012 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer), a oedd yn ostyngiad o 0.46 y cant ar gyfer 2011 a thipyn yn is na'r trothwy perthnasedd o ddau y cant a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeidd. Mae'r sefyllfa hon yn cyferbynnu'n ffafriol ag awdurdodau rheoli mewn manau eraill yn y DU a'r UE, y mae rhai ohonynt wedi wynebu taliadau'n cael eu hatal a/ neu gosbau ariannol mawr oherwydd gwallau a ganfuwyd gan awdurdodau archwilio. Nid yw'r rhaglenni cyfredol wedi bod yn destun unrhyw gywiriadau ariannol hyd yma, yn wahanol i'r rhaglenni blaenorol y gwnaed cywiriadau ariannol o tua £19 miliwn ar eu cyfer mewn grantiau gan y Comisiwn Ewropeidd yn 2005⁵⁷.

56 Grŵp Cyflawni a Chydymffurfio WEFO, adroddiad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni, Mehefin 2013.

57 Cywiriad ariannol yw lleihad yn yr arian grant a hawliwyd oddi wrth y CE er mwyn adlewyrchu gwallau neu wendidau gweithdrefnol. Gall yr awdurdod rheoli ei hun ofyn am y cywiriad, ac os felly ni chaiff cyfanswm yr arian sydd ar gael ei leihau a gellir ailgyrchu'r arian a gollwyd drwy'r cywiriad mewn prosiectau eraill, neu gall y Comisiwn Ewropeidd ei orfodi ar ôl archwiliad, ac os felly caiff yr arian a ddyrannwyd i'r rhaglen ei leihau fel arfer. Yn 2005 rhoddodd WEFO wybod am wall ei hun a derbyniodd y CE y cywiriad heb leihau'r arian a oedd ar gael i'r rhaglenni.

- 3.71 Er bod system rheolaeth ariannol WEFO yn effeithiol, mae'n rhoi baich gweinyddol trwm ar noddwyr. Mae'r gofynion yn llawer mwy heriol nag ar gyfer rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gyfan gwbl ac mae'r gyfundrefn archwilio yn fwy llym. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Archwilio yn gwirio cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael cyhoeddus yn llawer mwy manwl ac mae unrhyw achosion o dorri rheoliadau a nodir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn arwain at gosb ariannol benodedig ar gyfer yr awdurdod rheoli perthnasol, y gellir ei throsglwyddo i'r noddwr.
- 3.72 Nododd ein harolwg o noddwyr prosiect a swyddogion datblygu prosiect rywfaint o rwystredigaeth ymhlith noddwyr o ran natur a graddau'r rheolau a'r prosesau archwilio ac arolygu beichus. Soniodd nifer o ymatebwyr am yr anawsterau o ran cael atebion defnyddiol ac amserol gan WEFO i gwestiynau am gydymffurfiaeth, er enghraifft p'un a oedd costau penodol yn gymwys. Nododd yr ymatebion i'r arolwg bod noddwyr a WEFO yn pryderu am wneud penderfyniad anghywir a allai olygu bod arian yn cael ei adennill gan yr UE, ond gall y pwyll a'r gofal sy'n deillio o hynny arwain at ansicrwydd ac oedi rhwystredig.
- 3.73 Roedd rhywfaint o bryder hefyd ynghylch dyblygu gweithdrefnau archwilio gan y tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau, yr archwilwyr allanol a'r Awdurdod Archwilio. Er bod ffocws a diben pob un o'r dulliau rheoli hyn yn wahanol, maent i gyd yn cynnwys asesiad o reolaethau ac mae llawer o'r profion a gynhelir ganddynt yr un fath neu'n debyg. Caiff y prosiectau mwyaf eu harchwilio o leiaf ddwywaith y flwyddyn, unwaith gan yr Awdurdod Archwilio ac unwaith eto gan gyfrifydd adrodd y prosiect ei hun. Caiff prosiectau eraill eu harchwilio gan eu cyfrifydd adrodd bob blwyddyn ond maent yn llai tebygol o lawer o gael eu harchwilio gan yr Awdurdod Archwilio neu'r tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau fel rhan o'u profion sampl o wariant.
- 3.74 Cyfyngir ar allu WEFO i ddatrys y dyblygu hyn a lleihau'r baich gweinyddol cyffredinol gan reoliadau'r UE a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Serch hynny, mae rhywfaint o le i leihau gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae'r profion a gynhelir gan y tîm taliadau ers 2012 (a gyflwynwyd yn ôl argymhelliad gan yr Awdurdod Archwilio) yn dyblygu rhywfaint o'r gwaith a wneir gan y cyfrifywyr adrodd. Mae'r canllawiau'n nodi'r math o wiriadau rheoli sydd eu hangen, ond nid yw'n nodi bod angen iddynt ddigwydd fwy nag unwaith. Felly, dylai fod yn bosibl ailystyried sut y gellir gweithredu'r argymhelliad hwn er mwyn sicrhau nad oes perygl o ddyblygu gwaith arolygu.
- 3.75 Mewn ymateb i ymgynghoriad WEFO ym mis Chwefror 2014 ar drefniadau gweithredu ar gyfer y cyfnod rhaglennu nesaf, awgrymwyd nifer o fesurau ymarferol gennym i wella'r gyfundrefn archwilio sy'n deillio o'n profiad fel cyfrifywyr adrodd, megis teilwra lefel y profion yn agosach at lefel y risg, trefniadau rhannu gwybodaeth gwell rhwng WEFO a'r cyfrifywyr adrodd, a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol i bob aelod o staff priodol noddwyr prosiect.

Caiff perfformiad ei reoli'n well nag o dan y rhaglenni blaenorol ond gall fod yn dynnach mewn rhai meysydd

- 3.76 Mae gan WEFO system glir ar gyfer rheoli perfformiad ar lefel rhaglen. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i ystyried cynnydd cyffredinol ac yn cael adroddiadau cynhwysfawr sy'n cwmpasu'r cynnydd yn erbyn targedau ymrwymiad, gwariant ac allbwn ar gyfer pob rhaglen ac unrhyw 'faterion gweithredu sylweddol', megis yr her o

reoli risgiau o ran y gyfradd gyfnewid a sicrhau bod arian cyfatebol digonol ar gael. Cofnodir data dangosyddion yn fanwl iawn, ond nid yw'r adroddiadau monitro yn asesu'r canlyniadau yn fanwl, er enghraifft i ystyried i ba raddau y mae'r rhaglenni yn llwyddo i gynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig.

- 3.77 Cyfrifoldeb y Bwrdd Rhaglennu a Pherfformiad yw gwaith rheoli o ddydd i ddydd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwr WEFO a phedwar uwch swyddog arall o WEFO. Mae'r Bwrdd yn adolygu cynnydd yn erbyn y prif ddangosyddion perfformiad ar lefel rhaglen a phrosiect, gan gynnwys ystyried unrhyw afreoleidd-dra a nodwyd drwy waith archwilio ac arolygu, ac mae'n gwneud penderfyniadau gweithredol ar y broses o reoli'r rhaglenni. Mae penderfyniadau allweddol yn destun cymeradwyaeth Gweinidogion lle y bo'n briodol.
- 3.78 Mae'r Swyddog Datblygu Prosiect yn arwain y gwaith o fonitro cynnydd prosiectau unigol. Noda canllawiau WEFO y dylid cynnal cyfarfod cychwynnol â phob noddwr o fewn tri mis i gymeradwyo prosiect a chynnal adolygiadau rheolaidd wedi hynny bob chwe mis o leiaf. Yn y pen draw, gall y broses adolygu arwain at arian yn cael ei dynnu'n ôl o brosiect os yw'n tanberfformio'n gyson ac yn annhebygol o adennill tir cyn diwedd y rhaglenni.
- 3.79 Mae WEFO yn aml yn defnyddio amodau arbennig mewn llythyrau cymeradwyo grant er mwyn delio â risgiau sy'n benodol i brosiect penodol. Er enghraifft, gallai WEFO ofyn am werthusiad interim o brosiect neu gymeradwyo prosiect cyfalaf yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu asesiad amgylcheddol. Caiff amodau arbennig eu monitro fel rhan o'r broses o adolygu prosiect ac maent yn helpu WEFO i reoli risgiau prosiect yn effeithiol drwy nodi materion allweddol ar gyfer noddwyr y prosiect a swyddogion WEFO.

- 3.80 Yn gyffredinol, mae prosesau rheoli perfformiad yn fwy cadarn ar lefel prosiect na'r rhaglenni blaenorol, lle nad oedd gan WEFO y gallu i fonitro cynnydd y prosiectau lu a ddaeth i fodolaeth dros oes y cylch rhaglennu blaenorol. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad o ffeiliau prosiectau nad oedd problemau o ran cynnydd araf i gyflawni prosiectau bob amser yn cael eu hegluro'n ddigonol neu eu cofnodi'n gyson ar PPIMS yn ystod camau cynnar rhaglenni yn 2009 a 2010. Ni chynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol a chynnydd bob amser o fewn y terfynau amser a ragwelwyd yng nghanllawiau WEFO ei hun ac nid oedd adroddiadau ar gynnydd yn egluro'n fanwl y rhesymau am lithriant prosiectau a sut y gellid adfer y sefyllfa. Mewn rhai achosion, cyfyngwyd camau gweithredu WEFO i ofyn i brosiectau ailbroffilio eu gwariant a'u hallbynnau er mwyn cyfrif am lithriant, a gwelwyd rhai prosiectau yn ailbroffilio sawl gwaith nes i WEFO benderfynu cyfyngu ar weithgarwch ailbroffilio i ddwywaith yn ystod oes prosiect.
- 3.81 Serch hynny, ymddengys bod materion wedi gwella wrth i systemau a phrosiectau WEFO ei hun gael eu sefydlu'n well. Canfu adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio ym mis Rhagfyr 2011 fod y system honno o adrodd ar gynnydd a monitro yn gadarn i bob pwrpas ond argymhellodd welliannau mewn dogfennaeth a gwaith monitro mwy rheolaidd mewn perthynas ag amodau arbennig hirdymor⁵⁸. Yn ei hymateb i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar AWEMA, lle y nodwyd materion tebyg, ymrwymodd WEFO i adolygu'r broses o gymhwyso ei chanllawiau a sicrhau bod pob cyswllt sylweddol yn cael ei gofnodi'n gyson. Mae hyn yn bwysig oherwydd gellir lleihau amllder cyfarfodydd os yw prosiectau wedi'u sefydlu'n dda ac yn perfformio'n dda, neu gellir cyfathrebu yn ysgrifenedig yn hytrach nag wyneb yn wyneb.⁵⁹

58 Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar AWEMA hefyd fod amodau arbennig wedi'u cofnodi'n rhai agored ar system rheoli prosiectau WEFO ymhell ar ôl yr adeg y dylent fod wedi cael eu cau.

59 Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gydbertynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (PAC (4) 28-12 papur 1), Rhagfyr 2012.

Mae WEFO wedi atgyfnerthu trefniadau monitro a gwerthuso ac wedi datblygu dulliau mwy cadarn o fesur effeithiau, ond mae ansawdd data yn achos pryder o hyd

Ceir atebolrwydd clir am fonitro a gwerthuso, ynghyd ag arbenigedd ac adnoddau priodol

3.82 Datblygodd WEFO Strategaeth Monitro a Gwerthuso ar gyfer rhaglenni 2007-2013 a ategir gan gynllun gwerthuso a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae prif nodweddion y strategaeth yn cynnwys:

- a Gwaith monitro allbynnau a chanlyniadau rheolaidd ar lefel rhaglen.
- b Gwerthusiadau ar lefel rhaglen, gan ganolbwyntio i gychwyn ar brosesau a systemau, ac yn ddiweddarach ar effeithiolrwydd ac effaith gweithgareddau.
- c Gwerthusiadau ar lefel prosiect a fframwaith strategol. Bydd yn ofynnol i bob fframwaith strategol weithredu a monitro cynllun gwerthuso, a bydd yn ofynnol i bob prosiect gynnal ei werthusiadau ei hun yn unol â chynllun busnes y cytunwyd arno â WEFO.
- ch Adnoddau ar ffurf tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso penodedig, sy'n cynnwys sawl aelod o staff â sgiliau ymchwil arbenigol. Mae WEFO hefyd wedi sefydlu grŵp annibynnol o arbenigwyr, sef y Grŵp Cyngori ar Werthuso, er mwyn cyngori a chynorthwyo WEFO i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Ariennir gwerthusiadau yn rhannol gan y Cronfeydd Strwythurol: ar ffurf cymorth technegol ar gyfer gwerthusiadau ar lefel rhaglen, ac fel cost a ganiateir ar gyfer gwerthusiadau o brosiectau.

- d Adroddiadau penodol sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer pob rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthusiad ymlaen llaw (asesiad o anghenion economaidd-gymdeithasol yr ardal ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu), adroddiadau gweithredu blynyddol sy'n cwmpasu testunau penodol, a gwerthusiad dilynol sy'n crynhoi effaith y rhaglenni.

Ceir cyfres gydlynol o ddangosyddion ar gyfer mesur llwyddiant y rhaglenni ar bob cam datblygu ond ni chaiff effaith lawn y rhaglenni ar gyflogaeth ei nodi

3.83 Mae gwerthuso effeithiol yn dibynnu i raddau helaeth ar ddata dibynadwy am allbynnau a chanlyniadau'r rhaglenni wrth iddynt gael eu cyflawni. Mae WEFO hefyd wedi cytuno ar gyfres o ddangosyddion effaith gyda'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn cwblhau'r 'gadwyn resymeg' (allbynnau sy'n arwain at ganlyniadau, sy'n arwain at effeithiau) i fesur effaith hirdymor y rhaglenni. Mae'r gyfres o ddangosyddion yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer asesu cynnydd ac effaith y rhaglenni ar bob cam. Daeth astudiaeth yn 2010⁶⁰ i'r casgliad bod data monitro WEFO yn ffynhonnell werthfawr o ddata ar gyfer cynnal gwaith gwerthuso soffistigedig, yn enwedig ar lefel prosiect, a bod strwythur a chynnwys y gronfa ddata fonitro yn gynhwysfawr ac yn gwella'n barhaus yn ôl pob golwg.

3.84 Mae WEFO wedi gostwng nifer y dangosyddion yn sylweddol o gymharu â'r rhaglenni blaenorol, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n nodi bod cyfres fwy syml o ddangosyddion yn haws ei rheoli ar gyfer noddwyr prosiect ac yn fwy tebygol o gynhyrchu data cyson, o ansawdd uchel. Nid yw'r nifer lai o ddangosyddion yn nodi'n llawn gynnydd ac effaith yr ystod amrywiol o weithgareddau a ariennir, yn enwedig

⁶⁰ TZ Consulting, *A feasibility study of methodological approaches to undertake impact evaluation of 2007-13 Structural Fund Programmes in Wales*, adroddiad a gomisiynwyd gan WEFO, Medi 2010 (t102 a t104).

ar gyfer rhaglenni ERDF. Er enghraifft, mae cynlluniau adfywio ffisegol yn aml yn brosiectau amlhaenog ac ni chaiff agweddau penodol, megis gwelliannau amgylcheddol, eu nodi gan y dangosyddion a gymeradwywyd. Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod prosiectau yn defnyddio eu dangosyddion eu hunain, yn ogystal â'r rhai a bennir gan y rhaglenni gweithredol, i asesu pa mor dda y maent yn cyflawni amcanion.

- 3.85 Mae WEFO wedi diffinio'n glir y rhan fwyaf o'r dangosyddion monitro mewn canllawiau cyhoeddedig, gan gynnwys pennu gofynion cysylltiedig o ran cadw cofnodion ac adrodd. Tynhawyd diffiniadau rhai o'r dangosyddion ar gyfer y rhaglenni cyffredinol er mwyn pennu lefelau gofynnol o ddarpariaeth ac atal hawliadau uwch ar allbynnau prosiectau; er enghraifft, ni all prosiect gyfrif busnes yn erbyn y dangosydd 'menter a gynorthwywyd' oni bai ei fod wedi darparu gwerth o leiaf £2,000 neu 14 awr o gymorth. Mae'r canllawiau'n unioni gwendid a nodwyd mewn gwerthusiadau o raglenni 2000-2006, pan oedd nifer o brosiectau yn ansicr ynghylch diffiniadau dangosyddion a gofynion o ran tystiolaeth.
- 3.86 Un o brif ddangosyddion rhaglenni ERDF yw swyddi a grëwyd, fel canlyniad (swyddi gros a grewyd) ac effaith (swyddi net a grewyd, ar ôl addasu ar gyfer effaith ffactorau allanol). Fel yn achos y rhaglenni blaenorol, ceir rhai materion problematig o ran swyddi a grëwyd:
- Nid yw bob amser yn glir a gyflawnwyd swyddi drwy gymorth Cronfeydd Strwythurol, yn enwedig ar gyfer prosiectau cymorth busnes sy'n cyfrif am tua 80 y cant o'r swyddi a briodolir i'r rhaglenni. Mae noddwyr yn cyfrif pob swydd a grëwyd gan fusnesau newydd a'r rhan fwyaf o swyddi a grëwyd gan gwmnïau sydd wedi cael cyngor neu gymorth ariannol.

Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn adolygu'r data a gyflwynwyd gan noddwyr ac yn dileu swyddi a hawliwyd yr ymddengys na ellir eu priodoli'n ymarferol i ERDF er ei bod yn debygol o hyd y byddai cyfran sylweddol o'r swyddi sy'n weddill wedi'u creu heb gymorth ERDF. Mae WEFO yn defnyddio Arolwg Busnes ERDF i asesu effaith net y Cronfeydd.

- Nid yw WEFO yn cyfrif swyddi a ddiogelwyd, swyddi dros dro y disgwylir iddynt bara llai na 12 mis, na swyddi ym maes gweinyddu prosiectau; a hyd at fis Mawrth 2012, nid oedd yn cyfrif penodiadau am gyfnod penodol o fwy na 12 mis ar y sail mai nod y Cronfeydd Strwythurol oedd creu swyddi cynaliadwy a pharhaus. Mae'r cyfyngiadau hyn yn golygu, gyda ffactorau eraill yn gyfartal, na chaiff effaith lawn y Cronfeydd Strwythurol ar gyflogaeth yn cyffredinol ei nodi gan y dangosyddion. Canfu Arolwg Busnes ERDF yn 2012 fod nifer y swyddi a ddiogelwyd yn sylweddol, tra bod swyddi dros dro (e.e. ym maes adeiladu) a swyddi ym maes gweinyddu prosiectau hefyd yn debygol o fod yn sylweddol. Gall lleoliadau swyddi â chymhorthdal a ddarperir gan brosiectau ESF gael effaith fawr ar lefelau cyflogaeth cyffredinol, er mai effaith dros dro yw honno. Fodd bynnag, mae'n bwysig mesur y categorïau swyddi hyn ar wahân gan fod iddynt werth cymdeithasol ac economaidd amrywiol, gyda chyflogaeth barhaus newydd wedi'i nodi fel y categori gwerth uchaf.
- Ni chaiff ansawdd a chynaliadwyedd cyflogaeth eu mesur yn barhaus, ond caiff ansawdd ei asesu drwy werthuso. Rhaid i noddwyr adrodd ar bob swydd (nid yr unigolyn sy'n llenwi'r swydd), sy'n briodol, ond ni chaiff unrhyw wiriad ei gynnal i sicrhau y caiff y swydd ei chynnal, er enghraifft ei

bod yn bodoli o hyd ar ôl 12 mis. Mae angen gwybodaeth am gyflogau fel procsi am ansawdd swyddi ond ni chaiff lefel y sgiliau ei chofnodi.

- 3.87 Cyflwynwyd y dangosydd budd o elw ar gyfer y rhaglenni cyfredol er mwyn mesur yr elw ychwanegol sy'n deillio o arbedion neu fuddiannau cynhyrchiant a gyflawnwyd drwy gymorth yr UE. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod yn siomedig, ac mae WEFO yn priodoli hyn yn bennaf i anawsterau wrth fesur budd o elw - bydd ffigurau yn aml yn dibynnu ar argymhellion a barn cyfrifyddu - ac amharodrwydd ymhlith busnesau bach i dalu am help proffesiynol i gyfrifo'r elw. Byddai canllawiau manylach ag enghreifftiau penodol yn ddefnyddiol i annog buddiolwyr a noddwyr i fesur elw mewn modd cyson a chynhwysfawr. Gallai dangosydd amgen fel gwerth gros ychwanegol neu gynnydd mewn trosiant fod yn haws ei fesur ar gyfer y rhan fwyaf o fuddiolwyr a nodi'n well fudd ariannol cymorth busnes cyffredinol.
- 3.88 Mae dangosyddion canlyniadau ar gyfer mesurau diwygio gwasanaethau cyhoeddus Rhaglen Gydgyfeirio ESF yn gyson â dangosyddion canlyniadau eraill gan eu bod yn debycach i allbynnau na chanlyniadau. Er enghraifft, mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfranogwyr yn cwblhau cyrsiau, cynlluniau dilyniant i ferched, lleoliadau secondiad, cynllunio'r gweithlu a strategaethau datblygu a ddatblygwyd.
- 3.89 Cynlluniwyd nifer o brosiectau ESF i wella cyflogadwyedd cyfranogwyr ac mae hyn yn aml yn cynnwys datblygu rhinweddau personol megis hyder, hunan-barch, sgiliau cyfweiliad a sgiliau gweithle meddalach megis cyfathrebu a gwaith tîm na chânt eu nodi gan y 'canlyniadau caled' a fesurir gan y dangosyddion monitro. Efallai

na fydd gwelliannau o'r fath neu 'ganlyniadau meddalach' yn arwain at 'ganlyniadau caled' megis cyflogaeth neu gymwysterau ar unwaith, ond disgwylir iddynt wneud hynny maes o law.

- 3.90 Gall canlyniadau meddal fod yn anodd eu mesur ond mae gan WEFO darged y dylai 50 y cant o brosiectau ESF yn y Blaenoriaethau perthnasol⁶¹ ddefnyddio systemau mesur canlyniadau meddal. Fodd bynnag, ar ddiwedd 2013, dim ond 14 o'r 50 o brosiectau a gymeradwywyd oedd â systemau o'r fath ar waith. At hynny, nid yw WEFO yn ei gwneud yn ofynnol i system fesur gwmpasu holl weithgareddau perthnasol prosiect. Canfu gwerthusiad annibynnol o Flaenoriaeth 1 Cydgyfeirio ESF yn 2012 fod data coll a defnydd anghyson o adnoddau mesur (rhwng brosiectau ac oddi mewn iddynt) yn ei gwneud hi'n anodd asesu canlyniadau meddal, er bod cyfranogwyr wedi nodi manteision sylweddol o ran eu hyder a'u sgiliau meddalach.
- 3.91 Mae WEFO yn adrodd yn erbyn y dangosyddion olrhain (er enghraifft, cyfraddau cyflogaeth a diweithdra cyffredinol yn ardal y rhaglen) ym mhob Adroddiad Gweithredu Blynyddol. Gwerth cyfyngedig sydd i'r dangosyddion olrhain fel adnodd monitro oherwydd byddai'n gamarweiniol cymharu data monitro gros (yn hytrach na data effaith net) â newidiadau ym mhob dangosydd olrhain, a achosir gan ystod eang o ffactorau. Fodd bynnag, byddai'n fwy gwerthfawr cymharu amcangyfrifon o effaith net sy'n deillio o waith gwerthuso gyda'r symudiadau yn y dangosyddion olrhain allweddol er mwyn asesu a yw'r rhaglenni wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol at dueddiadau economaidd-gymdeithasol.

61 Blaenoriaeth 1 Cydgyfeirio ESF (Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol) a Blaenoriaeth 2 Cydgyfeirio ESF a Blaenoriaeth 1 Cystadleuwydd ESF (cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd)

Mae WEFO wedi gwella'r broses o gasglu data monitro ond mae rhai agweddau ar ansawdd data yn achos pryder o hyd

3.92 **Cesglir data mewn modd cyson ar gyfer pob prosiect.** Mae'n ofynnol i brosiectau ddewis yr holl ddangosyddion perthnasol yn y rhaglen weithredol ar gyfer y flaenoriaeth y cânt eu hariannu oddi tani, gan sicrhau y caiff y wybodaeth honno ei chasglu mewn modd cyson ar draws y rhaglenni. Caiff data ar allbynnau a chanlyniadau eu casglu'n rheolaidd a'u cyflwyno i WEFO gan noddwyr prosiect gan ddefnyddio system hawliadau ar-lein WEFO, sydd wedi'i chysylltu â PPIMS ac sy'n galluogi gwaith casglu a dadansoddi data effeithlon. Daw'r holl ddata ar allbynnau ar gyfer prosiectau a gynhelir gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o un gronfa ddata benodol a ailgynlluniwyd tua'r un adeg â lansio rhaglenni 2007-13, ac mae'r system yn defnyddio'r un diffiniadau ar gyfer allbynnau a chanlyniadau â'r rhai a nodwyd ar gyfer rhaglenni'r UE.

3.93 **Caiff cywirdeb data monitro ei archwilio gan dîm arolygu a gwirio prosiectau WEFO a dengys bod data a gofnodir yn gywir ar lefel prosiect, ond erys problemau mewn rhai meysydd o ran ansawdd data.**

a **Ansawdd data ar lefel cyfranogwyr:** Mae WEFO bellach yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau gyflwyno gwybodaeth am bob sefydliad neu unigolyn a gefnogir gan y rhaglenni. Mae'r data hyn yn cynnwys oedran, rhyw, statws cyfranogwyr ESF yn y farchnad lafur a maint, perchenogaeth a lefelau staffio cwmnïau a gefnogir gan ERDF. Fodd bynnag, mae ansawdd cofnodion manwl yn amrywio

ac mae llawer o'r manylion angenrheidiol ar goll neu'n anghywir. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n anodd dadansoddi data monitro fesul categori o gyfranogwyr neu fusnes ac wedi llesteirio'r broses o gynnal Arolwg Busnes ERDF oherwydd ni fu'n bosibl cyfateb cwmnïau a gynorthwywyd i gronfeydd data a gynhelir gan adrannau eraill o'r Llywodraeth.

b **Cyfrif dwbl mewn perthynas â chanlyniadau:** canfu gwerthusiadau o'r rhaglenni blaenorol fod cyfrif dwbl yn peri pryder sylweddol am fod nifer o fuddiolwyr wedi cael cymorth gan sawl prosiect a ariannwyd gan yr UE, ac nid oedd unrhyw reolaethau i atal pob prosiect rhag hawlio'r un canlyniad. Mae WEFO wedi cyhoeddi canllawiau i brosiectau ESF lle mae unigolion yn cymryd rhan mewn mwy nag un prosiect ESF. Dylai pob prosiect gyfrif ei holl gyfranogwyr, ond dim ond un prosiect all hawlio ar gyfer yr un canlyniad (e.e. cymhwyster a enillwyd neu fynediad at gyflogaeth) ac mae angen i'r prosiectau perthnasol gydgyssylltu i benderfynu pa un ohonynt sy'n hawlio'r canlyniad. Fodd bynnag, mae'r dull o orfodi'r canllawiau hyn ar lefel prosiect yn aneglur. Nid oes unrhyw ganllawiau ar gyfer prosiectau ESF, er bod y risg i brosiectau cymorth busnes, lle y caiff cwmnïau gymorth gan nifer o ffynonellau, yn debyg i'r risg i gyfranogwyr ESF. Dylai'r gronfa ddata o gyfranogwyr alluogi WEFO i nodi ac unioni canlyniadau lle bu achosion o gyfrif dwbl, ond mae'r gwaith yn debygol o fod yn llafurus yn enwedig os yw ansawdd y data yn wael. Ar hyn o bryd, nid yw graddau'r achosion o gyfrif dwbl yn glir.

3.94 Mae WEFO wedi datblygu ei chronfeydd data cyfranogwyr a busnesau ei hun o'r cofnodion a ddarparwyd gan noddwyr, y gellir eu huwchlwytho o daenlenni neu o gysylltiadau â chronfeydd data'r noddwyr mwy o faint eu hunain. Er bod y cronfeydd data yn gweithredu'n gymharol dda, byddai cronfa ddata a oedd yn galluogi noddwyr i gyflwyno cofnodion unigol yn uniongyrchol ac ar-lein yn lleihau costau gweinyddol i WEFO (er y byddai'r gwaith datblygu cychwynol yn gostus) ac yn helpu i wella ansawdd data. Gellid rhaglennu cronfa ddata ryngweithiol i'w gwneud yn ofynnol i'r holl fanylion perthnasol gael eu cofnodi cyn y gellid cyflwyno cofnodion ac i hysbysu noddwyr os oedd prosiect arall yn hawlio canlyniad ar gyfer yr un unigolyn. Penderfynodd WEFO beidio â datblygu cronfa ddata o'r fath ar ddechrau'r rhaglenni cyfredol mewn ymateb i adborth gan noddwyr a oedd yn dymuno cynnal y systemau presennol a oedd yn diwallu eu hanghenion eu hunain yn ddigonol. Byddai angen i gronfa ddata ryngweithiol fod yn gydnaws â'r systemau hyn er mwyn osgoi achosion costus o gofnodi dwbl, a byddai angen iddi weithredu o fewn cyfyngiadau deddfwriaeth diogelu data sy'n cyfyngu ar rannu data.

Mae WEFO wedi atgyfnerthu trefniadau gwerthuso, ond mae'n debygol mai dim ond wrth i'r rhaglenni dynnu at eu terfyn y daw gwybodaeth gynhwysfawr am effeithiau ar lefel prosiect i'r amlwg

3.95 **Mae WEFO yn cynllunio cyfres o werthusiadau thematig a fydd yn cwmpasu'r prif agweddau ar weinyddu a chyflawni rhaglenni.** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rheoli werthuso'r rhaglenni yn barhaus mewn ymateb i anghenion polisi a rhaglennu. Fel rhan o'i hymrwymiad i werthuso'n barhaus, mae WEFO wedi comisiynu'r canlynol:

- a Cyfres o astudiaethau ar y broses o weithredu'r rhaglenni a'r systemau ar gyfer gwneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys arolwg o foddhad cwsmeriaid; gwerthusiad o brosesau gan ystyried fframweithiau strategol, themâu trawsbynciol a dulliau cyfathrebu; adolygiad o'r Timau Ewropeaidd Gofodol; ac ymchwil i ddichonolrwydd dulliau amrywiol o werthuso effaith y rhaglenni.
- b Wyth gwerthusiad, a elwir yn werthusiadau o flaenoriaethau neu fframweithiau statudol, i werthuso meysydd allweddol o weithgarwch rhaglen. Mae'r gwerthusiadau interim yn ystyried i ba raddau y mae'r fframweithiau perthnasol yn berthnasol i anghenion ardal y rhaglen, pa mor dda y mae'r rhaglen yn gweithio fel ffordd o gyflawni amcanion y rhaglen a chynnydd yn erbyn dangosyddion monitro. Cyhoeddwyd dau werthusiad interim a synthesis o'r gwerthusiadau a oedd yn weddiill yn 2013. Cyhoeddir gwerthusiadau terfynol yn dilyn yr adroddiadau interim tuag at ddiwedd cyfnod y rhaglenni a fydd yn ystyried effaith yn fanylach nag y gellir ei wneud ar gam gwerthuso interim.

3.96 Yn ogystal â'r gwerthusiadau hyn o raglenni, mae'n ofynnol i brosiectau gynnal eu gwerthusiadau eu hunain, y mae'n rhaid iddynt gael eu comisiynu gan ffynhonnell annibynnol ac allanol os yw'r prosiect yn cael mwy na £2 filiwn mewn grant neu os caiff ei ystyried fel arall yn risg uchel. Felly, bydd angen i'r mwyafrif helaeth o brosiectau gomisiynu gwerthusiadau allanol, yn wahanol i'r rhaglenni blaenorol lle na chomisiynodd y rhan fwyaf o brosiectau werthusiadau allanol ac ni wnaeth llawer ohonynt unrhyw waith gwerthuso o gwbl. Gofynnir i rai prosiectau mwy o faint ddarparu gwerthusiadau interim fel amod arbennig o'u llythyr cymeradwyo grant, ond nid yw WEFO bob amser yn gorfodi amodau o'r fath yn effeithiol. Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd WEFO a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 36 o werthusiadau o brosiectau ar eu gwefannau.

3.97 Mae WEFO wedi cyhoeddi canllawiau cyffredinol ar werthuso ac mae'n rhoi cyngor ar gynllun monitro a gwerthuso pob prosiect yn ystod cam datblygu'r prosiect. Mae gan bob fframwaith strategol gyfres o gwestiynau gwerthuso cyffredin y disgwylir i bob gwerthusiad prosiect eu hateb, er mwyn helpu i sicrhau bod gwerthusiadau yn ceisio ateb yr un cwestiynau pan fydd gan brosiectau amcanion tebyg. Mae WEFO hefyd yn adolygu gwerthusiadau prosiect er mwyn sicrhau eu hansawdd cyn eu cyhoeddi ar ei gwefan. Roedd pob un o'r rhain yn ddatblygiadau newydd ar gyfer y rhaglenni presennol ac maent yn arwydd bod gweithdrefnau gwerthuso yn cael eu hatgyfnerthu.

Mae WEFO wedi datblygu dull mwy soffistigedig ar gyfer asesu effaith net y rhaglenni

3.98 Mae WEFO yn ceisio gwerthuso'r effaith yn barhaus drwy Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd ac Arolwg Busnes ERDF. Cynhelir yr Arolwg o'r Bobl a Adawodd bob blwyddyn a gwnaed hynny ers 2010. Mae'n gofyn cwestiynau i sampl o gyfranogwyr a gwblhaodd darpariaeth ESF yn ystod y flwyddyn cyn cynnal yr arolwg am y sgiliau a'r cymwysterau y maent wedi'u hennill a'u hanes cyflogaeth ers gadael eu cwrs neu eu lleoliad. Cynhaliwyd Arolwg Busnes yr ERDF yn 2011 ac mae WEFO yn bwriadu ei ailadrodd bob dwy flynedd. Mae'n gofyn cwestiynau i fusnesau sydd wedi cael cymorth ERDF am natur eu busnes a'r effaith y mae cymorth ERDF wedi'i chael ar eu trosiant, eu cyflogaeth, eu proffidioldeb, eu hallforion ac i ba raddau y maent yn arloesi.

3.99 Bydd yr effeithiau yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau allanol a fydd yn dueddol o leihau'r canlyniadau a gofnodir gan brosiectau ac mae'n aml yn anodd ac yn gymhleth mesur yr effeithiau hyn. Yn hanesyddol, gwerthuswyd effaith rhaglenni economaidd drwy ddefnyddio cyfuniad o waith ymchwil sylfaenol (gan ofyn i dderbynwyr am eu canfyddiad o'r effaith) ac amcangyfrif effeithiau economaidd ehangach gan ddefnyddio ffactorau disgownt yn deillio o dablau mewnbwn-allbwn⁶². Fodd bynnag, mae data mewnbwn-allbwn yn aml yn hen a gall canfyddiadau hunangofnodedig o effaith hefyd fod yn annibynadwy fel canllaw i'r effaith wirioneddol.

3.100 Er mwyn goresgyn y problemau hyn, comisiynodd WEFO waith ymchwil gan ymgynghorwyr DTZ yn 2010 ar ddichonoldeb mabwysiadu gwahanol ddulliau gweithredu wrth werthuso effaith ar lefel rhaglenni. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil, mae WEFO wedi treialu'r defnydd o

⁶² Mae tablau mewnbwnnau ac allbwnnau yn ystadegau swyddogion sy'n dangos sut mae pob sector diwydiannol yn defnyddio allbwnnau pob sector arall, hynny yw ble mae pob sector yn gwerthu ei gynhyrchion ac o ble mae'n prynu ei ddefnyddiau (mewnbwnnau). Ynghyd â thystiolaeth o arolygon, mae'r tablau yn ei gwneud yn bosibl i gynnal gwerthusiad i amcangyfrif maint dadleoli, difuddiant ac effeithiau lluosydd a lleihau'r canlyniadau gros cofnodedig yn unol â hynny, gan roi amcangyfrif o effaith net.

ddadansoddiadau econometrig ar gyfer Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd ac Arolwg Busnes ERDF. Mae dadansoddiadau econometrig yn cymharu canlyniadau rhwng grŵp triniaeth (y rheini sy'n cael arian gan yr UE) a grŵp rheoli (mor debyg â phosibl i'r grŵp triniaeth ond ddim yn cael arian gan yr UE). Gellid priodoli unrhyw wahaniaeth o ran perfformiad rhwng y ddau grŵp, ar ôl addasu ar gyfer unrhyw wahaniaeth strwythurol, i effaith y Cronfeydd Strwythurol.

3.101 Mae'r dadansoddiad econometrig wedi gweithio'n gymharol dda i Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd. Er gwaethaf rhai anawsterau methodolegol, llwyddodd y gwerthusiad i gymharu canlyniadau'r bobl a adawodd â grŵp rheoli o'r Arolwg o'r Llafurlu ac i amcangyfrif yr effaith net ar y sail honno, gan arwain at ganlyniadau sy'n rhesymol gadarn ym marn contractwyr y gwerthusiad. Gan fod swm y data wedi cynyddu, mae WEFO wedi gallu ehangu'r dadansoddiad i ystyried yr effaith yn ôl rhyw, statws yn y farchnad lafur ac ar gyfer gwahanol fathau o ymyriadau.

3.102 Ar y sail hon, mae'n ddamcaniaethol bosibl allosod effeithiau ar draws y rhaglenni gan ddefnyddio data monitro WEFO. Fodd bynnag, mae WEFO yn defnyddio diffiniad culach o ddiweithdra (ceiswyr Lwfans Ceisio Gwaith) na'r diffiniad a ddefnyddir gan Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd a'r Arolwg o'r Llafurlu, sydd ill dau yn mabwysiadu diffiniad ehangach sy'n cynnwys pobl sy'n chwilio am waith ond nad ydynt yn hawlio budd-dal. Mae'r diffiniad ehangach hwn, a ddefnyddir i gyfrifo'r brif gyfradd ddiweithdra, yn nodweddiadol yn cynyddu nifer y bobl ddi-waith tua dwy ran o dair. Mae'r diffiniad ehangach yn fwy priodol er mwyn gwahaniaethu rhwng y rheini sydd wrthi'n chwilio am waith a'r rheini sydd, mewn gwirionedd, yn economaidd anweithgar. Drwy fabwysiadu diffiniad culach o ddiweithdra,

mae data monitro WEFO yn debygol o orddatgan cyfran y cyfranogwyr sy'n economaidd anweithgar ac sydd fwyaf anodd eu cynnwys yn y farchnad lafur.

3.103 Ni fu'r dull econometrig mor llwyddiannus ar gyfer Arolwg Busnes yr ERDF. Y nod oedd cymharu perfformiad derbynwyr yr ERDF â grŵp o fusnesau tebyg o gronfeydd data'r Gofrestr Fusnes Ryngadrannol (IDBR) a Financial Analysis Made Easy (FAME) - dwy gronfa ddata sylweddol yn rhestru cwmnïau sy'n masnachu yn y DU. Er mwyn llunio cymhariaeth effeithiol, roedd angen i'r gwerthusiad nodi derbynwyr yr ERDF o fewn pob cronfa ddata er mwyn cael manylion eu hanes ariannol a'u hanes o ran cyflogaeth, a chymharu hynny â grŵp rheoli o'r un gronfa ddata. Fodd bynnag, llesteiriwyd y dadansoddiad gan sawl problem:

- a ni lwyddodd y contractwyr i ddod o hyd i lawer o dderbynwyr yr ERDF o fewn y cronfeydd data gan nad oedd manylion pwysig megis enw'r cwmni, cyfeiriad neu rif TAW wedi'u cofnodi yng nghofnodion WEFO neu roedd y manylion hynny'n anghywir;
- b roedd llawer o dderbynwyr yr ERDF yn gwmnïau bach nad oedd yn rhaid iddynt gyflwyno cyfrifon llawn, felly nid oedd digon o wybodaeth ariannol amdanynt i lunio cymhariaeth â grŵp rheoli gan ddefnyddio FAME; ac
- c nid oedd llawer o'r cwmnïau newydd a gafodd gymorth yr ERDF wedi ymddangos ar yr IDBR eto, gan olygu na ellid creu grŵp rheoli ar gyfer cyfran fawr o'r busnesau a gafodd gymorth yr ERDF.

- 3.104 Ni ellid goresgyn y rhwystrau sylweddol hyn a bu'n rhaid i'r Arolwg ddibynnu ar effeithiau hunangofnodedig fel y'u disgrifiwyd ym **mharagraff 2.63**. Serch hynny, daeth yr Arolwg i'r casgliad ei bod yn ymarferol defnyddio'r cronfeydd data dros amser i gymharu perfformiad busnesau mwy ac i gymharu cyfraddau goroesi amrywiaeth llawer ehangach o fusnesau, ar yr amod y byddai ansawdd cofnodion WEFO yn gwella.
- 3.105 Yn gyffredinol, cafwyd cyfraddau ymateb o 34 y cant ar gyfer ESF a 40 y cant ar gyfer ERDF. Roedd llawer o'r diffyg ymateb o ganlyniad i fanylion cyswllt anghywir ar gyfer cyfranogwyr y sampl. Yn ogystal, cafwyd cyfraddau gwrthod (sef ymatebwyr yn gwrthod cymryd rhan) a chyfraddau methu â chofio (sef ymatebwyr nad oeddent yn gallu cofio cael unrhyw gymorth) sylweddol ar gyfer y ddau arolwg, yn enwedig Arolwg Busnes yr ERDF. Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn argymhell y dylid monitro effeithiau cyflogaeth yn barhaus er mwyn cofnodi data gwerthuso cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rhaglenni ddarparu cymorth (mae angen caniatáu amser i'r cymorth gael effaith). Mae WEFO yn cynnal Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd bob blwyddyn, a gall fod yn werth cynnal Arolwg yr ERDF bob blwyddyn hefyd er mwyn gwella dibynadwyedd data'r arolygon.
- 3.106 Mae rhan helaeth o werth y ddau arolwg yn ymwneud â chysylltu'r canfyddiadau â mathau penodol o ymyriadau er mwyn gallu asesu buddiannau cymharol pob math. Mae WEFO wedi llwyddo i wneud hyn ar gyfer Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd, ond nid yw Arolwg Busnes ERDF wedi cyrraedd y cam lle y gellid gwneud hyn eto. AR hyn o bryd, nid oes unrhyw system ar gyfer bwydo canlyniadau'r Arolwg i werthusiadau prosiect, er y defnyddiwyd Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd wrth werthuso Blaenoriaeth Cydgyfeirio 2 ESF (mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd).
- 3.107 Mae angen cynnal gwerthusiadau ar lefel prosiectau unigol o hyd er mwyn meithrin dealltwriaeth fanylach o effaith gwasanaethau penodol a sut y maent yn arwain at effeithiau. Mae gan brosiectau annibyniaeth wrth ddewis contractwyr gwerthuso ac wrth benderfynu ar ddulliau gwerthuso. Mae annibyniaeth o'r fath yn ei gwneud hi'n haws iddynt gynllunio dull gweithredu sy'n addas ar gyfer prosiect penodol a chymharu dulliau gweithredu gwahanol. Fodd bynnag, mae llawer o fuddiannau posibl yn gysylltiedig â dull gweithredu mwy cydgysylltiedig: arbedion maint uwch drwy gomisiynu gwerthusiadau mwy a/neu ddefnyddio dulliau ymchwil mwy uchelgeisiol, mwy o gyfleoedd i rannu arfer da a chymharu prosiectau yn gyson, a chynnydd o ran gallu WEFO i reoli ansawdd a hwyluso'r trefniadau ar gyfer rhannu data gyda gwerthusiadau rhaglenni. Mae saith prosiect twristiaeth gynaliadwy (y cyfeirir atynt ar y cyd fel Amgylchedd ar gyfer Twf neu E4G fel talfyriad Saesneg) wedi comisiynu Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd i gydgyfylltu'r gwaith o werthuso pob un o'r saith prosiect gan ddefnyddio fframwaith gwerthuso cyffredin, ond ymddengys mai dyma'r unig enghraifft o gydweithredu o'r fath.
- 3.108 Mae Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd yn darparu tystiolaeth barhaus o raddau'r effaith a gyflawnir gan ymyriadau ESF. Mae rhai gwerthusiadau prosiect, yn enwedig ar gyfer ESF, hefyd wedi ystyried yr effeithiau a werthuswyd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth am effaith ar lefel prosiect neu ar gyfer mathau penodol o weithgareddau yn debygol o ddeillio o werthusiadau yn 2014 a 2015 pan fydd y rhaglenni yn cau ac ymhell i mewn i gyfnod rhaglennu 2014-2020. Felly bydd yn anodd cynnwys y canfyddiadau wrth gynllunio'r rhaglenni newydd. Un o fuddiannau allweddol Arolwg ESF o'r Bobl a Adawodd yw'r ffaith bod gwybodaeth gynyddol gadarn am effaith yn dod i'r amlwg yn barhaus ac y gellir defnyddio'r wybodaeth

hon i reoli'r rhaglenni ac i asesu effaith dros yr hirdymor. Mae gwerthuso hirdymor o'r fath yn arbennig o bwysig wrth asesu effeithiau strategol, megis effaith ymyriadau'r Llywodraeth ar arloesi yn yr economi, ond caiff y rhan fwyaf o werthusiadau eu comisiynu er mwyn canolbwyntio ar brosiect penodol dros gyfnod amser penodol, wedi'i gysylltu fel arfer â chylchoedd ariannu.

Atodiadau

Atodiad 1 - Dulliau Archwilio

Atodiad 2 - Fframweithiau strategol

Atodiad 3 - Data dangosyddion lefel rhaglen
ar gyfer rhaglenni'r ERDF

Atodiad 4 - Data dangosyddion lefel rhaglen
ar gyfer rhaglenni'r ESF

Atodiad 5 - Gwybodaeth sydd ei hangen
gan noddwyr prosiectau mewn
cynlluniau busnes



Atodiad 1

Dulliau Archwilio

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gennym i gasglu tystiolaeth ar gyfer ein hadolygiad

Adolygiad o Lenyddiaeth

Gwnaethom adolygu amrywiaeth eang o adroddiadau cyhoeddiedig a dogfennau eraill, gan gynnwys:

- Y rhaglenni gweithredol ar gyfer y pedair rhaglen a gaiff eu rheoli gan WEFO
- Rheoliadau'r UE sy'n llywodraethu'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol
- Nodiadau cyfarwyddyd WEFO i ymgeiswyr
- Cofnodion a phapurau Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru gyfan
- Nodiadau a chofnodion uwch dîm rheoli WEFO
- Gwerthusiadau'r rhaglenni, yn arbennig:
 - *Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period*, gwerthusiad a gomisiynwyd gan WEFO, Ionawr 2011
 - Databuild Research and Solutions, *WEFO Customer Insight Survey 2009*, WEFO, Mai 2010
 - WEFO, *Spatial European Teams: an evaluation*, WEFO, Tachwedd 2010
 - Prifysgol Caerdydd, Old Bell 3 Ltd ac IFF Research Ltd, *The 2011 European Social Fund Leavers' Survey*, WEFO, Mawrth 2013
 - Old Bell Ltd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd ac IFF Research Ltd, *ERDF Business Survey*, a gyhoeddwyd gan WEFO yn 2012
- Gwerthusiadau prosiect a gyhoeddwyd gan WEFO a Llywodraeth Cymru, ar 31 Mai 2013
- Adroddiadau allweddol a gyhoeddwyd gan sefydliadau eraill:
 - Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru*, Rhagfyr 2012
 - Dr Grahame Guilford, *Buddsoddi mewn Twf a Swyddi: adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020*, WEFO, Mawrth 2013
- Adroddiadau Awdurdodau Archwilio, yn enwedig adroddiadau rheoli blynyddol ac adroddiadau ar systemau WEFO ar gyfer arfarnu ceisiadau ar gyfer prosiectau, monitro cynnydd prosiectau, talu ceisiadau grant a dilysu ac arolygu prosiectau.

Arolwg o noddwyr prosiectau a swyddogion datblygu prosiect

Gwnaethom gynnal arolwg o'r holl noddwyr prosiectau a swyddogion datblygu prosiect ym mis Ionawr 2011 er mwyn canfod eu barn ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar y pryd. Defnyddiodd yr arolwg dechneg 'Sensemaker', sydd hefyd yn gofyn i ymatebwyr ddisgrifio eu profiad o fater penodol (sef eu cyfranogiad gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn yr achos hwn) ac wedyn i ddehongli eu profiad drwy gyfres o gwestiynau sy'n cwmpasu pob agwedd ar reoli'r rhaglenni. Defnyddiwyd dau fath o gwestiwn:

- 'triadau' lle mae'r ymatebwr yn nodi ei farn wrth bwysu a mesur tri datganiad croes;
- 'polareddau', lle mae'r ymatebwr yn dewis safbwynt rhwng dau ddatganiad croes.

Roedd yr arolwg yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- egwyddorion allweddol megis mwy o bwyslais ar gaffael cystadleuol a'r symudiad tuag at lai o brosiectau;
- gweithdrefnau rheoli WEFO yn ystod y cam cyn cymeradwyo a'r cam ar ôl cymeradwyo;
- dull gweithredu WEFO mewn perthynas â risg a rheoleiddio;
- ffactorau galluogi a llesteirio wrth roi prosiectau ar waith; a
- risgiau i'r rhaglenni.

Gwnaethom ddefnyddio cymysgedd o ddadansoddiadau thematig o'r atebion naratif a dadansoddiadau meintiol o'r cwestiynau penodol i ddehongli canlyniadau'r arolwg.

Gwnaethom ddosbarthu'r arolwg i 102 o noddwyr prosiectau (rheolwyr prosiectau) a 42 o swyddogion datblygu prosiect. Cafwyd ymateb gan 91 ohonynt, sef cyfradd ymateb gyffredinol o 63 y cant. Ni nododd tri ymatebwr p'un ai rheolwyr prosiect neu swyddogion datblygu prosiect oeddent. Y gyfradd ymateb ar gyfer yr 88 o ymatebion eraill oedd 53 y cant ar gyfer noddwyr prosiectau a 78 y cant ar gyfer swyddogion datblygu prosiect.

Cyfweliadau

Yn ystod ein hastudiaeth, gwnaethom gyfweld â staff canlynol WEFO:

- y Cyfarwyddwr ac uwch reolwyr eraill WEFO;
- Pennaeth Cyllid;
- Pennaeth yr Awdurdod Ardystio;
- rheolwyr yn y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso, y tîm Arolygu a Dilysu Prosiectau a'r tîm Taliadau;
- rheolwyr blaenoriaeth, sy'n goruchwyllo meysydd polisi penodol o fewn y rhaglenni;
- cydgysylltwyr fframwaith strategol; a
- Phenaethiaid Timau Ewropeaidd Gofodol/Arbenigol.

Gwnaethom gyfarfod hefyd â'r canlynol:

- y Cadeirydd a dau aelod arall o Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni; a'r
- 'swyddogion desg' (swyddogion) sy'n gyfrifol am raglenni Cymru o fewn y Comisiwn Ewropeaidd.

Astudiaethau achos ac adolygu ffeiliau

Gwnaethom asesu'r cynllun busnes, gweithdrefnau arfarnu, trefniadau gwerthuso a'r cynnydd hyd yn hyn ar gyfer sampl o wyth prosiect. Gwnaethom gyfarfod â rheolwr y prosiect a'r swyddog datblygu prosiect ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn er mwyn trafod eu hasesiad o'r prosiect a gweithdrefnau WEFO.

Gwnaethom adolygu sampl o 36 o brosiectau (gan gynnwys yr astudiaethau achos) er mwyn ystyried cynnydd prosiectau ar ôl eu cymeradwyo a'r ffordd y caiff gweithdrefnau monitro a rheoli perfformiad WEFO eu rhoi ar waith. Gwnaethom ystyried ceisiadau prosiectau, adroddiadau cynnydd a nodiadau o gyfarfodydd cynnydd ar gyfer pob un o'r prosiectau a ddewiswyd.

Dadansoddi data

Gwnaethom ddadansoddi cynnydd y rhaglenni ar gyfer dangosyddion monitro allweddol, gan gymharu'r cyflawniadau a gofnodwyd ar 31 Rhagfyr 2013 yn erbyn targedau a chyflawniadau proffiliedig cyffredinol y rhaglen ar y dyddiad hwnnw.

Atodiad 2

Fframweithiau strategol

ERDF

Fframweithiau thematig:

Fframwaith	Blaenoriaethau a themâu cysylltiedig
Cyllid busnes	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 2, Thema 2 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 2
Newid yn yr hinsawdd	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 4, Themâu 1 a 2 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 3
Adfywio economaidd cymunedol	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 5, Thema 2
Menter	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 2, Thema 1 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 2
Seilwaith TGCh a manteisio i'r eithaf ar TGCh	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 1, Thema 2 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 1
Arloesedd, ymchwil a datblygu a thechnoleg	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 1, Thema 1 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 1
Effeithlonrwydd deunyddiau	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 4, Thema 2
Trafnidiaeth gynaliadwy	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 1

Fframweithiau gofodol - adfywio cynaliadwy:

Fframwaith	Blaenoriaethau a themâu cysylltiedig
Cymru Ganolog	Cydgyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 2 – Blaenoriaeth 4, Thema 3 – Blaenoriaeth 5, Thema 1 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 4
Gogledd Cymru	
Sir Benfro a'r Ddau Gleddau	
De-ddwyrain Cymru	
Bae Abertawe	

ESF

Fframwaith	Blaenoriaethau a themâu cysylltiedig
Gwella gwasanaethau cyhoeddus	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 4
Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i addasu	Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 2
Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 2, Themâu 1 a 2 Cystadleurwydd – Blaenoriaeth 1
Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym maes cyflogaeth	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 3
Gwella sylfaen sgiliau'r gweithlu ac ategu dilyniant ym maes cyflogaeth drwy sgiliau sylfaenol a sgiliau lefel ganolradd	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 1
Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth: Sgiliau Lefel Uwch a Systemau ar gyfer Datblygu'r Gweithlu	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 2
Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 1
Trafnidiaeth gynaliadwy	Cydggyfeirio – Blaenoriaeth 3, Thema 1

Ffynhonnell: WEFO

Atodiad 3

Data dangosyddion lefel rhaglen ar gyfer rhaglenni'r ERDF

Dangosydd	Uned fesur	Diwedd y rhaglen			Hyd at 31 Rhagfyr 2013		
		Rhagolwg (Rh1)	Targed (T)	% (Rh1 / T)	Cyflawnwyd (C)	Rhagolwg (Rh2)	% (C) / h2)
Cydyfeirio							
Mentrau a gynorthwywyd	Nifer	17,622	14,150	125%	10,666	10,890	98%
Ymchwil a Datblygu ar y cyd	Nifer	1,245	514	242%	974	873	112%
Nifer y swyddi gros a grëwyd	Nifer CALI	32,877	33,200	99%	17,011	17,336	98%
Mentrau a grëwyd	Nifer	8,707	5,094	171%	4,971	5,100	97%
Budd o elw	£ miliynau	108	302	36%	10	26	39%
Buddsoddiad a ysgogwyd	£ miliynau	277	473	58%	152	137	111%
Swyddi y darparwyd ar eu cyfer	Nifer	3,185	1,050	303%	1,582	1,386	114%
Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	metrau sgwâr	136,608	42,500	326%	62,474	79,049	79%
Prosiectau, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd	Nifer	2,531	5,028	50%	1,536	1,262	122%
Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus	000 km	523,452	400,000	131%	339,583	339,983	100%
Gwastraff a leihawyd, a ailddedfyddiwyd neu a ailgylchwyd	000 o dunelli	406	600	68%	0	100	0%

Dangosydd	Uned fesur	Diwedd y rhaglen			Hyd at 31 Rhagfyr 2013		
		Rhagolwg (Rh1)	Targed (T)	% (Rh1 / T)	Cyflawnwyd (C)	Rhagolwg (Rh2)	% (C) / h2)
Cystadleurwydd							
Mentrau a gynorthwywyd	Nifer	4,416	1,750	252%	2,037	2,123	96%
Ymchwil a Datblygu ar y cyd	Nifer	44	10	440%	9	15	60%
Nifer y swyddi gros a grëwyd	Nifer CALI	10,175	5,340	191%	6,638	6,464	103%
Budd o elw	£ miliynau	9	30	29%	4	4	105%
Cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau a gofrestrwyd	Nifer	208	80	260%	123	119	103%
Prosiectau, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd	Nifer	286	400	72%	135	150	90%
Buddsoddiad a ysgogwyd	£ miliynau	88	115	76%	42	38	111%
Mentrau a grëwyd	Nifer	3,142	510	616%	2,603	2,530	103%

Ffynhonnell: Cronfa ddata rhaglenni a phrosiectau WEFO (PPIMS)

Atodiad 4

Data dangosyddion lefel rhaglen ar gyfer rhaglenni'r ESF

Dangosydd	Uned fesur	Diwedd y rhaglen			Hyd at 31 Rhagfyr 2013		
		Rhagolwg (Rh1)	Targed (T)	% (Rh1 / T)	Cyflawnwyd (C)	Rhagolwg (Rh2)	% (C) / h2)
Cydggyfeirio							
Cyfanswm y cyfranogwyr	Nifer	536,256	267,500	200%	423,430	443,028	96%
Cyfranogwyr benywaidd	Nifer	258,000	146,150	177%	0	n/a	n/a
Cyfranogwyr economaidd anweithgar	Nifer	161,000	63,750	253%	108,225	n/a	n/a
Cyfranogwyr di-waith	Nifer	93,000	55,000	169%	104,995	n/a	n/a
Cyfranogwyr cyflogedig	Nifer	168,000	122,500	137%	113,122	n/a	n/a
Cyflogwyr a gafodd gymorth neu gefnogaeth ariannol	Nifer	22,043	20,060	110%	11,678	12,615	93%
Cytundebau cydweithredol rhwng cyrff y sector cyhoeddus	Nifer	115	20	575%	24	38	63%
Cyfranogwyr sy'n dechrau gweithio	Nifer	72,333	27,500	263%	46,012	55,321	83%
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau	Nifer	203,655	79,530	256%	139,993	143,153	98%
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster sgiliau sylfaenol	Nifer	83,700	43,900	191%	53,201	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 2	Nifer	75,400	23,000	328%	63,120	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 3	Nifer	28,400	8,900	319%	17,532	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 4 ac uwch	Nifer	16,200	3,800	426%	6,140	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach	Nifer	61,321	57,700	106%	36,128	45,422	80%

Dangosydd	Uned fesur	Diwedd y rhaglen			Hyd at 31 Rhagfyr 2013		
		Rhagolwg (Rh1)	Targed (T)	% (Rh1 / T)	Cyflawnwyd (C)	Rhagolwg (Rh2)	% (C) / h2)
Cystadleurwydd							
Cyfanswm y cyfranogwyr	Nifer	92,971	26,600	350%	64,112	76,247	84%
Cyfranogwyr benywaidd	Nifer	41,000	15,190	270%	27,264	n/a	n/a
Cyfranogwyr economaidd anweithgar	Nifer	35,500	11,900	298%	21,969	n/a	n/a
Cyfranogwyr di-waith	Nifer	15,100	2,100	719%	14,105	n/a	n/a
Cyfranogwyr cyflogedig	Nifer	42,500	12,600	337%	28,010	n/a	n/a
Cyflogwyr sy'n cael cymorth	Nifer	7,062	2,800	252%	3,381	4,284	79%
Cyfranogwyr sy'n dechrau gweithio	Nifer	16,021	3,500	458%	7,769	12,020	65%
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau	Nifer	31,741	9,650	329%	20,854	22,719	92%
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster sgiliau sylfaenol	Nifer	14,900	5,740	260%	4,870	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 2	Nifer	11,300	2,570	440%	9,957	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 3	Nifer	4,200	800	525%	4,674	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster Lefel 4 ac uwch	Nifer	1,300	540	241%	1,353	n/a	n/a
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach	Nifer	5,757	4,620	125%	1,324	3,821	35%

Ffynhonnell: Cronfa ddata rhaglenni a phrosiectau WEFO (PPIMS)

Atodiad 5

Gwybodaeth sydd ei hangen gan noddwyr prosiectau mewn cynlluniau busnes

Mae noddwyr yn cyflwyno cynlluniau busnes gan gynnwys gwybodaeth o dan y penawdau canlynol:

- 1 Disgrifiad o'r prosiect
Nodau, amcanion, cyfraniad i bolisi'r Llywodraeth, gweithgareddau, buddiolwyr, lleoliad
- 2 Rheoli'r prosiect a'i roi ar waith
Cofnodi'r gwaith o reoli'r prosiect, trefnu'r prosiect, yr adnoddau sydd ar gael, caffael
- 3 Yr angen a'r galw am y prosiect
Gwaith ymchwil sy'n nodi angen ac yn meintoli'r galw, astudiaethau dichonoldeb, manylion a chyfiawnhad dros unrhyw achos o ddyblygu neu ddadleoli gweithgareddau sy'n bodoli eisoes
- 4 Opsiynau gweithredu
Dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r prosiect, gan gynnwys yr opsiwn 'gwneud dim'
- 5 Allbynnau a chanlyniadau
- 6 Proffil ariannol
Dadansoddiad manwl am gostau a llifau arian parod gydag unrhyw ragdybiaethau a ddefnyddiwyd
- 7 Pecyn ariannol
Esboniad o'r ffynonellau arian cyfatebol a chyfiawnhad dros lefel y cymorth y gwneir cais amdano
- 8 Gwerth am arian
Tystiolaeth i ategu'r achos o ran darbodusrwydd (cost mewnbynnau), effeithlonrwydd (y gydberthynas rhwng costau ac allbynnau), effeithiolrwydd (sut y bydd yr allbynnau a'r canlyniadau yn creu'r effeithiau gofynnol)
- 9 Gwerth ychwanegol
Sut y bydd y prosiect yn creu buddiannau newydd ac yn ategu gweithgareddau na fyddent fel arall yn cael eu cynnal neu a fyddai'n cael eu lleihau/gohirio
- 10 Monitro a gwerthuso
Detholiad o ddangosyddion, sut y caiff data eu casglu, ansawdd data, amserlen a dulliau gwerthuso
- 11 Strategaeth ôl ariannu/parhad
Strategaeth ymadael ac etifeddiaeth y prosiect
- 12 Rheoli risg
Dull gweithredu o ran rheoli risgiau allweddol
- 13 Cyhoeddusrwydd
Cydnabyddiaeth gyhoeddus i arian yr UE, gweithgareddau cyhoeddusrwydd, lledaenu arfer da

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Senior Staff Pay

Universities in Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Senior Staff Pay – Universities in Wales

About HEFCW

1. HEFCW is responsible for funding higher education (HE) in Wales. We distribute funds for education, research and related activities at higher education institutions, including the teaching activities of the Open University in Wales. We also fund higher education courses at further education colleges. As a Welsh Government Sponsored Body, we receive our funds from, and are accountable to, the Welsh Government.

Purpose

2. This submission provides a response to the request for HEFCW to provide evidence to inform the Committee's inquiry into senior management pay across the Welsh public sectors. We have not had the opportunity to seek approval of HEFCW's Council for this submission which must therefore be regarded as a submission from HEFCW executive only.

Responsibility for senior staff pay

3. Universities are not public sector organisations. They are autonomous bodies established by either Royal Charter or as Higher Education Corporations under the terms of the 1992 Further and Higher Education Act (the '1992 Act'). HEFCW has no powers under the terms of the 1992 Act to influence University employment terms and conditions, including the levels of senior staff salaries.
